Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Yr iaith Gymraeg a Mudiad Ysgolion Meithrin

Gareth, Elen Loyd

Award date:
2003

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

Link to publication

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 30. Apr. 2024

YR IAITH GYMRAEG A MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

ELEN LLOYD GARETH

I'W DDEFNYDDIO YN Y LLYFRGELL YN UNIG

Yr Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru Bangor

TO BE CONSULTED IN THE LIBRARY ONLY

Hydref 2003

U.W.B LIBRARY
P.C.B. LLYFRGELL

Cyflwynir y traethawd hir hwn i gyflawni gofynion gradd PhD Prifysgol Cymru

CYDNABYDDIAETH

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'm goruchwylwyr ymchwil sef Yr Athro Colin Baker a Dr Gwyn Lewis. Hoffwn ddiolch i'r Athro Baker am ei gyfarwyddyd a'i arweiniad wrth wneud yr ymchwil hwn ac i Dr Lewis am ddarllen y gwaith ac am ei awgrymiadau defnyddiol. Hoffwn ddiolch i'r ddau ohonynt am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd yn ystod cyfnod yr ymchwil.

Mae gennyf ddyled fawr i Hywel Jones, Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin a gweddill staff y mudiad. Heb eu cymorth hwy ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni'r ymchwil hwn.

Hoffwn ddiolch i'r grŵp ymgynghorol sef Meirion Prys Jones, Hywel Jones, Elen Ogwen, Alwena Lewis, Ceinwen Davies a Rhianwen Huws Roberts am rannu eu profiad ym maes addysg cyfrwng Cymraeg. Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r arbenigwyr yn y maes Yr Athro Marilyn Viham, Dr Tina Hickey, Dr Margaret Deuchar, Dr Susan Gathercole am eu cyngor ynglŷn â'r Ffurflen Datblygiad Iaith.

Hoffwn gydnabod cefnogaeth ariannol gan Brifysgol Cymru Bangor a'm galluogodd i ymgymryd â'r ymchwil.

Diolch yn fawr iawn i'm teulu, yn arbennig i'm rhieni, am eu cefnogaeth a'u diddordeb yn fy ngwaith. Hoffwn ddiolch yn bennaf i Emyr am ei amynedd, ei gymorth a'i gefnogaeth cyson.

CRYNODEB

DATBLYGIAD IAITH YNG NGHYLCHOEDD MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Bwriad y traethawd hir hwn yw i ymchwilio i ddatblygiad iaith plant oedran cyn-ysgol sy'n mynychu cylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'r ymchwil yn edrych ar y datblygiad ieithyddol dros gyfnod o flwyddyn ysgol gan ddadansoddi'r datblygiadau Cymraeg mewn tri maes, gwrando a deall, siarad a chyfathrebu a sgiliau llythrennedd cynnar. Mae'r ymchwil yn ceisio dadansoddi i ba raddau y mae rhyw, oedran, cyfnod yn y cylch, nifer y sesiynau a fynychir ac iaith y teulu yn effeithio ar eu datblygiad ieithyddol. Edrychir ar ddatblygiad iaith plant o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg. Datblygwyd Ffurflen Datblygiad Iaith i gasglu'r data ar gyfer yr ymchwil.

Mae'r ymchwil hefyd yn rhoi darlun o ba mor rhugl yw'r arweinyddion a'r cynorthwywyr sy'n gweithio yng nghylchoedd meithrin dwyrain Cymru. Edrychir ar eu defnydd o'r iaith yn y cylch a'u hanghenion ieithyddol.

Mae Penodau 1 a 2 yn rhoi darlun o hanes yr iaith Gymraeg o'r dechreuadau cynnar hyd ar y presennol Edrychir ar statws yr iaith a'i defnydd ac ar y newidiadau a fu yn y ganran sy'n ei siarad.

Mae Penodau 3 a 4 yn rhoi cyd-destun i'r ymchwil o safbwynt datblygiad addysg Gymraeg. Mae Pennod 3 yn edrych ar hanes a datblygiad addysg ddwyieithog yng Nghymru ers dechrau'r ugeinfed ganrif. Mae Pennod 4 yn edrych ar sefydlu a thwf Mudiad Ysgolion Meithrin, sef y mudiad sy'n gyfrifol am addysg cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol yng Nghymru, gan roi cyd-destun i'r maes ymchwil.

Cyflwynir methodoleg a chanlyniadau'r pedwar ymchwiliad ym Mhenodau 5, 6, 7 ac 8. Trafodir llunio'r Ffurflen Datblygiad Iaith a'r Holiadur i Arweinyddion. Gwnaed y darn cyntaf o ymchwil yng nghylchoedd meithrin gogledd-orllewin Cymru. Yn yr ail a'r trydydd ymchwiliad monitrwyd datblygiad iaith sampl cenedlaethol o blant dros gyfnod o flwyddyn ysgol. Yn y pedwerydd ymchwiliad edrychir ar anghenion ieithyddol arweinyddion cylchoedd meithrin dwyrain Cymru.

Dangosodd canlyniadau ymchwiliad dau a thri bod sgiliau ieithyddol plant cyn-oedran ysgol yn datblygu wrth fynychu cylch meithrin. Awgrymodd dadansoddiadau ystadegol bod nifer o ffactorau yn effeithio ar eu datblygiad ieithyddol. Y pwysicaf o'r rhain oedd iaith y teulu. Roedd y nifer o sesiynau a fynychai'r plant a'u rhyw hefyd ymysg y newidynnau pwysicaf oedd yn effeithio ar ddatblygiad iaith y plant. Dangosodd canlyniadau'r pedwerydd ymchwiliad bod anghenion ieithyddol staff y cylchoedd meithrin yn amrywio fesul ardal. Gwelwyd bod y galw mwyaf o safbwynt anghenion iaith am gymorth Swyddogion Iaith, cyrsiau iaith byr neu drwy ohebiaeth.

Mae Pennod 9 yn integreiddio canlyniadau'r ymchwil a'r penodau cefndirol gan ganolbwyntio ar gynllunio ieithyddol a chaffael iaith. Yn y bennod hon rhoddir tros olwg o'r traethawd hir, adolygir bwriadau'r ymchwil a trafodir prif ganfyddiadau'r ymchwil. Trafodir hefyd gyfyngiadau'r ymchwil a goblygiadau'r ymchwil o safbwynt addysg drochi cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol yng Nghymru. Yn olaf, cynigir awgrymiadau ar gyfer ymchwil pellach yn y maes.

CYNNWYS

Datganiadau a Gosodiadau ii

Cydnabyddiaeth iii

Crynodeb iv

Cynnwys v

Rhestr Tablau xvi

Rhestr Ffigyrau xxv

Cyflwyniad 1

PENNOD 1 – HANES YR IAITH GYMRAEG HYD AT DDIWEDD Y BEDWAREDD GANRIF AR BYMTHEG 5

1.1 Cyflwyniad 5
1.2 Tarddiad yr Iaith 5
1.3 Cymraeg yn yr Oesoedd Canol - Iaith Dysg a Llên 7
1.4 Deddfau Uno 1536 - 1542 9
1.5 Y Bonedd 11
1.6 Y Dyneiddwyr 13
1.7 Beibl 1588 15
1.8 Ehangu llythrennedd 18
1.9 Newidiadau Economaidd a Phoblogaeth 20
1.10 Ymfudo 22
1.11 Twf y Wasg Gymreig 24
1.12 Yr Eisteddfod 25

1.13 'Brad y Llyfrau Gleision' 1847 26
1.14 Agwedd Tuag at y Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg 28
1.15 Addysg ar Ddiwedd y Ganrif Ddiwethaf 29
1.16 Casgliad 32

PENNOD 2 – HANES YR IAITH GYMRAEG ERS DECHRAU'R UGEINFED GANRIF 33

2.1 Cyflwyniad 33
2.2 Tueddiadau Cyfrifiadau 1891, 1901, 1911 33
2.3 Adroddiad 1927 37
2.4 Statws Gyfreithiol y Gymraeg 38
2.5 Tynged yr Iaith a Sefydlu Cymdeithas yr Iaith 40
2.6 Mudiadau 42
2.7 Deddf Iaith 1993 a Sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg 45
2.8 Y Cyfryngau a'r Wasg 47
2.8.1 Cyfryngau 47
2.8.2 Y Wasg 51
2.9 Cymraeg Byw 53
2.10 Mentrau Iaith 54
2.11 Cynllun Twf 56
2.12 Ystadegau'r Ugeinfed Ganrif 56
2.13 Statws yr Iaith 61
2.14 Cymuned 62
2.15 Arolwg o'r Iaith Gymraeg 64
2.16 Cyfrifiad Cyntaf yr Unfed Ganrif ar Hugain 69
2.17 Casgliad 77

PENNOD 3 – ADDYSG DDWYIEITHOG YNG NGHYMRU 79

3.1 Cyflwyniad 79
3.2 Cefndir 80

3.3 Adroddiad Y Gymraeg Mewn Bywyd ac Addysg, 1927 83
3.4 Sefydlu Ysgolion Cyfrwng Cymraeg 85
3.4.1 Ysgolion Cynradd 85
3.4.2 Ysgolion Uwchradd 92
3.5 Adroddiad Gittins 94
3.6 Mudiadau Gwirfoddol 96
3.7 Polisïau Awdurdodau Addysg 98
3.8 Mewnlifiad 103
3.8.1 Athrawon Bro 104
3.8.2 Canolfannau Iaith 105
3.9 Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg 106
3.10 Y Cwricwlwm Cenedlaethol / Deddf Addysg 1988 107
3.11 Addysg Uwch / Bellach 108
3.12 Dysgu'r Gymraeg fel Ail Iaith yn yr Ysgolion 111
3.13 Cymraeg i Oedolion 112
3.14 Sefyllfa Bresennol 114
3.15 Cyfrifiad 2001 121
3.16 Addysg Ddwyieithog = Cymru Ddwyieithog? 121
3.17 Casgliad 126

PENNOD 4 – MUDIAD YSGOLION MEITHRIN 127

4.1 Cyflwyniad 127
4.2 Hanes Cynnar 127
4.3 Datblygiad Mudiad Ysgolion Meithrin 131
4.4 Ti a Fi 136
4.5 Cyrsiau 140
4.6 Cefnogaeth ariannol 142
4.7 Cyhoeddiadau 146
4.8 Addysg Feithrin mewn Gwledydd Eraill 147
4.8.1 Yr Alban 148
4.8.2 Iwerddon 149
4.8.3 Llydaw 151

4.8.4 Seland Newydd 152
4.9 Talebau Meithrin 155
4.10 Cynllun Van Leer 159
4.11 Cynnydd Staff 160
4.12 Strwythur y mudiad 162
4.13 Rhan y mudiad yn yr ymdrech i adfer yr iaith 165
4.14 Casgliad 172

PENNOD 5 - METHODOLEG DATBLYGU GRADDFA IAITH 173

5.1 Cyflwyniad 173
5.2 Bwriad yr ymchwil 173
5.3 Cyd-destun yr ymchwil 174
5.4 Llunio'r Ffurflen Datblygiad Iaith 176
5.5 Peilot 179
5.6 Gweithredu'r Ffurflen 180
5.6.1 Ymchwiliad 1 180
5.6.2 Y Sampl Ymchwil 181
5.6.3 Nodweddion y Sampl 182
5.6.4 Methodoleg Ymchwiliad 2 183
5.6.5 Ymchwiliad 3 187
5.6.6 Sampl yr Ymchwil 188
5.6.7 Nodweddion y Sampl 190
5.7 Offerynnau Ymchwil 191
5.7.1 Holiadur 191
5.7.2 Cynnwys y Ffurflen Datblygiad Iaith 192
5.7.2.1 Rhan Ddechreuol 192
5.7.2.2 Rhan A - Gwrando a Deall 192
5.7.2.3 Rhan B - Siarad a Chyfathrebu 193
5.7.2.4 Rhan C - Sgiliau Llythrennedd Cynnar 193
5.7.3 Iaith a Chyfieithu 193
5.8 SPSS 194
5.9 Cyfyngiadau'r Ymchwil 194

5.10 Casgliad 197

PENNOD 6 - CANLYNIADAU YMCHWILIAD 1 AC YMCHWILIAD 2 . 198

6.1 Bwriad y Bennod 198
6.2 Cyflwyniad 198
6.3 Dilysrwydd 199
6.4 Ymchwiliad 1 – Gorffennaf 2000 202
6.4.1 Cyflwyniad i Ymchwiliad 1 202
6.4.2 Amleddau 203
6.4.2.1 Adran Gwrando a Deall 203
6.4.2.2 Adran Siarad a Chyfathrebu 205
6.4.2.3 Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 207
6.4.2.4 Adran Wybodaeth Bersonol 213
6.4.2.4.1 Rhyw'r Plant 213
6.4.2.4.2 Dyddiad Geni 213
6.4.2.4.3 Dyddiad Dechrau 214
6.4.2.4.4 Nifer o Sesiynau yr Wythnos 215
6.4.2.4.5 Iaith y Teulu 217
6.4.2.4.6 Cylch 220
6.4.2.5 Casgliadau yn Ymwneud ag Amleddau 220
6.4.3 Cymariaethau 221
6.4.3.1 Prawf T-test 222
6.4.3.1.1 Rhyw'r Plant 222
6.4.3.2 Cydberthyniad 229
6.4.3.2.1 Dyddiad Geni 230
6.4.3.2.2 Dyddiad Dechrau 232
6.4.3.2.3 Nifer Sesiynau 235
6.4.3.2.4 Iaith y Teulu 238
6.4.3.3 Dimensiynau 241
6.4.3.3.1 Defnydd o Dadansoddiad Newidynnau Cudd yn yr ymchwil 242
6.4.3.3.2 Newidynnau sy'n Dylanwadu ar y Ffactorau 244
6.4.4 Casgliad Ymchwiliad 1 246

6.5 Ymchwiliad 2 – Hydref 2000 250
6.5.1 Cyflwyniad i Ymchwiliad 2 250
6.5.2 Amleddau 251
6.5.2.1 Adran Gwrando a Deall 251
6.5.2.2 Adran Siarad a Chyfathrebu 252
6.5.2.3 Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 254
6.5.2.4 Adran Wybodaeth Bersonol 260
6.5.2.4.1 Rhyw'r Plant 260
6.5.2.4.2 Dyddiad Geni 260
6.5.2.4.3 Dyddiad Dechrau 261
6.5.2.4.4 Sesiynau yr Wythnos 262
6.5.2.4.5 Iaith y Teulu 264
6.5.2.4.6 Ardaloedd 267
6.5.2.5 Casgliadau yn Ymwneud ag Amleddau 268
6.5.3 Cydberthyniadau 269
6.5.3.1 Prawf T-test 269
6.5.3.1.1 Bachgen / Merch 269
6.5.3.1.2 Dyddiad Geni 277
6.5.3.1.3 Dyddiad Dechrau 279
6.5.3.1.4 Nifer Sesiynau 282
6.5.3.1.5 Teulu 284
6.5.3.2 Dadansoddiad Ffactoraidd 287
6.5.3.2.1 Newidynnau sy'n Dylanwadu ar y Ffactorau 290
6.5.4 Casgliadau Ymchwiliad 2 292
6.6 Casgliadau Pennod 6 296

PENNOD 7 – CANLYNIADAU YMCHWILIAD 3 A CHYMHARU CANLYNIADAU YMCHWILIADAU 2 A 3 298

7.1 Bwriadau 298
7.2 Cyflwyniad 298
7.3 Dilysrwydd 299
7.4 Ymchwiliad 3 – Gorffennaf 2001 303

7.4.1 Cyflwyniad i Ymchwiliad 3 303
7.4.2 Amleddau 304
7.4.2.1 Adran Gwrando a Deall 304
7.4.2.2 Adran Siarad a Chyfathrebu 306
7.4.2.3 Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 307
7.4.2.4 Adran Wybodaeth Bersonol 313
7.4.2.4.1 Rhyw'r plant 313
7.4.2.4.2 Iaith y Teulu 314
7.4.2.4.3 Nifer Sesiynau 316
7.4.2.4.4 Cylch 318
7.4.2.4.5 Siroedd 318
7.4.2.4.6 Ardaloedd 319
7.4.2.4.7 Dyddiad Geni 320
7.4.2.4.8 Dyddiad Dechrau 321
7.4.2.5 Casgliadau yn Ymwneud ag Amleddau 322
7.4.3 Cymariaethau 323
7.4.3.1 Prawf T-test 324
7.4.3.1.1 Rhyw'r Plant 324
7.4.3.2 Cydberthyniadau 332
7.4.3.2.1 Dyddiad Geni 332
7.4.3.2.2 Dyddiad Dechrau 335
7.4.3.2.3 Nifer Sesiynau 338
7.4.3.2.4 Iaith y Teulu 340
7.4.3.3 Dimensiynau 343
7.4.3.3.1 Defnydd o Ddadansoddiad Newidynnau Cudd yn yr Ymchwil 343
7.4.3.3.2 Newidynnau sy'n dylanwadu ar y ffactorau 347
7.4.3.4 Casgliadau Cymariaethau Ymchwiliad 3 349
7.5 Cymharu Canlyniadau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 351
7.5.1 Cyflwyniad i Gymharu Canlyniadau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 351
7.5.2 Amleddau 351
7.5.3 Cymariaethau 355
7.5.3.1 Newid Sgoriau Rhwng Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 355
7.5.3.2 Cymharu Cymedr Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 356

7.5.3.3 Cydberthyniadau 364
7.5.3.3.1 Rhyw'r Plant a Datblygiad Ieithyddol 364
7.5.3.3.2 Dyddiad Geni a Datblygiad Ieithyddol 369
7.5.3.3.3 Nifer Sesiynau a Datblygiad Ieithyddol 372
7.5.3.3.3.1 Nifer Sesiynau a Datblygiad Ieithyddol yn ôl Iaith y Teulu 374
7.5.3.3.3.1.1 Plant o Deuluoedd Saesneg eu Hiaith 374
7.5.3.3.3.1.2 Plant o Deuluoedd Cymraeg eu Hiaith 377
7.5.3.4 Dadansoddiadau ANOVA 379
7.5.3.4.1 ANOVA Ardal a Datblygiad Ieithyddol 379
7.5.3.4.2 ANOVA Iaith y Teulu a Datblygiad Iaith 389
7.5.3.4.3 Newid Cymedr Plant a Oedd yn Newydd i'r Cylch ar Ddechrau'r Ymchwil – Teuluoedd Saesneg eu Hiaith 397
7.5.3.4.4 Datblygiad Ieithyddol Plant a oedd yn Newydd i'r Cylch ar Ddechrau'r Ymchwil 401
7.5.3.4.5 Effaith Iaith y Teulu ar Ddatblygiad Iaith ar Ddechrau Cyfnod Mewn Cylch 408
7.5.4 Casgliadau Cymharu Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 418
7.6 Casgliad Pennod 7 422

PENNOD 8 - YMCHWIL ARWEINYDDION CYLCHOEDD SIROEDD DWYREINIOL CYMRU 423

8.1 Bwriad y bennod 423
8.2 Methodoleg 423
8.2.1 Cyflwyniad 423
8.2.2 Bwriad yr ymchwil 424
8.2.3 Cyd-destun yr ymchwil 424
8.2.4 Y Sampl Ymchwil 427
8.2.4.1 Disgrifiad o'r sefydliadau a ddefnyddiwyd 431
8.2.4.2 Nodweddion y sampl 431
8.2.5 Offerynnau Ymchwil - Holiadur ac ymweliadau 432
8.2.5.1 Holiadur 432
8.2.5.1.1 Iaith a Chyfieithu 434

8.2.5.2 Ymweliadau / Arsylwadau Anghyfrannol 435
8.2.5.2.1 Casgliadau'r Ymweliadau 437
8.2.6 Peilot 439
8.2.7 Trefn Gweithredu 439
8.2.8 Cyfyngiadau 440
8.2.9 SPSS 441
8.2.10 Casgliad 441
8.3 Canlyniadau 441
8.3.1 Cyflwyniad i'r Canlyniadau 441
8.3.2 Cwestiwn ymchwil 1 – Beth yw cefndir ieithyddol y staff? 442
8.3.2.1 Cyflwyno'r pwnc 442
8.3.2.2 Tystiolaeth 442
8.3.2.3 Canlyniadau 443
8.3.2.4 Casgliad 448
8.3.3 Cwestiwn ymchwil 2 – Beth yw'r defnydd presennol o'r Gymraeg yn y cylch? 448
8.3.3.1 Cyflwyno'r pwnc 448
8.3.3.2 Tystiolaeth 449
8.3.3.3 Canlyniadau 450
8.3.3.4 Casgliad 455
8.3.4 Cwestiwn ymchwil 3 – A yw'r arweinyddiaeth yn cael effaith ar le'r Gymraeg yn y cylch? 455
8.3.4.1 Cyflwyno'r pwnc 455
8.3.4.2 Tystiolaeth 456
8.3.4.3 Canlyniadau 457
8.3.4.4 Casgliad 466
8.3.5 Cwestiwn ymchwil 4 – A oes amrywiaeth rhanbarthol o ran y galw a'r angen am hyfforddiant ieithyddol i staff? 467
8.3.5.1 Cyflwyno'r pwnc 467
8.3.5.2 Tystiolaeth 467
8.3.5.3 Canlyniadau 467
8.3.5.3.1 Cymariaethau Croesdabliad 473
8.3.5.3.2 Ardal 476
8.3.5.3.3 Prawf Kruskal-Wallis 478

8.3.5.3.4 Rhengoedd iaith rhwng staff 478
8.3.5.3.5 Casgliad y dadansoddiad Kruskal-Wallis 482
8.3.5.4 Casgliad 486
8.3.6 Cwestiwn ymchwil 5 - Beth hoffai'r arweinyddion ei weld o ran datblygiad hyfforddiant staff? 487
8.3.6.1 Cyflwyno'r pwnc 487
8.3.6.2 Tystiolaeth 487
8.3.6.3 Canlyniadau 488
8.3.6.4 Casgliad 491
8.3.7 Casgliadau'r ymchwil 492
8.3.7.1 Amleddau 492
8.3.7.2 Cydberthyniadau 493
8.4 Casgliad 494

PENNOD 9 – CASGLIADAU, ARGYMHELLION A GOBLYGIADAU ... 496

9.1 Cyflwyniad 496
9.2 Bwriad yr Ymchwil 496
9.3 Integreiddio y Penodau Cefndirol a'r Ymchwil 499
9.3.1 Cynllunio Ieithyddol 499
9.3.2 Caffael Iaith Cyn Ysgol 502
9.3.3 Addysg Cyn-ysgol yng Nghymru 505
9.4 Canfyddiadau'r Ymchwil 509
9.4.1 Datblygiad Iaith Mewn Cylchoedd Meithrin 509
9.4.1.1 Cyffredinol 509
9.4.1.2 Rhyw'r Plant 510
9.4.1.3 Dyddiad Geni 511
9.4.1.4 Dyddiad dechrau 512
9.4.1.5 Nifer Sesiynau 513
9.4.1.6 Iaith y teulu 514
9.4.1.7 Ardaloedd 515
9.4.1.8 Trefn pwysigrwydd yr amrywiadau 515
9.4.1.9 Dilysrwydd y Ffurflen Datblygiad Iaith 516

9.4.2 Arweinyddion Cylchoedd Dwyrain Cymru 517
9.4.2.1 Sampl 518
9.5 Canfyddiadau Cyffredinol 518
9.6 Cyfyngiadau'r ymchwil 522
9.6.1 Datblygiad Iaith mewn Cylchoedd Meithrin 522
9.6.1.1 Sampl 522
9.6.1.2 Y Raddfa Datblygiad Iaith 523
9.6.1.3 Sut gwyddom mai Dylanwad y Cylch sy'n Cael ei Fesur yma? 526
9.6.1.4 Problemau ymarferol 527
9.6.2 Ymchwil i Iaith Arweinyddion Cylchoedd y Dwyrain 528
9.6.2.1 Sampl 528
9.6.2.2 Holiadur 529
9.6.2.2.1 Cyfieithu 532
9.6.2.2.2 Problemau wrth ddadansoddi'r data 532
9.7 Oblygiadau'r Canlyniadau 532
9.8 Beth sy'n wreiddiol am yr ymchwil? 533
9.9 Yr Angen am fwy o Ymchwil 536
9.10 Gair i Gloi 537

Llyfryddiaeth 613

RHESTR TABLAU

Tabl 2.1 Canrannau Cychwynnol Cyfrifiad 2001 70

Tabl 2.2 Canrannau o Siaradwyr Cymraeg, yn ôl Ardal Awdurdod Lleol, Tair Oed a Throsodd 76

Tabl 3.1 Diffiniadau Awdurdodau Addysg Lleol 116

Tabl 3.2 Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog Fesul Sir 117

Tabl 4.1 Twf Cynnar Mudiad Ysgolion Meithrin 131

Tabl 4.2 Niferoedd Cylchoedd Meithrin a Cylchoedd Ti a Fi Ffigyrau 136

Tabl 4.3 Grantiau Y Swyddfa Gymreig i Fudiad Ysgolion Meithrin 143

Tabl 4.4 Canran o Gymry Cymraeg 3 - 4 oed oedd yn siarad Cymraeg yn ôl y Cyfrifiadau 165

Tabl 5.1 Grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Fudiad Ysgolion Meithrin 175

Tabl 5.2 Tabl i Nodi Cefndir Ieithyddol y Plant Ymchwiliad 1 179

Tabl 5.3 Amleddau Rhyw'r Plant 183

Tabl 5.4 Tabl i Nodi Cefndir Ieithyddol y Plant Ymchwiliad 2 184

Tabl 5.5 Dosbarthiad y cylchoedd yn yr ymchwil o ran Siroedd Mudiad Ysgolion Meithrin 189

Tabl 6.1 Dadansoddiad Ffactoraidd y Raddfa Gyfan – Ffactor 1 200

Tabl 6.2 Dadansoddiad Ffactoraidd y Raddfa Gyfan – Ffactor 2 201

Tabl 6.3 Dadansoddiad Ffactoraidd y Raddfa Gyfan – Ffactor 3 201

Tabl 6.4 Dibynadwyedd Alpha – Ymchwiliad 1 202

Tabl 6.5 Amleddau Adran Gwrando a Deall 204

Tabl 6.6 Amleddau Adran Siarad a Chyfathrebu 205

Tabl 6.7 Amleddau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 208

Tabl 6.8 Amleddau Rhyw'r Plant 213

Tabl 6.9 Amleddau Dyddiad Geni 214

Tabl 6.10 Amleddau Dyddiad Dechrau 215

Tabl 6.11 Amleddau Nifer Sesiynau 216

Tabl 6.12 Amleddau Iaith y Teulu 217

Tabl 6.13 Amleddau Categorïau Iaith y Teulu 219

Tabl 6.14 Amleddau Fesul Cylch 220

Tabl 6.15 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Gwrando a Deall . 223

Tabl 6.16 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Siarad a Chyfathrebu 224
Tabl 6.17 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 225
Tabl 6.18 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Gwrando a Deall 230
Tabl 6.19 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Siarad a Chyfathrebu 231
Tabl 6.20 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 231
Tabl 6.21 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Gwrando a Deall 233
Tabl 6.22 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Siarad a Chyfathrebu 233
Tabl 6.23 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 234
Tabl 6.24 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Gwrando a Deall 236
Tabl 6.25 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Siarad a Chyfathrebu 236
Tabl 6.26 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 237
Tabl 6.27 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Gwrando a Deall 239
Tabl 6.28 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Siarad a Chyfathrebu 240
Tabl 6.29 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 240
Tabl 6.30 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Gwrando a Deall 243
Tabl 6.31 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Siarad a Chyfathrebu 243
Tabl 6.32 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 1 244
Tabl 6.33 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 2 244
Tabl 6.34 Newidynnau Pwysicaf – Adran Gwrando a Deall 245
Tabl 6.35 Newidynnau Pwysicaf – Adran Siarad a Chyfathrebu 245
Tabl 6.36 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 1 245
Tabl 6.37 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 2 246
Tabl 6.38 Amleddau Adran Gwrando a Deall 251
Tabl 6.39 Amleddau Adran Siarad a Chyfathrebu 253
Tabl 6.40 Amleddau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 255

Tabl 6.41 Amleddau Rhyw'r Plant 260
Tabl 6.42 Amleddau Dyddiad Geni 261
Tabl 6.43 Amleddau Dyddiad Dechrau 262
Tabl 6.44 Amleddau Nifer Sesiynau 263
Tabl 6.45 Amleddau Iaith y Teulu 264
Tabl 6.46 Amleddau Categorïau Iaith y Teulu 266
Tabl 6.47 Dosraniad y Sampl 267
Tabl 6.48 Dosraniad y Sampl yn ôl Siroedd 268
Tabl 6.49 Cymharu Cymedr ar Sail Rhyw'r Plant – Adran Gwrando a Deall . 270
Tabl 6.50 Cymharu Cymedr ar Sail Rhyw'r Plant –
Adran Siarad a Chyfathrebu 271
Tabl 6.51 Cymharu Cymedr ar Sail Rhyw'r Plant –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 272
Tabl 6.52 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Gwrando a Deall 277
Tabl 6.53 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Siarad a Chyfathrebu 278
Tabl 6.54 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 278
Tabl 6.55 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Gwrando a Deall 280
Tabl 6.56 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Siarad a Chyfathrebu 280
Tabl 6.57 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 281
Tabl 6.58 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Gwrando a Deall 282
Tabl 6.59 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Siarad a Chyfathrebu 283
Tabl 6.60 Cydberthyniad Nifer Sesiynau –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 283
Tabl 6.61 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Gwrando a Deall 285
Tabl 6.62 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Siarad a Chyfathrebu 285
Tabl 6.63 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 286
Tabl 6.64 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Gwrando a Deall 288
Tabl 6.65 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Siarad a Chyfathrebu 289
Tabl 6.66 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar –
Ffactor 1 289
Tabl 6.67 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar –
Ffactor 2 290
Tabl 6.68 Newidynnau Pwysicaf – Adran Gwrando a Deall 290

Tabl 6.69 Newidynnau Pwysicaf – Adran Siarad a Chyfathrebu 291
Tabl 6.70 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 1 291
Tabl 6.71 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 2 291
Tabl 6.72 Enwau'r Dimensiynau 292
Tabl 7.1 Sgoriau Alpha Ymchwiliadau 1, 2 a 3 300
Tabl 7.2 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Gwrando a Deall 301
Tabl 7.3 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Siarad a Chyfathrebu 302
Tabl 7.4 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 302
Tabl 7.5 Enwau'r Dimensiynau 303
Tabl 7.6 Amleddau Adran Gwrando a Deall 305
Tabl 7.7 Amleddau Adran Siarad a Chyfathrebu 306
Tabl 7.8 Amleddau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 307
Tabl 7.9 Amleddau Rhyw'r Plant 313
Tabl 7.10 Amleddau Iaith y Teulu 314
Tabl 7.11 Amleddau Categorïau Iaith y Teulu 316
Tabl 7.12 Amleddau Nifer Sesiynau 317
Tabl 7.13 Amleddau Fesul Sir 319
Tabl 7.14 Amleddau Fesul Ardal 320
Tabl 7.15 Amleddau Dyddiad Geni 321
Tabl 7.16 Amleddau Dyddiad Dechrau 322
Tabl 7.17 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Gwrando a Deall 325
Tabl 7.18 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Siarad a Chyfathrebu 326
Tabl 7.19 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 327
Tabl 7.20 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Gwrando a Deall 332
Tabl 7.21 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Siarad a Chyfathrebu 333
Tabl 7.22 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 333
Tabl 7.23 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Gwrando a Deall 335
Tabl 7.24 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Siarad a Chyfathrebu 336

Tabl 7.25 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 336
Tabl 7.26 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Gwrando a Deall 338
Tabl 7.27 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Siarad a Chyfathrebu 339
Tabl 7.28 Cydberthyniad Nifer Sesiynau –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 339
Tabl 7.29 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Gwrando a Deall 341
Tabl 7.30 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Siarad a Chyfathrebu 342
Tabl 7.31 Cydberthyniad Iaith y Teulu –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 342
Tabl 7.32 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Gwrando a Deall 345
Tabl 7.33 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Siarad a Chyfathrebu 346
Tabl 7.34 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar –
Ffactor 1 346
Tabl 7.35 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar –
Ffactor 2 347
Tabl 7.36 Newidynnau Pwysicaf – Adran Gwrando a Deall 347
Tabl 7.37 Newidynnau Pwysicaf – Adran Siarad a Chyfathrebu 348
Tabl 7.38 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar –
Ffactor 1 348
Tabl 7.39 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar –
Ffactor 2 348
Tabl 7.40 Amleddau Adran Gwrando a Deall 352
Tabl 7.41 Amleddau Adran Siarad a Chyfathrebu 353
Tabl 7.42 Amleddau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 354
Tabl 7.43 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 –
Adran Gwrando a Deall 357
Tabl 7.44 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 –
Adran Siarad a Chyfathrebu 358
Tabl 7.45 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 359
Tabl 7.46 Cydberthyniad Rhyw'r Plant – Adran Gwrando a Deall 365
Tabl 7.47 Cydberthyniad Rhyw'r Plant – Adran Siarad a Chyfathrebu 366
Tabl 7.48 Cydberthyniad Rhyw'r Plant –

Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 367
Tabl 7.49 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Gwrando a Deall.....370
Tabl 7.50 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Siarad a Chyfathrebu 370
Tabl 7.51 Cydberthyniad Dyddiad Geni –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 371
Tabl 7.52 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Gwrando a Deall 372
Tabl 7.53 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Siarad a Chyfathrebu.....373
Tabl 7.54 Cydberthyniad Nifer Sesiynau –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 373
Tabl 7.55 Cydberthyniad Nifer Sesiynau Teuluoedd Saesneg eu Hiaith –
Adran Gwrando a Deall.....375
Tabl 7.56 Cydberthyniad Nifer Sesiynau Teuluoedd Saesneg eu Hiaith –
Adran Siarad a Chyfathrebu 375
Tabl 7.57 Cydberthyniad Nifer Sesiynau Teuluoedd Saesneg eu Hiaith –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 376
Tabl 7.58 Cydberthyniad Nifer Sesiynau Teuluoedd Cymraeg eu Hiaith –
Adran Gwrando a Deall.....377
Tabl 7.59 Cydberthyniad Nifer Sesiynau Teuluoedd Cymraeg eu Hiaith –
Adran Siarad a Chyfathrebu 378
Tabl 7.60 Cydberthyniad Nifer Sesiynau Teuluoedd Cymraeg eu Hiaith –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 378
Tabl 7.61 ANOVA Ardal – Adran Gwrando a Deall 380
Tabl 7.62 ANOVA Ardal – Adran Siarad a Chyfathrebu 383
Tabl 7.63 ANOVA Ardal – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar.....386
Tabl 7.64 ANOVA Iaith y Teulu – Adran Gwrando a Deall 390
Tabl 7.65 ANOVA Iaith y Teulu – Adran Siarad a Chyfathrebu.....393
Tabl 7.66 ANOVA Iaith y Teulu – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar.....395
Tabl 7.67 Newid Cymedr Plant o Deuluoedd Saesneg eu Hiaith a Oedd yn
Newydd i'r Cylch – Adran Gwrando a Deall 398
Tabl 7.68 Newid Cymedr Plant o Deuluoedd Saesneg eu Hiaith a Oedd yn
Newydd i'r Cylch – Adran Siarad a Chyfathrebu.....399
Tabl 7.69 Newid Cymedr Plant o Deuluoedd Saesneg eu Hiaith a Oedd yn
Newydd i'r Cylch – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar.....400
Tabl 7.70 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Cymraeg eu Hiaith

a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Gwrando a Deall 402
Tabl 7.71 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Cymraeg eu Hiaith
a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Siarad a Chyfathrebu.....403
Tabl 7.72 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Cymraeg eu Hiaith
a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar403
Tabl 7.73 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Dwyieithog
a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Gwrando a Deall 404
Tabl 7.74 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Dwyieithog
a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Siarad a Chyfathrebu.....404
Tabl 7.75 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Dwyieithog
a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar405
Tabl 7.76 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Saesneg eu Hiaith
a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Gwrando a Deall 405
Tabl 7.77 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Saesneg eu Hiaith
a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Siarad a Chyfathrebu.....406
Tabl 7.78 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Saesneg eu Hiaith
a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar406
Tabl 7.79 Effaith Iaith y Teulu ar Ddatblygiad Iaith ar Ddechrau Cyfnod
Mewn Cylch – Adran Gwrando a Deall.....409
Tabl 7.80 Effaith Iaith y Teulu ar Ddatblygiad Iaith ar Ddechrau Cyfnod
Mewn Cylch – Adran Siarad a Chyfathrebu.....412
Tabl 7.81 Effaith Iaith y Teulu ar Ddatblygiad Iaith ar Ddechrau Cyfnod
Mewn Cylch – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 415
Tabl 8.1 Ystadegau Iaith – Sir (1991).....427
Tabl 8.2 Ystadegau Iaith – Dosbarth (1991) 429
Tabl 8.3 Nodweddion y Sampl – Rhanbarthau Mudiad Ysgolion Meithrin ..432
Tabl 8.4 Pa mor Rhugl yw'r Staff yn y Gymraeg.....444
Tabl 8.5 Nifer ym mhob Categori Cefndir Ieithyddol 447
Tabl 8.6 Iaith / Ieithoedd a Ddefnyddir Rhwng Staff y Cylchoedd.....450
Tabl 8.7 Defnydd y Staff o'r Gymraeg yn y Cylch - Canrannau.....451
Tabl 8.8 Defnydd y Staff o'r Gymraeg yn y Cylch – Cymedrau 452
Tabl 8.9 Cydberthyniad Rhuglder y Staff a Rhuglder Arweinydd 1 457
Tabl 8.10 Croesdabliad Rhuglder Arweinyddion 1
a Rhuglder Arweinyddion 2.....458

Tabl 8.11 Amleddau Hyder Arweinyddion Wrth Wneud Gweithgareddau yn Gymraeg 459
Tabl 8.12 Cydberthyniad Rhuglder Aelodau'r Staff a'r Iaith Rhwng Staff 462
Tabl 8.13 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Arweinydd 1 o'r Gymraeg 463
Tabl 8.14 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Arweinydd 2 o'r Gymraeg 463
Tabl 8.15 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Cynorthwyydd 1 o'r Gymraeg 463
Tabl 8.16 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Cynorthwyydd 2 o'r Gymraeg 464
Tabl 8.17 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Cynorthwyydd 3 o'r Gymraeg 464
Tabl 8.18 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a'u Hyder 465
Tabl 8.19 Rhuglder Arweinydd 1 Fesul Rhanbarth 468
Tabl 8.20 Rhuglder Arweinydd 2 Fesul Rhanbarth 469
Tabl 8.21 Rhuglder Cynorthwy-ydd 1 Fesul Rhanbarth 470
Tabl 8.22 Rhuglder Staff y Cylchoedd Fesul Rhanbarth 471
Tabl 8.23 Cysylltiad Rhwng Rhuglder Staff a Rhanbarth 474
Tabl 8.24 Cysylltiad Rhwng Cefndir Ieithyddol Arweinydd a Rhanbarth 475
Tabl 8.25 Cysylltiad Rhwng Rhuglder Arweinyddion a'u Cefndir Ieithyddol 476
Tabl 8.26 Cydberthyniad Ardal a pha mor Hyderus yw'r Arweinyddion 477
Tabl 8.27 Rhengoedd Kurskal-Wallis Iaith Rhwng Staff yn ôl Ardal 479
Tabl 8.28 Rhengoedd Kurskal-Wallis Croesawu yn ôl Ardal 480
Tabl 8.29 Nifer Arweinyddion 1 a Ddangosodd Ddiddordeb Mewn Hyfforddiant, Fesul Ranbarth 483
Tabl 8.30 Nifer Arweinyddion 2 a Ddangosodd Ddiddordeb Mewn Hyfforddiant, Fesul Ranbarth 484
Tabl 8.31 Amleddau Arweinyddion Nododd eu Hanghenion Ieithyddol 488
Tabl 8.32 Amser Delfrydol yn y Dydd i Dderbyn Hyfforddiant 490
Tabl 8.33 Amser Delfrydol yn yr Wythnos i Dderbyn Hyfforddiant 491
Tabl 8.34 Lleoliad Delfrydol i Dderbyn Hyfforddiant 491
Tabl 9.1 Mathau o Addysg Dwyieithog 504

Tabl 9.2 Dilysrwydd Alpha 517

RHESTR FFIGYRAU

Ffigwr 2.1 Canrannau Siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiadau 1901 – 2001.....71

Ffigwr 2.2 Map o Ganrannau 2001 74

Ffigwr 2.3 Map o Newid 1991-2001 75

Ffigwr 4.1 Nifer Cylchoedd Meithrin yn ôl Sir 134

Ffigwr 4.2 Nifer Cylchoedd Ti a Fi yn ôl Sir.....134

Ffigwr 4.3 Map o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi
Mudiad Ysgolion Meithrin 135

Ffigwr 4.4 Strwythur Staffio Mudiad Ysgolion Meithrin: 161

Ffigwr 4.5 Strwythur pwyllgorau'r mudiad.....164

Ffigwr 6.1 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Adran Gwrando a Deall 210

Ffigwr 6.2 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Adran Siarad a Chyfathrebu.....211

Ffigwr 6.3 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar....212

Ffigwr 6.4 Ymchwiliad 1 - Nifer o Sesiynau yr Wythnos yn ôl Canran.....216

Ffigwr 6.5 Ymchwiliad 1 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Mamau 218

Ffigwr 6.6 Ymchwiliad 1 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Tadau 218

Ffigwr 6.7 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Bechgyn a Merched
Adran Gwrando a Deall.....226

Ffigwr 6.8 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Bechgyn a Merched
Adran Siarad a Chyfathrebu 227

Ffigwr 6.9 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Bechgyn a Merched
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 228

Ffigwr 6.10 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Adran Gwrando a Deall 257

Ffigwr 6.11 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Adran Siarad a Chyfathrebu.....258

Ffigwr 6.12 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar....259

Ffigwr 6.13 Ymchwiliad 2 – Nifer o Sesiynau yr Wythnos 264

Ffigwr 6.14 Ymchwiliad 2 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Mamau 265

Ffigwr 6.15 Ymchwiliad 2 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Tadau 265

Ffigwr 6.16 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Bechgyn a Merched
Adran Gwrando a Deall.....274

Ffigwr 6.17 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Bechgyn a Merched

Adran Siarad a Chyfathrebu 275
Ffigwr 6.18 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Bechgyn a Merched
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 276
Ffigwr 7.1 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Adran Gwrando a Deall 310
Ffigwr 7.2 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Adran Siarad a Chyfathrebu.....311
Ffigwr 7.3 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar....312
Ffigwr 7.4 Ymchwiliad 3 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Mamau 315
Ffigwr 7.5 Ymchwiliad 3 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Tadau 315
Ffigwr 7.6 Ymchwiliad 3 – Nifer o Sesiynau yr Wythnos 318
Ffigwr 7.7 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Bechgyn a Merched
Adran Gwrando a Deall 329
Ffigwr 7.8 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Bechgyn a Merched
Adran Siarad a Chyfathrebu 330
Ffigwr 7.9 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Bechgyn a Merched
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 331
Ffigwr 7.10 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 –
Adran Gwrando a Deall 361
Ffigwr 7.11 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 –
Adran Siarad a Chyfathrebu 362
Ffigwr 7.12 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 –
Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar 363
Ffigwr 8.1 Canran Siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 1991 430
Ffigwr 8.2 Rhuglder Staff Cylchoedd Meithrin Dwyrain Cymru.....445
Ffigwr 8.3 Canrannau o Arweinyddion a Ddangosodd Ddiddordeb
Mewn Hyfforddiant Ieithyddol 489

CYFLWYNIAD

Mae caffael iaith yn broses naturiol iawn i blant oedran cyn ysgol. Derbynnir yn gyffredinol bod trochi plant mewn iaith newydd cyn iddynt fod yn bump oed yn ffordd effeithiol iawn o gaffael iaith. Amcan Mudiad Ysgolion Meithrin yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant o dan bump oed trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi. Anelir at gyfoethogi ac ymestyn Cymraeg plant sydd o gartrefi Cymraeg, ac at hybu dwyieithrwydd cynnar mewn plant o gartrefi di-Gymraeg.

Bwriad cyntaf y traethawd hwn yw edrych ar waith Mudiad Ysgolion Meithrin mewn cyd-destun ehangach. Rhoddir arolwg o hanes yr iaith Gymraeg er mwyn gweld paham y bu'n angenrheidiol i sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin. Edrychir hefyd ar ddatblygiad addysg Gymraeg a dwyieithog yng Nghymru gan roi cyd-destun i'r ymchwil o safbwynt datblygiad addysg Gymraeg. Trafodir cefndir sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin a thwf y mudiad dros y tri degawd diwethaf gan edrych hefyd ar effaith gwaith y mudiad ar dwf addysg Gymraeg.

Prif fwriad y traethawd hir hwn yw ymchwilio i ddatblygiad iaith plant sy'n mynychu cylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'r ymchwil yn edrych ar ddatblygiad y plant dros gyfnod o flwyddyn ysgol sef o Hydref 2000 i Orffennaf 2001. Ceir yn y traethawd hwn fethodoleg a chanlyniadau pedwar ymchwiliad. Roedd yr ymchwiliad cyntaf yn edrych ar sgiliau ieithyddol plant mewn cylchoedd meithrin yng ngogledd orllewin Cymru. Defnyddiwyd sampl cenedlaethol yn yr ail a'r trydydd ymchwiliad. Monitrwyd datblygiad ieithyddol yr un plant ddwywaith er mwyn edrych ar eu cyfradd datblygiad a dadansoddi pa ffactorau sy'n effeithio ar eu datblygiad. Roedd y pedwerydd ymchwiliad yn edrych ar agwedd arall ar iaith o fewn Mudiad Ysgolion Meithrin sef ymchwilio i'r gefnogaeth ieithyddol y mae staff y mudiad ei angen er mwyn cyflawni eu gwaith.

Mae'r traethawd hir hwn yn cynnwys naw pennod. Mae'r bedair pennod gyntaf yn darparu gwybodaeth gefndirol i'r ymchwil. Mae Pennod 1 yn edrych ar

hanes yr iaith Gymraeg o'i dechreuadau cynnar hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trafodir hanes cymdeithasol a swyddogol yr iaith o'i dechreuadau Celtaidd hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhoddir sylw i darddiad yr iaith, llenyddiaeth arwyddocaol yn y Gymraeg ac i ddigwyddiadau a thueddiadau a effeithiodd ar ddatblygiad cymdeithasol yr iaith. Edrychir ar y newidiadau a fu yn agwedd y Cymry tuag at yr iaith Gymraeg dros y blynyddoedd ac ar gyhoeddiadau pwysig a effeithiodd ar fywyd yr iaith. Yn y bennod hon trafodir dechreuadau addysg Gymraeg gydag ysgolion Griffith Jones Llanddowror a'r Ysgolion Sul.

Mae Pennod 2 yn rhoi arolwg o'r iaith Gymraeg o ddechrau'r ugeinfed ganrif hyd y presennol. Rhoddir braslun o hanes yr iaith Gymraeg er y cyfrifiad cyntaf i gyfrifo'r Cymry Cymraeg yn 1981 hyd at y cyfrifiad cyntaf i ddangos cynnydd yn y nifer a'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn 2001. Yn y bennod hon trafodir cyflwr y Gymraeg o safbwynt nifer y siaradwyr a statws yr iaith. Ymdrinnir â'r ymdrechion, cyfansoddiadol ac anghyfansoddiadol, a wnaed i adfer a hybu'r iaith Gymraeg. Cloir y bennod hon drwy drafod cyhoeddiadau diweddar ynglŷn â'r iaith Gymraeg a'i dyfodol.

Ym Mhennod 3 edrychir ar ddatblygiad addysg Gymraeg a dwyieithog er dechrau'r ugeinfed ganrif. Trafodir y datblygiad rhyfeddol o ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a'r cynnydd a fu yn y ganran sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith. Trafodir cyhoeddiadau allweddol ar addysg megis 'Adroddiad y Gymraeg mewn Bywyd ac Addysg' ac 'Adroddiad Gittins'. Rhoddir sylw i sefydlu ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a lle mudiadau gwirfoddol megis Rhag, UCAC, Mudiad Ysgolion Meithrin a Chymdeithas yr Iaith yn y broses o gynyddu lle'r Gymraeg mewn addysg. Trafodir effaith deddfau addysg megis Deddf 1988 ar y Gymraeg mewn addysg. Sonnir am y diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch ac addysg bellach a'r llwyddiant a fu ym maes dysgu Cymraeg i Oedolion. Cloir y bennod hon drwy gyflwyno'r sefyllfa bresennol gan ddefnyddio ystadegau diweddaraf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Pennod 4 yn rhoi cyd-destun mwy penodol i'r ymchwil drwy drafod sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin fel ymateb i'r dirywiad a fu yn y nifer o siaradwyr Cymraeg ac yn bennaf y lleihad a fu yn y nifer o bobl oedd yn dewis trosglwyddo'r

Gymraeg i'w plant. Edrychir ar y syniadau a oedd y tu ôl i'r dull trochi a fabwysiadwyd gan Mudiad Ysgolion Meithrin. Trafodir twf a datblygiad y mudiad pwysig hwn dros y tri degawd diwethaf. Rhoddir gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin mewn cyd-destun rhyngwladol drwy drafod mudiadau tebyg sy'n darparu addysg feithrin mewn ieithoedd lleiafrifol eraill. I gloi'r bennod hon trafodir lle allweddol y mudiad yn y broses o gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac yn y broses o adfer yr iaith Gymraeg.

Ym Mhennod 5 cyflwynir methodoleg y tri ymchwiliad cyntaf sy'n ymwneud â datblygiad iaith mewn cylchoedd meithrin. Trafodir bwriad a chyd-destun yr ymchwil, y samplau ymchwil, yr offerynnau ymchwil a chyfyngiadau'r ymchwil. Trafodir methodoleg llunio a gweithredu'r Ffurflen Datblygiad Iaith er mwyn casglu'r data ynglŷn â'r plant, eu sgiliau gwrando a deall, siarad a chyfathrebu a'u sgiliau llythrennedd cynnar.

Cyflwynir canlyniadau'r ddau ymchwiliad cyntaf ym Mhennod 6, sef yr ymchwil a wnaed ar ddatblygiad iaith plant mewn cylchoedd meithrin yng ngogledd orllewin Cymru a'r ymchwiliad cenedlaethol cyntaf a wnaed i ddilyn datblygiad sampl o blant dros gyfnod o naw mis. Cyflwynir y canlyniadau ar ffurf amleddau a chymedrau ac yna dadansoddir y canlyniadau ar sail rhyw, oedran, dyddiad dechrau yn y cylch, nifer y sesiynau yr wythnos y maent yn eu fynychu a beth yw iaith y teulu. Defnyddir dadansoddiad ffactoraidd er mwyn gweld pa rhai o'r newidynnau hyn yw'r rhai pwysicaf o safbwynt datblygiad iaith y plant. Gwnaed y dadansoddiadau ystadegol drwy ddefnyddio'r rhaglen SPSS (The Statistical Package for the Social Sciences). Yn rhan gyntaf Pennod 7 cyflwynir canlyniadau'r trydydd ymchwiliad, sef yr ail ymchwiliad cenedlaethol. Defnyddiwyd yr un sampl ar gyfer ymchwiliadau dau a thri. Yn ail ran Pennod 7 dadansoddir y newidiadau a fu yng nghanlyniadau'r plant dros naw mis a thrwy hynny gellir gweld faint o ddatblygiad a fu yn eu sgiliau iaith dros gyfnod o flwyddyn ysgol tra'n mynychu cylch meithrin o dan ofal Mudiad Ysgolion Meithrin. Gwneir dadansoddiadau ystadegol i weld pa ffactorau a effeithiodd ar eu datblygiad iaith.

Ym Mhennod 8 cyflwynir methodoleg a chanlyniadau'r pedwerydd ymchwiliad sef yr ymchwil a edrychodd ar anghenion ieithyddol arweinyddion

cylchoedd meithrin dwyrain Cymru. Trafodir methodoleg llunio'r Holiadur i Arweinyddion a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth ynglŷn â pha mor rhugl yw'r arweinyddion a'r cynorthwywyr sy'n gweithio yng nghylchoedd meithrin siroedd dwyreiniol Cymru. Casglwyd gwybodaeth hefyd ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg yn y cylchoedd ac am eu hanghenion ieithyddol. Bwriad yr ymchwil hwn oedd darparu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn galluogi i Mudiad Ysgolion Meithrin gynnig hyfforddiant addas i staff eu cylchoedd.

Mae Pennod 9 yn cyflwyno crynodeb o'r ymchwil ac yn integreiddio canlyniadau'r ymchwil a'r penodau cefndirol gan ganolbwyntio ar gynllunio ieithyddol a chaffael iaith. Yn y bennod hon adolygir bwriadau'r ymchwil a thrafodir prif ganfyddiadau'r ymchwil. Cyflwynir cyfyngiadau'r ymchwil a goblygiadau'r ymchwil o safbwynt addysg drochi cyn-ysgol yng Nghymru. Yn olaf cynigir awgrymiadau ar gyfer ymchwil pellach yn y maes.

PENNOD 1

HANES YR IAITH GYMRAEG

HYD AT DDIWEDD Y BEDWAREDD GANRIF AR BYMTHEG

1.1 Cyflwyniad

Yn y bennod gyntaf trafodir hanes yr iaith Gymraeg hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhoddir sylw i ddatblygiadau cynnar yr iaith, llenyddiaeth arwyddocaol yn y Gymraeg ac i ddigwyddiadau a thueddiadau a effeithiodd ar ddatblygiad cymdeithasol yr iaith. Rhoddir lle blaenllaw i agwedd y Cymry tuag at yr iaith. Ceir yma gefndir arwyddocaol er mwyn deall sefyllfa bresennol y Gymraeg yn lleol a chenedlaethol.

Trafodir yma ddechreuadau addysg Gymraeg yn ei chyd-destun hanesyddol gydag ysgolion Griffith Jones Llanddowror a'r Ysgolion Sul. Ond yn bennaf trafodir hanes cymdeithasol a swyddogol yr iaith Gymraeg o'i ddechreuadau Celtaidd cynnar hyd at y Cyfrifiad cyntaf i gyfrifo'r Cymry Cymraeg yn 1891.

1.2 Tarddiad yr Iaith

Fel canran uchel o ieithoedd Ewrop a nifer o ieithoedd Asia, gellir olrhain hanes yr iaith Gymraeg yn ôl i'r iaith Proto – Indo - Ewropeg, iaith y credir iddi gael ei siarad yn y cyfnod cyn 3000 CC yn Asia Leiaf o bosibl. Rhannodd Indo - Ewropeg yn naw cangen wrth i'w siaradwyr ledaenu ac ymfudo. Un o'r canghennau hyn oedd y gangen Geltaidd. Yn ôl David Crystal y Celtiaid oedd y llwyth Indo - Ewropeaidd cyntaf i wasgaru ar draws Ewrop (Crystal, 1987, 302). Awgryma Henry Lewis mai yn nyffryn uchaf afon Donaw (Danube) y siaradwyd y Gelteg gyntaf.

> *Eithr ymledodd ei llefarwyr hi o'r rhan honno o'r cyfandir bron i bob cyfeiriad, ac y mae'n bur sicr fod y symudiadau hynny wedi peri i'r iaith newid cryn dipyn.*
> (Lewis, 1931, 10)

Tua 400 CC cyrhaeddodd un llwyth Celtaidd, sef y Goedeliaid, Iwerddon a thua chanrif yn ddiweddarach y daeth llwyth Celtaidd arall sef y Brythoniaid i'r ynys hon. Bu ymgyrch y Brythoniaid i ymsefydlu yn un llwyddiannus iawn ac erbyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd yr ynys yn 43 OC, y Frythoneg oedd iaith trigolion yr ynys i gyd ag eithrio gogledd yr Alban lle trigai'r Pictiaid. Disgrifia ieithegwyr y ddwy ffurf wahanol o Gelteg, y Goedeleg a'r Frythoneg, fel Celteg - p a Chelteg - q. Gwnânt hyn oherwydd i'r Goedeleg gadw'r sain Indo - Ewropeg 'kw' a'i ysgrifennu fel 'q' a 'c' yn ddiweddarach, ond i'r sain newid i 'p' yn y Frythoneg. Datblygodd yr Wyddeleg o'r Goedeleg, a'r Gymraeg o'r Frythoneg a gellir gweld y gwahaniaeth ieithyddol hyd heddiw wrth gymharu'r ddwy iaith, er enghraifft Gwyddeleg - ceathair, Cymraeg – pedwar (Crystal, 1997, 304).

Daeth y Rhufeiniaid â'u hiaith eu hunain i'r ynys, a bu'n rhaid i'r Frythoneg a'r Lladin gydfodoli. Nid oes cytundeb llwyr ynglŷn â sefyllfa'r ddwy iaith yn y gymdeithas, ond gellir dweud mai Lladin oedd iaith cyfraith, gweinyddiaeth a'r eglwys Gristnogol. Brythoneg yn unig a siaradai trwch y boblogaeth. Ond roedd y canolfannau Rhufeinig yn ddwyieithog ac fe gafodd iaith y goresgynwyr ddylanwad ar y Frythoneg. Benthycwyd geiriau Lladin i'r Frythoneg, er enghraifft 'eglwys' o 'ecclesia', ac 'ystafell' o 'stabellum'. Er mai Lladin oedd yr iaith swyddogol, nid oedd y Frythoneg yn isel ei statws. Diwylliant llafar oedd un y Brythoniaid ac roedd y bardd a'r cyfarwydd yn bwysig yn y gymdeithas. Ni ellir dweud a fu hyn yn bwysig i sicrhau fod y Frythoneg yn iaith o bwys pan adawodd y Rhufeiniaid yn 410 OC. Fel y dywed Robert Owen Jones, roedd cyfnod y Rhufeiniaid ym Mhrydain yn gyfnod cyfnewidiol iawn o safbwynt gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a chrefyddol. Nid yw'n syndod fod y Frythoneg wedi newid yn ystod y cyfnod (Jones, 1997b, 84).

Cafodd y Brythoniaid eu herio gan y Gwyddelod a'r Anglo-Sacsoniaid ac achosodd hyn rwyg rhwng y Brythoniaid yn y gogledd, y gorllewin a'r de-orllewin. Oherwydd hyn datblygodd y Frythoneg yn dair tafodiaith wahanol sef Cwmberg yn ne'r Alban a Cymbria, Cymraeg yng Nghymru a Chernyweg yng Nghernyw. Mae ieithoedd yn datblygu'n barhaus ond weithiau ceir cyfnod o gyfnewid cynt ac mae'r iaith yn dangos arwyddion ei bod wedi newid yn ffisiognomig. Dyma ddywed Price (1984, 94) am y newid o'r Frythoneg i'r Gymraeg:

Such a stage seems to have been reached in the history of the Brittonic speech of Western Britain in the late sixth century, and so it is from that time onwards that the language can be considered to be specifically Welsh.
(Price, 1984, 94)

Ym marn John Davies (1992, 68) Brythoneg a siaradai trigolion Cymru yn 400; ond erbyn 700 siaradent Gymraeg.

Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael o Gymraeg Cynnar fel y gelwir yr iaith hyd tua 850: arysgrifau a nodiadau ymyl-ddalen yn unig. Nid oes llawer mwy o gyfnod Hen Gymraeg, tua 850- 1100, nodiadau ymyl-ddalen eto ac ychydig destunau a phenillion. Y darn llenyddol cynharaf i oroesi yn y Gymraeg, mae'n debyg, yw'r nodiadau ar ymyl-ddalen y llawysgrif Juvencus sy'n cynnwys dwy gyfres o benillion tair llinell a ysgrifennwyd tua 880. Ond nid gwaith llenyddol yn unig a oroesodd, cedwir darn o ryddiaith yn Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt gyda llawysgrif Juvencus, sef y ' Computus Fragment' a ysgrifennwyd tua 920, gwaith rhyddiaith yn trafod sut i gofnodi taith y lleuad drwy arwyddion y sodiac. Fel y dywed Janet Davies (1993, 13) dyma brawf fod y Gymraeg, mor gynnar â'r ddegfed ganrif, yn cael ei chyfrif yn ddigon celfydd i drafod pynciau cymhleth ac astrus.

1.3 Cymraeg yn yr Oesoedd Canol - Iaith Dysg a Llên

Disgrifiodd Thomas Parry yr Oesoedd Canol fel 'cyfnod gwych, os nad y gwychaf oll yn hanes llenyddiaeth Gymraeg' (Parry, 1945, 106). Dyma'r cyfnod cryfaf o ran barddoniaeth a rhyddiaith greadigol drwy gydol hanes yr iaith. Gellir olrhain y traddodiad llenyddol cryf a welwyd yn yr Oesoedd Canol yn ôl i'r chweched ganrif a chynt. Y corff o lenyddiaeth Gymraeg gynharaf sydd wedi goroesi yw barddoniaeth y Cynfeirdd. Er bod llawysgrifau Llyfr Aneirin a Llyfr Taliesin yn dyddio i'r blynyddoedd ar ôl 1100, sef cyfnod Cymraeg Canol, cytunir yn gyffredinol bod gwreiddiau gwaith Aneirin a Thaliesin yn dyddio yn ôl i'r chweched ganrif a'u bod yn rhan o gorff ehangach o lenyddiaeth a gyfansoddwyd mewn Cymraeg Cynnar neu Hen Gymraeg. Ond nid safon a swmp barddoniaeth olynwyr y Cynfeirdd, sef y Gogynfeirdd a Beirdd yr Uchelwyr, yn unig sy'n cyfiawnhau galw'r Oesoedd Canol yn gyfnod gwych. Cadwyd testunau cyfreithiol gwreiddiol o'r cyfnod, sef Cyfreithiau

Hywel Dda. Yn ogystal â bod yn dystiolaeth o eirfa gyfreithiol eang y Gymraeg yn y cyfnod maent hefyd yn ddarn gwerthfawr o lenyddiaeth. Ond yn bwysicach na hynny o ran hanes yr iaith, gwelwn fod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ddigon urddasol i drafod materion cyfreithiol (Jones, 1997b, 113-4).

Gwelir hefyd fod y Gymraeg yn ddigon urddasol ac ystwyth i drafod pynciau dysgedig megis daearyddiaeth, meddygaeth, seryddiaeth a hanes. Er mai Lladin oedd iaith Eglwys Rufain, wrth gwrs, gwelir fod llawysgrifau Cymraeg wedi goroesi o'r cyfnod, prawf arall fod y Gymraeg yn cael ei chyfrif yn iaith uchel ei statws, ac yn iaith addas ar gyfer crefydd.

O ran llenyddiaeth, cyfrwng llafar oedd y Gymraeg i ddechrau ac yna datblygodd yn gyfrwng ysgrifenedig. Dyma a awgryma'r cyfoeth o chwedlau a oroesodd o'r Oesoedd Canol. Rhai o'r chwedlau hyn yw Pedair Cainc y Mabinogi a'r Chwedlau Arthuraidd, chwedlau sydd ar eu pen eu hunain yn enghraifft o gyfoeth llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod. Fel y dywed Janet Davies (Davies, 1993, 16) erbyn diwedd yr unfed ganrif ar ddeg yr oedd y Gymraeg yn iaith gyfoethog, ystwyth ac amrywiol.

> *It had an oral literary tradition which was one of the longest in Europe. It had an enviable coherence, for the literary language was the same in all parts of Wales.*
> (Davies, 1993, 16)

Awgryma'r ffaith fod y traddodiad llenyddol Cymraeg mor gryf fod yr iaith yn gryf ac yn fwy na hynny fod ganddi statws uchel. Yn sicr nid traddodiad gwerinol oedd y traddodiad barddol, dosbarth uchaf y gymdeithas oedd yn noddi'r beirdd ac roedd statws y beirdd eu hunain yn uchel, hwy oedd ceidwaid yr iaith a cheidwaid ei phurdeb. Barn Robert Owen Jones (1997b, 102) yw mai dim ond iaith gyhyrog â pharch iddi a allai feithrin a datblygu llenyddiaeth mor wych â'r hyn a welwn o gyfnod Cymraeg Canol. Er hyn i gyd nid oedd sefyllfa ieithyddol Cymru yn un syml. Fel y noda Llinos Beverley Smith (Smith, 1997, 27) roedd Cymru'r Oesoedd Canol yn wlad lle defnyddid amryw o ieithoedd megis Saesneg, Ffrangeg, ac efallai Fflemineg. Ond roedd y defnydd o'r Gymraeg yn eang ac amrywiol. Er hynny erbyn yr Oesoedd Canol diweddar fe ddywed hefyd y daethpwyd i ddefnyddio'r Saesneg, yn hytrach

na'r Gymraeg, yn gyfochrog â'r Lladin mewn dogfennau swyddogol. Tystiolaeth o'r cam nesaf yn y broses hon yw fod rhai Cymry llythrennog yn ysgrifennu llythyrau personol at ei gilydd yn Saesneg. Roedd y defnydd o'r Saesneg yng Nghymru ar gynnydd cyn y Deddfau Uno, felly, a'r dosbarthiadau uwch eisoes yn troi at y Saesneg, ffaith y myn rhai ysgrifenwyr ar hanes yr iaith ei hanwybyddu gan feio y 'cymal iaith' y cyfeirir ato isod am ddiraddio'r Gymraeg. Ond nid oedd y Gymraeg yn colli ei thir fel iaith o statws. Dyma eiriau yr hanesydd Llinos Beverley Smith, (Smith, 1997, 44)

> *Os oedd y dylanwadau a dueddai i hybu defnyddio'r Saesneg yng Nghymru yn eu hamlygu eu hunain fwyfwy erbyn cyfnod yr Uno, daliai'r Gymraeg ei thir fel iaith rywiog y gellid ei harddel yn gyfrwng urddasol ar gyfer amryfal anghenion bywyd*
>
> (Smith, 1997, 44)

1.4 Deddfau Uno 1536 - 1542

> *Also be it enacted by the Authority aforesaid, That all Justices, Commissioners, Sheriffs, Coroners, Escheatars Stewards and their Lieutenants, and all other Officers and Ministers of the Law, shall proclaim and keep the Sessions Courts Hundreds Leets, Sheriffs Courts and all other courts in the English tongue... no Person or Personsthat use the Welsh speech or Language shall have or enjoy any Manner Office or Fees within the Realm of England, Wales, or other the King's Dominion upon Pain of forfeiting the same Offices or Fees, unless he or they use and exercise the English Speech or Language.*
>
> Rhan o Ddeddf Uno 1536 (Bowen, 1908, 87)

Rhan fechan o'r Ddeddf Uno yw'r rhan ynglŷn â'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Y rhan yma y daethpwyd i'w hadnabod fel y Cymal Iaith yw'r rhan sydd wedi denu y mwyaf o sylw dros y blynyddoedd. Mynnodd rhai fod Harri VIII drwy waith Thomas Cromwell wedi ceisio cael gwared o'r iaith Gymraeg, ond bellach ni chredir fod diddymu'r iaith Gymraeg yn fwriad gan Cromwell pan luniodd y Ddeddf Uno. Unffurfiaeth o fewn gweinyddiaeth yng Nghymru a Lloegr oedd bwriad Cromwell a chael y bonedd Cymreig fel asiantau i'r llywodraeth/ brenin. Dyma ddywed John Davies yn 'Hanes Cymru' (1992, 225),

Gweinyddiaeth unffurf oedd nod Cromwell, a rhwystr i hynny fyddai unrhyw gydnabyddiaeth swyddogol i'r Gymraeg.
(Davies, 1992, 225)

Yn ôl Janet Davies, (1993, 22) yn ymhlyg yn y ddeddf roedd cais i greu dosbarth gweinyddol Cymreig a oedd yn medru'r Saesneg. Wrth gwrs fe gyflymwyd datblygiad y dosbarth gweinyddol newydd hwn gan duedd y bonedd i anfon eu meibion i ysgolion gramadeg a phrifysgolion yn Lloegr. Saesneg bellach oedd iaith dod ymlaen yn y byd. Roedd hyn yn sicr o gael effaith ddinistriol ar y Gymraeg, cyfyngodd beuoedd yr iaith ac ar ei defnydd swyddogol. Gwelwyd fod y Cymry eisoes yn derbyn dogfennau swyddogol Saesneg ac yn troi'n ddwyieithog, a thrwy wneud hynny yn dibrisio eu mamiaith. Anogodd Deddf Uno 1536 hwy i wneud hynny a dysgu'r Saesneg er mwyn gwella eu safle cymdeithasol. Fel y dywed Prys Morgan a David Thomas yn 'Wales : The Shaping of a Nation' (1984, 46) achosodd hyn rwyg ieithyddol rhwng y dosbarthiadau cymdeithasol a daethpwyd i gysylltu'r Gymraeg â gweithgareddau'r dosbarth is a'r Saesneg â'r gyfraith, gwleidyddiaeth a masnach.

The upper classes, gentry and merchants adopted English more swiftly than others. There were very strong practical and economic motives for doing so. There thus emerged a fairly sharp distinction between this small anglicised group and the workers and peasants, who continued to speak their native tongue because they had no good reason to change.
(Morgan a Thomas, 1984, 46)

Felly ynddo'i hun nid oedd y Ddeddf Uno yn arwyddocaol, yn sicr nid enynnodd brotest ar y pryd, gan y beirdd na chan neb arall (Jones, 1994, 66). Ond trwy roi i'r Saesneg statws uchel mewn gweinyddiaeth a'r gyfraith a thrwy wahardd Cymry uniaith rhag dal swyddi o statws fe ddiraddiwyd statws y Gymraeg.

A further effect of the use of English in law and administration was to relegate Welsh to an inferior status, unworthy for official purposes in the eyes of the wealthier and better-educated classes. Thus began one of the root causes of the decline of the language up to the present time.
(Stephens, 1976, 153)

Ond a ellir beio llunwyr y Ddeddf am hyn, ynteu ai bai'r bonedd Cymreig ydoedd am neidio at abwyd y ddeddf a chefnu ar eu hiaith? Dyma a ddywed Geraint H. Jenkins (1983, 107):

...pa feiau bynnag a osodir wrth ddôr y Deddfau Uno, ni ellir priodoli'r mudo cyson i dde-ddwyrain Lloegr i unrhyw gymal ohonynt. Yr oedd y duedd i'w chanfod er yr Oesoedd Canol Diweddar, a diau y buasai'r gwŷr hyn wedi cefnu ar Gymru dlawd ac annatblygedig hyd yn oed petai'r Uno heb ddigwydd, gan gryfed oedd y dynfa economaidd o du Lloegr. Eto i gyd, anodd peidio â chredu bod yr Uno wedi prysuro'r mudo.
(Jenkins, 1983, 107)

1.5 Y Bonedd

Hyd at yr unfed ganrif ar bymtheg y bonedd oedd noddwyr y diwylliant Cymreig. Derbynient y beirdd i'w cartrefi ac roedd nifer o'r bonedd yn feirdd eu hunain, er enghraifft Dafydd ap Gwilym a Dafydd Nanmor yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ond wrth i'r bonedd droi tuag at Loegr -a Llundain yn arbennig- peidiodd y diwylliant Cymraeg â pherthyn i'r dosbarthiadau uwch. Wrth i'r bonedd beidio â siarad Cymraeg dadfeiliodd y system o noddi'r beirdd a oedd wedi bodoli ers canrifoedd. Y beirdd oedd ceidwaid yr iaith a'i phurdeb ac wrth i'r traddodiad barddol ddod i ben roedd perygl y gallai'r iaith ddadfeilio'n dafodieithoedd ar wahân (Davies, 1993, 23).

Cred yr hanesydd Glanmor Williams fod y Ddeddf wedi ei llunio'n bwrpasol er mwyn denu'r bonedd Cymreig gyda statws a phŵer yn gyfnewid am anghofio'u hiaith (Williams, 1987, vii).

Having eagerly swallowed the deadly bait they rapidly became anglicized in speech and cultural afflictions. They ceased to patronize bards and writers, and Welsh literature slithered into steep decline. The gentry became Wales's lost leaders, separated from the mass of the people by a yawning chasm of class, wealth, status, language, and culture.
(Williams, 1987, vii)

Ond, cyflymu tuedd a oedd eisoes ar gynnydd yn unig a wnaeth y Ddeddf Uno. Roedd nifer o'r bonedd eisoes yn dysgu Saesneg; dywed John Wynn o Wedir i'w hen daid fynychu ysgol yng Nghaernarfon tua 1470 er mwyn dysgu Saesneg (Davies, 1992, 225). Aeth nifer o fonedd y cyfnod ymhellach na dwyieithrwydd, er enghraifft anogodd William Wynn o'r Glyn, Meirionnydd, ei fab Cadwaladr a oedd yn fyfyriwr yn Rhydychen i droi at y Saesneg ar draul y Gymraeg:

Speak no Welsh to any that can speak English, no not to your bedfellows, and thereby you may freely speak English tongue perfectly. I had rather that you should keep company with studious, honest Englishmen than with many of your own countrymen who are more prone to be idle and riterous than the English.

(Dyfynnwyd yn Jones, 1997b, 140)

Gwelwn yma agwedd Cymro at ei wlad, ei iaith a'i gydwladwyr. Ar ôl cyfnod mewn sefydliad addysgol yn Lloegr byddai Saesneg nifer o feibion ieuanc y bonedd yn well na'u mamiaith (Jones, 1997b, 139). Yn 1571 sefydlwyd Coleg Sant Ioan yn Rhydychen, yn benodol fel Coleg Cymreig, symbol o'r holl dueddiad i'r Cymry ddod yn rhan o'r deyrnas newydd (Williams, 1985, 123).

Fe fu Seisnigeiddio'r bonedd yn broses raddol ond effeithiol a gafodd ddylanwad ar bob haen o gymdeithas (Jones, 1997b, 141). Teitl addas Gwynfor Evans ar ei drafodaeth ynglŷn â bonedd y cyfnod yn ei gyfrol 'Aros Mae' yw 'Brad yr Uchelwyr' (1971, 219).Ymysg y rhain, yn ei farn ef, y cafodd y polisi Tuduraidd ei lwyddiant mwyaf nodedig. Er mwyn cadw eu safle cymdeithasol roedd yn rhaid iddynt ddod yn ddwyieithog, nid peth drwg ynddo'i hun ond drwy beidio â defnyddio'r Gymraeg ym meysydd pwysig y gymdeithas gwnaethant i'r Gymraeg ymddangos yn iaith israddol ac annigonol (Jones, 1997b, 140).

Arwydd arall o'r Seisnigo a ddigwyddodd yn yr unfed ganrif ar bymtheg yw'r ffaith i'r Cymry fabwysiadu cyfenwau sefydlog gan ddilyn y patrwm Seisnig a rhoi'r gorau i'r dull patronymig Cymreig. Cyfeiria Janet Davies (1993, 23) at rai enghreifftiau megis Richard ap Meurig ap Llywelyn o Fodorgan ym Môn yn newid yn Richard Meyrick a John ap Rhys ap Gwilym o Frycheiniog yn John Price. Seiliwyd y cyfenwau newydd ar enwau bedydd y tad, swydd, enw cartref neu las enw. Gorffennwyd y newid ymysg y bonedd erbyn canol yr unfed ganrif ar bymtheg ac erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg roedd y broses bron â gorffen drwy'r dosbarthiadau.

1.6 Y Dyneiddwyr

Cafodd ysgolheigion y cyfnod eu siomi yn nhueddiadau'r uchelwyr a hwy yn unig a welodd y perygl a allai wynebu'r iaith Gymraeg wrth i'r boneddigion droi cefn arni a'i diwylliant. Nid oedd ceidwaid traddodiadol yr iaith, sef y beirdd, bellach mewn sefyllfa ddigon cryf i warchod yr iaith a gadawsant fwlch ar eu hôl. Ysgolheigion megis William Salesbury, Gruffydd Robert a Siôn Dafydd Rhys a oedd wedi cael addysg ym Mhrifysgol Rhydychen a ddaeth i gymryd eu lle fel ceidwaid newydd y Gymraeg. Ym mhrifysgolion Lloegr daeth nifer o'r ysgolheigion Cymraeg i gysylltiad â Dyneiddiaeth, mudiad a oedd ar led drwy Ewrop yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg. Credai'r Dyneiddwyr Cymreig y gallent briodoli tueddiadau'r Dadeni i'r iaith Gymraeg, credent y gellid dyrchafu'r iaith i fod yn gyfrwng i'r ddysgeidiaeth newydd (Jenkins, 1983, 107). Gwelwyd y duedd hon drwy Ewrop ac ysgolheigion dyneiddiol yn awyddus i'w hieithoedd ymdebygu i'r ieithoedd Clasurol. Yng Nghymru cynnyrch Geiriadurol, Gramadegol a Chrefyddol oedd y canlyniad amlycaf.

Beirniadodd nifer o ysgolheigion yr uchelwyr am eu hagwedd tuag at yr iaith. Yn rhagymadrodd 'Dosbarth Byrr Ar y Rhann Gyntaf i Ramadeg Cymraeg' Gruffydd Robert 1567 gwelwn yr iaith Gymraeg yn annerch ac yn beirniadu'r rhai sy'n anghofio'u mamiaith a throi at y Saesneg.

> *E fydd weithiau'n dostur fynghalon wrth weled llawer a anwyd ag a fagwyd im doedyd, yn ddiystr genthynt amdanaf, tan geissio ymwrthod a mi, ag ymgystlwng ag estroniaith cyn adnabod dim honi. Canys chwi a gewch rai yn gyttrym ag y gwelant afon Hafren, ne glochdai ymwithig, a chlowed sais yn doedyd good morow, a ddechreuant ollwng i cymraeg tros gof, ai doedyd yn fawr i llediaith: i cymraeg a fydd saesnigaidd, ai saesneg (duw a wyr) yn rhy gymreigaidd. A hyn sy'n dyfod naill ai o wir pholder, yntau o goeg falchder a gorwagrwydd.*
>
> (Hughes, 1976, 47)

Credai dyneiddiwr arall, Siôn Dafydd Rhys, a oedd wedi ei addysgu ym Mhrifysgol Rhydychen ac wedi treulio cyfnod ym Mhrifysgol Sienna, yr Eidal, fod iaith yn gyfystyr â chenedl (Jones, 1997b, 145). Felly wrth droi cefn ar eu hiaith roedd y Dyneiddwyr hefyd yn troi cefn ar eu cenedl. Ceisiodd y Pabydd Siôn Dafydd Rhys gyflwyno'r Gymraeg i'r byd mewn Gramadeg Lladin. Yn ei ragymadrodd beirniada'r Cymry am esgeuluso eu hiaith:

Eithr ninheu y Cymry (mal gweision gwychion) rhai o honon' ynn myned morr ddiflas, ac mor fursennaidd, ac (yn amgenâch nog vn bobl arall o'r byd) morr benhoeden; ac y daw brîth gywîlydd arnam gynnyg adrodd a dywêdud eyn hiaith eynhûnain,
(Hughes, 1976, 64)

Nid dyneiddiaeth yn unig a gafodd ddylanwad ar feddylfryd ysgolheigion yr unfed ganrif ar bymtheg; daeth nifer ohonynt hefyd o dan ddylanwad y Diwygiad Protestannaidd. Mae'n debyg bod mwy o bwysigrwydd fyth i'r Diwygiad Protestannaidd nag a oedd i Ddyneiddiaeth o safbwynt hanes y Gymraeg yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Credai'r Protestaniaid y dylai pob unigolyn ddeall yr ysgrythur drostynt eu hunain yn hytrach na derbyn dehongliad gwŷr eglwysig. Poenent yn fawr fod trwch poblogaeth Cymru yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i ddeall y Beibl a'r grefydd newydd drostynt eu hunain am nad oeddynt yn deall Saesneg (Davies, 1993, 24). Codwyd statws y Gymraeg gan y Protestaniaid wrth iddynt ei defnyddio i ledaenu Protestaniaeth a chrefydd. Felly ni wnaethant ddefnyddio'r Gymraeg er budd yr iaith ei hun ond yn hytrach ar gyfer achub eneidiau'r Cymry. Mynegir hyn yn rhagymadrodd Beibl 1588 gan y cyfieithydd William Morgan:

Canys erys crefydd heb ei gwybod, oni ddysgir hi yn yr iaith gyffredin
(Dyfynnir yn Roberts, 1988, 82)

Y gŵr amlycaf yn hanes yr iaith Gymraeg o ran Dyneiddiaeth a Phrotestaniaeth yw William Salesbury. Yn hytrach na dim ond beirniadu pobl am fod yn ddifater ynglŷn â'r Gymraeg fe aeth ati i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith dysg. Mor fuan â 1547 anogodd ei gyd-Gymry i fynnu'r ysgrythur a mynnu dysg yn y Gymraeg. Iddo ef fel Protestant yr un oedd dysg ac ysgrythur.

A ny vynwch vynet yn waeth nag aniveilieit (y rain ny anet y ddyall mal dyn) mynuch ddysc yn ych iaith …… mynwch yr yscrythur lan yn ych iaith
(Hughes, 1976, 11)

Salesbury ei hun oedd yr ysgolhaig amlycaf yn y gorchwyl o sicrhau cyfieithiad o'r Ysgrythurau i'r Gymraeg. Ef a arweiniodd yr ymgyrch i gael deddf drwy'r senedd a fyddai'n gorchymyn cyfieithu'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r Gymraeg. Ar 6 Ebrill 1567 pasiwyd y ddeddf arwyddocaol hon a oedd yn rhoi cyfreithlondeb i'r iaith ar ôl dros ddeng mlynedd ar hugain mewn safle israddol. Ni chafwyd Deddf arall o'r

fath hyd Deddf Hughes Parry yn 1967. Roedd Salesbury am weld Cymru ddwyieithog ond sylweddolai nad oedd digon o amser i ddysgu Saesneg i'r Cymry er mwyn eu troi at Brotestaniaeth. Felly fe aeth ati ynghyd â Phrotestaniaid eraill i berswadio'r llywodraeth fod yn rhaid cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg er mwyn achub eneidiau y Cymry. Rhesymau crefyddol yn hytrach nag ieithyddol felly oedd y tu cefn i un o ddigwyddiadau pwysicaf hanes yr iaith Gymraeg.

Llyfr crefyddol ei natur oedd y llyfr cyntaf a gyhoeddwyd yn y Gymraeg yn ôl pob tebyg sef 'Yn y lhyvyr hwnn' a gyhoeddwyd yn 1546. John Price, Aberhonddu oedd yr awdur ac roedd yn un o ddyneiddwyr cynharaf Cymru. Ei obaith oedd hyfforddi'r Cymry cyffredin ym mhrif egwyddorion y ffydd Gristnogol. Felly crefyddol oedd y pwyslais o ddechrau un cyhoeddi yn y Gymraeg (Stephens, 1986, 647-8).

Cyhoeddwyd Testament Newydd a Llyfr Gweddi Salesbury yn 1567, ac er na fu'r Testament newydd yn llwyddiant ysgubol roedd y gwaith o gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg wedi ei ddechrau. Gwnaed y Gymraeg yn iaith swyddogol unwaith eto. Ar ôl i'r bonedd droi cefn ar yr iaith ac ar ôl i'w gwarchodwyr traddodiadol sef y beirdd golli eu statws llanwyd y bwlch gan y dyneiddwyr a ddyrchafodd y Gymraeg drwy ei gwneud yn gyfrwng addoliad cyhoeddus.

> *The danger posed to the Welsh in the wake of the abandonment of the language by the upper classes was averted by the Protestant Reformation.*
> (Davies, 1993, 24)

1.7 Beibl 1588

Cyfeiriodd G. H. Jenkins at gyfieithu'r Beibl yn 1588 fel trobwynt pwysig yn hanes Cymru (Jenkins, 1983, 123). Er mwyn deall sut y cafodd cyfieithiad William Morgan gymaint o effaith ar hanes Cymru ac yn arbennig ar yr iaith Gymraeg rhaid edrych ar safon y gwaith ei hun. Defnyddiodd William Morgan ei wybodaeth drylwyr o ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythurau yr oedd wedi eu meistroli ym Mhrifysgol Caergrawnt, ynghyd â'i wybodaeth o iaith urddasol y beirdd, er mwyn creu fersiwn o'r Beibl a oedd yn gywir, dealladwy ac yn gosod safon ieithyddol ysgrifenedig i'r

Gymraeg ar gyfer y dyfodol (Jones, 1997b, 148). Crynhowyd arbenigedd gwaith Morgan gan Glanmor Williams,

> *Fel ysgolhaig yr oedd Morgan yn alluog dros ben, ac fel golygydd testun Cymraeg yr oedd yn ddigymar...yr oedd ei ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn dangos nid yn unig ddawn llenor godidog a ymatebai'n reddfol i athrylith ei iaith ef ei hun, ond hefyd drylwyredd ysgolhaig tra dysgedig.*
> (Williams, 1997b, 217)

Y Gymraeg oedd yr unig iaith ddi-wladwriaeth yn Ewrop i gael y Beibl wedi ei gyfieithu iddi yn ystod y ganrif ar ôl y Diwygiad Protestannaidd, ffactor sy'n egluro'r gwahaniaeth rhwng hanes diweddarach y Gymraeg mewn cymhariaeth â ieithoedd fel Gaeleg yr Alban a'r Wyddeleg (Davies, 1993, 26). Drwy gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg a gorchymyn fod y Gymraeg yn iaith addoli daeth y Gymraeg yn iaith gyhoeddus eto ac yn gyfrwng grym cymdeithasol, moesol a diwylliannol (Jones, 1997b, 148).

Ym Meibl William Morgan daeth dyheadau'r Protestaniaid a'r Dyneiddwyr ynghyd. Gallai'r Cymry bellach ddeall yr Ysgrythurau drostynt eu hunain ac roedd y Gymraeg bellach yn iaith dysg. Yn wir aeth R. Geraint Gruffydd mor bell â galw'r Beibl yn Goron dyneiddiaeth frodorol yng Nghymru (Gruffydd, 1989, 5). Dyma eiriau Thomas Parry (1945, 150) am y cysylltiad rhwng y ddau fudiad o ran arbenigedd y cyfieithiad a'r rhyddiaith grefyddol arall a gyhoeddwyd yn y cyfnod:

> *Y Diwygiad Protestannaidd a'r adwaith yn ei erbyn a ysgogodd llawer o'r rhyddiaith hon, ond mudiad arall, sef dyneiddiaeth, a benderfynodd ei hansawdd wych.*
> (Parry, 1945, 150)

Cafodd Beibl 1588 groeso brwd gan feirniaid y cyfnod, cafodd Morgan ei ganmol gan yr awdur rhyddiaith Huw Lewys am iddo *"....adferu eilwaith yw pharch ai braint, iaith gyforgolledic, ac agos wedi darfod am dani"* (Hughes, 1976, 100). Gwelodd y beirdd hefyd fawredd y cyfieithu a'r cyfraniad yr oedd Morgan wedi ei wneud i'r iaith Gymraeg:

'Cwrs dwyfol, c'weiriaist hefyd
Cymraeg iawn i'r Cymry i gyd.
Rhoist bob gair mewn cywair call
Rhodd Duw mor hawdd ei deall.'
Rhys Cain (Jones, 1997b, 152)

'goleuad, awdur glanwaith
Goleuaist, noddaist ein iaith,
O Roeg ag 'Ebriw hygwbl
A Lladin call, dawn y cwbl,
Troist y ddau Destament trostynt
Yn Gymraeg hoywdeg hynt.'
Siôn Mawddwy (Jones, 1997b, 152)

Cred nifer o ysgolheigion fod Beibl William Morgan wedi achub yr iaith Gymraeg rhag dadfeilio yn dafodieithoedd ar wahân a rhag diflannu'n gyfan gwbl. Dyma farn Thomas Parry (1945, 153).

> *Mewn gwlad nad oedd iddi brifysgol na dim sefydliad diwylliannol i ganoli ei bywiogrwydd llenyddol ac i feithrin y geidwadaeth oleuedig honno sy'n anhepgor i barhad traddodiad, buasai perygl i'r iaith ddirywio yn nifer o dafodieithoedd digyswllt fel y digwyddodd yn Llydaw.....*
> (Parry 1945, 153)

Crynhodd R. G. Gruffydd gyfraniad William Morgan i'r traddodiad rhyddiaith Gymraeg i dri phwynt: yn gyntaf, safoni iaith ac orgraff; yn ail, ehangu cwmpas y Gymraeg; ac yn drydydd dyrchafu statws yr iaith yng ngolwg y byd dysgedig (Bowen, 1970, 157). Gellir cymharu sefyllfa'r Gymraeg â sefyllfa'r Wyddeleg a'r Llydaweg: rhoddodd cyfieithiad 1588, yn ogystal â'r llyfrau eraill a gyhoeddwyd o 1547 ymlaen, safon gredadwy i ddefnydd yr iaith (Stephens, 1986, 289).

Cafodd Beibl Morgan ddylanwad anfesuradwy ar hanes yr iaith ac ar fywyd crefyddol y genedl. Datrysodd Beibl 1588 ddwy broblem, y broblem grefyddol a'r broblem ddiwylliannol (Gruffydd, 1989, 7) mewn cyfnod pan oedd arweinwyr y gymdeithas yn ymseisnigo a'r beirdd, ceidwaid traddodiadol yr iaith, yn colli eu statws.

1.8 Ehangu llythrennedd

Nid oedd y Gymraeg yn cael sylw yn ysgolion Cymru a oedd yn cynhyrchu'r dosbarthiadau llywodraethol, ond nid yw hyn yn syndod o ystyried geiriad y Ddeddf Uno (Williams, 1979, 93). Canran fechan iawn o'r boblogaeth a dderbyniai addysg yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg a'r rhan fwyaf o'r ail ganrif ar bymtheg, ac ychydig o addysg a dderbynient hwy beth bynnag (Jones, 1994, 134). Tair ffordd o dderbyn addysg oedd yn y cyfnod, roedd gan y rhai cyfoethog iawn diwtor preifat, roedd ysgolion gramadeg, ond ychydig iawn a allai dalu i fynd iddynt ac roedd ysgolion preifat lle dysgai'r offeiriad plwyf neu leygwr ychydig o ddisgyblion am dâl bychan (Jones, 1994, 134). Roedd llythrennedd yng Nghymru fel yn Lloegr yn isel, ond o ystyried fod nifer fawr o'r Cymry yn uniaith Gymraeg ac nad oedd llawer o lyfrau Cymraeg ar gael mae'n sicr fod llythrennedd yn is fyth ymysg y Cymry.

Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg ceisiodd rhai mudiadau addysgol gwirfoddol addysgu'r Cymry cyffredin, y cyntaf o'r rhain oedd Yr Ymddiriedolaeth Gymreig a ddilynwyd gan y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol. Ond Saesneg oedd prif gyfrwng y mudiadau hyn er eu bod yn gweld budd mewn hybu cyhoeddiadau Cymraeg (Jones, 1997b, 193). Ond o ran addysg cyfrwng Cymraeg a thwf llythrennedd yng Nghymru, yr ysgolion mwyaf llwyddiannus oedd ysgolion cylchynol Griffith Jones, Llanddowror (White, 1997, 322). Dechreuodd sefydlu ei ysgolion yn 1731. Hyd hynny bu'n dysgu yn un o ysgolion y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol ond sylweddolodd nad oedd y rhwydwaith hwn o ysgolion yn effeithiol wrth geisio ehangu llythrennedd yng Nghymru: credai y byddai'r bobl yn dysgu'n gynt pe baent yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (Jones, 1997b, 198). Ym 1731 bu farw nifer o bobl yn ei blwyf o bla a phoenai Griffith Jones nad oeddent wedi cael y cyfle i allu darllen yr Ysgrythurau eu hunain, felly aeth ati i gynnal ysgol yn ei blwyf ar gyfer plant a phobl o bob oedran (Jones, 1997b, 198). Cymraeg oedd cyfrwng ei ysgolion, ond fel y Dyneiddwyr o'i flaen, achub eneidiau oedd prif nod Griffith Jones, nid achub yr iaith Gymraeg er ei fod yn falch ohoni. Credai y gellid cyflawni'r nod o achub eneidiau yn gyflymach ac effeithiolach trwy ddefnyddio iaith y bobl (White, 1997, 323). Ni chredai fod y Cymry yn abl i *"receive necessary instructions to secure their eternal salvation in any other language than their own British tongue"*, (dyfynnwyd yn Williams, 1979, 204). Cefnogir y farn mai defnyddio iaith y bobl oedd

ei fwriad oherwydd iddo agor ysgolion cyfrwng Saesneg mewn ardaloedd di-Gymraeg megis de Sir Benfro ac ar y gororau. Trefnwyd ymgyrch ysgolion cylchynol Griffith Jones yn ofalus ac yn drefnus. Cynhaliodd ei ysgolion am gyfnodau byr o dri mis yn nhymor y gaeaf pan nad oedd yr amaethwyr ar eu prysuraf, aeth â'r ysgolion at y tlodion yn hytrach na'u gorfodi hwy i deithio i'r dref fawr agosaf, lluniodd wersi i'r athrawon a chyfarwyddodd yr athrawon yn fanwl (Williams, 1979, 206). Yn y dydd cynhaliwyd dosbarthiadau i'r plant gan ddefnyddio'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin fel gwerslyfrau, ac yn y nos deuai'r oedolion i gael eu dysgu. Cynhaliwyd yr ysgolion mewn eglwysi, capeli neu dai ac ar ôl i'r athro orffen ei waith yno âi ymlaen i ardal arall. Yn un o adroddiadau blynyddol yr ymgyrch 'The Welsh Piety' honnodd Griffith Jones fod miloedd o'r tlawd wedi derbyn addysg mewn eglwys, capel neu fwthyn am lai o gost na fyddai adeiladu un ysgoldy mewn un man (Williams, 1979, 206). Erbyn marwolaeth Griffith Jones yn 1761 amcangyfrifir fod tua 200,000 o werin Cymru wedi dysgu darllen (Jenkins, 1983, 268). Tua 450,000 oedd poblogaeth Cymru ar y pryd, felly fe ehangwyd yn sylweddol ar gyfradd llythrennedd Cymru. Yn ôl Robert Owen Jones, roedd hwn yn gam seicolegol pwysig yn y broses o adfer parch ac urddas y Cymry tuag at eu hiaith (Jones, 1997b, 204).

Ar ôl marwolaeth Griffith Jones aeth Madam Bridget Bevan, a oedd wedi noddi gwaith Griffith Jones, ati i barhau â gwaith yr ysgolion. Ond pan fu hi farw daeth yr ysgolion cylchynol i ben a dechreuodd y Methodistiaid addysgu'r werin.

Sefydlwyd mudiad yr Ysgolion Sul yng Nghymru gan Thomas Charles yn negawd olaf y ddeunawfed ganrif gyda'r bwriad o wneud y Methodistiaid yn llythrennog (Jones, 1997b, 253). Darparai'r ysgol Sul addysg elfennol i ddarllen y Beibl i'r plant a man trafod i'r oedolion. Ym marn G. E. Jones (1994, 278) roedd yr addysg lenyddol hon drwy'r Beibl yn arwyddocaol er mwyn amddiffyn safonau yn yr iaith Gymraeg. Fel Griffith Jones, Llanddowror o'i flaen, mynnodd Thomas Charles mai'r Gymraeg oedd yr unig iaith ymarferol i geisio dysgu plant Cymraeg eu hiaith (White, 1997, 335). Profodd yr Ysgolion Sul i fod yn boblogaidd iawn ac yn ddylanwad cryf ar gymdeithas. Erbyn canol y ganrif roedd tua 20% o boblogaeth Cymru yn aelodau o Ysgol Sul (Jones, 1997b, 253). Mynegodd nifer o feirniaid pa mor bwysig oedd gyfraniad yr Ysgolion Sul tuag at ffyniant yr iaith Gymraeg.

Ni ellir gorbwysleisio cyfraniad yr ysgol Sul yng nghadwraeth y Gymraeg yn ystod y ganrif. Bu'n foddion i gyfannu addysg i bobl gyffredin pan oedd y fframwaith addysgol leyg yn unieithog Saesneg ac yn ymosodol wrth-Gymreig.
(Jones, 1997b, 253)

Mae'n debyg mai'r ganmoliaeth fwyaf a gafodd y mudiad oedd pan gyhoeddwyd yr Adroddiad enwog ar Addysg yn 1847 a adnabyddir fel 'Brad y Llyfrau Gleision'. Cydnabuwyd gwaith y mudiad fel yr unig ysgolion a oedd ar waith drwy Gymru gyfan ac yn wir yn siroedd Morgannwg, Caerfyrddin a Phenfro mynychai 80,000 o blant yr ysgolion Sul tra mai 30,000 yn unig âi i'r ysgolion dyddiol (Davies, 1992, 376). Pwysleisiodd yr Adroddiad gyfyngiadau'r addysg a ddarparwyd gan yr Ysgolion Sul, ond nodwyd hefyd eu bod wedi meithrin cenedlaethau o Gymry a oedd yn llythrennog yn eu hiaith ac yn gallu ei defnyddio i drafod syniadau haniaethol (Davies, 1992, 376).

1.9 Newidiadau Economaidd a Phoblogaeth

Daeth y Chwyldro Diwydiannol i Gymru a bu newidiadau mawr o'i herwydd. Roedd y wlad cyn y chwyldro yn wledig, ac economi'r boblogaeth fechan bron yn hollol ddibynnol ar amaethyddiaeth, (Davies, 1993, 36).

Yr oedd tua 500,000 o bobl yn byw yng Nghymru yn 1770; trigai 1,163,000 ynddi yn 1851. Dyblodd y boblogaeth mewn rhyw ddwy genhedlaeth; gynt, roedd angen deuddeg cenhedlaeth i hynny ddigwydd. Yn 1770, trwy drin y tir yr enillai mwyafrif y Cymry eu bywoliaeth; yn 1851, dim ond traean ohonynt a weithiai mewn amaethyddiaeth.
(Davies, 1992, 307)

Rhesymau naturiol, i raddau, oedd yn gyfrifol am y twf anarferol a fu yn y boblogaeth yn ystod y cyfnod ym marn yr hanesydd John Davies ond awgryma fod y newidiadau economaidd a'r cynnydd mewn cyflogaeth wedi cyfrannu at hyn (Davies, 1992, 309). O saithdegau'r ddeunawfed ganrif ymlaen, diwydianwyd y wlad. Yn y gogledd-ddwyrain datblygodd amrywiaeth o ddiwydiannau, cloddio am gopr, gweithfeydd haearn a chynhyrchu cemegau ymysg eraill. Yn y gogledd-orllewin roedd gweithfeydd cloddio am gopr a chwareli a diwydianwyd y canolbarth i raddau pan agorwyd ffatrïoedd gwlân. Ond yn ne - ddwyrain Cymru y gwelwyd y datblygiadau mwyaf syfrdanol. Bu cynnydd sylweddol yn y nifer a gyflogwyd yn y maes glo yn

nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a datblygodd gweithfeydd haearn Dowlais a Chyfarthfa i fod y mwyaf yn y byd. Oherwydd y mewnlifiad o weithwyr a ddaeth i Ferthyr tyfodd hon i fod y dref fwyaf yng Nghymru gyda phoblogaeth o 46,000. Tyfodd nifer o drefi mawr eraill yn y de – ddwyrain; ganrif yn unig cyn hynny prin iawn fyddai'r trefi yng Nghymru â phoblogaeth o dros dair mil (Davies, 1993, 36).

Roedd Cymru'n wlad wahanol iawn erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond pa effaith gafodd y newidiadau hyn ar yr iaith Gymraeg? Oherwydd y cynnydd a fu mewn diwydiant ymfudodd nifer helaeth i Gymru i chwilio am waith; erbyn 1851 roedd bron 140,000 o boblogaeth Cymru wedi eu geni y tu allan i Gymru (Davies, 1992, 308) ond ni pharodd hyn i'r gweithlu droi'n Saesneg ei iaith. Ymfudodd llawer o gefn gwlad Cymru i'r canolfannau diwydiannol hefyd, Cymry uniaith Gymraeg oedd y rhain ac oherwydd fod cynifer ohonynt, cymharol fechan oedd yr elfen Saesneg yn y gweithfeydd yn ystod hanner cyntaf y ganrif (Jones, 1997b, 244). Cefnogir hyn gan dystiolaeth P.S.L. Grenfell, diwydiannwr o Abertawe yn 1847 mai ychydig iawn os o gwbl o Saesneg a wyddai gweithwyr y gweithfeydd copr (Jones, 1997b, 248). Gwêl rhai fel Brinley Thomas fod y chwyldro wedi gwneud daioni i'r iaith Gymraeg gan na fu'n rhaid i'r rhai a symudodd o'r ardaloedd gwledig i'r canolfannau diwydiannol symud allan o Gymru *"achubwyd y Gymraeg gan allu diwydiannaeth i ailddosbarthu poblogaeth gynyddfawr."* (dyfynnwyd yn Davies, 1992, 479).

> *bu'n rhaid i'r Gymraeg ymaddasu i rymoedd cymdeithasol ac economaidd newydd yn ogystal ag i newidiadau pur sylfaenol yn agwedd pobl at ei swyddogaeth a'i phwysigrwydd.*
> (Jenkins, 1998, 2)

Cafodd dyfodiad y rheilffordd i Gymru ddylanwad ar fywyd yr holl wlad ond yn arbennig felly ar ardaloedd diwydiannol y maes glo (Davies, 1992, 369). Ond er bod yr ardaloedd diwydiannol wedi manteisio ar ddyfodiad y rheilffordd fe adawodd y wlad a'r ardaloedd hynny yn arbennig yn agored i nifer gynyddol o fewnfudwyr (Davies, 1992, 370-371).

Gadawodd y rheilffyrdd y wlad yn agored i ddylanwad Seisnig a bellach ymddangosai fel nad oedd arwahanrwydd ieithyddol yn bosibilrwydd real (Davies,

1993, 44). Ond er bod creu'r rhwydwaith reilffyrdd yn ymddangos fel bygythiad i'r iaith Gymraeg, fel y dywed John Davies, roedd ochr gadarnhaol i'r mater.

> *Er mai'r Saesneg oedd iaith swyddogol y rheilffyrdd, bu eu dyfodiad yn elfen ganolog yn natblygiad diwylliant Cymreig a Chymraeg ail hanner y ganrif ddiwethaf - o ran llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol, dosbarthu llyfrau a chylchgronau, dyrchafu aml i weinidog yn arwr cenedlaethol ac, yn anad dim efallai, o ran twf ymwybyddiaeth genedlaethol wrth i'r rheilffordd danseilio arwahanrwydd oesol cymunedau Cymru.*
> (Davies, 1992, 395)

1.10 Ymfudo

Rhoddwyd pwyslais mawr ar yr ymfudo a fu o Gymru i wledydd eraill yn arbennig felly i'r Unol Daleithiau a Phatagonia. Ond mae'n debyg fod y mudo a fu o gefn gwlad Cymru i'r ardaloedd diwydiannol yn llawer mwy arwyddocaol o ran nifer ac effaith ar yr iaith (Morgan, 1981, 7). Oherwydd effaith y Chwyldro Diwydiannol ar economi Cymru ni fu'n rhaid i'r Cymry fynd dramor fel y bu'n rhaid i'r Gwyddelod wneud.

> *The Welsh did not need to emigrate.*
> (Williams, 1985, 180)

Serch hynny erbyn troad y ganrif roedd nifer o Gymry wedi ymfudo dramor ac wedi sefydlu cymunedau Cymraeg. Yn ôl Cyfrifiad 1890 roedd dros 100,000 o frodorion o Gymru yn byw yn yr Unol Daleithiau, nifer ohonynt yn Nhalaith Efrog Newydd ac ardaloedd cloddio a gweithfeydd haearn Ohio, Pennsylvania a Gorllewin Virginia (Morgan, 1981, 7). Sefydlwyd Capeli Cymraeg a phapurau newydd Cymraeg yno. Chwilio am waith a bywyd gwell a wnaeth y rhai a aeth i'r Unol Daleithiau, ond rhesymau cenedlaethol oedd y tu ôl i'r ymfudo i Batagonia. Nid oedd y syniad o sefydlu gwladfa Gymreig yn un newydd ac yn 1860au trodd golygon y cenedlaetholwyr tuag at Batagonia.

> *In the 1860s, idealistic hopes turned to the land of Patagonia, which offered many advantages. It was a virgin land, on which a wholly Welsh settlement might resist contamination indefinitely.*
> (Jenkins, 1992, 320)

Er yr holl sylw a dderbyniodd y Wladfa dwy neu dair mil o bobl aeth yno ar y mwyaf, ychydig o gymharu â'r nifer a oedd yn America. Sefydlwyd capeli a phapurau Cymraeg ym Mhatagonia hefyd, ond pwysigrwydd y Wladfa o ran hanes yr iaith Gymraeg yw'r rhesymau dros yr ymfudo. Cyfeiriwyd at y Wladfa fel 'y baradwys bell' a 'gwlad yr addewid'.

> *yn wahanol i'r ymfudo blaenorol yn ystod y ganrif, nodweddid y mudiad hwn gan ddelfrydau crefyddol, ieithyddol, gwleidyddol a diwylliannol.*
> (Jones, 1997b, 298)

Michael D. Jones oedd un o arweinwyr Mudiad Patagonia. Roedd ef yn gefnogwr i'r iaith Gymraeg ac yn feirniadol o'r drefn wleidyddol, weinyddol ac economaidd a sarhâi'r iaith. Ni allai oddef bod yn rhaid i Gymro geisio bod yn debyg i'r Sais er mwyn llwyddo (Jones, 1997b, 299). Cychwynnodd 153 o arloeswyr ar y fordaith o Lerpwl yn 1865 i chwilio am y Gymru newydd (Jenkins, 1992, 321).

Ceir anghytundeb ynglŷn â llwyddiant y Wladfa. Gwêl Robert Owen Jones (1997b, 295) yr ymsefydliad fel llwyddiant i raddau helaeth:

> *Mae'n bwysig cofio fod yn Nhalaith Chubut heddiw rai o'r bedwaredd a'r bumed genhedlaeth sy'n dal i siarad y Gymraeg. Ni pharhaodd y Gymraeg cyhyd mewn unrhyw sefydliad na threfedigaeth arall a sefydlwyd gan Gymry.*
> (Jones, 1997b, 295)

Cyfeiria hefyd at Ysgol Ganolraddol Camwy a sefydlwyd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, yr Ysgol Gyfun Gymraeg gyntaf pan nad oedd unrhyw beth o'r fath yng Nghymru ar y pryd. Defnyddiwyd y Gymraeg fel iaith gweinyddiad, addysg a chyfraith mewn cyfnod pan mai'r Saesneg oedd yr iaith swyddogol yng Nghymru (Jones, 1997b, 304). Ond barn eraill megis Philip Jenkins oedd mai llwyddiant fel breuddwyd o wlad well yn unig oedd Y Wladfa.

> *It would be difficult to describe the Chubut settlement as a success; except in that it offered Welsh patriots at home a dream of an alternative and purer nation.*
> (Jenkins, 1992, 321)

Sefydlwyd cymunedau Cymraeg cryf yn nifer o ddinasoedd Lloegr, y pwysicaf o'r rhain oedd cymunedau dinasoedd Lerpwl a Llundain. Bu twf cyflym yn y cymunedau Cymreig yn Lloegr yn y cyfnod 1770-1850 (Davies, 1992, 308). A rhwng 1851 a 1911 denwyd o leiaf ugain mil o Gymry bob degawd i Lerpwl (Davies, 1992, 426). Yno y cychwynnwyd y papur newydd cyntaf Cymraeg sef 'Yr Amserau' (Davies, 1992, 427). Cyfeiriwyd at Lerpwl fel 'prifddinas gogledd Cymru' (Stephens, 1986, 118).

1.11 Twf y Wasg Gymreig

Gyda'r cynnydd yn y nifer a oedd yn llythrennog yn y Gymraeg gwelwyd cynnydd yn y galw am lyfrau a chylchgronau Cymraeg (Stephens, 1986 20). Y cyfnod mwyaf arwyddocaol o ran twf y wasg Gymraeg oedd ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl John Davies haerodd Henry Richard yn 1866 fod pum chwarterolyn, 25 misolyn ac wyth wythnosolyn yn ymddangos yn Gymraeg a bod cyfanswm eu cylchrediad yn 120,000 (Davies, 1992, 401).

Yn ystod y deugain mlynedd rhwng 1760 a 1800 cyhoeddwyd 863 o lyfrau Cymraeg, dwbl y nifer a gyhoeddwyd yn nhrigain mlynedd cyntaf y ganrif (Jones, 1997b, 256), tystiolaeth glir ym marn Robert Owen Jones o'r chwyldro cymdeithasol a fu fel canlyniad i bwyslais y grefydd efengylaidd ar lythrennedd (Jones, 1997b, 256). Cyfnodolion crefyddol oedd cyfnodolion dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, er enghraifft 'Eurgrawn Wesleyaidd' a 'Seren Gomer', cyfnodolyn y Bedyddwyr (Davies, 1992, 345). Roedd y cysylltiad rhwng cyhoeddi yn y Gymraeg a chrefydd yn parhau yr un mor gryf â phan gyhoeddwyd y llyfr Cymraeg cyntaf yn 1546. Ond a weithiodd hyn yn erbyn yr iaith Gymraeg? Awgrymodd Robert Owen Jones yn argyhoeddiadol iawn fod y berthynas agos rhwng yr iaith a chrefydd wedi cyfyngu'r Gymraeg i rai meysydd yn unig a'i rhwystro rhag dod i gysylltiad â meysydd eraill megis technoleg, diwydiant, addysg, masnach ac economeg (Jones, 1997b, 260). Ond gellir dadlau hefyd fod y twf a fu yn y wasg Gymraeg wedi rhoi hyder i bobl gyffredin Cymru drafod pynciau megis crefydd a gwleidyddiaeth yn eu mamiaith.

The emergence of a vigorous Welsh-language periodical press from 1814 to 1850 was a sure sign of the growing social and political awareness of the leaders of the common people.
(Morgan a Thomas, 1984, 136)

Cymharol araf fu'r twf er hynny. Rhwng 1546 a 1670, cyhoeddwyd 116 o lyfrau Cymraeg, cyfartaledd o lai nag un y flwyddyn, rhwng 1670 a 1700 cyhoeddwyd 139 gan ddod â'r cyfartaledd i dros bedwar y flwyddyn, cododd y cyfartaledd i bedwar ar ddeg y flwyddyn yn ystod y deng mlynedd ar hugain nesaf (Davies, 1992, 277-8).

Erbyn 1879 roedd tri ar ddeg o bapurau newydd wythnosol Cymraeg yn cael eu cyhoeddi a 120,000 o gopïau ohonynt yn cael eu darllen bob wythnos yn ôl tystiolaeth Beriah Gwynfe Evans yn 1886-7 ac yn ychwanegol at hynny roedd 150,000 o gopïau o gylchgronau misol Cymraeg (Jones, 1997b, 259).

Ond erbyn diwedd y ganrif lleihaodd y galw a gostyngodd y nifer o lyfrau a gyhoeddwyd bob blwyddyn (Stephens, 1986, 20).

1.12 Yr Eisteddfod

Roedd sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol yn y 1860au yn adlewyrchiad o'r dylanwad a gafodd y Saesneg ar ddiwylliant Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er enghraifft, hysbysebwyd Eisteddfod Llangollen yn 1885 yn uniaith Saesneg *'The National Gorsedd of Britain accompanied by a grand Eisteddfod'* (Jones, 1997b, 277).

Yn y tridegau ceisiwyd cymathu y diwylliannau Cymraeg a Saesneg a'r ddwy iaith yn yr Eisteddfod, caed y gweithgareddau barddonol a cherddorol Cymraeg a'r cyngherddau mawreddog, y dawnsfeydd a'r gwleddoedd i'r Saeson. Erbyn y chwedegau daeth ymyrraeth cefnogwyr y Saeson yn llawer amlycach. Yn Eisteddfod Dinbych yn 1860 y penderfynwyd fod yr Eisteddfod Genedlaethol i fod fel sefydliad cenedlaethol a fyddai'n cael ei chynnal bob blwyddyn bob yn ail yn y gogledd a'r de. Y flwyddyn ganlynol lluniwyd 'Cynllun Eisteddfodol' ac yn arwyddocaol cynhwyswyd 'cymal yr iaith Gymraeg', ond nid ymddangosodd fel rheol hyd 1952. Oherwydd Seisnigrwydd yr Eisteddfod cynhaliwyd Eisteddfodau protest yn 1863 ac

1866 (Jones, 1997b, 278). Roedd carfan o Gymry am i'r Eisteddfod fod yn fforwm trafod a datblygu syniadau ac addysgu'r Cymry. Un o'r rhain oedd y Rheithor John Griffiths, Llywydd yr Eisteddfod yn 1867; dyma ei eiriau yn ei anerchiad:

> *We cannot afford to spend all of our time in the perpetuation of the Welsh Language. The language is very well able to take care of itself. I think our time might be better employed than in bolstering up a language that may be of a questionable advantage.*
> (Jones, 1997b, 279)

Nodwedd arall o'r Seisnigo a fu ar ddiwylliant Eisteddfodol gyda dechrau'r Eisteddfod Genedlaethol oedd yr ymgais i geisio sefydlu *'Social Science Section'*; pe bai wedi llwyddo'n llwyr fe fyddai wedi gwneud yr Eisteddfod yn glwb trafod i ddeallusion Saesneg (Jones, 1997b, 279).

Parhaodd yr arfer o ddefnyddio'r Saesneg i fod yn bwnc llosg hyd at ganol yr ugeinfed ganrif er bod y Gymraeg wedi ei sefydlu fel yr iaith swyddogol yn 1937 (Stephens, 1986, 185). Pwysleisiwyd mai'r Gymraeg oedd yr iaith swyddogol yng nghyfansoddiad newydd yr Eisteddfod yn 1952 (Stephens, 1986, 185).

> *Y mae'r Rheol Gymraeg wedi sicrhau hanfod yr Ŵyl fel sefydliad unigryw i hybu iaith a diwylliant Cymru.*
> (Stephens, 1986, 185)

1.13 'Brad y Llyfrau Gleision' 1847

Yn 1847 yn dilyn cyfnodau o derfysgoedd yng Nghymru galwodd William Williams, Aelod Seneddol Coventry, am archwiliad i gyflwr addysg y wlad, ac yn arbennig i'r ddarpariaeth i ddysgu Saesneg. Penodwyd tri chomisiynydd i wneud y gwaith, roeddynt yn Eglwyswyr ac yn ddi-Gymraeg a Chymru ar y pryd yn wlad Ymneilltuol ac uniaith Gymraeg (Stephens, 1986, 376). Gwnaethant nifer o sylwadau dilys ynglŷn â chyflwr gwael yr ysgolion a diffyg hyfforddiant yr athrawon, ond gwnaethant hefyd sylwadau niweidiol am foesau a iaith y Cymry. Camarweiniwyd y comisiynwyr gan ragfarnau eu tystion: er bod tri chwarter y wlad yn Ymneilltuwyr roedd 232 o'u tystion yn Anglicaniaid o'i gymharu â 79 o Ymneilltuwyr. Yn ôl yr Adroddiad roedd y Cymry'n fudr, diog, anwybodus, ofergoelus, twyllodrus, meddw a llygredig

(Stephens, 1986, 378). I raddau helaeth rhoddwyd y bai am y ffaeleddau hyn ar ddefnydd y Cymry o'r iaith Gymraeg:

> *The Welsh language is a vast drawback to Wales and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. Because of their language the mass of the Welsh people are inferior to the mass of the English in every branch of practical knowledge and skill.*
> (dyfynnwyd yn Jones, 1997b, 270, o'r Adroddiad Rhan ii t60)

Cafodd yr Adroddiadau ddylanwad pellgyrhaeddol ar y genedl. Ymateb arweinwyr yr Ymneilltuwyr i'r Adroddiadau oedd annog y werin i efelychu'r Saeson o ran ymddygiad a iaith yn hytrach na cheisio gwrthbrofi'r cyhuddiadau (Jones, 1997b, 273). Yn amlwg roedd gan y duedd hon ganlyniadau anffafriol i'r iaith Gymraeg.

> *Canlyniad naturiol dyrchafu iaith, diwylliant ac arferion un genedl yw bod y rhai sy'n brysur yn efelychu yn rhwym o fychanu ac esgeuluso eu hiaith a'u traddodiadau eu hunain gan eu hystyried yn eilradd neu yn ddiwerth.*
> (Jones, 1997b, 273)

Roedd y modd y diraddiwyd statws yr iaith Gymraeg ac y beirniadwyd moesau'r Cymry yn sicr o gael effaith seicolegol ddinistriol ar y Cymry.

> *The view that Welsh culture and society were irredeemably inferior to those of England, and that the Welsh language was a marker of that inferiority, had been deeply internalized.*
> (Roberts, 1998, 191)

Daeth y Cymry i dderbyn mai Saesneg oedd iaith cynnydd a daethant i gredu mai dysgu Saesneg oedd diben ysgolion ac nid meithrin iaith a oedd ar drai ac a fyddai yn rhwystr i'r Cymry yn y byd diwydiannol newydd (Williams, 1998, 207).

Prif arwyddocâd 'Brad y Llyfrau Gleision' yn ôl John Davies yw iddo ddangos pa mor groendenau i farn y Saeson oedd arweinwyr y Cymry (Davies, 1992, 378).

Pe byddai'r Comisiynwyr wedi sylweddoli y byddai plant Cymru yn dysgu Saesneg yn llawer mwy effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg, fe fyddai canlyniadau'r Adroddiad wedi bod yn wahanol iawn (Jones, 1997b, 269). Ond yn hytrach cryfhaodd y Llyfrau Gleision y ddadl mai iaith ddiwerth oedd y Gymraeg na ellid ei defnyddio i

ddarparu addysg (Morgan, 1991, 225). Ni ellir beio'r Cymry am fod eisiau i'w plant ddysgu Saesneg, ond ar ôl Adroddiad Addysg 1847 roeddynt yn barod i weld dirywiad ac israddio eu hiaith eu hunain os credent ei bod yn rhwystro datblygiad ail iaith eu plant (Williams, 1979, 978).

1.14 Agwedd Tuag at y Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

Gwelwyd effaith Adroddiad Addysg 1847 ar agwedd y Cymry tuag at eu hiaith, ac o ystyried y modd yr ymdriniwyd â'r iaith yn yr adroddiad nid yw hynny'n syndod.

> *Cysylltwyd y Gymraeg â thlodi, anwybodaeth, cyntefigrwydd a safle cymdeithasol israddol. Dyma'r ymagweddu a wenwynodd achos y Gymraeg trwy weddill y ganrif.*
> (Jones, 1997b, 274)

Ond nid yr Adroddiad yn unig a feirniadodd yr iaith a'i diraddio. Mynnodd papurau newydd Lloegr megis y 'Times' ailadrodd y cyhuddiadau, er enghraifft galw'r iaith yn 'the curse of Wales' (Jones, 1997b, 279). A phan ymwelodd y Prif weinidog Gladstone ag Eisteddfod 1873 cyfeiriodd at y Gymraeg fel *"a venerable relic from the past"* (Jones, 1997b, 279).

Tueddai'r llywodraeth i feio'r iaith am derfysgoedd Beca a Rhyfel y Degwm gan ddweud mai anwybodaeth oherwydd unieithrwydd y genedl oedd wrth wraidd anghydfod cymdeithasol yng Nghymru. Y ffordd o gael gwared â'r anghydfod oedd i gael gwared â'r Gymraeg (Evans, 1971, 259).

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd Cymry Cymraeg yn mynegi'r un syniadau gwrth-Gymraeg. Er enghraifft yn y 'Geninen' ym 1883 lle mynegir yr agwedd y dylai'r Cymry ddysgu Saesneg gan mai dyma'r allwedd i sicrhau llwyddiant materol (Jones, 1997b, 276).

> *Os ydych am barhau i fwyta bara tywyll, a gorwedd ar wely gwellt, gwaeddwch eich gorau 'Oes y Byd i'r Iaith Gymraeg'. Ond os ydych yn chwennych bwyta bara gwyn a chig eidion rhost, mae yn rhaid i chwi ddysgu Saesneg.*

Nis gwyddom am gymaint ag un Cymro uniaith a gasglodd gyfoeth heb wybod Saesneg.
(Dyfynnwyd yn Jones 1997b, 276)

Disgrifia Robert Owen Jones ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel cyfnod o argyfwng i'r iaith Gymraeg gan fod ei siaradwyr yn barod i'w chadw ar yr aelwyd ac yn y capel ond nid ym maes y gyfraith, diwydiant nac addysg (Jones, 1997b, 276).

Gwelodd y cyfnod ddechreuadau cenedlaetholdeb Cymreig modern ond er hynny roedd nifer o'r Cymry yn derbyn a chroesawu lleihad mewn arwahanrwydd Cymreig (Davies, 1993, 44). Rhaid cofio fod Prydain ar y pryd yn wlad y gellid ei phortreadu fel y gorau a'r un i fod fwyaf eiddigeddus ohoni yn y byd. Ni ellir beio'r Cymry a oedd am fod yn rhan o'r mawredd hwn (Davies, 1993, 44).

Ond pa mor allweddol yw agwedd siaradwyr tuag at eu hiaith o safbwynt ei chryfder? A all fod mor ddinistriol â deddfwriaeth neu system addysg negyddol?

Mae ymagweddu negyddol, a dibristod o werthoedd a oedd gynt yn llawer mwy pwerus yn gwbl ddiffiniol yn hunaniaeth cymdeithas a chenedl ac yn llawer mwy pwerus na grym milwrol neu ormes wleidyddol allanol. Ymagweddiad cadarnhaol ac ewyllys i ffynnu yw'r ddwy nodwedd bwysicaf ym mharhad iaith a diwylliant lleiafrif.
(Jones, 1997b, 274)

1.15 Addysg ar Ddiwedd y Ganrif Ddiwethaf

Cafodd Adroddiad Addysg 1847 ddylanwad pellgyrhaeddol ar statws y Gymraeg mewn addysg, gwelwyd yr effaith yn union wedi cyhoeddi'r adroddiad.

The people of Wales wanted their children to acquire a knowledge of the English language and they were prepared to see their own language persecuted and de-valued if they believed that it hindered the development of competence in English.
(Williams, 1979, 97)

Roedd y rhieni am weld eu plant yn cael eu haddysgu yn Saesneg a nifer o'r athrawon yn barod i hybu Seisnigrwydd. Ym marn Gwyn Williams gwelai'r athrawon hyn fel eu dyletswydd:

a significant number of Welsh school-teachers, presumably suffering from a tribal self-contempt and a species of shame, saw it as their duty not simply to introduce their students to the world of the English language, but to eradicate every trace of Welshness they could get their self-justifying hands-on.
(Williams, 1985, 246)

Ar ôl Adroddiad Addysg y Llyfrau Gleision fe sefydlwyd rhwydwaith ehangach o ysgolion Saesneg er mwyn dangos i'r gwleidyddion yn Llundain fod y Cymry o ddifrif ynglŷn â gwella safon addysg yng Nghymru, safon dysgu Saesneg wrth gwrs (Jones, 1997b, 281). Cafodd athrawon Cymru hwb i'r cyfeiriad hwn gan bolisïau newydd. Yn 1862 mabwysiadwyd ffordd newydd o ariannu ysgolion yn ôl gallu a chynnydd plant mewn rhifyddeg, a darllen ac ysgrifennu Saesneg (Jones, 1997b, 282). Yn amlwg felly, gan nad oedd gallu'r plant i ddarllen neu ysgrifennu'n Gymraeg o werth ariannol i'r ysgolion nid oedd lle iddi yn yr ysgol.

The new code did not prohibit the use of Welsh, but as the livelihood of teachers depended to a large extent upon whether or not their pupils had at least a mechanical knowledge of English, they had a pecuniary interest in boycotting the Welsh language.
(Davies, 1993, 49)

Cosbwyd plant a siaradai Gymraeg yn yr ysgol drwy ddefnyddio'r *'Welsh Not'* sef darn o bren ar linyn a'r llythrennau W.N. wedi eu torri arno. Fe'i defnyddiwyd mor gynnar â'r ddeunawfed ganrif mae'n debyg (Stephens, 1986, 611) ond nid yw mor gyffredin ag a awgrymir gan fytholeg yr ugeinfed ganrif (Davies, 1993, 49). Y dylanwad gwaethaf a gafodd y *'Welsh Not'* ar y Cymry oedd gwneud iddynt gosbi ei gilydd am siarad eu mamiaith. Er mwyn cael tynnu'r darn pren roedd yn rhaid i'r plant ddal plentyn arall yn siarad Cymraeg er mwyn trosglwyddo'r gosb i'r plentyn hwnnw.

The 'Welsh Not' slung around a child's neck to accompany his or her punishment for speaking his or her own language has been notorious. It was not very effective but it enormously reinforced the image of Welsh as an inferior and gutter tongue.
(Williams, 1985, 246)

Anwybyddwyd y Gymraeg yn Neddf Addysg 1870 ond parhad yn unig o sefyllfa oedd yn mynd yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg oedd hyn. Ond yn niwedd y ganrif gwnaeth y Gymraeg gynnydd ym maes addysg o dan arweiniad rhai megis Dan Isaac Davies, arolygwr ysgolion ym Morgannwg. Pryderai ef ac eraill am yr arfer o

ddysgu plant uniaith Gymraeg drwy gyfrwng y Saesneg. Er hynny derbyniai llawer ohonynt y farn mai dysgu Saesneg oedd prif bwrpas addysg (Davies, 1993, 49). Sefydlodd Dan Isaac Davies Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn 1885. Yr enw Saesneg ar y gymdeithas oedd *'The Society for the Utilization of Welsh in Education'*, weithiau ychwanegwyd *'for the better teaching of English'* er mwyn cael cefnogaeth yr awdurdodau (Davies, 1993, 49). Y gymdeithas hon oedd y gyntaf i wrthwynebu'r orfodaeth oedd ar ysgolion Cymru i ddefnyddio'r Saesneg yn unig. Bu ei hymgyrch yn llwyddiannus iawn ac enillwyd lle i'r Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu (Stephens, 1986, 114). Dan Isaac Davies oedd yn gyfrifol am y memorandwm ar y defnydd o'r Gymraeg a gyflwynwyd i'r Comisiwn Brenhinol ar Addysg Elfennol. Ar sail Adroddiad y Comisiwn rhoddwyd grantiau i'r ysgolion lle dysgid Cymraeg, rhoddwyd caniatâd i ddefnyddio llyfrau dwyieithog a chefnogwyd dysgu daearyddiaeth a hanes Cymru (Davies, 1993, 50). Ond eto nid oedd gorfodaeth i ddefnyddio'r Gymraeg a lle'i defnyddiwyd hi nid oedd ond ychydig Gymraeg ynghanol llawer o Saesneg (Davies, 1993, 50). O ganlyniad i Ddeddf Addysg 1889 dechreuwyd sefydlu Ysgolion Canolradd ac, erbyn troad y ganrif roedd 95 ohonynt ac yn 1907 roedd 47 yn rhoi gwersi Cymraeg ond mewn gwirionedd Seisnig oedd yr ysgolion gan mwyaf o ran iaith a gogwydd (Jones, 1997b, 286).

> *It was, nevertheless, a development of fundamental importance that Wales had won a toehold in the education system; indeed, all the advantages made by Welsh in schools in the twentieth century had their origins in the victory of 1890.*
>
> (Davies, 1993, 50)

Yn 1896 crëwyd Bwrdd Canolog Cymreig i ofalu am Addysg Uwchradd Cymru ac ar ddechrau'r ugeinfed ganrif crëwyd adran ar wahân o'r Bwrdd Addysg ar gyfer Cymru o dan Owen M. Edwards, Prif Arolygydd Ysgolion y Bwrdd Addysg yng Nghymru (Williams, 1985, 232).

Felly tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd agwedd well tuag at y Gymraeg yn y byd addysg ond gadawodd cyfundrefn addysg y ganrif ei hôl yn ddwfn ar y Cymry ac ar y modd yr edrychir ar ddefnydd y Gymraeg mewn addysg (Jones, 1997b, 287).

1.16 Casgliad

Yn y bennod hon trafodwyd hanes yr iaith Gymraeg hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trafodwyd hanes cymdeithasol a swyddogol y Gymraeg o'i dechreuadau cynnar hyd at y Cyfrifiad cyntaf i gyfrifo'r Cymry Cymraeg yn 1891.

Olrheiniwyd ei tharddiad a'i defnydd fel iaith dysg a llên yn yr Oesoedd Canol a'r ymgais i'w diddymu trwy gyfrwng Cymal Iaith Deddf Uno 1536. Trafodwyd y newid a fu wrth i'r bonedd a fu unwaith yn gwarchod y diwylliant Cymreig droi cefn ar yr iaith a'r achubiaeth a gafwyd iddi gan y dyneiddwyr ac yn bennaf trwy gyfrwng Beibl William Morgan yn 1588. Nodwyd yr ymgais a fu gan rai megis Griffith Jones, Llanddowror i ehangu llythrennedd y Cymry yn eu hiaith ac effeithiau newidiadau economaidd a symudiad poblogaeth ar hanes yr iaith. Disgrifiwyd twf y wasg Gymreig a welwyd wrth i'r nifer o Gymry a oedd yn llythrennog yn y Gymraeg gynyddu, a'r modd y rhoddodd hynny hyder i'r bobl gyffredin drafod pynciau megis crefydd a gwleidyddiaeth yn y Gymraeg. Trafodwyd lle prin y Gymraeg yn nechreuadau'r Eisteddfod Genedlaethol a'r agwedd gyffredinol ddirmygus o'r iaith a fynegwyd yn Adroddiad Addysg 1847 a adnabyddir fel 'Brad y Llyfrau Gleision'. Rhoddir hefyd ddarlun o sefyllfa'r iaith Gymraeg mewn addysg hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trafodir lle'r Gymraeg mewn addysg ddiweddarach ym Mhennod 3.

Ceisiwyd rhoi cefndir yr iaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sefyllfa bresennol y Gymraeg yng Nghymru a'r hyn y mae ymdrechioln megis addysg drochi Gymraeg yn ceisio ei adfer. Yn y bennod hon disgrifiwyd cyfnod lle roedd bri ar yr iaith Gymraeg ym myd cyhoeddus Cymru a phan roedd y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo'n naturiol rhwng cenedlaethau heb yr angen am ymyrraeth gan y byd addysg a chynllunio ieithyddol.

PENNOD 2

HANES YR IAITH GYMRAEG

ERS DECHRAU'R UGEINFED GANRIF

2.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon rhoddir braslun o hanes yr iaith Gymraeg er y cyfrifiad cyntaf i gyfrifo'r Cymry Cymraeg sef Cyfrifiad 1891. Trafodir cyflwr yr iaith o ran niferoedd y siaradwyr a statws yr iaith, ymdrinnir â'r ymdrechion a wnaed, trwy ddulliau cyfansoddiadol ac anghyfansoddiadol, yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, i adfer a hybu'r iaith Gymraeg. Gorffennir trwy drafod ymateb Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r iaith Gymraeg a chyhoeddiad Arolwg o'r Iaith Gymraeg.

2.2 Tueddiadau Cyfrifiadau 1891, 1901, 1911

There was clearly an erosion of Welsh throughout the nineteenth century.
(Williams, 1985, 245)

Caed cadarnhad o'r dirywiad hwn yn 1891 pan gyfrifwyd am y tro cyntaf niferoedd siaradwyr y Gymraeg. Amcangyfrifwyd fod tua 80% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond, yn ôl Cyfrifiad 1891, dim ond 54.4% oedd yn siarad yr iaith erbyn hynny (Davies, 1993, 53). Amrywia'r ganran o 95% yn Sir Geredigion i 6% yn Sir Faesyfed. Er bod degau o filoedd yn siarad Cymraeg y tu allan i Gymru dim ond y 910,289 o siaradwyr a oedd yn byw yng Nghymru a gyfrifwyd. O'r rhain roedd 56% ohonynt yn uniaith Gymraeg. Awgrymwyd fod sefyllfa'r Gymraeg yn 1801 fel a ganlyn: 70% yn uniaith Gymraeg, 20% yn uniaith Saesneg a 10% yn ddwyieithog (Davies, 1993, 54).

Rhaid cofio bod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ganrif o newidiadau mawr o ran economi, poblogaeth a demograffiaeth. Treblodd poblogaeth y wlad yn ystod y ganrif; ar ddechrau'r ganrif roedd economi'r wlad yn ddibynnol iawn ar amaethyddiaeth ond erbyn 1891 roedd 70% o'r boblogaeth yn byw yn y de - ddwyrain diwydiannol a dim ond 6.9% yn amaethu (Jones, 1997b, 240). Nid yw'n syndod fod y ffactorau hyn ynghyd â sefyllfa addysg wedi effeithio ar yr iaith Gymraeg. Disgrifia Gwynfor Evans (Evans, 1971, 280) sefyllfa ieithyddol Cymru fel hyn:

> *...iaith y gyfraith oedd Saesneg; unig iaith y llywodraeth a'r bywyd swyddogol oedd Saesneg; unig iaith y meistri diwydiannol masnachol oedd Saesneg; unig iaith dod ymlaen yn y byd oedd Saesneg; ac unig iaith addysg pob plentyn ymhob ysgol ddyddiol trwy'r wlad oedd Saesneg.*
> (Evans, 1971, 280)

Fel y dywed ef mae'n syndod fod cynifer o'r boblogaeth yn parhau i siarad yr iaith (Evans, 1971, 281).

Yn ôl Cyfrifiad 1891 roedd 90% o siaradwyr y Gymraeg yn byw yn y pum sir a effeithiwyd fwyaf gan ddiwydiannu, sef Sir Gaerfyrddin, Sir Forgannwg, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Sir Gaernarfon (Evans, 1989, 298). Gwelwyd effaith negyddol hyn yn nawdegau'r ganrif pan ddechreuodd mewnfudo o Loegr ddod yn rym llywodraethol. Methwyd â chymathu'r rhai a ddaeth i mewn i'r de - ddwyrain a daethant yn rym pwysig yn erbyn parhad y Gymraeg mewn ardaloedd diwydiannol a oedd eisoes yn ieithyddol gymysg.

> *In the late nineteenth and early twentieth centuries, the sheer mass of the immigration could no longer be assimilated.*
> (Williams, 1985, 245)

Ni fu'r dirywiad yn neg o siroedd Cymru yn sylweddol iawn rhwng 1801 a 1891, roedd yn is na 10%, ond mewn tair sir gwelwyd cwymp sylweddol. Bu cwymp o 37.8% yn Sir Frycheiniog, 29.9% yn Sir Forgannwg a 20.8% yn Sir Fynwy. Rhwng 1871 a 1901 y bu'r dirywiad mwyaf yn y siroedd hyn (Jones, 1997b, 323). Gwelwyd effaith hyn erbyn Cyfrifiad 1901: er y bu cynnydd yn nifer y siaradwyr i 929,824 gostyngodd y ganran i

49.9%. Nid yw'n syndod felly fod E.G. Lewis yn dadlau fod y chwyldro diwydiannol a'r ymfudo i'r ardaloedd diwydiannol wedi effeithio ar yr iaith Gymraeg ac y gwelwyd dirywiad yng nghanran ei siaradwyr erbyn degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Jones, 1997b, 323). Ni welwyd y dirywiad yn union wedi'r Chwyldro gan fod y rhai a fudodd i'r ardaloedd diwydiannol yn cadw cysylltiad â'u teuluoedd yng nghefn gwlad, ond roeddynt yn byw mewn ardal o newidiadau cymdeithasol, ardal oedd â mewnfudo trwm o Loegr ac Iwerddon, ac roeddynt yn llawer mwy agored i ddylanwad Seisnig y cyfryngau, dylanwad a gynyddodd erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif.

> *...turn of the century when immigration from England began to swamp that from the Welsh hinterland, and the potential anglicizing effects of industrialisation became clearer.*
> (Morgan, 1981, 7)

Mae agwedd arall i gyfrifiadau troad y ganrif sy'n haeddu sylw. Gellir gweld ym mhapurau newydd a chofnodion y cyfnod fod nifer o Gymry cenedlaetholgar, a oedd yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd y cwestiwn ieithyddol, yn ceisio annog eu darllenwyr i'w cofnodi eu hunain fel Cymry uniaith Gymraeg (Parry a Williams, 1999, xi).

> *Pan ddaw y papurau i'w llenwi peidiwch â rhoi ynddynt eich bod yn gallu siarad Seisneg a Chymraeg, os na fyddwch yn barod i roi eich tystiolaeth mewn llys barn yn Seisneg pe bai gofyn am hyny. Gwell gan bob Cymro pur siarad yn ei iaith ei hun pan ar ei lw. Felly dywedwch mai un iaith a ddeallwch.*
> (Y Celt, 3 Ebrill 1891, dyfynnwyd yn Parry a Williams, 1999, v)

Bwriad y cwestiwn ieithyddol oedd i'r rhai di-Saesneg ddweud eu bod yn siarad, 'Cymraeg', y rhai di-Gymraeg 'English', a'r rhai a fedrai'r ddwy iaith 'Both / Y Ddwy' (Jenkins, 1999, 1). Ond gyda rhai megis Thomas Gee yn 'Y Faner' yn annog y Cymry i ymfalchïo yn eu mamiaith a nodi eu bod yn Gymry uniaith, pa mor ddibynadwy yw'r Cyfrifiadau (Jenkins, 1999, 3)?

> *Ni raid iddynt gywilyddio arddel na'u cenedl, na'u iaith. Testyn ymffrost ydyw yn hytrach.*
> (Dyfynnwyd yn Jenkins, 1999, 3)

Cafwyd anogaeth daerach gan olygydd 'Y Cymro' ar 3 Ebrill, 1891,

> *Na foed Cymro o Fôn i Fynwy, a chanddo gywilydd arddel iaith ei fam ar Barpurlen y Cyfrif fore dydd Llun nesaf.*
> (Jenkins, 1999, 4)

Ond o gymryd fod Cyfrifiad 1891 yn gywir datgelodd fod bron i filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ond bod siaradwyr dwyieithog ac uniaith Saesneg yn y mwyafrif yn yr ardaloedd diwydiannol a threfol dwys eu poblogaeth yn ne Cymru a'r gororau (Jenkins et al., 1999, 443). Oherwydd y dirywiad a fu yng nghanran y siaradwyr Cymraeg wedi hynny, Cyfrifiad 1891 oedd y cyfrifiad cyntaf ac olaf i ddangos yr iaith Gymraeg mewn sefyllfa o fwyafrif (Jenkins et al., 1999, 470).

Cwymp a fu yn y canran o siaradwyr Cymraeg erbyn Cyfrifiad 1901 ond y poendod mwyaf i'r cenedlaetholwyr oedd y cwymp a fu yn nifer y Cymry uniaith Gymraeg. Disgrifia Robert Owen Jones y rhain fel gwrthglawdd cadarn yn erbyn tryleiad iaith fwyafrifiol, ryngwladol (Jones, 1997b, 334-5). Felly, bu cynnydd sylweddol yn y canran a honnai eu bod yn medru'r Saesneg, cododd i 84.9% yn 1901 ac i 91.5% erbyn Cyfrifiad 1911 (Davies, 1993, 55). Dehonglwyd y ffigyrau gan T. Stephens, awdur o'r cyfnod, fel rhai y dylid ymfalchïo ynddynt: er bod y canran yn gostwng roedd niferoedd y rhai a siaradai Gymraeg yn cynyddu. Cyrhaeddodd y nifer a siaradai'r iaith i'w frig yn 1911 pan gyfrifwyd dros filiwn a oedd yn siarad yr iaith (Jones, 1997b, 328). Ond er hynny roedd y Cymry Cymraeg bellach yn y lleiafrif gyda dim ond 43.5% yn ei siarad (Davies, 1993, 56).

> *Yn ystod y degawd nesaf cwympodd niferoedd a chanran siaradwyr y Gymraeg a dyna fu patrwm y degawdau dilynol. Ni ddygodd hyder mewn niferoedd ffrwyth adfywiad wedi'r cwbl.*
> (Jones, 1997b, 328)

Gwelodd degawd cyntaf y ganrif gynnydd yn y dylanwadau Seisnig o ran y wasg boblogaidd a lifai i Gymru; gyda hyn bu lleihad yn y pynciau y defnyddid y Gymraeg ar eu cyfer (Davies, 1992, 477).

Erbyn 1911 roedd safle'r Gymraeg mewn cymunedau yn dechrau newid, cynyddodd yr ardaloedd o'r Fro Gymraeg lle'r oedd y di-Gymraeg yn fwy niferus na'r di - Saesneg ac oherwydd hynny dechreuwyd defnyddio'r Saesneg mewn gweithgareddau lleol (Davies, 1992, 477). Heb Gymry uniaith Gymraeg nid oedd y Gymraeg yn angenrheidiol, dewisol oedd y Gymraeg bellach ac felly roedd yn rhaid gwneud ymdrech i'w defnyddio.

2.3 Adroddiad 1927

Yn 1927 cyhoeddwyd adroddiad 'Y Gymraeg mewn Bywyd ac Addysg' gan bwyllgor a gomisiynwyd gan y Bwrdd Addysg. Gofynnwyd i'r pwyllgor edrych ar le'r Gymraeg yn y system addysg ac i gynghori ynglŷn â sut y gellid hyrwyddo ei hastudio (Davies, 1993, 61).

Roedd naws yr adroddiad yn gwbl wahanol i Adroddiad Addysg 1847 (Davies, 1993, 61). Ymgais i gywiro'r ddarpariaeth annigonol i ddysgu'r iaith oedd yma (Jones, 1997b, 333) yn hytrach na beirniadaeth anadeiladol fel a gaed 80 mlynedd ynghynt. Dyma ddywed Jac L Williams am adroddiad 1927:

> *This report made many important recommendations with a view to raising the status of the Welsh language in education at all levels.*
> (Williams, 1979, 99)

Nododd yr awduron fod y Gymraeg wedi cymryd camau breision mewn ysgolion er 1880au ond parhâi polisïau awdurdodau lleol i fod yn amhenodol a hyfforddiant athrawon ac adnoddau dysgu yn annigonol. Cynghorodd y pwyllgor y dylid gosod polisïau gwahanol ar gyfer ardaloedd ieithyddol gwahanol o Gymru. Dywedwyd hefyd y dylid annog defnyddio adnoddau helaeth er mwyn hyfforddi athrawon a pharatoi deunyddiau dysgu. Dangoswyd pryder arbennig am addysg plant teuluoedd Cymraeg mewn trefi mawr (Davies, 1993, 62).

Derbyniwyd yr argymhellion hyn gan ysgolion cynradd yn gyffredinol a daethpwyd i'w defnyddio fel cyfrwng dysgu rhai pynciau yn ychwanegol at y Gymraeg ei hun mewn ardaloedd Cymraeg (Williams, 1979, 99). Cafwyd datblygiad yn yr ardaloedd hyn oherwydd bod nifer o arolygwyr ysgolion y 1930au yn gefnogol i'r Gymraeg (Williams, 1979, 99). Ond, er hynny, amharod fu'r awdurdodau lleol i ymateb a gweithredu, yn rhannol oherwydd ofn y rhieni Cymraeg y byddai rhoi'r fath bwyslais ar y Gymraeg yn rhwystr i'w plant ddysgu Saesneg (Davies, 1992, 543). Erbyn y tridegau cydnabuwyd y Gymraeg fel prif gyfrwng dysgu yn ysgolion cynradd yr ardaloedd Cymraeg (Davies, 1992, 543).

Roedd awduron 'Y Gymraeg mewn Bywyd ac Addysg' hefyd yn poeni ynglŷn â dylanwad y cyfryngau ar yr iaith.

> *We regard the present policy of the British Broadcasting Corporation, as one of the most serious menaces to the life of the Welsh language.*
> (Dyfynnwyd yn Davies, 1993, 62)

2.4 Statws Gyfreithiol y Gymraeg

Yn dilyn lleihad yn y ganran o Gymry uniaith, doedd dim angen defnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd. Ers Deddf Uno 1536 defnyddiwyd y Gymraeg yn llysoedd Cymru ond dim ond rhai na allai siarad Saesneg oedd yn ei defnyddio. Ni chaniatawyd ei defnyddio fel arall. Hyd at dridegau'r 20fed ganrif gallai'r rhai a oedd o dan anfantais wrth siarad Saesneg ddefnyddio'r Gymraeg. Ond ceir enghreifftiau o rai a ddefnyddiai'r Gymraeg yn gorfod talu am gyfieithydd (Lewis, 1979, 196).

Yn dilyn cynnwrf a chyflwyno deiseb genedlaethol pasiwyd Deddf Llysoedd Cymreig 1942 a oedd yn rhoi'r hawl i unrhyw ddiffynnydd neu dyst a gredai ef ei hun y byddai o dan anfantais oherwydd mai Cymraeg oedd ei iaith naturiol, ddefnyddio'r Gymraeg (Lewis, 1979, 196-7). Rhoddwyd yr hawl iddynt gael cyfieithydd ar gost y llys (Lewis, 1979, 197). Er y camau cadarnhaol hyn, Saesneg oedd iaith swyddogol y gyfraith o hyd, cadwyd y cofnodion yn y Saesneg (Lewis, 1979, 197).

Yn niwedd y pumdegau a dechrau'r chwedegau gwelwyd newid. Yn 1964 pasiwyd Deddf Etholiadau a oedd yn caniatáu ffurflenni ethol Cymraeg. Er mai ychydig o Gymraeg a siaradwyd yn y Llysoedd Uwch roedd mwy o ddefnydd yn y Llysoedd Ynadon yn arbennig yn y gorllewin (Lewis, 1979, 197).

Cafodd protestiadau Cymdeithas yr Iaith ddylanwad ar safle'r Gymraeg yn y gyfraith. Yr achos amlycaf o hyn oedd eu protest yn erbyn gwysion uniaith Saesneg, un o'u protestiadau a oedd wedi ei hanelu'n uniongyrchol at y system gyfreithiol. Yn dilyn eu protestiadau, anfonodd y Swyddfa Gartref gylchlythyr yn awdurdodi gwysion Cymraeg. Defnyddio'r gyfraith er mwyn tynnu sylw at eu gweithrediadau a wnâi'r Gymdeithas fel arfer, er enghraifft, drwy beintio arwyddion a dringo mastiau teledu (Lewis, 1979, 198).

O ganlyniad i brotestiadau'r Gymdeithas eto mae'n debyg y sefydlwyd Pwyllgor Hughes Parry yn 1963 er mwyn egluro statws cyfreithiol yr iaith Gymraeg ac i ystyried a ddylid gwneud unrhyw ddiwygiadau. Adroddodd y pwyllgor yn 1965.

> *...there should be a clear, positive, legislative declaration of general application to the effect that any act, writing or thing done in Welsh in Wales should have the like force as if it had been done in English.*
> (dyfynnwyd yn Lewis, 1979, 198)

Yn dilyn argymhellion yr adroddiad pasiwyd Deddf 1967, fersiwn glastwraidd o'r argymhellion yn ôl John Davies (1992, 626). Dileodd y Ddeddf y cyfyngiadau ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd a oedd wedi eu cadw yn Neddf 1942. Bellach nid oedd yn rhaid i siaradwyr fod o dan anfantais ieithyddol er mwyn cael siarad Cymraeg.

Yn fwy diweddar, caed mwy a mwy o fersiynau Cymraeg o ffurflenni swyddogol. Yn 1972 cyhoeddwyd 'Termau Cyfraith / Legal Terms' gan Robyn Lewis. Dyma ddywed yr awdur yn (Lewis, 1979, 211)

...a civilised bilingual country such as Wales has the right to demand that its legal system should operate completely and fluently in both its languages.
(Lewis, 1979, 199)

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd statws y Gymraeg yn dibynnu ar ewyllys unigolion, erbyn diwedd y ganrif roedd ganddi statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg (Davies, 2000, 238).

Gellid ystyried bod ei safle wedi newid o fod yn un o amarch a dibyniaeth ar oddefiad anstatudol i fod yn un o fri yn seiliedig ar gyfreithlondeb statudol.
(Davies, 2000, 238)

2.5 Tynged yr Iaith a Sefydlu Cymdeithas yr Iaith

Nid dim llai na chwyldroadol yw adfer yr iaith Gymraeg yng Nghymru. Trwy ddulliau chwyldro yn unig y mae llwyddo.
(Lewis, 1972, 30)

Dyma'r sialens a osodwyd gan y cenedlaetholwr, y gwleidydd a'r llenor Saunders Lewis yn ei ddarlith radio 'Tynged yr Iaith' a draddodwyd ar 13 Chwefror 1962. Ymatebwyd i'r sialens gan griw o genedlaetholwyr ifainc a ddaeth at ei gilydd yn haf 1962 i sefydlu Cymdeithas yr Iaith (Davies, 1993, 17).

Rhagdybiodd Lewis yn ei ddarlith y byddai'r iaith Gymraeg yn marw fel iaith fyw tua dechrau'r unfed ganrif ar hugain pe na newidiai tueddiadau (Lewis, 1972, 7). Dadleuai mai'r unig obaith i barhad yr iaith oedd Cymreigio gweinyddiad llywodraeth leol a chanolog yn yr ardaloedd Cymraeg (Stephens, 1986, 592).

Eler ati o ddifri a heb anwadalu i'w gwneud hi'n amhosibl dwyn ymlaen fusnes llywodraeth leol na busnes llywodraeth ganol heb y Gymraeg.
(Lewis, 1972, 7)

Ar gyfer canghennau Plaid Cymru y bwriadwyd neges y ddarlith (Stephens, 1986, 592) ond canlyniad y ddarlith oedd sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a ddechreuodd

eu protestiadau ar Bont Trefechan, Aberystwyth ar 23 Chwefror 1963 (Stephens, 1986, 114). Torri'r gyfraith yn fwriadol er mwyn mynnu gwysion dwyieithog a wnaethant y diwrnod hwnnw ond roedd eu gweithrediadau yn amrywiol. Os derbyniai unigolion wysion uniaith Saesneg gwrthodent dalu'r dirwyon.

Un o lwyddiannau cyntaf y Gymdeithas oedd gweld cyhoeddi adroddiad 'Statws Cyfreithiol yr Iaith Gymraeg' yn 1965. Argymhellai safle cyfartal i'r ddwy iaith ym maes y gyfraith. Pasiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg yn 1967 a mabwysiadodd y Gymdeithas bolisi o anufudd-dod sifil di-drais er mwyn rhoi'r Ddeddf newydd ar brawf. Canlyniad hyn oedd fod nifer o'r aelodau wedi cael eu dirwyo a'u carcharu (Stephens, 1986, 114).

Am y tair blynedd ganlynol buont yn llythyru â'r awdurdodau lleol ac â chyrff y llywodraeth er enghraifft Swyddfa'r Post a'r Cofrestrydd Cyffredinol (Stephens, 1986, 114). roeddynt am weld trwyddedau ceir, tystysgrifau geni ac arwyddion ffyrdd yn Gymraeg (Davies, 1992, 625). Yn gysgod i weithgareddau'r mudiad symbylwyd nifer o ddatblygiadau eraill megis y byd pop Cymraeg, sefydlwyd siopau llyfrau, argraffdai, cwmnïau recordio a chymdeithasau tai (Davies, 1992, 626).

Gyda dechrau gweithgareddau'r Gymdeithas rhoddwyd rhywfaint o hunanlywodraeth o ran gweinyddiad i Gymru. Sefydlwyd y Swyddfa Gymreig yn 1964 gan y Llywodraeth Lafur a phenodwyd Ysgrifennydd Gwladol i Gymru a oedd â sedd yng nghabinet Prydain (Davies, 1993, 95-6). Bellach roedd modd trafod safle'r iaith o fewn Cymru (Davies, 1993, 96).

Erbyn y saithdegau prif faes ymgyrch Cymdeithas yr Iaith oedd teledu.

> *Byth oddi ar ddyfodiad teledu i Gymru, ddechrau'r pumdegau, roedd caredigion y Gymraeg yn ymwybodol o'r her a gynrychiolid ganddo.*
> (Davies, 1992, 626)

roedd nifer o'r aelodau yn barod i weithredu'n uniongyrchol yn erbyn eiddo awdurdodau darlledu gan beryglu cael eu herlyn a'u carcharu. Gobaith y Gymdeithas oedd gweld

sefydlu sianel deledu Gymraeg a chafwyd llwyddiant pan sefydlwyd S4C yn Nhachwedd 1982.

O tua 1968 ymlaen gwelwyd cynnydd yn agwedd milwriaethus y Gymdeithas, agwedd a ddaeth i'r amlwg yng nghyfnod arwisgo Tywysog Cymru yn 1969 ac yn y cyfnod y buwyd yn difrodi arwyddion ffyrdd Saesneg. Fodd bynnag, glynodd y gymdeithas wrth yr egwyddor o ymgyrchu di-drais a fabwysiadwyd fel rhan o bolisi'r gymdeithas er 1966 (Phillips, 2000a, 453).

O'r saithdegau ymlaen ehangwyd gweithgareddau'r Gymdeithas i ganolbwyntio fwyfwy ar wrthweithio grymoedd a oedd, yn eu barn hwy, yn niweidiol i gymunedau Cymraeg megis tai haf, asiantaethau tai a pholisïau cynllunio (Davies, 1993, 96).

Ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif cyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith 'Agenda ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymdeithas yr Iaith, 1998). Ceir her i'r Cynulliad yn y ddogfen hon:

> *O gael llywodraeth yng Nghymru sydd yn barod i fabwysiadu a gweithredu polisïau clir a phendant parthed creu dyfodol i'r Gymraeg gallai'r Gymraeg fwynhau dyfodol llwyddiannus gan felly gyfoethogi bywydau pobl a chymunedau Cymru i'r mileniwm nesaf.*
> (Cymdeithas yr Iaith, 1998, 10)

2.6 Mudiadau

Sefydlwyd nifer o fudiadau yn ystod yr ugeinfed ganrif sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd ac addysg. Mae'n debyg mai'r amlycaf o'r rhain yw Urdd Gobaith Cymru, mudiad i blant a phobl ifainc, a sefydlwyd yn 1922.

Trwy gyfrwng ei gylchgrawn 'Cymru'r Plant' gwahoddodd Ifan ab Owen Edwards ei ddarllenwyr i ymuno â mudiad newydd.

Beth wnawn ni, blant Cymru, sydd yn caru Cymru Fach, ein gwlad ein hunain? Rhaid i ni wneud rhywbeth am mai ni yw gobaith ein gwlad. Beth pe baem yn uno gyda'n gilydd i benderfynu y gwnawn bopeth a all helpu ein cenedl? Fe sefydlwn Urdd newydd, a cheisiwn gael pob Cymro a Chymraes o dan ddeunaw oed i ymuno â hi, a galwn ein hurdd yn 'URDD GOBAITH CYMRU FACH'.

(Isaac, 1972, 31)

Ymhlith rheolau'r mudiad newydd oedd y dylai pob aelod siarad Cymraeg â phob plentyn Cymreig, yn enwedig ag aelodau eraill. Roeddynt hefyd i ddarllen a phrynu llyfrau Cymraeg a chanu caneuon Cymraeg, chwarae bob amser yn y Gymraeg a pheidio â gwadu mai Cymry oeddynt, na bradychu eu gwlad ar unrhyw amgylchiad (Isaac, 1972, 31). Yn 1922 ymunodd 720 â'r mudiad, (Isaac, 1972, 31) a luniwyd ar ffurf byddin i achub Cymru gan roi teitlau milwrol i'r mwyaf brwdfrydig dros y mudiad.

Datblygodd y mudiad dros y blynyddoedd, lluniwyd adrannau o'r Urdd, cynhaliwyd gwersylloedd, y cyntaf ohonynt yn Awst 1928 (Isaac, 1972, 31). Bwriad y gwersyll cyntaf hwn oedd i fechgyn yr Urdd ddod i Lanuwchllyn am ddeng niwrnod

...i fyw gyda'i gilydd yn gefn ac yn ysbrydoliaeth i'r iaith Gymraeg ac i ddelfrydau Cymru.

(Cymru'r Plant, Medi 1927 dyfynnwyd yn Isaac, 1972, 43-53)

Daeth dwy fil i'r gwersyll cyntaf. Tyfodd y gwersylloedd a bellach mae gan y mudiad ddwy ganolfan breswyl sy'n denu 15000 o ieuenctid y flwyddyn. Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am y tro cyntaf yng Nghorwen yn haf 1929.

Crynhowyd Rheolau'r Urdd bellach yn dair egwyddor syml sef ffyddlondeb i Gymru, i Gyd-ddyn ac i Grist (Williams, 1997c, 57). Bellach mae gan yr Urdd tua 50,000 o aelodau, Cymry Cymraeg a dysgwyr. Eisteddfod yr Urdd yw gŵyl ieuenctid fwyaf Ewrop (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 48).

O'r dechreuad cynnar gyda chylchgrawn 'Cymru'r Plant' datblygodd yn un o fudiadau ieuenctid blaenllaw Ewrop a bellach cyhoeddir 3 chylchgrawn misol, 'Cip' i'r

Cymry iaith gyntaf, 'Bore Da' i ddysgwyr dan 11 oed a 'Iaw' ar gyfer dysgwyr hŷn (Williams, 1997c, 57).

> *Rhoes yr Urdd i Gymru fudiad ieuenctid Cymraeg a chyfarfodydd a gweithgareddau lle byddai siarad Cymraeg yn 'normal', yn wir yn fwy derbyniol na'r Saesneg.*
> (Jones, 1997b, 416)

Mudiad gwirfoddol arall sy'n hybu'r iaith Gymraeg yw Mudiad Ysgolion Meithrin. Sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin yn 1971 er mwyn darparu a hyrwyddo addysg feithrin trwy gyfrwng y Gymraeg. Bellach ceir hefyd rwydwaith o gylchoedd Ti a Fi ar gyfer plant llai a'u rhieni neu ofalwyr. Daw tua hanner y plant sy'n mynychu cylchoedd o gartrefi di-Gymraeg (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 47-8). Yn ôl Adroddiad blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin, 1976-7 dyma amcan y Mudiad:

> *Amcan Mudiad Ysgolion Meithrin yw rhoi cyfle i'r plentyn ifanc ddatblygu o ran ei gorff, ei ddeall, ei emosiwn ac yn gymdeithasol a hynny drwy amrywiol fathau o chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg.*
> (Jones, 1997b, 385)

Yn ôl Robert Owen Jones mae i Mudiad Ysgolion Meithrin le allweddol yn hanes adfywiad y Gymraeg yn ystod tri degawd olaf yr ugeinfed ganrif (Jones, 1997b, 383). Trafodir sefydlu a thwf Mudiad Ysgolion Meithrin ymhellach ym Mhennod 4.

Nid mudiadau er budd plant yn unig a sefydlwyd yn yr ugeinfed ganrif; mae mudiad 'Merched y Wawr' yn enghraifft arall o fudiad sy'n hybu'r Gymraeg. Sefydlwyd y mudiad i ferched yn 1967 yn y Parc ger y Bala oherwydd i Sefydliad y Merched wrthod caniatáu defnyddio'r Gymraeg yn swyddogol mewn cyfarfodydd yn y pentref. Tyfodd y mudiad a bellach mae canghennau ledled Cymru yn ogystal â chylchgrawn i'r mudiad 'Y Wawr' (Stephens, 1986, 400-1). Gweithreda'r mudiad yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg gan wneud gwaith gyda'r dysgwyr hefyd drwy gynnal cyrsiau Cymraeg i oedolion.

Ers canol yr 1980au daeth Cymdeithas y Dysgwyr i wneud llawer o'r gwaith o gysylltu dysgwyr a Chymry Cymraeg drwy drefnu cyfarfodydd cymdeithasol. Erbyn

1994 roedd gan y gymdeithas 60 cylch. Prif nod y gymdeithas yw rhoi cefnogaeth i ddysgwyr ymdoddi i rwydwaith gymdeithasol leol Gymraeg ei hiaith (Jones, 1997b, 396).

> *Yng nghyfarfodydd CYD cânt gyfle i dorri'r iâ, ennill hyder a dod i adnabod nifer o Gymry Cymraeg lleol. Rhydd hyn gyfle iddynt ymestyn eu hiaith drwy drafod amrywiaeth o bynciau yn Gymraeg â'u ffrindiau newydd. Pwrpas y gweithgareddau yw cyflwyno'r dysgwr yn raddol i fywyd Cymraeg ei ardal.*
> (Jones, 1997b, 396)

2.7 Deddf Iaith 1993 a Sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg

> *Un o'r digwyddiadau mwyaf allweddol yn hanes y Gymraeg dros yr ugain mlynedd diwethaf oedd pasio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a sefydlodd fod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.*
> (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 14)

Dyna ddisgrifiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg o'r ddeddf a'i creodd. Yn ogystal â sefydlu Bwrdd yr Iaith i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r ddeddf hefyd yn rhoi'r hawl llwyr i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith mewn llys (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 21).

Ond er hynny, nid yw'r Ddeddf yn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg, 'dilysrwydd cyfartal' yn unig sydd i'r iaith. Nid yw'r Gymraeg yn un o ieithoedd swyddogol y wladwriaeth (Jones, 1997b, 425).

Yn ôl nifer o ymgyrchwyr dros y Gymraeg nid oedd y ddeddf yn ddigon cryf. Galwodd Cymdeithas yr Iaith Ddeddf 1993 yn ddeddf wan ac maent yn parhau i ymgyrchu am Ddeddf Iaith gyflawn (Cymdeithas yr Iaith, 1997, 10).

> *The Act has been roundly criticized by many concerned with the language, and it is certainly something of a lowest common denominator aimed at avoiding contention.*
> (Aitchison a Carter, 1994, 113)

Mae Deddf Iaith 1993 yn datgan bod pob corff cyhoeddus sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru (neu sy'n gweithredu mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth gan gyrff cyhoeddus) i baratoi cynllun yn rhoi manylion o'r modd y byddant yn defnyddio'r Gymraeg. Ond, cynhwyswyd cymal yn nodi eu bod i wneud hyn cyhyd â'i fod yn addas o ran y sefyllfa ac yn rhesymol ymarferol. Mae'n sicrhau'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd barn, cyhyd ag y rhoddir rhybudd, ac yn gorchymyn y dylai pob ffurflen a chylchlythyr swyddogol fod yn Gymraeg. Ond, ni wnaeth y Ddeddf ymdrin â statws swyddogol y Gymraeg, ac ni wnaeth ystyried y defnydd o'r iaith gan gyrff preifat (Aitchison a Carter, 1994, 114).

Ariennir Bwrdd yr Iaith gan arian cyhoeddus, fe'i sefydlwyd yn Rhagfyr 1993 a hyd at 1999 roedd yn atebol i'r Swyddfa Gymreig. Bellach mae'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gwaith Bwrdd yr Iaith yn cynnwys cynnig cyngor a gwybodaeth i'r llywodraeth ganolog a'r cyhoedd a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn eu gwasanaethau. Maent hefyd yn gyfrifol am gadw golwg ar addysg a hyfforddiant Cymraeg ac am annog a chynorthwyo cwmnïau preifat a mudiadau gwirfoddol i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Y Bwrdd sy'n dosbarthu grantiau i hybu a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg ac maent yn datblygu nwyddau a gwasanaethau sy'n gwneud defnyddio'r Gymraeg yn haws (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 33).

Mae cyfran helaeth o arian Bwrdd yr Iaith yn cael ei roi yn nawdd a grantiau yn uniongyrchol i fudiadau sy'n gweithio er budd yr iaith Gymraeg; er enghraifft derbyniodd Urdd Gobaith Cymru grant o £268,981 yn y flwyddyn 1999-2000, a Mudiad Ysgolion Meithrin £557,626 (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 47-8).

> *...prif nod y Bwrdd yw ei gwneud hi'n haws i bawb ddefnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd ar fywyd, i fagu hyder pobl yn eu gallu i ddefnyddio'r iaith, i annog mwy o bobl i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd newydd, ac i drosglwyddo'r iaith i'w plant.*
>
> (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 33)

Yn Rhagfyr 1996 cyhoeddodd y Bwrdd 'Strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg'. Prif nod y strategaeth hon yw galluogi'r iaith i fod yn hunangynhaliol a diogel fel cyfrwng cyfathrebu yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn cred y Bwrdd fod angen cynyddu niferoedd siaradwyr y Gymraeg, darparu cyfleoedd iddynt ei defnyddio, newid arferion defnyddio'r iaith, annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd a ddarperir ac atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith y gymuned (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 39).

2.8 Y Cyfryngau a'r Wasg

2.8.1 Cyfryngau

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg derbyniwyd addysg ffurfiol trwy'r Saesneg; credid y byddai'r Gymraeg yn cael ei gwarchod yn y cartrefi. Ond trwy gyfrwng y radio i ddechrau a'r teledu yn ddiweddarach dechreuodd yr iaith Saesneg dreiddio i mewn i gadarnle'r iaith, yr aelwyd (Jones, 1997b, 408).

> *...roedd y Saesneg yn cael ei marchnata'n hynod o lwyddiannus ar aelwydydd Cymru ac roedd yn anorfod y byddai'n effeithio ar addasrwydd cyhoeddus y Gymraeg.*
> (Jones, 1997b, 410)

Dechreuwyd darlledu ychydig o Gymraeg yn haf 1937 pan grëwyd rhanbarth Cymru o'r BBC (Jones, 1997b, 410). Bu cynnydd yn nifer yr oriau darlledu Cymraeg a galwodd Janet Davies ddiwedd y pedwardegau a dechrau'r pumdegau yn oes aur darlledu yn Gymraeg (Davies, 1993, 89). Roedd Cynhyrchwyr y BBC yn uchelgeisiol gan gynnig cyfieithiadau o waith dramodwyr gorau'r byd a sgyrsiau llenyddol o safon i'w gwrandawyr; yn fwy arwyddocaol oedd y rhaglenni poblogaidd a ddenai gynulleidfa sylweddol (Davies, 1993, 89).

Yn 1953, yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Beveridge ar ddarlledu, cafodd Cymru ei Chyngor Darlledu ei hun. Pwysodd aelodau'r Cyngor yn gyson am gynyddu oriau darlledu yn Gymraeg (Davies, 1993, 89). Ond, fel y gwelwyd yn ddiweddarach gyda

dyfodiad teledu Cymraeg, roedd unrhyw gynnydd yn nifer oriau darlledu yn Gymraeg yn ennyn gelyniaeth y Cymry di-Gymraeg a dderbyniai'r gwasanaeth (Davies, 1993, 89). Atebwyd gofynion y ddwy garfan yn 1977 pan benderfynwyd rhannu'r gwasanaethau Cymraeg yn ddwy orsaf ar wahân. Crëwyd Radio Cymru a Radio Wales. Yn ogystal â rhoi gwasanaeth Cymreig i'r di-Gymraeg fe lwyddodd creu Radio Cymru i gyfrannu at hunaniaeth y Cymry Cymraeg wrth iddynt glywed tafodieithoedd ac acenion amrywiol y wlad (Hume, 1986, 333).

Yn 1971-2 dim ond 3.3% o raglenni radio oedd yn Gymraeg er bod 21% o boblogaeth Cymru yn Gymry Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 1971 (Jones, 1997b, 412). Newidiodd yr orsaf newydd hyn yn llwyr, darlledwyd 65 awr o Gymraeg yr wythnos ar Radio Cymru o'i gymharu â'r 15 awr a ddarlledwyd yn 1971-2 (Jones, 1997b, 412). Darperir rhychwant eang o raglenni ar Radio Cymru gan roi'r cyfle i'r gwrandawyr glywed trafodaeth yn Gymraeg ar bynciau yr oeddynt yn gyfarwydd â'u clywed yn Saesneg yn unig cyn 1978 (Jones, 1997b, 413).

> *Llwyddodd Radio Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth ieithyddol y Cymro a pheri iddo weld fod y Gymraeg yn gwbl addas ar gyfer trafod pynciau mor amrywiol ag economeg, gwleidyddiaeth ryngwladol, problemau cymdeithasol, iechyd, mabwysiadu, erthylu neu hilyddiaeth. Nid iaith barddoniaeth, crefydd a'r eisteddfod oedd y Gymraeg ond iaith pob agwedd ar fywyd.*
> (Jones, 1997b, 413)

Bellach mae Radio Cymru yn darlledu dros 120 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg. Yn ogystal â'r gwasanaeth cenedlaethol mae nifer o orsafoedd radio lleol yn darlledu'n ddwyieithog (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 13). Ers Rhagfyr 2002 mae Radio Cymru yn darlledu ugain awr y diwrnod o wasanaeth Cymraeg, o bump o'r gloch y bore hyd un o'r gloch y bore canlynol (http://www.bbc.co.uk/cymru/radio/erthylgau/02rhaglenni.shtml).

Mynegwyd pryder ynglŷn â dylanwad teledu ar yr iaith Gymraeg gan awduron yr adroddiad 'Y Gymraeg Mewn Bywyd ac Addysg' mor gynnar â 1927. Pryderai Saunders Lewis hefyd mai teledu fyddai prif lofrudd yr iaith Gymraeg (Stephens, 1979, 189).

Nid yr iaith Saesneg yn unig oedd yn bygwth dyfodol yr iaith ond y syniad o Brydeindod a drosglwyddwyd drwy gyfrwng y teledu i aelwydydd Cymru.

Ar ôl sefydlu'r Gymraeg fel iaith darlledu ar y radio ymddangosai yn naturiol y byddai rhaglenni teledu Cymraeg yn cael eu cynhyrchu wrth i'r cyfrwng ddod yn fwyfwy poblogaidd (Davies, 1993, 90). Yn 1960 roedd gan 60% o gartrefi Cymru deledu, cynyddodd hyn i 92% yn 1969 (Davies, 1993, 90). Sefydlwyd BBC Cymru yn 1964 gyda'r orfodaeth i ddechrau i gynhyrchu 12 awr yr wythnos, 6 ohonynt yn Gymraeg. Cyn hynny bu ymgais i sefydlu gorsaf deledu fasnachol ar gyfer gogledd a gorllewin Cymru gyda'r bwriad o ddarlledu nifer sylweddol o raglenni Cymraeg, ond daeth y cwmni, WWN Television neu Teledu Cymru, i ben ar ôl 10 mis. Cymerwyd y cwmni drosodd gan TWW a ddarlledai 5½ awr o Gymraeg yr wythnos, etifeddwyd yr cyfrifoldeb hwn gan Deledu Harlech pan ail ddosbarthwyd y trwyddedau yn 1968 (Davies, 1993, 90). Felly erbyn dechrau'r chwedegau darlledai'r BBC ac ITV tua 11½ awr o Gymraeg yr wythnos rhyngddynt (Davies, 1993, 90).

Darlledwyd nifer o'r rhaglenni Cymraeg ar amseroedd anghyfleus gan fod eu dangos ar oriau brig yn cythruddo rhai o'r gwylwyr di-Gymraeg (Davies, 1992, 627).

> *Felly, os oedd prinder rhaglenni yn eu hiaith yn dat-Gymreigio'r Cymry Cymraeg, yr oedd y ffaith eu bod ar gael o gwbl yn Seisnigio'r Cymry Saesneg.*
> (Davies, 1992, 627)

Cynyddodd y galw am sianel ar wahân trwy gyfrwng y Gymraeg (Davies, 1992, 627).

Fel a welwyd gyda datblygiad darlledu yn Gymraeg ar y radio roedd y sefyllfa yn anghyfartal iawn, er bod 21% o'r boblogaeth yn Gymry Cymraeg yn 1971, 6.2% yn unig o raglenni teledu Cymru oedd yn Gymraeg (Jones, 1997b, 412). Yn Adroddiad Crawford yn 1974 dywedwyd y dylid dileu'r sefyllfa anghyfartal hon drwy gael sianel Gymraeg (Jones, 1997b, 412). Ni fu unrhyw ddatblygiad hyd 1979 pan dorrodd y Ceidwadwyr eu gair a dweud na fyddent yn sefydlu sianel Gymraeg ond y byddent yn hytrach yn cynyddu'r ddarpariaeth bresennol (Davies, 1993, 93). Dilynwyd y cyhoeddiad hwn gan

ymgyrch a charchariad ar ran aelodau Cymdeithas yr Iaith a chenedlaetholwyr hŷn. Erbyn 1980 roedd dros ddwy fil o aelodau Plaid Cymru wedi dweud y byddent yn barod i wynebu carchar yn hytrach na thalu eu trwyddedau teledu. Daeth yr hwb cryfaf i'r ymgyrch yng ngwanwyn 1980 pan gyhoeddodd Gwynfor Evans y byddai'n ymprydio hyd farwolaeth pe na fyddai'r llywodraeth yn ildio a sefydlu sianel Gymraeg. Bwriadai gychwyn ymprydio ar 6 Hydref 1980; ildiodd y Llywodraeth ar 11 Medi 1980. Daeth Sianel Pedwar Cymru i fodolaeth ar 1 Tachwedd 1982 (Davies, 1992, 655).

Ond nid oedd yr ymgyrch mor syml â hynny; roedd nifer o Gymry di-Gymraeg yn amau'r angen am raglenni Cymraeg o gwbl yn arbennig o ystyried cyn lleied oedd yn uniaith Gymraeg. Ar y llaw arall roedd nifer o Gymry Cymraeg, Jac L. Williams, yr amlycaf ohonynt, a gredai y byddai nifer fawr o Gymry Cymraeg nad oeddynt yn Gymry brwdfrydig ond a oedd cynt yn digwydd taro ar raglenni Cymraeg ar sianeli eraill, yn cael eu colli pe canolwyd y rhaglenni Cymraeg ar un sianel (Davies, 1993, 92).

Beth bynnag, bu sefydlu S4C yn llwyddiant ar sawl cyfrif. Yn ogystal â chynhyrchu rhaglenni newyddion, plant a chwaraeon o safon, rhoi llwyfan i ddramâu, ffilmiau a rhaglenni i ddysgwyr llwyddodd i roi proffil deniadol a chadarnhaol o'r iaith ymysg y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg (Jones, 1997b, 414). Drwy gyfrwng S4C caiff y Cymro Cymraeg persbectif y Cymro ar ddigwyddiadau byd-eang (Hume, 1986, 335).

> *...the power of television as a medium makes it a priceless prime-time asset in the preservation of the language. The necessity for regular news bulletins and current affairs programmes in Welsh keeps the language virile and up-to-date.*
> (Jones, 1994, 320)

Gellir dadlau bod darlledu hefyd yn cyfrannu at gryfhau undod cenedl (Smith, 2000, 328).

Bellach darlledir tua 30 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg ar S4C a 12 awr yn ychwanegol ar y sianel newydd S4C Digidol a lansiwyd yn Nhachwedd 1998 ac sydd hefyd yn darlledu y tu hwnt i Gymru (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 13).

Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer a gyflogir yn y cyfryngau Cymraeg, ffaith sy'n arwyddocaol o ystyried fod diweithdra ar gynnydd mewn sectorau eraill o'r economi Cymreig (Davies, 1993, 93-4).

2.8.2 Y Wasg

Yn ystod yr ugeinfed ganrif bu lleihad mewn darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg wrth i nifer gynyddol ddewis eu hail iaith, a'r iaith y'u haddysgwyd ynddi, fel iaith ysgrifenedig (Jones, 1997b, 397). Daethpwyd i gysylltu darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg â chapelwyr a phobl broffesiynol, nid oedd dyfodol y Wasg Gymraeg yn edrych yn sicr. Saesneg oedd y papurau dyddiol ac roedd y newyddion yn yr wythnosolion Cymraeg yn ail-law. (Jones, 1997b, 397).

Yn 1951 cyhoeddwyd Adroddiad A. W. Ready o'r Swyddfa Gartref ar gyflwr cyhoeddi yn y Gymraeg (Jones, 1997b, 398). Darlun anobeithiol oedd yn yr Adroddiad ond sbardunodd yr Adroddiad sefydlu Pwyllgor Llyfrau Cymraeg o dan ofal y Cydbwyllgor Addysg (Jones, 1997b, 399).

Y perygl mwyaf yn ôl Robert Owen Jones oedd fod y famiaith yn cael ei chyfyngu i'r iaith lafar a'r ail iaith yn dod yn brif iaith. Dangosodd Cyfrifiadau 1971 ac 1981 fod yr erydiad yn yr ardaloedd â chanran isel o siaradwyr Cymraeg llythrennog wedi bod yn amlycach nag yn yr ardaloedd â chanran uwch o lythrennedd (Jones, 1997b, 399).

Mae gan lythrennedd mewn iaith ac ymarfer cyson o'r nodwedd honno le creiddiol ym mhrosesau cadwraeth ac adfer iaith. Os yw iaith leiafrifol i ffynnu, fe'i hystyrir yn bwysig ei bod yn gyfrwng ysgrifenedig a llafar (Jones, 1997b, 399).

Yn 1954 dechreuwyd cynllun a fyddai'n sicrhau cyflenwad o lyfrau i ysgolion. Sefydlwyd rhwydwaith o gymdeithasau llyfrau Cymraeg, er enghraifft y Clwb Llyfrau, er mwyn hybu darllen yn Gymraeg ac er mwyn creu marchnad ehangach i lyfrau Cymraeg

newydd. Datblygodd y mentrau hyn a sefydlwyd y Cyngor Llyfrau Cymraeg yn 1961 (Jones, 1997b, 399).

Fel gyda theledu Cymraeg bu'n rhaid wrth gefnogaeth ariannol gan y llywodraeth er mwyn gallu cyhoeddi llyfrau Cymraeg. Rhwng 1981 ac 1986 cefnogwyd 546 o lyfrau gan y Cyngor Llyfrau a 44 gan Gyngor y Celfyddydau rhwng 1982 a 1987 (Jones, 1997b, 399). O ddiwedd y chwedegau ymlaen derbyniodd y Cydbwyllgor Addysg y cyfrifoldeb am gynhyrchu llyfrau darllen i blant ysgol. Er mwyn sicrhau gwerthiant ymrwymai'r awdurdodau addysg lleol i brynu o leiaf 1,300 copi. Sicrhâi hyn fod y llyfrau yn cyrraedd eu darllenwyr (Jones, 1997b, 400).

Symudodd y pwyslais o lyfrau i blant i rai i bobl ifainc, dyma'r cyfnod y mae perygl eu colli i'r byd cyhoeddi Saesneg (Jones, 1997b, 401). Yn ystod y saithdegau gwelwyd cynnydd yn nifer y cyhoeddiadau Cymraeg o 199 yn 1972 i 416 erbyn 1982. Cynnyrch y cyfnod oedd 'Clwb Sbondonics', cynllun marchnata llyfrau i blant (Jones, 1997b, 402).

Bu cynnydd cyson yng nghanran y llyfrau plant a gyhoeddir. Erbyn 1994 roedd 61.7% o'r farchnad yn llyfrau i blant (Jones, 1997b, 404).

Maes arall llwyddiannus o fewn y Wasg Gymraeg yw'r papurau bro. Bellach mae tua 50 o bapurau bro ar hyd a lled Cymru (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 13). Gwelwyd twf anhygoel ymysg y papurau gwirfoddol hyn ers dechrau'r saithdegau (Jones, 1997b, 404). Yn yr un cyfnod yr oedd gwerthiant yr wythnosolion Cymraeg yn isel ac ers y chwedegau prin oedd y rhai na chynhwysai eitemau Saesneg. Caed newyddion cwbl leol yn y papurau bro misol, ni welwyd hyn mewn unrhyw bapur wythnosol (Jones, 1997b, 405).

> *The new papurau bro (district papers) have rescued the language from thec lutches of the literateur and returned it to the manual labourer in the council house up the street.*
> (Betts, 1976, 132)

Bellach ceir datblygiadau newydd ym myd newyddiaduraeth Gymraeg. Am y tro cyntaf ceir papur dyddiol Cymraeg, ond nid ar ffurf traddodiadol, ond ar y rhyngrwyd. Ceir y newyddion diweddaraf ac erthyglau amrywiol ar dudalen BBC Cymru'r Byd (www.bbc.co.uk/cymru). Symudodd yr iaith Gymraeg yn ei blaen gyda thechnoleg, ceir CD-ROMau Cymraeg yn ogystal â'r deunyddiau cyfathrebu arferol (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 13).

2.9 Cymraeg Byw

Yn ystod y chwedegau mewn ymateb i ddarlith a draddododd Syr Ifor Williams, fe aed ati i geisio cytuno ar ffurf ar yr iaith a fyddai'n fodel i Gymraeg llafar safonol. Bwriadwyd y model ar gyfer y Cymro Cymraeg a'r dysgwr (Stephens, 1986, 116).

Gwnaed ymchwil yng Nghyfadran Addysg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth ac yng Nghyfadran Addysg Coleg y Brifysgol Abertawe sefydlwyd pwyllgor a gyhoeddodd ei argymhellion o dan y teitl 'Cymraeg Byw' yn 1964 (Stephens, 1986 116).

Yn ystod y chwedegau gwelwyd cynnydd yn nifer yr oedolion a oedd yn awyddus i ddysgu Cymraeg. Mae'n debyg mai llwyddiant addysg Gymraeg a thwf y Mudiad Ysgolion Meithrin oedd y tu cefn i'r cynnydd (Jones, 1997b, 392). Ond tueddai'r dosbarthiadau nos i ddysgu Cymraeg eithaf llenyddol i'r dysgwyr hyn, Cymraeg gwahanol iawn i'r hyn a glywyd ar y stryd. Ymateb i hyn oedd yr ymgais i greu 'Cymraeg Byw'. Ni chafodd yr iaith ysgrifenedig hon, a oedd yn nes at yr iaith lafar, dderbyniad gan bawb (Davies, 1993, 82). Er hynny fe'i croesawyd gan nifer o'r rhai a oedd yn gyfrifol am ddysgu Cymraeg i Oedolion. Dadleuai eraill dros aros gyda'r iaith lenyddol ac eraill dros ddysgu tafodieithoedd (Stephens, 1986, 116).

Defnyddiwyd Cymraeg Byw mewn rhaglenni i blant iaith gyntaf gan y Bwrdd Darlledu a chan yr Urdd yn 'Cymru'r Plant'.

Fe fu bwlch rhwng yr iaith lenyddol a'r iaith lafar ers canrifoedd, ond caed drwgdeimlad yn erbyn Cymraeg Byw wrth iddi geisio disodli'r iaith lenyddol.

2.10 Mentrau Iaith

> *Mudiadau lleol yw Mentrau Iaith, sy'n rhoi cymorth i gymunedau i gynyddu ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae Menter Iaith yn gweithio ar draws un sir fel arfer, ac yn adlewyrchu awydd pobl leol i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith. Bydd y Mentrau yn rhoi cymorth a chyngor i unigolion, mudiadau a busnesau, ac yn cynnal gweithgareddau er mwyn codi proffil yr iaith.*
> (http://www.mentrau-iaith.com/index.php?page_uid=777587db&lang=1)

Un o'r datblygiadau diweddaraf yn hanes yr iaith Gymraeg yw'r Mentrau Iaith. Mudiadau sirol yn hybu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned yw'r mentrau iaith, ac maent yn ddatblygiad newydd ym maes cynllunio ieithyddol (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 48). Sefydlwyd y fenter gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn Ionawr 1991 yn dilyn y cyffro ieithyddol a fu oherwydd ymweliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â'r ardal yn haf 1989 (Campbell, 1997, 59). Bellach ceir 22 menter iaith yng Nghymru. Derbyniodd y mentrau grant o £714,423 gan Fwrdd yr Iaith ar gyfer y flwyddyn 2002-03, cefnogir y mentrau'n ariannol gan awdurdodau lleol a ffynonellau eraill yn ogystal â'r grant craidd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/html/partner/s4_core-c.html).

Ariannwyd Menter Cwm Gwendraeth ar y cychwyn gan y Swyddfa Gymreig gyda chefnogaeth Bwrdd Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg, ond bellach Bwrdd yr Iaith sy'n gyfrifol am eu hariannu (Campbell, 1997, 59). Mae'r mentrau unigol hefyd yn cael nawdd gan eu hawdurdod lleol ac o ffynonellau eraill (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 50).

Yn ôl Cefin Campbell, nod y fenter gyntaf oedd creu patrwm o gynllunio ieithyddol a oedd yn ateb gofynion un ardal ddaearyddol arbennig ar sail ymchwil a dealltwriaeth o batrymau iaith lleol a thechnegau hyrwyddo (Campbell, 1997, 59). Y bwriad oedd y byddai ardaloedd eraill o Gymru yn mabwysiadu'r arferion llwyddiannus ac yn sefydlu eu mentrau eu hunain.

Rhoddir pwyslais gan strategaeth y mentrau iaith ar gynyddu'r defnydd o'r iaith ymysg plant a phobl ifainc (Campbell, 1997, 60).

> *Codi proffil yr iaith ymhlith ieuenctid a'i gwneud yn iaith fyw a ffasiynol, a cheisio dileu unrhyw agweddau negyddol tuag at y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu oedd y dasg flaenaf.*
> (Campbell, 1997, 60)

Trefnir Clybiau Hwyr ar gyfer plant oed ysgol gynradd ac uwchradd gan rai mentrau iaith ac mewn ardal arall sefydlwyd clybiau bore Sadwrn er mwyn hybu darllen yn y Gymraeg (Campbell, 1997, 61).

Cynigia'r mentrau wasanaethau eraill i'r gymdeithas leol ar wahân i hybu'r iaith ymysg yr ifainc, cynigia gyngor i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg, sicrha'r cyfleoedd i gymdeithasu drwy gyfrwng yr iaith, datblygir prosiectau i dwristiaid, mewnfudwyr ac i ddysgwyr a darparu gwybodaeth ac adnoddau, er enghraifft offer cyfieithu neu wybodaeth am wersi Cymraeg lleol (Bwrdd yr Iaith, 1999a, 50). Yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg, prif gryfder y Mentrau Iaith yw eu potensial i godi proffil y Gymraeg yn lleol, a hybu a hwyluso ei defnydd drwy ysgogi cynnal gweithgareddau newydd a thrwy gydgysylltu gweithgareddau (www.bwrdd-yr-iaith-org.uk/html/partner/s4_core-c.html).

> *Nid oes amheuaeth nad oes gan fentrau iaith rôl bwysig i'w chwarae yn nyfodol yr iaith o safbwynt ei hybu ar lefel gymunedol a dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad yn ei chylch.*
> (Campbell, 1997, 62)

Ym marn Bwrdd yr Iaith mae'r Mentrau Iaith yn cynrychioli datblygiad cyffrous a diweddar ym maes cynllunio ieithyddol. Eu nod yw hybu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

2.11 Cynllun Twf

Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 1991 nad yw nifer o deuluoedd yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. O ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 1991 gellid gweld bod gan 22.8% o deuluoedd y potensial i drosglwyddo'r iaith i'w plant, gan fod o leiaf un rhiant yn medru'r iaith. Dim ond 16.5% o'r teuluoedd hynny sy'n defnyddio'r iaith gyda'u plant. Felly, nid yw un o bob pedwar teulu a allai drosglwyddo'r iaith yn gwneud hynny (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/welsh_language.php?cID=92&xID=158). Oherwydd y darganfyddiadau hyn sefydlwyd y cynllun Twf sef cynllun trosglwyddo iaith yn y teulu, gan Fwrdd yr Iaith ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r cynllun Twf yn rhannu gwybodaeth i rieni a darpar rieni am fanteision magu plant yn ddwyieithog. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n arbennig ar deuluoedd cymysg eu hiaith. Bwriedir ehangu'r cynllun i bob rhan o Gymru erbyn diwedd 2003. Ar hyn o bryd mae gan y cynllun naw swyddog maes rhan-amser sy'n cydweithio gyda ymwelwyr iechyd a bydwragedd ynghyd â mudiadau a mentrau sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/welsh_language.php?cID=92&xID=158).

Oherwydd cydnabyddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru o bwysigrwydd y mentrau newydd hyn, rhoddwyd £104,000 y flwyddyn i'r prosiect hyd at 2004 (www.cymru.gov.uk datganiad Jenny Randerson 8/8/02). Yn nghynllun gweithredu'r Cynulliad Cenedlaethol 'Iaith Pawb' disgrifiwyd cynllun Twf fel prosiect arloesol llwyddiannus. Rhoddir pwysigrwydd i drosglwyddo iaith o fewn teuluoedd yn y ddogfen 'Iaith Pawb' a nodir bod trosglwyddo'r iaith yn y teulu yn un o elfennau allweddol strategaeth iaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 41).

2.12 Ystadegau'r Ugeinfed Ganrif

Fel y gwelwyd eisoes bu lleihad yng nghanran y rhai a siaradai Gymraeg yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Parhaodd y sefyllfa trwy'r rhan fwyaf o'r ganrif. Ar ôl 1911 gwelwyd tuedd o ddirywiad parhaol o ran niferoedd a chanran siaradwyr Cymraeg (Aitchison a Carter, 1994). Yn ystod tri degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif lleihaodd canran siaradwyr Cymraeg o 49.9% i 36.8% (Jones, 1997b, 343). Awgrymwyd mai cefnu bwriadol ar y Gymraeg oedd y rheswm dros hyn gan rai a fagwyd yn ddwyieithog ond a ddewisodd Saesneg fel eu prif iaith a'r iaith i'w throsglwyddo i'w plant. Yn yr ardaloedd ieithyddol cymysg lle gwelid hyn roedd dirywiad pendant i'w weld rhwng canran yr henoed a siaradai Gymraeg a'r canran o ieuenctid a wnâi (Jones, 1997b, 343).

Yn ôl Cyfrifiad 1991 roedd 508,098 yng Nghymru yn siarad Cymraeg, 18.7% o'r boblogaeth. Ganrif ynghynt roedd 54.4% o'r boblogaeth yn ei siarad. Pa ffactorau a arweiniodd at y dirywiad hwn, a pha bryd y bu'r dirywiad hwn ar ei gyflymaf? Yn ôl Gwyn A. Williams gwelwyd cwymp sylweddol yn y canran yn union wedi'r Ail Ryfel Byd a chwymp arall arwyddocaol yn y chwedegau, pan gwympodd y canran i'r lefel trychinebus o 20% (Williams, 1985, 245). Y rheswm dros y cwymp yn y tridegau yn ei farn ef oedd y colli gweithwyr, y *'brain drain'*, a fu o Gymru. Cytuna Aitchison a Carter â'r ddadl hon (Aitchison a Carter, 1999, 169) gan ychwanegu diboblogi gwledig a dirywiad yn statws yr iaith fel ffactorau eraill. Felly, colli Cymry Cymraeg yn hytrach na mewnfudo fel a welwyd ar ddechrau'r ganrif oedd y broblem (Williams, 1985, 246). Oherwydd datblygiadau teithio a thechnoleg roedd y Gymraeg bellach yn gorfod cystadlu â iaith gyfoethog fyd eang (Williams, 1985, 246). Cred Harold Carter (Carter, 1990, 157) fod y ddau Ryfel Byd yn gyfnodau allweddol wrth ystyried y dirywiad, yn y cyfnodau hyn roedd symudoledd ar gynnydd. Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf hefyd yn cyd-daro â chyfnod anterth y meysydd glo pan welwyd y mewnlifiad cryfaf o bobl o'r tu allan i Gymru yn hytrach na phobl o gefn gwlad yn symud i'r ardaloedd diwydiannol. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd roedd yr agwedd gyffredinol tuag at yr iaith yn negyddol (Carter, 1990, 157).

Datblygodd mewnfudo yn broblem a bygythiad enfawr i gymunedau Cymraeg yn ystod saithdegau ac wythdegau'r ugeinfed ganrif. Gwelir cysylltiad rhwng mewnfudo a gostyngiad yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg yng nghyfrifiadau diwedd y ganrif drwy

gymharu'r gostyngiad yn nifer siaradwyr â'r nifer a anwyd yng Nghymru (Carter, 1990, 170). Yn ystod y saithdegau datblygodd y ffenomenon o gael tai haf neu ail gartrefi yng nghefn gwlad Cymru. roedd y diboblogi gwledig wedi gadael nifer helaeth o dai gwag rhad (Carter, 1990, 171). Er i'r preswylwyr penwythnos a'r gwyliau gael dylanwad ar y cymunedau Cymraeg, a gwthio prisiau tai o gyrraedd nifer o drigolion lleol, y mewnfudwyr parhaol a gafodd yr effaith parhaol yn arbennig felly o safbwynt addysg (Carter, 1990, 171). Yn yr wythdegau gwelwyd math arall o fewnfudwyr, y rhai a oedd am 'wrth-drefoli' ac encilio i'r wlad. Pobl oedd y rhain a oedd wedi adweithio yn erbyn bywyd trefol materol ac yn chwilio am loches yn yr ardaloedd gwledig anghysbell, ardaloedd lle roedd y Gymraeg yn draddodiadol wedi cael lloches. Deuai nifer o'r rhain i Gymru i ymddeol ond nid pobl hŷn oeddynt i gyd (Carter, 1990, 171).

> *Am y tro cyntaf mewn can mlynedd y mae Cymru wledig yn dangos cynnydd yn ei phoblogaeth, a hynny, nid trwy gynnydd naturiol, ond yn sgil mewnfudo.*
> (Carter, 1990, 172)

Amcangyfrifir fod tua 500,000 o fewnfudwyr y flwyddyn wedi symud i Gymru ym mlynyddoedd canol yr wythdegau. Ond gwelwyd nifer fawr yn symud allan yr un pryd, yn anffodus pobl ifainc oedd canran sylweddol ohonynt (Aitchison a Carter, 2000a, 72).

> *It was less the speed of the immediate decline than the multiplying symptoms of an acceleration which drove many desperate.*
> (Williams, 1985, 175)

Ond beth oedd y ffactorau hyn? Gwelwyd eisoes fod ymfudo a mewnfudo yn gallu cael effaith andwyol ar yr iaith, ond roedd ffactorau eraill. Noda Bwrdd yr Iaith Gymraeg y rhesymau hyn am y cwymp a fu yng nghanran a niferoedd y siaradwyr Cymraeg,

-patrymau ymfudo o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol i chwilio am waith.
-mewnfudiad siaradwyr Saesneg i ardaloedd gwledig.
-mwy a mwy o gyfryngau newyddion ac adloniant drwy gyfrwng y Saesneg.
-datblygiad cymdeithas sy'n gyffredinol yn fwy seciwlar, yn arwain at leihad dylanwad y capeli, a fu'n ganolbwynt cymaint o weithgareddau Cymraeg traddodiadol.
(Bwrdd yr Iaith, 1999a, 9)

Rhesymau tebyg a roir gan Aitchison a Carter, dau sydd wedi gwneud astudiaeth o ganlyniadau Cyfrifiadau'r ugeinfed ganrif o safbwynt sefyllfa'r iaith Gymraeg.

Rural depopulation and diminishing employment opportunities (especially during the inter-war period, and in the heavy industrial regions of South Wales), and a continuing loss of status and use undermined the resilience of the language during the first half of the century.
(Aitchison a Carter, 1999, 169)

Gwelwyd nifer o ffactorau cadarnhaol yng Nghyfrifiad 1991 a bu darogan gan gymdeithasegwyr iaith y bydd Cyfrifiad 2001 hefyd yn dangos agweddau cadarnhaol ac y dylai ddangos cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg am y tro cyntaf (Aitchison a Carter, 1993, 3). Gwelir y gwelliant er enghraifft yn y cynnydd a fu yn y nifer o bobl ifainc sy'n gallu siarad Cymraeg yn dilyn llwyddiant addysg Gymraeg ar bob lefel. Gwelir dylanwad y llwyddiant hwn ar ei gryfaf yn yr ardaloedd trefol yn arbennig yn Ne Morgannwg ac ardaloedd eraill tebyg a oedd wedi hen Seisnigo (Aitchison a Carter, 1993, 3). Ond tuedd wahanol a welir yn y Fro Gymraeg draddodiadol, ardaloedd â phoblogaeth llai dwys. Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar yr iaith erbyn hyn, megis ymfudo i gefn gwlad a'r cyfryngau, yn wahanol iawn i'r rhai dylanwadol cyn y chwedegau. Nid ydynt yn gyfyngedig i ffiniau traddodiadol y Gymraeg. Gall y cyfryngau a mewnfudo ac allfudo effeithio ar unrhyw ardal yng Nghymru, boed ar y ffin â Lloegr ai peidio (Carter, 1990, 172). Mae'r grymoedd newydd a drafodwyd wedi chwalu'r Fro Gymraeg a chreu ynysoedd ar wahân yn hytrach nag un ardal unedig (Carter, 1990, 174).

It can now be said that Y Fro Gymraeg has all but gone – the traditional Heartland, the reservoir of the language has been very considerably weakened.
(Aitchison a Carter, 1993, 5)

Yn 1901 roedd trothwy o 90% i'r Fro Gymraeg ond erbyn 1961 ar gyfer yr un ardal roedd y canran wedi gostwng i 65% ac yn 1981 i 60% a 50% erbyn 1991 (Aitchison a Carter, 1999, 169).

> *Un wedd dywyll yn ystadegau cyfrifiad 1991 yw fod dwysedd siaradwyr y Gymraeg yn yr ardaloedd traddodiadol Gymraeg yn lleihau....mae perygl i'r Fro Gymraeg ddod yn ardaloedd cymysg yn ieithyddol.*
> (Jones, 1997b, 433)

Yn ôl Robert Owen Jones (Jones, 1997b, 434) ac eraill, ni all iaith barhau heb fod ganddi diriogaeth lle defnyddir hi fel prif gyfrwng cyfathrebu.

Awgryma Aitchison a Carter fod Cyfrifiad 1991 yn ddiwedd un cyfnod ac yn ddechrau un newydd. Er bod y Fro Gymraeg yn dirywio mae'r iaith yn cryfhau ymysg ieuenctid mewn ardaloedd a oedd cynt wedi Seisnigo (Aitchison a Carter, 1993, 9).

> *While the overwhelming conclusion is that of a seemingly irretrievable decline in the heartland, other more positive tendencies are discernible within the census data.*
> (Aitchison a Carter, 1999, 171)

Rhwng 1981 ac 1991 cynyddodd nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 3 – 15 oed ym mhob sir ac eithrio Gwynedd (Aitchison a Carter, 1993, 5). Ond yn amlwg mae'n rhaid i'r genhedlaeth ifanc hon o Gymry Cymraeg barhau i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i fywyd ysgol a throsglwyddo'r iaith i'w plant hwy er mwyn i'r dechrau newydd fod yn realiti. Rhaid i'r amgylchedd fod yn fwy cefnogol er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid i statws cyhoeddus yr iaith fod yn uchel a chyfleoedd gwaith a phatrymau mudo yn ffafriol (Aitchison a Carter, 1993, 9).

Dadleua Jenkins a Williams mai dim ond cynllunio doeth a phell weledol a all sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu normal mewn sefyllfaoedd amrywiol (Jenkins a Williams, 2000, 25).

2.13 Statws yr Iaith

Fel y gwelwyd eisoes nid oes gan y Gymraeg statws swyddogol, ond mewn cymhariaeth â nifer o ieithoedd lleiafrifol eraill, hyd yn oed rhai swyddogol, mae'r Gymraeg mewn sefyllfa gryfach ac mae ganddi statws uchel. Nid dyma'r sefyllfa erioed.

> *Oherwydd y pwyslais eithafol a roddwyd ar y Saesneg yn ystod y ganrif ddiwethaf, a chan na fu'r Gymraeg yn iaith swyddogol ym myd y gyfraith, gweinyddiaeth na'r byd llywodraethol swyddogol oddi ar y Deddfau Uno, daeth y Cymro i dderbyn safle israddol y Gymraeg.*
> (Jones, 1997b, 418)

I raddau gwelwyd y Cymro yn edrych ar ei iaith ei hun fel iaith israddol a chyfyng ei defnydd. Ond newidiodd hyn gyda'r datblygiadau a fu ym myd addysg yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Er hynny, er mwyn codi statws yr iaith ymhellach, rhaid i'w siaradwyr fod yn ffyddiog y gallant (yn gyfreithiol) ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw sefyllfa (Jones, 1997b, 418).

Bu brwydro parhaol er y pumdegau i wella statws cyhoeddus y Gymraeg. Gwelwyd protestiadau gan unigolion a wrthodai dalu trethi heb yn gyntaf gael cais dwyieithog. Gyda dyfodiad Cymdeithas yr Iaith tynnwyd sylw'r cyhoedd at statws israddol y Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus (Jones, 1997b, 419). Ond er i'r llywodraeth basio Deddf yr Iaith Gymraeg yn 1967 ni welwyd codi statws yr iaith. Hyd yn oed os oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael roedd yn rhaid gofyn amdano (Jones, 1997b, 420). Ymgyrchodd Cymdeithas yr Iaith am ddogfennau swyddogol dwyieithog a gohebiaeth ddwyieithog gan gwmnïau cyhoeddus. O ganlyniad i'r protestio hwn erbyn canol y saithdegau roedd lle'r Gymraeg yn amlycach mewn bywyd cyhoeddus (Jones, 1997b, 420).

Parhaodd yr ymgyrchu yn yr wythdegau, galwyd am Ddeddf Iaith newydd ac am statws cyfartal cyfreithiol ac ymarferol i'r iaith. Ymateb y llywodraeth oedd creu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a fyddai, ymhlith dyletswyddau eraill, yn gyfrifol am hybu'r defnydd o'r iaith ymhlith cyrff preifat a chyhoeddus (Jones, 1997b, 422).

Yn 1993 caed Deddf Iaith arall, ond fel y trafodwyd eisoes, er ei bod yn rhoi 'dilysrwydd cyfartal' i'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru, nid oes gan yr iaith statws cyfartal ac nid yw'n iaith swyddogol (Jones, 1997b, 425).

Er nad oes ganddi statws swyddogol mae statws y Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus wedi gwella yn ystod diwedd yr ugeinfed ganrif. Bellach mae nifer o gwmnïau preifat megis banciau, archfarchnadoedd a siopau yn defnyddio'r Gymraeg ar arwyddion ac mewn gohebiaeth. Ond nid oes gorfodaeth gyfreithlon iddynt wneud hynny.

Yn 1995 cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith ganlyniad adroddiad ymchwil ar 'Agweddau'r Cyhoedd tuag at yr Iaith Gymraeg' (Jones, 1997b, 428). Ar y cyfan roedd yr adroddiad yn un ffafriol o ran statws cyhoeddus y Gymraeg. 23% o'r rhai a holwyd oedd yn siarad Cymraeg (18% yn rhugl), ond roedd 71% yn dangos cefnogaeth i ddefnydd eang o'r iaith a 57% yn awyddus i weld ehangu ar ei defnydd. Croesawai 83% fwy o ddefnydd o'r iaith gan gwmnïau cyhoeddus a chefnogai 82% arwyddion dwyieithog. Gwelai 77% ei bod yn fanteisiol i fod yn ddwyieithog a chredai tri chwarter y rhai a holwyd y dylai fod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yng Nghymru. roedd 88% yn falch o'r Gymraeg (Jones, 1997b, 428). Dyma newid mawr o ddechrau'r ganrif pan roedd hyd yn oed nifer o Gymry Cymraeg yn barod i weld y Saesneg fel yr unig iaith gyhoeddus a'r Gymraeg yn cael ei chyfyngu i'r capel a'r aelwyd.

2.14 Cymuned

Yn haf 2001 daeth pwnc y mewnlifiad i'r amlwg unwaith eto gyda sefydlu mudiad iaith newydd sef 'Cymuned'. Sefydlwyd Cymuned er mwyn hyrwyddo cymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn ôl cyfansoddiad Cymuned y bwriad yw ymgyrchu dros,

i. reoli'r mewnlifiad i'r ardaloedd Cymraeg
ii. atal yr all-lifiad drwy ddarparu swyddi a thai
iii. cymathu mewnfudwyr yn ieithyddol
iv. sefydlu'r Gymraeg yn brif iaith yr ardaloedd Cymraeg
(www.cymuned.net)

Yn ystod blwyddyn gyntaf ei fodolaeth mae'r mudiad wedi galw ar nifer o gyrff cyhoeddus Cymraeg megis S4C, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llys yr Eisteddfod Genedlaethol i symud o'r brifddinas i'r cadarnleoedd Cymraeg er mwyn atal peth o'r all-lifiad. Mae'r mudiad hefyd wedi dosbarthu taflenni i dwristiaid yn eu hannog i ymweld â Chymru ond yn nodi'r difrod y mae mewnlifiad yn ei wneud i ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Bellach mae'n olygfa gyfarwydd i weld posteri Cymuned yn nodi 'Ardal Gymraeg yw hon'. Cododd hyn wrychyn nifer o bobl a gredai mai hiliaeth oedd wrth wraidd Cymuned. Mewn dadl ar hiliaeth yng Nghymru yn Nhŷ'r Cyffredin, ar 7 Mai 2002, mynegodd Don Touhig, Aelod Seneddol Llafur dros Islwyn, ei farn ynglŷn â gweithredoedd Cymuned.

> *Cymuned is a deadly enemy of the Welsh language, and those involved in Cymuned are harming the Welsh language. Their tactics, which are simple – this goes to the heart of the debate about racism – ar to intimidate English speakers, whether Welsh or English born, out of what they see AS their communities.*
> (Dadleuon Hansard Tŷ'r Cyffredin, 7 Mai 2002)

Cyflwynodd Cymuned dystiolaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 7 Tachwedd 2001 fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth wrth lunio'r Arolwg o'r Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd Gorffennaf 2002. Ddiwedd Mai 2002, bu i'r mudiad hefyd gyflwyno tystiolaeth i'r Cenhedloedd Unedig. Cymerodd Cymuned ran yn sesiwn y Grŵp Gwaith ar gyfer Lleiafrifoedd, sef corff y Cenhedloedd Unedig sy'n gyfrifol am ddatblygu polisïau i amddiffyn lleiafrifoedd ac sy'n atebol i Gomisiwn Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig. Dyma'r tro cyntaf i'r Cenhedloedd Unedig glywed tystiolaeth am y Gymraeg (www.news.bbc.co.uk/hi/english/newyddion/newsid_2009000/2009372.stm)
Dadl Cymuned wrth gyflwyno'r dystiolaeth i'r Cenhedloedd Unedig oedd nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Llywodraeth San Steffan yn ymddwyn yn unol â Chymal 1 o Ddatganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Unigolion sy'n perthyn i leiafrif o ran Cenedl neu Ethnig, Crefydd neu Iaith. Mae'r cymal hwn yn nodi:

> *States shall protect the existence of the national or ethnic, cultural, religious and linguistic identity of minorities within their respective territories and shall encourage conditions for the promotion of that identity.*
> (Dyfynnwyd yn www.cymuned.net)

Mynegwyd pryder Cymuned y byddai'r iaith Gymraeg mewn perygl dybryd os nad yw'r Gymraeg yn cael ei gwarchod fel iaith gymunedol:

> *The disappearance of Welsh-speaking communities shows that a minority community in a developed, democratic country can be pushed to the brink of extinction by governmental refusal to recognize the dangers posed by a free-market economy to economically week minority communities. If individual economic might is allowed to triumph over the rights of minority communities, then those communities will cease to exist.*
> (Tystiolaeth i'r Cenhedloedd Unedig www.cymuned.net)

2.15 Arolwg o'r Iaith Gymraeg

Yng Ngorffennaf 2002, yn dilyn arolwg a barodd dros flwyddyn, cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu hadolygiad o'r iaith Gymraeg sef 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol – Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b). Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan bron i 50 o gyrff ac unigolion yn ymwneud â'r iaith (www.bbc.co.uk/Cymru 24/6/02).

Dau brif argymhelliad oedd i'r Adolygiad Iaith. Yn gyntaf, cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i blant o dan bump oed ac, yn ail, gwneud y Gymraeg yn rhan ganolog o Lywodraeth y Cynulliad. Caed argymhellion eraill yn yr Adolygiad, er enghraifft yr angen i gael caniatâd cynllunio cyn cael tŷ haf mewn rhai rhannau o Gymru a darparu pecynnau croeso i fewnfudwyr (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 50-51).

Yn y ddogfen 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol', cydnabyddir bod gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrifoldeb tuag at yr iaith Gymraeg.

> *Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif y capeli oedd ceidwaid y Gymraeg, a dilynodd dirywiad yr iaith yr un patrwm â dirywiad yr enwadau anghydffurfiol. Chwistrellodd addysg a darlledu cyfrwng Cymraeg, yn eu tro, ryw gymaint o fywiogrwydd i'r iaith ond nid oedd hynny ynddo'i hunan yn ddigon i gynnal twf tymor hir. Wedi sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol mae'n*

anochel bod y cyfrifoldeb am ddyfodol y Gymraeg bellach ar ysgwyddau llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag ystod eang o gyrff ac asiantaethau.
(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 3)

Rhannwyd argymhellion yr Adolygiad yn ddwy ran, rhan y Pwyllgor Diwylliant a rhan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Argymhellodd y Pwyllgor Diwylliant, ymysg pethau eraill, y dylai'r Cynulliad gynnig arweiniad strategol ar ddatblygu Cymru ddwyieithog ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu uned strategol drawsbynciol ar lefel uchel o fewn y Cynulliad. Argymhellir hefyd y dylid rhoi cyllid digonol i Fwrdd yr Iaith gyflawni ei swyddogaethau statudol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg a hyrwyddo a marchnata gwerth dwyieithrwydd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 7). Blaenoriaethau'r Pwyllgor Diwylliant o safbwynt cynllunio ieithyddol yw cynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg, cryfhau'r iaith o fewn cymunedau a chryfhau'r defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 8).

Mae'r pwyllgor yn argymell y dylai trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd, defnyddio'r iaith mewn cymunedau a sicrhau mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol fod yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer mwy o adnoddau.
(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 8)

Er mwyn hwyluso hyn argymhellodd y pwyllgor y dylid llunio ymgyrch farchnata yn hybu ac yn pwysleisio manteision trosglwyddo a defnyddio'r iaith (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 8).

Argymhellodd y Pwyllgor Diwylliant y dylid paratoi fframwaith strategol cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau cadarn yn bodoli ar gyfer cydlynu'r gwaith o gynllunio, gwerthuso a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 8). Cafodd gwerth addysg feithrin cyfrwng Cymraeg gryn sylw yn yr Adolygiad. Cydnabuwyd rôl hanfodol Mudiad Ysgolion Meithrin wrth roi cyfle i blant gaffael y Gymraeg drwy drochi ac argymhellwyd bod darpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei ehangu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 8).

Argymhellodd y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y cyd y dylid cynorthwyo Mudiad Ysgolion Meithrin, mewn cydweithrediad â'r Mentrau Iaith, i ddatblygu prosiectau mewn cymunedau er mwyn rhoi cyfle i rieni ddysgu Cymraeg ar y cyd gyda'u plant. Anogwyd Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gyfarfod unrhyw alw ychwanegol am addysg cyfrwng Cymraeg, ac fel arall, i blant teirblwydd oed (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 9).

Rhoddwyd sylw i faterion economaidd gan nodi bod datblygu cymunedau cynaliadwy yn un flaenoriaeth. Nodant bod angen cyfleoedd swyddi o fewn pellter teithio rhesymol er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 9-10).

Beirniadwyd 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol' gan y grŵp pwysau Cymuned am nad oedd yn rhoi arweiniad ynglŷn â mesurau i reoli'r farchnad dai a lleihau mewnlifiad i'r ardaloedd Cymraeg (Cymuned, 2002, 2) ac nad oedd yn galw am ddeddfwriaeth i orfodi'r sector preifat a gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg (Cymuned, 2002, 4). Roedd ymateb Cymdeithas yr Iaith yn debyg, beirniadodd Cadeirydd y Gymdeithas yr Adolygiad am nad oedd yn galw am ddeddf iaith newydd nac yn cydnabod yr angen am ddeddf eiddo (http://www.cymdeithas.com 07/07/02).

Dros haf 2002 trafodwyd sut y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymateb i argymhellion yr adolygiad a cyflwynodd y Llywodraeth ddwy ddogfen. Yn gyntaf cyhoeddwyd 'Dyfodol Dwyieithog' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002a) sef datganiad polisi ac yna cyhoeddwyd 'Iaith Pawb - Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b).

Roedd tair blaenoriaeth i 'Dyfodol Dwyieithog' sef hyrwyddo cymunedau sy'n gynaliadwy yn economaidd ac yn gymdeithasol a chefnogi hawliau a chyfrifoldebau'r unigolyn (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002a, 5). Yn 'Dyfodol Dwyieithog' nodwyd y bydd Uned Iaith Gymraeg yn cael ei sefydlu o fewn gweinyddiaeth Llywodraeth y Cynulliad i oruchwylio lle'r iaith ar draws holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad.

Amlinellwyd bwriad y Cynulliad i sicrhau bod penderfyniadau cynllunio a datblygu yn sensitif i allu ardaloedd a chymunedau i ymdopi â'r datblygiad heb erydu sefyllfa'r iaith Gymraeg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002a, 14). Nodwyd yn y ddogfen 'Dyfodol Dwyieithog' mai gobaith Llywodraeth y Cynulliad yw gweld Cymru'n datblygu'n wlad gwbl ddwyieithog a'u bod am weithio i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002a, 17). Rhoddir cryn bwyslais yn y ddogfen hon ar gaffael iaith ac addysg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002a, 18).

Yn nechrau 2003 cyhoeddwyd 'Iaith Pawb' sef cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog. Ynddo diffinnir gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â'r iaith Gymraeg.

> *Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth genedlaethol. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol ac oesol o hanes, diwylliant a gwead cymdeithasol ein cenedl. Rhaid i ni barchu'r etifeddiaeth honno a gweithio i sicrhau nad yw'n cael ei cholli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*
> (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 1)

Er bod y ddogfen hon yn nodi bod y Gymraeg wedi ennill statws a'i bod bellach yn berthnasol i fywydau a dyheadau pobl Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 2) sylweddolir hefyd bod peryglon yn wynebu'r iaith.

> *Dangosodd cyfrifiadau ac arolygon yn ystod y degawdau diwethaf fod nifer y cymunedau lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi parhau i ostwng. Gellid dadlau pe bai'r dirywiad yn parhau y gallai fwgwth bodolaeth yr iaith Gymraeg gan na fyddai ganddi mwyach amgylchedd naturiol lle câi'r iaith ei siarad yn arferol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymdeithasol.*
> (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 7)

Amlinellir rhai rhesymau dros y dirywiad a fu yn nifer a chryfder y cymunedau sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith er enghraifft diffyg gwaith a chyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc yn lleol, dirywiad yn y diwydiannau traddodiadol, y mewnlifiad a'r newid mewn agweddau cymdeithasol tuag at siarad Cymraeg y tu allan i'r cartref a'r ysgol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 21).

Ceir pwyslais cryf yn y ddogfen ar sicrhau cynnydd cyson yn y nifer a'r ganran o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, gan alluogi cynifer o blant cyn oed ysgol a phobl ifanc ag y bo modd i gael gafael ar yr iaith. Eu nod yw cynnal y twf a welwyd yn yr iaith ymhlith plant oed ysgol, cynyddu nifer y rhieni sy'n trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant ac annog y rheiny sydd wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol i'w chadw a'i defnyddio ar ôl iddynt adael (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 11).

Nod y mesurau a amlinellir yn y ddogfen 'Iaith Pawb' yw cyflawni'r targedau canlynol erbyn 2011.

- *bod y ganran o bobl Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o'r ffigwr a ddaw i'r amlwg o gyfrifiad 2001;*
- *bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal;*
- *bod cynnydd yng nghanran y plant sy'n derbyn addysg cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg;*
- *bod cynnydd yng nghanran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/cyfathrebu rhwng oedolion a phlant ar yr aelwyd;*
- *ei bod yn bosibl i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.*

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 11)

Bwriedir cyflawni'r targedau hyn drwy ganolbwyntio ar dair agwedd sef fframwaith polisi cenedlaethol, yr iaith yn y gymuned a'r iaith a hawliau'r unigolyn. Yr Uned Iaith Gymraeg newydd sydd wedi ei lleoli o fewn Llywodraeth y Cynulliad a fydd yn gyfrifol am weithredu mesurau 'Iaith Pawb' ac am fonitro ac adolygu ei effaith (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 13). Gyda chyhoeddi 'Iaith Pawb' daeth cynnydd cyllid sylweddol sy'n golygu y bydd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gyllid o £37 miliwn i'w wario rhwng 2003 a 2006. Neilltuwyd £26.8 miliwn i gefnogi'r ddogfen i'w rannu yn £16 miliwn i Fwrdd yr Iaith, £9.5 miliwn i fesurau o fewn y drefn addysg ffurfiol ac £1.3 miliwn i Gyngor Llyfrau Cymru. Roedd yr arian ychwanegol i Fwrdd yr Iaith yn cynnwys £1 miliwn ychwanegol ar gyfer y prosiect Twf, £3 miliwn ychwanegol i fentrau a phrosiectau cymunedol a £3 miliwn yn ychwanegol i annog y sector preifat a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (www.cymru.gov.uk

Datganiad i'r Wasg Jenny Randerson, 27/11/02). Bydd yn rhaid aros i weld beth fydd effaith y mesurau hyn ar yr iaith.

2.16 Cyfrifiad Cyntaf yr Unfed Ganrif ar Hugain

The Welsh language is safe in its heartlands and is prospering in the urban south
(Western Mail, 14/2/03)

Dyna oedd ymateb y Western Mail i gyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2001. Ymateb cymysg a gafwyd i gyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2001, y cyfrifiad cyntaf erioed i ddangos bod cynnydd wedi bod yn y nifer a'r ganran o boblogaeth Cymru sy'n siarad Cymraeg. Croesawyd y canlyniadau ar y cyfan ond rhybuddiodd ymgyrchwyr iaith nad oedd y ffigyrau yn adlewyrchu defnydd yr iaith mewn bywyd bob dydd.

Yn y tabl isod rhoddir canlyniadau cychwynnol Cyfrifiad 2001 sy'n dangos y canrannau o bobl sy'n deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Tabl 2.1 Canrannau Cychwynnol Cyfrifiad 2001

	Canran sy'n Deall Cymraeg llafar yn unig	Canran sy'n Siarad ond ddim yn ysgrifennu na darllen Cymraeg	Canran sy'n Siarad a Darllen ond ddim yn Ysgrifennu Cymraeg	Canran sy'n Siarad, Darllen ac Ysgrifennu Cymraeg	Canran â Chyfuniad Eraill o Sgiliau Cymraeg	Canran Heb Wybodaeth o'r Gymraeg
Ynys Môn	8.7	6.4	2.9	50.5	1.8	29.6
Gwynedd	5.9	5.8	2.3	60.6	1.5	23.9
Conwy	7.8	4.0	1.9	23.2	2.6	60.3
Sir Ddinbych	7.1	3.7	1.7	20.7	2.9	64.0
Sir y Fflint	4.4	2.1	1.1	10.9	2.9	78.6
Wrecsam	5.3	2.4	1.2	10.9	3.2	77.1
Powys	6.1	3.2	1.7	16.0	3.2	69.9
Ceredigion	7.2	5.0	2.7	44.1	2.3	38.8
Sir Benfro	5.4	3.5	1.6	16.4	2.4	70.7
Caerfyrddin	10.5	7.2	3.9	39.0	3.1	36.4
Abertawe	6.0	2.5	1.4	9.4	3.3	77.5
Nedd Port Talbot	6.5	3.3	1.7	12.8	4.5	71.2
Pen-y-Bont	4.3	1.6	0.9	8.1	5.1	80.1
Bro Morg.	2.9	1.6	0.7	8.8	2.9	83.1
Rhondda, Cynon Taf	4.3	1.7	0.8	9.8	4.6	78.9
Merthyr Tudful	4.0	1.7	1.0	7.4	3.7	82.3
Caerffili	2.8	1.7	0.7	8.5	2.9	83.3
Blaenau Gwent	2.2	1.9	0.6	6.6	2.1	86.7
Torfaen	1.9	1.9	0.7	8.1	1.8	85.5
Sir Fynwy	2.1	1.6	0.6	6.8	1.8	87.1
Casnewydd	1.9	1.8	0.6	7.2	1.9	86.6
Caerdydd	2.9	1.4	0.7	8.8	2.5	83.7
CYMRU	**4.93**	**2.83**	**1.37**	**16.32**	**2.98**	**71.57**

(gwybodaeth o http://tables.neighbourhood.statistics.gov.uk/)

Cododd y ganran sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg o 13.6% yn 1991 i 16.3% erbyn Cyfrifiad 2001 (Evas, 2003,1).

> *Yr hyn sydd yn bwysig i'w nodi yw yn wyneb dirywiad sylweddol a chyflym yn hynt ieithoedd bychain eraill y byd, mae'r Gymraeg i'w gweld yn mynd yn groes i'r duedd.*
>
> (Evas, 2003, 1)

Fel y dengys y graff isod, dyma'r tro cyntaf i ganran y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg gynyddu.

Ffigwr 2.1 Canrannau Siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiadau 1901 – 2001



Gwelwyd cynnydd yn y ganran o rai sy'n darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg ym mhob sir ond dwy. Gwelwyd cynnydd syfrdanol yn y ganran o siaradwyr yn y de-ddwyrain gyda Thorfaen, Sir Fynwy a Blaenau Gwent yn gweld cynnydd mawr yn y nifer

o siaradwyr ers 1991. Llwyddiant y system addysg ddwyieithog sydd i ddiolch yn bennaf am hyn.

Croesawodd Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith y newyddion am gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

> *Gyda chymaint o ddirywiad yn niferoedd siaradwyr ieithoedd bychan ym mhob rhan o'r byd, mae'n dda gallu cyhoeddi fod y Gymraeg ar i fyny, Mae'r cynnydd yma yn gam pwysig ymlaen i'r Gymraeg. Am bron i ganrif bu'r iaith yn colli tir ac yn dirywio'n gyflym ar hyd a lled y wlad, felly mae'n gadarnhaol iawn gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y wlad.*
> (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/news_article.php?nID=151)

Cafodd ffigyrau Cyfrifiad 2001 hefyd eu croesawu gan Jenny Randerson y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith yn y Cynulliad, ond nododd hi yr angen i greu'r amodau cywir i alluogi'r Gymraeg i ffynnu.

> *Dengys y ffigyrau hyn bod y duedd bellach yn un gadarnhaol. Er hynny, rwyf yn cydnabod bod llawer o waith y gallwn ei wneud eto i harneisio a datblygu nifer y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol ac yn y cadarnleoedd traddodiadol lle mae'r ffigurau yn dangos peth gostyngiad yng nghanran y siaradwyr. Rwyf yn hyderus bod y polisïau a'r cynlluniau sydd yn y Cynllun Iaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog yn gyfraniad allweddol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ac i greu'r amodau cywir fydd yn galluogi'r iaith i ffynnu.*
> *(www.eurolang.net 17/02/03)*

Fodd bynnag, bu gostyngiad yng nghanran y rhai sy'n siarad, darllen neu'n ysgrifennu Cymraeg mewn dwy sir sef Ceredigion a Gwynedd, cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg. Gostyngodd y ganran yng Ngwynedd o 61.8% yn 1991 i 60.6% yn 2001. Bu dirywiad amlycach yng Ngheredigion lle roedd y ganran wedi gostwng o 48.1% yng Nghyfrifiad 1991 i 44.1% yng Nghyfrifiad 2001 (Gwybodaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg). Nododd 28.4% o bobl Cymru bod ganddynt un neu fwy o'r sgiliau, sef deall, siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg (http://www.statistics.gov.uk/census2001/profiles/commentaries/cymru.asp#welsh).

Dangosodd Cyfrifiad 2001 bod y mewnlifiad yn parhau gyda newid poblogaeth syfrdanol o 13.7% wedi bod yng Ngheredigion ers Cyfrifiad 1991 (http://www.statistics.gov.uk/census2001/profiles/rank/walchange1991.asp).

Mae'r mapiau isod yn dangos sefyllfa'r iaith Gymraeg o ran y niferoedd sy'n ei siarad, darllen a'i hysgrifennu yn ôl Cyfrifiad 2001 (ffigwr 2.2) ac yn dangos y newid a fu rhwng Cyfrifiad 1991 a Chyfrifiad 2001 (ffigwr 2.3). Gellir gweld o'r mapiau hyn mai yn y siroedd gyda'r canrannau uchaf o Gymry Cymraeg y bu'r gostyngiadau a'r lleiaf o gynnydd.

Ffigwr 2.2 Map o Ganrannau 2001



Ffigwr 2.3 Map o Newid 1991-2001



Yn y tabl isod rhoddir y canrannau o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl ardal awdurdodau lleol gan gymharu canlyniadau 2001 a 1991. Fel y gwelir o'r tabl gostyngodd y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg mewn chwech sir rhwng y ddau gyfrifiad. Bu'r gostyngiadau yn yr ardaloedd gyda'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Tabl 2.2 Canrannau o Siaradwyr Cymraeg, yn ôl Ardal Awdurdod Lleol, Tair Oed a Throsodd.

	Cyfrifiad 2001 canran	Cyfrifiad 1991 canran	Newid ers 1991 pwyntiau canrannol
Gwynedd	69	72	-3
Ynys Môn	60	62	-2
Ceredigion	52	59	-7
Sir Gaerfyrddin	50	55	-5
Conwy	29	31	-2
Sir Ddinbych	26	27	-1
Sir Benfro	22	18	4
Powys	21	21	0
Castell Nedd Port Talbot	18	18	0
Wrecsam	14	14	0
Sir y Fflint	14	13	1
Abertawe	13	13	0
Rhondda, Cynon Taf	12	9	3
Bro Morgannwg	11	7	4
Caerffili	11	6	5
Torfaen	11	3	8
Caerdydd	11	7	4
Pen-y-bont ar Ogwr	11	8	3
Merthyr Tudful	10	8	2
Casnewydd	10	2	8
Blaenau Gwent	9	2	7
Sir Fynwy	9	2	7
CYMRU	21	19	2

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003ch)

Croesawodd ymgyrchwyr iaith y cynnydd cyffredinol a fu yn y nifer a'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, ond gan rybuddio bod angen gweithredu i atal dirywiad y Gymraeg yn ei chadarnleoedd. Roedd y mudiad Cymuned yn croesawu'r twf mewn addysg Gymraeg ond yn rhagweld na fydd y twf hwn yn gynaliadwy oni bai y gellir atal y dirywiad mewn cymunedau Cymraeg. Cadarnheir yr ofnau hyn gan Jenkins a Williams (2000, 22) sef na all cynnydd yn y nifer o blant yn ein hysgolion wneud iawn am ddirywiad yr iaith yn ei chadarnleoedd traddodiadol.

> *Mae'n rhaid i ni sefydlogi'r boblogaeth mewn ardaloedd Cymraeg os yw'r iaith i fyw. Unwaith eto, mae Cymuned yn galw ar y Cynulliad i weithredu ar ei gydnabyddiaeth fod y mewnlifiad yn fygythiad i'r Gymraeg fel iaith gymunedol, ac i gymryd camau i arafu'r mewnlifiad.*
> (www.eurolang.net 17/02/03)

Nid oedd Cymdeithas yr Iaith yn credu fod y canlyniadau yn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa yng Nghymru a'r defnydd a wneir o'r iaith. Galwodd y gymdeithas ar y Cynulliad i weithredu ym meysydd tai, cynllunio, statws, addysg a threfniadaeth er mwyn diogelu a datblygu'r Gymraeg (www.eurolang.net 17/02/03).

Nid oedd canlyniadau manwl Cyfrifiad 2001 wedi eu cyhoeddi pan gwblhawyd y traethawd hwn. Bydd y ffigyrau manylach yn rhoi darlun cliriach o sefyllfa'r Gymraeg ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Mae hefyd angen arolwg arall, ar wahân i'r Cyfrifiad, sy'n ymwneud â'r iaith er mwyn rhoi darlun well o'r defnydd â wneir o'r iaith yng Nghymru ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain.

2.17 Casgliad

Yn y bennod hon trafodwyd hanes yr iaith Gymraeg ers Cyfrifiad 1891. Trafodwyd y dirywiad yn y niferoedd a siaradai'r iaith yn ôl Cyfrifiadau'r ugeinfed ganrif a'r ymdrechion a wnaed gan fudiadau gwirfoddol a chan rym llywodraethol i adfer yr iaith, yn arbennig felly yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Trafodwyd adroddiadau a gyhoeddwyd ar yr iaith Gymraeg yn 1927 ac yn 2002. Edrychwyd ar ddylanwad

negyddol a chadarnhaol y wasg a'r cyfryngau ar yr iaith. Ceisiwyd roi darlun o'r newidiadau a fu yn statws yr iaith drwy'r ganrif.

I gloi cyflwynwyd canlyniadau cychwynnol Cyfrifiad 2001, y cyfrifiad cyntaf erioed i ddangos cynnydd yn y nifer a'r ganran sy'n siarad Cymraeg.

Yn y bennod hon rhoddwyd cyd-destun i sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin. Trafodwyd y dirywiad a fu yn y canran o siaradwyr Cymraeg fel y dangosodd canlyniadau Cyfrifiadau'r Ugeinfed ganrif. Dangoswyd hefyd y modd yr aed ati trwy amrywiaeth o ffyrdd i weithio tuag at adfer yr iaith Gymraeg a chynyddu ei defnydd o fewn y teulu a'r gymuned. Mae gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin yn rhan o'r broses bwysig hon.

PENNOD 3

ADDYSG DDWYIEITHOG YNG NGHYMRU

3.1 Cyflwyniad

> *Y mae llwyddiant addysg ddwyieithog yng Nghymru yn un o fân wyrthiau Ewrop yn yr ugeinfed ganrif.*
> (Williams, 2000, 654)

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chynt defnyddiwyd y gyfundrefn addysg i ledaenu bri y Saesneg yng Nghymru. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif sylweddolodd addysgwyr a charedigion y Gymraeg mai'r gyfundrefn addysg oedd yr arf bwysicaf er mwyn adfer bri'r iaith Gymraeg. Bu'r datblygiad yn un rhyfeddol ac erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif roedd bron un ym mhob pump plentyn yng Nghymru yn derbyn addysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg a 78.1% pellach yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c, 8).

Yn y bennod hon trafodir datblygiad addysg ddwyieithog yng Nghymru o ddechrau'r ugeinfed ganrif ymlaen. Trafodir yn fras yr hyn a arweiniodd at y sefyllfa ar droad y ganrif, trafodir cyhoeddiadau allweddol megis 'Adroddiad y Gymraeg mewn Bywyd ac Addysg' ac 'Adroddiad Gittins'. Trafodir sefydlu ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, lle mudiadau gwirfoddol megis Rhag, UCAC, Mudiad Ysgolion Meithrin a Chymdeithas yr Iaith yn y broses o gynyddu lle'r Gymraeg mewn addysg. Sonnir am bolisïau amrywiol Awdurdodau Addysg Lleol. Edrychir ar effaith y mewnlifiad ar addysg ac ymateb y byd addysg i'r newydd-ddyfodiaid gan gynnwys penodi Athrawon Bro ac agor Canolfannau Iaith. Edrychir ar effaith deddfau addysg megis Deddf Addysg 1988 ar y Gymraeg mewn addysg. Sonnir am le'r Gymraeg mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach a'r twf a fu mewn dysgu Cymraeg i Oedolion. Cyflwynir y sefyllfa bresennol gan ddefnyddio ystadegau diweddaraf y Cynulliad Cenedlaethol. Cloir trwy drafod a yw addysg ddwyieithog yn llwyddiant, a beth yw mesur llwyddiant.

3.2 Cefndir

Yn dilyn Adroddiad Addysg 1847 datblygwyd fframwaith addysg Saesneg ei hiaith a Seisnig ei naws yng Nghymru. Dyma oedd y ffactor cryfaf a gyfrannodd tuag at erydiad y Gymraeg am y can mlynedd nesaf (Jones, 1997b, 363). Cyflwynwyd Deddf Diwygio Addysg yn 1862 a thorrwyd y Gymraeg allan o gwricwlwm yr ysgolion elfennol. Ni chaed protest gan y gwelai llawer hyn fel datblygiad naturiol, dymunol hyd yn oed (Webster, 1990, 186). Sefydlodd Deddf Addysg Foster 1870 rwydwaith o ysgolion elfennol drwy Gymru. Saesneg oedd iaith yr ysgolion hyn i gyd er bod dros filiwn o bobl Cymru yn siarad Cymraeg. Nid oedd gan y Gymraeg unrhyw werth ymarferol ym marn y llywodraeth (Jenkins, 1997, 9). Ond roedd y traddodiad mai Saesneg oedd iaith addysg wedi ei ymsefydlu cyn Deddf 1870. Cadarnhawyd y drefn yn arbennig gan y dull o gyllido ysgolion yn ôl perfformiad y plant mewn profion. Gan fod y dull hwn o ariannu, a ddechreuwyd yn 1861, yn canolbwyntio ar wybodaeth y plant o rifyddeg a'u gallu i ddarllen ac ysgrifennu Saesneg diflannodd y Gymraeg oddi ar amserlenni ysgolion (Davies, 1992, 421). Unwaith eto ni chaed fawr o brotestio.

> *...roedd y ddirnadaeth o ddefnyddioldeb y Saesneg yn cynyddu ymhlith rhieni dosbarth gweithiol – wedi'r cwbl, gellid ennill llythrennedd yn y Gymraeg trwy'r ysgol Sul.*
> (Davies, 1992, 421)

Yn ôl John Davies yn ystod y ddegawd ar ôl Deddf Foster daeth gallu yn y Saesneg yn fwy cyffredin na gallu yn y Gymraeg. Erbyn Cyfrifiad 1891 54% a fedrai'r Gymraeg ond roedd 69% yn medru'r Saesneg (Davies, 1992, 421).

> *...gellir, i raddau, briodoli'r newid i ledaeniad yr ysgolion elfennol; bu cwblhau rhwydwaith o ysgolion Saesneg eu cyfrwng yn ergyd drom i'r Gymraeg, yn enwedig yn y parthau hynny lle'r oedd yr iaith eisoes ar drai.*
> (Davies, 1992, 421)

Erbyn troad y ganrif roedd y ganran a fedrai'r Gymraeg wedi gostwng i leiafrif gyda 49.9% yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 1901 (Aitchison a Carter, 1994,41). Ar y pryd ni ddysgai'r un ysgol ganolradd (intermediate) unrhyw bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg a dysgai llai na'u hanner y Gymraeg fel pwnc er eu bod bron i gyd yn dysgu'r Ffrangeg (Webster, 1990, 186).

Ond sylweddolodd ychydig o Gymry blaengar nad oedd y sefyllfa yn un foddhaol nac yn un ymarferol. Un o'r rhain oedd Dan Isaac Davies, is arolygwr ysgolion yn ardal Merthyr a phrif sylfaenydd *'The Society for the Utilisation of the Welsh Language (for the better teaching of English).* Ffurfiwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, fel y'i hadnabuwyd yn gyffredin, yn Eisteddfod Aberdâr yn 1885. Ysgogwyd Dan Isaac Davies gan ei gred yng ngwerth dwyieithrwydd a chan deimlad o warth fod cenhedlaeth o Gymry yn cael eu codi yn anllythrennog yn eu mamiaith. Roedd y Gymdeithas eisiau cydnabyddiaeth ffurfiol i'r Gymraeg trwy ei defnyddio, i ddechrau beth bynnag, er mwyn hyrwyddo gwybodaeth y disgyblion o'r Saesneg (Davies, 1992, 439).

Gwelodd y 1880au ddatblygiadau cadarnhaol o blaid defnyddio'r Gymraeg mewn addysg.

> *Uwchlaw dim, enillwyd yn y degawd hwnnw droedle i'r iaith yn y system addysg* (Davies, 1992, 439)

Yn 1889 dechreuodd Pwyllgor Addysg y Cyfrin Gyngor roi gwobrau ariannol i'r ysgolion hynny a ddysgai hanes a daearyddiaeth Cymru, gramadeg Cymraeg a chyfieithu yn llwyddiannus (Davies, 1992, 439). Ond nid oedd argymhellion eraill y Comisiwn Brenhinol i addysg elfennol yn gefnogol iawn i ddatblygiad addysg ddwyieithog. Nid oedd unrhyw reidrwydd ar i ysgolion ddefnyddio'r Gymraeg a lle y'i defnyddiwyd nid oedd ond pwnc ychwanegol ar gwricwlwm Saesneg (Davies, 1992, 439). Awyrgylch Seisnig oedd i'r ysgolion a Saesneg oedd iaith nifer o'r prifathrawon (Davies, 1992, 441). Dim ond 47 ysgol a gynigiai wersi Cymraeg yn 1907 ac nid oes awgrym fod y Gymraeg wedi ei defnyddio fel cyfrwng addysg (Davies, 1992, 442).

Addysgwr arall a wnaeth gyfraniad sylweddol i ddechrau addysg Gymraeg oedd O.M. Edwards. Penodwyd ef yn Brif Arolygydd ysgolion pan ffurfiwyd Adran Gymreig y Bwrdd Addysg yn 1907 (Jenkins, 1997, 10). Credai O.M. Edwards fod gan bob plentyn a fagwyd yn Gymraeg yr hawl i dderbyn addysg elfennol ac uwchradd trwy gyfrwng ei famiaith (Jenkins, 1997, 10). Dioddefodd ef pan yn blentyn oherwydd y defnydd o'r *'Welsh Not'*, yr arf a ddefnyddiwyd mewn rhai ysgolion yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i geisio rhwystro disgyblion rhag siarad Cymraeg. Mewn nifer o adroddiadau AEM (arolygiadau ysgolion) ymbiliodd am wahaniaethu cwricwlwm

ysgolion er mwyn adlewyrchu anghenion diwylliannol ac economaidd ardaloedd. Roedd O.M. Edwards hefyd yn allweddol yn y newidiadau a fu yn *'Elementary School Code and Secondary School Regulations'* yng nghyswllt Cymru er mwyn annog dysgu Cymraeg ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, yn arbennig ym mlynyddoedd cynnar yr ysgolion elfennol (Webster, 1990, 188). Dair blynedd ar ddeg cyn dod yn Brif Arolygydd ysgolion dadleuodd O.M. Edwards dros ddysgu'r Gymraeg fel pwnc ac yn achlysurol i addysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ei ddadl ef oedd fod y plant bron i gyd yn meddwl yn Gymraeg a chyfieithu i'r Saesneg cyn ysgrifennu (Davies, 1988, 98). Gwelodd Edwards y broblem ddwyieithog fel y cyfle dwyieithog (Davies, 1988, 98). Yn Adroddiad y Gymraeg mewn Bywyd ac Addysg 1927 gresynai'r pwyllgor na fyddai O.M. Edwards wedi cael ei benodi i'r Arolygiaeth ddeng mlynedd ar hugain ynghynt (Cyngor Canol ar Addysg, 1927, 49). Trwy waith O.M. Edwards cymerwyd camau ymlaen tuag at addysg ddwyieithog gyflawn yng Nghymru.

> *He had seen to it that Welsh history, the geography of Wales and Welsh literature should be part of the curriculum of the Welsh higher elementary schools. By 1909 he was issuing clear orders to his inspectors: Every H.M.I. will see that Welsh is put in its right place in the curriculum of every school.*
> (Davies, 1988, 99)

Roedd nifer o agweddau cadarnhaol o safbwynt addysg Gymraeg yn 'Code of Regulations for Public elementary Schools in Wales' 1907.

> *The curriculum should, as a rule, include the Welsh language,*
>
> *Any of the subjects of the curriculum may (where the local circumstances make it desirable) be taught in Welsh,*
> (Davies, 1946, 90)

Nodwyd hefyd y dylai plant Cymraeg iaith gyntaf dderbyn eu haddysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg (Davies, 1946, 90). Yn yr un modd, er 1907, roedd y 'Regulations for Secondary Schools' yn cynnwys y canlynol:

> *In districts where Welsh is spoken the language, or one of the languages, other than English should be Welsh. Any of the subjects of the curriculum may, where the local circumstances make it desirable, be taught partly or wholly in Welsh.*
> (Davies, 1946, 90)

Caed tystiolaeth gan arolygwyr ysgolion fod cyflwyno'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu yn nosbarthiadau y babanod wedi bod o fudd i ysgolion cyfain (Davies, 1946, 90).

Ond, er i Adran Gymreig y Weinyddiaeth Addysg fod yn gefnogol iawn i'r defnydd o'r Gymraeg o fewn addysg, araf iawn fu'r awdurdodau addysg lleol i roi lle i'r Gymraeg yn yr ysgolion. Câi'r plant eu haddysg gynnar, am tua blwyddyn neu ddwy, drwy'r Gymraeg; digon o amser iddynt ddysgu'r Saesneg er mwyn iddynt dderbyn gweddill eu haddysg trwy'r iaith honno. Felly ar ôl iddynt dreulio ychydig flynyddoedd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg caent eu trosglwyddo i ddosbarthiadau Saesneg eu hiaith a Seisnig eu naws (Griffiths, 1997b, 37). Cai'r Gymraeg ei chynnwys yng nghwricwlwm y mwyafrif, os nad bron y cwbl, o ysgolion mewn ardaloedd lle siaredid Cymraeg ar ôl 1907 (Davies, 1989, 95). Ond roedd barn y rhieni yn dal yn gryf o blaid addysg Saesneg ac nid oedd llawer o athrawon yn frwd iawn o blaid dysgu trwy'r Gymraeg (Jenkins, 1997, 10).

> *Wales continued to be reluctant to give her national language an important place in the curriculum of her schools, and by the second decade of this century it was evident that progress in this direction was less real than it appeared to be in official reports.*
> (Jones, 1966, 77)

Oherwydd hyn, yn nauddegau'r ugeinfed ganrif penodwyd Pwyllgor Adrannol i ymchwilio i le'r Gymraeg mewn Bywyd ac Addysg. Yn yr Adroddiad a gyhoeddwyd yn 1927, ystyrir mai addysg oedd yr allwedd i les yr iaith Gymraeg (Davies, 1993, 77).

3.3 Adroddiad Y Gymraeg Mewn Bywyd ac Addysg, 1927

Lluniwyd Adroddiad 1927 gan bwyllgor o Gymry cryf o dan gadeiryddiaeth Dr John Owen, esgob Tyddewi. Ym marn yr aelodau, byddai diflaniad y Gymraeg yn drychineb. Argymhellodd yr adroddiad sut i ddysgu Cymraeg yn effeithiol fel pwnc, ac fel cyfrwng hyfforddi. Credent ei bod yn ddyletswydd ar y Cymry i ofalu bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg (Jenkins, 1997, 10). Ym marn awduron Adroddiad 1927 roedd dyfodol yr iaith Gymraeg yn nwylo'r ysgolion.

Wrth fwrw golwg ar y maes yn yr adran hon o'n Hadroddiad cawsom ein hargyhoeddi bod y pethau a fu'n gyfryngau i ddiogelu'r iaith Gymraeg yn y gorffennol wedi gwanychu'n ddirfawr yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, a bod tynged yr iaith yn y dyfodol yn dibynnu ar yr ysgolion.
(Cyngor Canol ar Addysg, 1927, 161-2)

Beirniadodd yr Adroddiad yr awdurdodau addysg am eu diffyg hyder wrth ymdrin â'r Gymraeg. Cynigiodd yr adroddiad awgrymiadau ar gyfer dyfodol addysg Gymraeg. Ym marn Cen Williams (Williams, 1997a, 142), cafodd hedyn dysgu dwyieithog ei blannu ym 1927 a phe bai'r awdurdodau wedi mabwysiadu awgrymiadau adroddiad 1927 byddai hanes addysg ddwyieithog wedi bod yn wahanol. Un o awgrymiadau'r Adroddiad oedd y dylid defnyddio'r ail iaith yn gyfrwng er mwyn cryfhau'r ail iaith ac y dylid mabwysiadu polisi dwyieithog cytbwys. Hefyd tynnodd sylw at swyddogaeth y Gymraeg mewn ardaloedd cymysg eu hiaith a'r problemau sy'n wynebu'r ardaloedd hynny. Mae'n debyg mai dyma'r tro cyntaf y cynigiwyd sefydlu ysgolion Cymraeg mewn ardaloedd Seisnigedig. Awgrymiadau eraill yn yr Adroddiad oedd rhannu'r plant yn ffrydiau ieithyddol neu addasu'r gwaith ar gyfer unigolion er mwyn dysgu ar lefel mwy personol. Datblygwyd y syniadau hyn yn ehangach yn y pumdegau a'r chwedegau. Pwysleisiwyd y dylid dysgu'r Gymraeg fel pwnc mewn ardaloedd di-Gymraeg hefyd er nad argymhellwyd y dylid dysgu'r iaith ym mhob ysgol ym mhob ardal (Williams, 1997a, 142).

Er hynny, yr oedd yr argymhellion yn rhai pellgyrhaeddol iawn a phe baent wedi eu gweithredu byddent wedi arwain at gydnabod gwerth yr iaith frodorol a / neu'r famiaith i ddatblygiad plentyn a byddai'r gyfundrefn addysg wedi llwyddo i'w diogelu a'i chynnal.
(Williams, 1997a, 142-3)

Yn yr adroddiad pwysleisiwyd y byddai angen polisïau iaith cryfach er mwyn atal dirywiad y Gymraeg, Pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod athrawon yn medru'r Gymraeg a gwneud y sgil hon yn gymhwyster angenrheidiol wrth benodi athrawon (Cyngor Canol ar Addysg, 1927, 95-96).

Credwn y gellir priodoli prinder athrawon Cymraeg cymwys i ddau beth. Yn gyntaf, nid yw llawer o'r Awdurdodau addysg wedi mynnu sicrhau cymhwyster i ddysg Cymraeg wrth ddewis athrawon; ac yn ail, esgeuluso gorfodi'r rhai hynny nad oes ganddynt mo'r cymhwyster hwnnw i dderbyn hyfforddiant yn y pwnc.
(Cyngor Canol ar Addysg, 1927, 95)

Yn ôl Gareth Elwyn Jones bu rhai gwelliannau yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad, roedd creu trafodaeth o fewn y byd addysg yn gam ymlaen. Ond, er i ansawdd dysgu Cymraeg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wella, ychydig o ddylanwad a fu ar addysg yn gyffredinol. Yn ôl Jones nid oedd y sefyllfa economaidd yn y cyfnod rhwng y rhyfeloedd yn addas i arbrofi, ac nid oedd rhieni na llywodraethwyr ysgolion wedi llwyr dderbyn gwerth y Gymraeg (Jones, 1982, 128). Bu cynnydd yn y niferoedd a safai arholiadau allanol yn yr iaith ond ni fu cynnydd mewn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (Williams, 1997a, 140).

Cafodd Adroddiad 1927 ei glustnodi fel carreg filltir bwysig oherwydd y gefnogaeth a roddai i ddysgu'r Gymraeg ar bob lefel mewn addysg. Ond ni fedrai'r argymhellion hyn gael llawer o effaith ymarferol gan nad oedd i'r Weinyddiaeth Addysg rymoedd gweithredol ac felly roedd yn rhaid dibynnu ar ewyllys da awdurdodau lleol a'u dehongliad o ddymuniadau rhieni. Oherwydd hyn i gyd parhaodd y Gymraeg i fod yn bwnc yn unig yn hytrach na chyfrwng dysgu effeithiol. Ond fe welwyd datblygiad araf o safbwynt y Gymraeg fel pwnc unigol trwy gydol y tridegau (Morgan, 1981, 250).

3.4 Sefydlu Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

3.4.1 Ysgolion Cynradd

Datblygiad arall a welwyd yn ystod y tridegau oedd dechrau ysgolion meithrin Cymraeg, mentrau preifat oedd y rhain dan ofal rhieni gwladgarol (Morgan, 1981, 250). Datblygiad naturiol o'r ysgolion meithrin hyn oedd agor yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yn Aberystwyth yn 1939. Menter breifat oedd hon o dan arweiniad Syr Ifan ab Owen Edwards, mab O. M. Edwards a sefydlydd Urdd Gobaith Cymru. Fe ysgogwyd ef gan y Seisnigo a fu yn Aberystwyth yn ystod y tridegau. Pan gyrhaeddodd yr 'efaciwis' yn 1939 ofnai Ifan ab Owen Edwards y byddent yn llethu'r ysgol ac yn rhoi Cymraeg rhai fel ei fab ef mewn perygl (Webster, 1990, 191). Felly fe aeth ati i sefydlu ysgol annibynnol lle byddai pob pwnc, ac eithrio'r Saesneg, yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Agorodd yr ysgol Gymraeg, Ysgol Lluest, yng nghanolfan yr Urdd, Aberystwyth ar 25 Medi 1939 gyda saith o ddisgyblion (Jones, 1966, 82). Erbyn Medi 1940 roedd 17 o ddisgyblion ac yn 1946 fe fu'n rhaid symud i adeilad mwy wrth i nifer

y disgyblion gynyddu (Jones, 1966, 82). Cafodd yr ysgol gydnabyddiaeth o'i statws mewn addysg Gymraeg yn Chwefror 1948 pan gafodd ei arolygu gan Arolygwyr ei Mawrhydi. Yn yr adroddiad canmolwyd yr ysgol. Dywedodd yr arolygwyr fod y disgyblion yn dysgu a thyfu yn eu gwybodaeth o fewn awyrgylch gymdeithasol Gymraeg fywiog. Pwysleisiwyd eu bod hefyd yn dysgu'r Saesneg yn effeithiol (Jones, 1966, 82-3).

> *...the School successfully reflects in the classroom and in its general activities the ideals set out by the founders. That ideal is the belief in the value of a rich, spiritual and cultural education based on a Welsh life and language as the best means of releasing the Welsh child to full capacity.*
>
> (Adroddiad Arolygwyr Ei Mawrhydi ar 'Yr Ysgol Gymraeg' Aberystwyth a arolygwyd 13 Chwefror 1948 (dyfynnwyd yn Jones, 1966, 82)

I ddechrau credai pawb mai cenedlaetholwyr yn unig oedd yn gyrru eu plant i'r ysgol ond pan lwyddodd y saith disgybl gwreiddiol yr arholiad ysgoloriaeth yn 1944 dechreuodd mwy o bobl, o'r dosbarth proffesiynol yn arbennig, gymryd diddordeb (Davies, 1954, 12). Bu hyn yn gymhelliad i eraill. Dim ond Cymry Cymraeg a gâi fynediad i'r ysgol i ddechrau hyd nes bod ychydig o draddodiad wedi ei sefydlu. Teimlai'r sefydlwyr y byddai presenoldeb hyd yn oed dau ddi-Gymraeg yn ddigon i newid iaith y buarth (Davies, 1954, 12). Parhaodd yr ysgol i dyfu ac erbyn 1947 roedd 90 disgybl a phump athro. Derbyniai'r ysgol lawer o sylw ac roedd Syr Ifan ab Owen Edwards yn hyrwyddo'r syniad o addysg cyfrwng Cymraeg mewn cyfarfodydd ledled Cymru (Webster, 1990, 191).

Cadwodd arolygwyr yr ysgolion olwg ar yr ysgol newydd ac ar ôl gweld ei bod yn llwyddiannus fe fu llawer ohonynt yn gefnogol i addysg Gymraeg. Un o'r rhain, sef Dr. Matthew Williams, a anogodd Miss Olwen Williams, athrawes o Lanelli, i ymgyrchu am ysgol Gymraeg yn y dref. Ofnai Dr. Williams y byddai'r nifer a fedrai'r Gymraeg yn Llanelli yn lleihau. Yn ystod ymgyrch Llanelli fe'i gwnaed yn glir nad ysgol breifat / annibynnol oedd ei hangen yn Llanelli ond ysgol o dan ofal yr awdurdod addysg lleol (Griffiths, 1997b, 38). Yn 1947 agorodd Sir Gaerfyrddin ysgol gynradd Gymraeg yn Llanelli (Jones, 1966, 83). Cofrestrodd 34 o blant a gwelwyd cefnogaeth yr arolygiaeth unwaith eto gan i'r ysgol gael ei hagor gan Brif Arolygydd Ysgolion Cymru

(Griffiths, 1997b, 38). Dechreuodd trigolion ardaloedd eraill, yn arbennig ardaloedd Seisnig, ymgyrchu am ysgolion Cymraeg.

> *The enthusiasm for such schools spread quickly to other anglicized areas and convinced sceptical education authorities about their viability.*
> (Webster, 1990, 191)

Ond ni ledaenodd y brwdfrydedd hwn i'r ardaloedd naturiol Gymraeg, er enghraifft ym mro'r Preseli fe fu gwrthwynebiad cryf i'r ymgais i sefydlu ysgol ddwyieithog. Yn yr ardaloedd lle gallai'r rhieni fod yn sicr o afael eu plant ar y Saesneg y croesawyd addysg Gymraeg (Davies, 1992, 624).

Erbyn 1950-1 daethai'n amlwg na fedrai'r Urdd barhau i gynnal Ysgol Lluest yn ariannol. Yng Ngorffennaf 1951 penderfynwyd cau Ysgol Lluest fel ysgol annibynnol a gwahoddwyd Pwyllgor Addysg Ceredigion i sefydlu ysgol Gymraeg yn nhref Aberystwyth. Agorwyd ysgol Gymraeg Aberystwyth fel ysgol wladwriaeth dan ofal yr awdurdod addysg lleol ym Medi 1951 (Jones, 1966, 83).

Roedd rhai awdurdodau addysg yn gefnogol iawn i'r syniad o gael ysgolion dwyieithog ond roedd eraill yn amharod iawn. Ers pasio Deddf Addysg 1944 rhoddwyd y cyfle i rieni fynnu bod awdurdodau addysg lleol yn sefydlu ysgolion a fyddai'n defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu (Jenkins, 1997, 10). Rhoddodd y ddeddf gydnabyddiaeth i ddymuniadau rhieni wrth ddewis addysg eu plant, yng nghyd – destun addysg grefyddol yn bennaf, ond rhoddodd hefyd y cyfle i rieni fynnu addysg Gymraeg (Davies, 1992, 613). Yn ystod y pedair blynedd ar ôl agor yr ysgol Gymraeg yn Llanelli agorwyd deuddeg ysgol gynradd arall. Erbyn 1970 roedd 41 ohonynt, yn ogystal â degau o unedau Cymraeg. Roedd rhieni yn ffafrio ysgolion Cymraeg yn hytrach nag unedau ond roedd yn well gan y llywodraeth lafur gael unedau o fewn ysgolion (Davies, 1992, 621). Yn ystod y pumdegau fe wnaeth dwy sir yn arbennig sef Sir y Fflint a Sir Forgannwg ymgais i ledaenu addysg cyfrwng Cymraeg. Bwriad Sir y Fflint oedd sicrhau bod ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn cyrraedd pob plentyn yn y sir. Ond nid oedd yr Awdurdodau addysg lleol i gyd mor awyddus i sefydlu ysgolion Cymraeg. Caed enghraifft o hyn yn Abertawe; er bod rhieni 231 o blant wedi dweud eu bod yn awyddus i'w plant fynd i ysgol Gymraeg nid oedd y Cynghorwyr yn gweld yr angen i sefydlu

ysgol Gymraeg. Credent mai yn y cartref y dylid dysgu Cymraeg, bod y Gymraeg yn anfantais ac y byddai'n ddrud cludo plant i'r ysgol newydd.

Y bwriad i ddechrau wrth sefydlu'r ysgolion Cymraeg oedd rhoi cyfle i blant o gartrefi Cymraeg gael eu haddysg yn eu mamiaith; dyma beth oedd bwriad Syr Ifan ab Owen Edwards er enghraifft. Ond newidiodd hyn yn fuan, denwyd sylw rhieni di-Gymraeg ac erbyn diwedd y pumdegau roedd mwyafrif disgyblion yr ysgolion Cymraeg o gartrefi di-Gymraeg (Davies, 1993, 77). Bellach ceir ysgolion mewn ardaloedd di-Gymraeg lle mae 95% o'r disgyblion o gartrefi di-Gymraeg (Griffiths, 1997b, 40). Felly gellir gweld dau gyfnod clir yn natblygiad yr ysgolion Cymraeg. Yn gyntaf, eu gwaith oedd darparu addysg Gymraeg i Gymry Cymraeg yn arbennig mewn ardaloedd Seisnig lle roeddent mewn perygl o golli eu Cymraeg mewn môr o Saesneg. Ond yn ddiweddarach (o tua 1960au ymlaen) caed ysgolion lle mae'r rhai sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt yn lleiafrif. Prif nod yr ysgolion Cymraeg bellach yn ôl W.R. Jones yw sicrhau bod eu disgyblion yn dod yn ddwyieithog yn hytrach na darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg (Jones, 1966, 83–4).

Ofnai rhai y byddai sefydlu'r ysgolion Cymraeg yn milwrio yn erbyn dysgu'r Gymraeg fel ail – iaith mewn ysgolion cynradd eraill. Mae'n debyg fod gan y rhain le i boeni; wedi'r cwbl roedd yr ysgolion eraill yn colli'r rhieni a oedd yn mynd i frwydro o blaid dysgu mwy o Gymraeg. Yn ôl WR Jones fe welwyd rhai ysgolion a oedd yn dueddol o esgeuluso'r Gymraeg fel ail iaith. Ond, ar y llaw arall roedd rhai Awdurdodau Addysg Lleol yn hybu dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn yr ysgolion nad oedd yn rhai penodedig Gymraeg. Roedd gan sir Gaernarfon, sir y Fflint a sir Forgannwg bolisïau ail iaith cryf. Cyhoeddodd sir Forgannwg faes llafur newydd ar gyfer dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn 1959; gwelai'r awdurdod y cynllun fel cam yn y broses o ledaenu dysgu'r Gymraeg yn ysgolion y sir (Jones, 1966, 84).

Hyd yn oed mor fuan â'r pedwardegau gwyddom mai'r Gymraeg oedd prif iaith dysgu yn yr ardaloedd lle'r oedd y Gymraeg yn gryf yn y gymdeithas. Yng ngweddill Cymru roedd yr ymdrech i ddysgu'r Gymraeg i rai uniaith Saesneg yn amrywio yn ôl polisi'r awdurdod addysg lleol. Ychydig iawn o ddarpariaeth oedd ar gyfer y lleiafrif o gartrefi Cymraeg a oedd mewn ysgolion arferol. (Davies, 1993, 77) Yn ddiweddarach gwelwyd ymdrech fwriadol i agor ysgolion a fyddai'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe

wêl awduron 'Wales, the Shaping of a Nation' wahaniaeth sylfaenol rhwng yr ysgolion naturiol Cymraeg yn y gogledd gwledig a'r gorllewin a oedd yn gyson wedi dysgu'n rhannol neu'n llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg a'r ysgolion penodedig Gymraeg. (Morgan, a Thomas, 1984, 226)

> *Such schools are called 'naturally Welsh schools', thus underlining the highly self-conscious character of the Welsh schools (Ysgolion Cymraeg), non political in nature, but with a missionary zeal to defend the embattled Welsh language in face of indifference and hostility.*
> (Morgan a Thomas, 1984, 226)

Erbyn y chwedegau roedd y Gymraeg yn cael ei dysgu'n eang fel pwnc ysgol sylfaenol mewn ysgolion cynradd a rhai ysgolion uwchradd bron ymhob awdurdod lleol. Roedd dulliau dysgu, yn arbennig dulliau dysgu ail iaith, wedi gwella yn ystod y pumdegau a'r chwedegau. Lluosogodd adnoddau dysgu a chafodd datblygiadau mewn addysg ddwyieithog eu hyrwyddo gan gyhoeddiadau megis 'Lle'r Gymraeg a'r Saesneg yn ysgolion Cymru' a gyhoeddwyd yn 1952 ac Adroddiad Gittins ar addysg gynradd yng Nghymru 1967 (Davies, 1993, 79). Anogodd y cyhoeddiadau hyn yr awdurdodau i ehangu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, yn adroddiad y Cyngor Canol ar addysg yn 1952 dywedir y dylid sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg er mwyn iddynt fod o fewn cyrraedd plant o gartrefi Cymraeg (Griffiths, 1997b, 40).

> *Mewn mannau sydd â lleiafrif bychan o blant Cymraeg, dichon mai'r peth gorau fydd sefydlu ysgol Gymraeg mewn man canolog, a throsglwyddo iddi'r ychydig blant Cymraeg a geir ymhob un o'r ysgolion Saesneg a hefyd sicrhau addysg addas i'r plentyn Cymraeg trwy gyfrwng ei famiaith.*
> (Griffiths, 1997b, 40)

Cafodd adroddiadau fel hyn effaith cadarnhaol ar addysg Gymraeg a chynyddodd nifer y disgyblion a gâi addysg Gymraeg yn sylweddol. Wrth i awdurdodau addysg sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg lleihaodd dalgylchoedd yr ysgolion yn sylweddol (Griffiths, 1997b, 40).

Cafwyd pwysau gan rieni am fwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn sawl ardal, er enghraifft ym Morgannwg (Morgan, 1981, 361). Un feirniadaeth ar yr ysgolion Cymraeg oedd mai rhai ar gyfer y dosbarth canol oeddynt.

These parents tended to be articulate, determined members of a new middle class for whom speaking Welsh meant a high social status and acceptability.
(Morgan, 1981, 361)

Ym marn yr hanesydd John Davies roedd sail i'r feirniadaeth hon yn nyddiau cynnar yr ysgolion ond wrth iddynt dyfu lleihaodd yr elfen hon (Davies, 1992, 621).

I ddechrau sefydlwyd yr ysgolion penodedig Cymraeg yn yr ardaloedd Seisnig yn y gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain ac yn y trefi gorllewinol a oedd wedi Seisnigo (Davies, 1993, 78). Daeth yr ysgolion hyn â gobaith i'r Gymraeg yn y trefi hyn. Roeddynt yn fodd i rieni Cymraeg mewn ardaloedd Seisnig sicrhau y byddai eu plant yn siarad Cymraeg (Davies, 1992, 621).

Cymerwyd yn ganiataol y byddai'r ysgolion cynradd yn yr ardaloedd Cymraeg yn aros yn naturiol Gymraeg. Ond, yn ystod y cyfnod pan oedd yr ysgolion penodedig Gymraeg yn tyfu roedd yr ysgolion naturiol Gymraeg mewn sawl ardal yn dioddef yn sgîl mewnlifiad cyson o Loegr i gefn gwlad Cymru. Yn ôl John Davies, erbyn 1970 roedd bron pob ysgol naturiol Gymraeg yn dioddef o broblemau ieithyddol dybryd. Er enghraifft ceid pentrefi lle roedd tri chwarter y trigolion yn siarad Cymraeg ond plant y chwarter arall oedd tri chwarter plant ysgol y pentref. Ceid hefyd enghreifftiau o bobl yn symud o ardaloedd traddodiadol Gymraeg i ardal Seisnigedig er mwyn i'w plant gael addysg Gymraeg (Davies, 1992, 623). Galwodd rhai Cymry Cymraeg ar i'r ysgolion hyn gael eu gwneud yn rhai penodedig Gymraeg. Gwrthwynebai'r mewnfudwyr ac roedd yn anodd i'r awdurdodau addysg wneud hyn gan ei bod yn anodd cynnig dewis rhwng ysgolion Cymraeg ac ysgolion Saesneg mewn ardaloedd gwledig (Davies, 1993, 78). Dengys hyn yr angen am gynllunio manwl ym maes addysg Gymraeg (Davies, 1993, 79).

Lleiafrif yw'r ysgolion Cymraeg, boed yn ysgolion penodedig Gymraeg neu yn naturiol Gymraeg. Ysgolion Saesneg eu cyfrwng yw mwyafrif ysgolion Cymru. Ceir amrywiaeth yn eu mysg o ran faint o Gymraeg ail iaith y maent yn ei ddysgu. Ceir amrywiaeth hefyd yn effeithiolrwydd y dysgu. Hyd yn oed yn syth ar ôl yr ail ryfel byd fe ddysgwyd y Gymraeg ym mhob un o ysgolion sir Forgannwg ond prin iawn oedd y ddarpariaeth mewn mannau eraill megis sir Fynwy (Davies, 1993, 79).

Fe fu'r datblygiadau mewn addysg Gymraeg yn achos dadleuol, er enghraifft sefydlodd academyddion o Aberystwyth a Bangor fudiad o'r enw *'Language Freedom Movement'*. Roeddent yn gwrthwynebu unrhyw ymgais i wneud y Gymraeg yn rhan annatod o'r cwricwlwm. Gwelwyd gwrthwynebiad yn ddiweddarach mewn sawl man yn arbennig wedi ad-drefnu llywodraeth leol yn Ebrill 1974. Yn dilyn yr ad-drefnu lluniodd nifer o'r siroedd newydd bolisïau iaith cryfach a mwy cyson na chynt (Davies, 1993, 79). Y polisi iaith mwyaf pellgyrhaeddol oedd un sir Gwynedd. Anelai'r awdurdod tuag at wneud pob plentyn yn y sir yn rhugl yn y Gymraeg a chynnig adnoddau arbennig i blant sy'n symud i'r sir er mwyn eu galluogi i ddod yn rhugl yn gyflym (Davies, 1993, 79). Caed gwrthwynebiad cryf iawn yn Nyfed yn ogystal.

Yn dilyn ad-drefnu awdurdodau lleol yn 1974 fe gafwyd mwy o gysondeb ym mholisïau addysg y siroedd yng nghyswllt y Gymraeg. Fel y dywedwyd eisoes, gan sir Gwynedd y gwelwyd polisi iaith mwyaf pellgyrhaeddol a 'radical'. Caed polisi eithaf systematig gan Ddyfed hefyd. Rhannwyd ysgolion y sir yn dri chategori, roedd ysgolion categori A a oedd yn cynnwys y mwyafrif o ysgolion gwledig y sir y tu allan i dde Penfro yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg. Gwylltiodd y penderfyniad hwn rai pobl ac aethant ati i sefydlu'r mudiad *'Education First'*. Fe fu siroedd eraill yn llai systematig wrth lunio polisi iaith. Cynhwysai'r siroedd Clwyd, Powys a Gorllewin Morgannwg ardaloedd Cymraeg sylweddol ond nid oedd ganddynt bolisïau iaith cryf iawn. Gwelwyd hyn yn arbennig ym Mhowys lle roedd problemau mawr yn sgîl dwysedd poblogaeth isel ac ysgolion bach gwledig. Er i siroedd De a Chanol Morgannwg barhau i ehangu eu rhwydwaith o ysgolion Cymraeg, nid oeddynt bob amser yn frwdfrydig i wneud hynny. Fe fu gwelliannau mawr yn sir Gwent, agorwyd tair ysgol benodedig Gymraeg a nifer o unedau Cymraeg.

Un o orchwylion cyntaf yr ysgolion Cymraeg oedd profi y gallent ddarparu addysg gyflawn i'r disgyblion ac na fyddai eu safonau academaidd yn dioddef wrth addysgu mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg drwy'r Gymraeg (Jones, 1997b, 366).

Yn ystod y cyfnod pan oedd yr ysgolion penodedig Gymraeg yn tyfu roedd yr ysgolion naturiol Gymraeg mewn sawl ardal yn dioddef yn sgîl mewnlifiad cyson o Loegr i gefn gwlad Cymru. Yn ôl John Davies, erbyn 1970 roedd bron pob ysgol naturiol Gymraeg yn dioddef o broblemau ieithyddol dybryd. Er enghraifft ceid pentrefi

lle roedd tri chwarter y trigolion yn siarad Cymraeg ond plant y chwarter arall oedd tri chwarter plant ysgol y pentref. Ceid hefyd enghreifftiau o bobl yn symud o ardaloedd traddodiadol Gymraeg i ardal Seisnigedig er mwyn i'w plant gael addysg Gymraeg (Davies, 1992, 623).

Roedd cyfnod dechreuol addysg Gymraeg yn gyfnod dadleuol a chymhleth fel y noda K. O. Morgan (1981, 361):

> *The whole controversy over 'Ysgolion Cymraeg' was a complex one, involving the clash of widely distinct educational, social, and national issues. But by the late seventies, the place of the Welsh language in the elementary and secondary schools was undoubtedly much more zealously guarded than had been the case in the fourties or fifties.*
> (Morgan, 1981, 361)

Wrth i'r ysgolion cynradd Cymraeg gynyddu a llwyddo, y datblygiad naturiol nesaf oedd addysg uwchradd Gymraeg.

3.4.2 Ysgolion Uwchradd

Unwaith eto yn yr ardaloedd Seisnig y bu'r arloesi o ran sefydlu a chynyddu ysgolion uwchradd Cymraeg. Sir y Fflint fu'r gyntaf i sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Rhyl yn 1956. Ymdrech un gŵr yn arbennig oedd sefydlu Ysgol Glan Clwyd, sef Dr. Haydn Williams, cyfarwyddwr addysg sir y Fflint (Ysgol Glan Clwyd, 1996, 4).

> *...ni byddai'r ysgol, a ddaeth yn destun balchder inni i gyd, fyth wedi dod i fodolaeth oni bai am argyhoeddiad ac ymroddiad un dyn ... Mae dyled ysgolion Cymraeg y sir, ac yn arbennig Ysgol Glan Clwyd, yn ddyled anfesuradwy i ymdrechion di-ildio'r Dr Haydn Williams.*
> (Ysgol Glan Clwyd, 1996, 4)

Wynebwyd sawl problem wrth sefydlu'r ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf, er enghraifft rhaid oedd penderfynu pa bynciau i'w dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a pha rai y byddai'n rhaid eu dysgu drwy'r Saesneg oherwydd diffyg geirfa ac adnoddau Cymraeg. Oherwydd y siom o sylweddoli nad oedd adnoddau megis

gwerslyfrau yn y Gymraeg y tu allan i'r pwnc ei hun penderfynwyd dechrau trwy ddysgu'r celfyddydau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r gwyddorau yn Saesneg (Ysgol Glan Clwyd, 1996, 9). Fe fu'n rhaid i staff yr ysgol newydd fynd ati i gyfieithu ac addasu deunydd o'r Saesneg cyn gallu dysgu'r celfyddydau yn Gymraeg hyd yn oed (Ysgol Glan Clwyd, 1996, 9). Credai Dr H. Williams y byddai'r rhieni a gefnogodd ysgolion cynradd Cymraeg yn cefnogi agor ysgol uwchradd a fyddai'n sicrhau parhad i addysg Gymraeg eu plant. I'r gwrthwyneb; gwelwyd gwrthwynebiad mewn cyfarfodydd gan rai rhieni Cymraeg eu hiaith, roedd rhai eisoes wedi prynu gwisg ysgol arall cyn cael clywed y byddai eu plant yn mynd i'r ysgol Gymraeg newydd (Ysgol Glan Clwyd, 1996, 4). Yn wahanol i nifer o'r ysgolion cynradd Cymraeg, o ochr yr awdurdod addysg lleol y daeth yr ysgogiad yn achos yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf. Ond y broblem fwyaf yn sicr oedd y diffyg adnoddau a'r diffyg geirfa briodol ar gyfer rhai pynciau, er enghraifft ar gyfer gwaith coed, gwyddor tŷ a Daearyddiaeth. Bu'n rhaid ceisio adfer hen eiriau a bathu rhai newydd (Ysgol Glan Clwyd, 1996, 9).

Gwelwyd yr un cynnydd gyda'r ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd. Yn nechrau'r chwedegau sefydlwyd pedair ysgol uwchradd Gymraeg arall, Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug; Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam; Ysgol Rhydfelen, Pontypridd ac Ysgol Y Strade, Llanelli. Erbyn 1979 roedd chwech ysgol uwchradd benodedig Gymraeg a dwyieithog arall yn yr arfaeth (Williams, 1997a, 154). Un o'r ysgolion newydd hyn oedd Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn a agorwyd yn 1983 gan ailddiffinio dalgylch Ysgol Glan Clwyd gan fod niferoedd yr ysgol honno bellach dros fil.

Bellach mae 53 ysgol uwchradd benodedig ddwyieithog (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c, 15), ac, fel y gwelwyd gyda'r ysgolion cynradd, fe fu cynnydd hefyd yn safle'r Gymraeg o fewn yr ysgolion uwchradd mewn ardaloedd naturiol Gymraeg. Roedd y cynnydd yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg yn arafach nag yn y sector cynradd. Fe ddaeth llawer o'r datblygiad yn yr ysgolion uwchradd yn yr ardaloedd naturiol Gymraeg yn sgîl yr ysgolion penodedig ddwyieithog.

One significant result of the establishment of these Welsh medium schools has been the extension of the use made of Welsh as a medium in other secondary schools, especially in the lower forms in schools situated in Welsh-speaking districts.
(Jones, 1966, 85)

Cynyddodd sefydlu'r ysgolion penodedig y galw am athrawon i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sgîl sefydlu'r ysgolion penodedig ddwyieithog y dechreuodd y Swyddfa Gymreig noddi cyrsiau newid cyfrwng dysgu i athrawon a chynnig grantiau i fyfyrwyr hyfforddi i fod yn athrawon cyfrwng Cymraeg (Williams, 1997a, 155). Gyda thwf addysg uwchradd Gymraeg o'r chwedegau ymlaen gwelwyd ateb i nifer o'r problemau a rwystrodd yr ysgolion yn yr ardaloedd Cymreig rhag dysgu rhai pynciau trwy'r Gymraeg. Bu cynnydd yng ngeirfa arbenigol yr iaith yn sgîl cyhoeddi'r Geiriadur Termau (1950) a chyfres adran arholi Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru o lyfrynnau termau er enghraifft Termau Cerddoriaeth (Williams, 1997a, 148). Sicrhawyd hefyd gyflenwad o werslyfrau newydd Cymraeg. Bu cynnydd hefyd yn y nifer o arholiadau yr oedd yn bosibl eu sefyll trwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 1981 roedd 37 pwnc lefel TAG / TAU yn cael eu harholi yn Gymraeg ac 19 pwnc Lefel A. (Williams, 1997a, 155) Tri deg a thri disgybl yn unig a safodd arholiadau TAG cyfrwng Cymraeg yn 1960 a hynny mewn pedwar pwnc yn unig (Williams, 1997a, 149).

Oni bai am lwyddiant yr ysgolion uwchradd penodedig dwyieithog hyn, y tebygrwydd yw na fyddai'r Gymraeg wedi datblygu'n gyfrwng byw yng Ngwynedd nac yn rhai o'r ysgolion naturiol ddwyieithog yn Nyfed a Phowys.
(Williams, 1997a, 155)

3.5 Adroddiad Gittins

Mae'n debyg mai'r adroddiad mwyaf arwyddocaol o ran hybu addysg ddwyieithog yng Nghymru ar ôl Adroddiad 1927 oedd Adroddiad Gittins 1967. Rhoddodd yr adroddiad hwn le blaenllaw iawn i addysg ddwyieithog yn ysgolion cynradd Cymru.

It is noticeable that the report for England submitted at the same time dwelt on teaching methods and on school facilities and other technical matters. The Gittins Report, by contrast, concentrated almost entirely on protecting the

Welsh language and using it to express the cultural, social and spiritual values of the society which gave it birth.
(Morgan, 1981, 360)

Awgrymodd Adroddiad Gittins y dylai pob awdurdod addysg gael polisi iaith eglur a gâi gefnogaeth ariannol digonol. Dylai'r polisi hefyd fod yn un y byddai'r ysgolion yn ymwybodol ohono. Sylweddolodd Gittins fod polisi iaith eithaf cyflawn gan bob awdurdod addysg ac eithrio tri, ond nad oedd y polisïau bob amser yn cael eu gweithredu (Webster, 1990, 193).

Ofnai Pwyllgor Gittins fod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar sefydlu ysgolion dwyieithog yn yr ardaloedd Seisnigedig ar draul yr ysgolion naturiol Gymraeg (Webster, 1990, 193).

There is a distinct danger that in our delight over a few hundred new Welsh speakers acquired in the anglicised areas, we may overlook the fact that hundreds, or even thousands, more are being lost to Welsh in the linguisticially-mixed areas which have been lulled into a false sense of security and made no move to safeguard Welsh as a medium of instruction because Welsh is spoken in the community.
(Cyngor Canol ar Addysg, 1967, 242)

Barn y pwyllgor oedd y dylai'r awdurdodau addysg dderbyn cyfrifoldeb am hyn yn hytrach na dibynnu ar ymdrech a phwysau gan rieni (Cyngor Canol ar Addysg, 1967, 242). Awgrymodd y pwyllgor y dylai ysgolion cynradd naturiol Gymraeg gael eu gwarchod trwy eu newid yn ysgolion penodedig Cymraeg (Webster, 1990, 193). Awgrym cryf arall yn yr Adroddiad oedd y dylid creu ffrwd Gymraeg mewn ysgolion uwchradd lle bynnag yr oedd hyn yn bosibl. Pan nad oedd hynny'n bosibl awgrymwyd y dylai bod grwpiau neu ddosbarthiadau ar wahân i blant a deimlai'n fwy cartrefol yn y Gymraeg. Dylai'r rhain, nid yn unig gael gwersi Cymraeg iaith gyntaf, ond hefyd gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg (Webster, 1990, 193).

Yn ôl Roger Webster cafodd yr Adroddiad ei ddylanwadu'n gryf gan ddamcaniaethau y cyfnod ynglŷn â dysgu ieithoedd. Awgrymai'r adroddiad y gellid dechrau dysgu'r ail iaith yn nosbarth y babanod neu hyd yn oed cyn oed addysg orfodol (Webster, 1990, 193). Dyma'r ddamcaniaeth a arweiniodd yn ddiweddarach ar sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin.

Cafodd awgrymiadau Gittins eu cefnogi'n gryf gan y Swyddfa Gymreig ond amrywiol fu ymateb yr Awdurdodau Addysg (Webster, 1990, 193). Fe fu gwelliannau o ganlyniad i argymhellion Adroddiad Gittins (Davies, 1992, 624). Adwaith i Adroddiad Gittins oedd gweithredu'r *'School's Council Bilingual Project'* mewn rhyw 70 ysgol gynradd lle cai'r Gymraeg a'r Saesneg eu defnyddio'n gyfartal. Er hyn, ni sefydlwyd rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion dwyieithog yn rhannol oherwydd problemau trefnu ond hefyd oherwydd fod rhieni di-Gymraeg eisiau darpariaeth Gymraeg helaethach yr ysgolion penodedig Gymraeg ar gyfer eu plant (Williams, 1999b, 58-9).

3.6 Mudiadau Gwirfoddol

Sefydlwyd nifer o fudiadau gwirfoddol a gyfrannodd tuag at dwf addysg yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Yn 1952 sefydlwyd Undeb Rhieni Ysgolion Cymraeg (Rhieni Dros Addysg Gymraeg er 1984). Bwriad y mudiad oedd cysylltu rhieni'r plant a fynychai ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog a phwyso am fwy o ddarpariaeth addysg Gymraeg. Bu ganddynt ran allweddol yn nhwf addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg. Bu'r mudiad yn allweddol yn ystod yr ymgyrch i sefydlu ysgolion dwyieithog penodedig yn Nyfed yn 1990-1. Disgrifia 'Rhag' eu hunain, fel mudiad sydd yn cynrychioli rhieni trwy Gymru i gyd. Eu nod yw hybu addysg Gymraeg a sicrhau'r adnoddau gorau ar gyfer y garfan gynyddol o blant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg (http://www.rhag.net/pwyydym.html). Mewn pamffled o ddechrau'r nawdegau, 'Addysg Gymraeg i'ch plant', gosodant fanteision addysg Gymraeg mewn pedwar categori: addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a galwedigaethol. Anogant rieni i fynnu addysg Gymraeg i'w plant.

Ymgyrchodd y mudiad yn gyson i geisio sefydlu mwy o ysgolion dwyieithog ac mewn rhai ardaloedd bu cynrychiolwyr o'r mudiad yn cynnal trafodaethau gydag Awdurdodau Addysg Lleol (Griffiths, 1997b, 41).

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd sefydlwyd UCAC sef Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru. Cefnoga'r undeb addysg yn y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg gan ddadlau dros greu system addysg ddwyieithog gyflawn. Sefydlwyd yr

undeb oherwydd anfodlonrwydd nifer o athrawon gyda Seisnigrwydd addysg yng Nghymru (Williams, 1991, 6).

Trafodwyd eisoes le pwysig Mudiad yr Urdd yn nechreuad ysgolion Cymraeg. Mudiad arall arwyddocaol o ran ehangu addysg Gymraeg a hybu dwyieithrwydd yng Nghymru yw Mudiad Ysgolion Meithrin. Agorwyd yr ysgol feithrin cyfrwng Cymraeg cyntaf ym Maesteg yn fuan wedi'r Ail Ryfel Byd ond ni sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin fel mudiad cenedlaethol hyd 1971. Prif fwriad y mudiad yw darparu addysg feithrin drochi Gymraeg i blant rhwng dwy a hanner a phump oed. Ceir trafodaeth pellach o hanes a gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin ym Mhennod 4. Creodd y cynnydd a fu mewn ysgolion meithrin cyfrwng Cymraeg yr angen a'r galw am ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (Davies, 1993, 77).

Bu Cymdeithas yr Iaith hefyd yn allweddol yn yr ymgyrch i gynyddu'r ddarpariaeth mewn addysg Gymraeg. Tynnodd y Gymdeithas sylw at statws israddol y Gymraeg ym mywyd cyhoeddus Cymru o'r chwedegau ymlaen. Yn 1982 lansiodd Cymdeithas yr Iaith ymgyrch i sefydlu Corff Datblygu Addysg Gymraeg. Fe ysgogwyd y Gymdeithas gan y cynnydd a fu yn y mewnlifiad o deuluoedd Saesneg i ardaloedd gwledig Cymraeg (Jones, 1997b, 11). Arweiniodd yr ymgyrch at sefydlu Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg yn 1986. Bu cynadleddau'r Gymdeithas yn fan trafod ar gyfer datblygiad addysg feithrin Gymraeg, dysgu Cymraeg mewn ardaloedd di-Gymraeg a chryfhau sefyllfa adnoddau a gwerslyfrau Cymraeg (Williams, 1997a, 16).

Er bod y mudiadau hyn wedi gweithio i hybu datblygiad addysg ddwyieithog yng Nghymru gwelwyd mudiad arall a wrthwynebai y datblygiadau. Dechreuodd y mudiad *'Education First'* yn Nyfed fel adwaith i bolisi iaith newydd y sir. Yn ôl Cynog Dafis roedd polisi iaith Dyfed cyn hyn yn aneglur. (Dafis, 1985, 21) yr ysgolion cynradd unigol oedd yn manylu ar eu polisi iaith. Oherwydd hyn roedd amrywiaeth mawr yn sefyllfa'r Gymraeg rhwng y gwahanol ysgolion. Gweithredai rhai ysgolion bolisi o gymathu rhai di-Gymraeg ond caed hefyd ysgolion a ddefnyddiai'r Saesneg fel cyfrwng dysgu i blant Cymraeg a Saesneg (Dafis, 1985, 22). Gweithredwyd y polisi newydd ym mhob rhan o'r sir ac eithrio ardaloedd Hwlffordd, Aberdaugleddau, Dinbych-y-Pysgod, Penfro ac Arberth.

Mae Awdurdod Addysg Dyfed yn datgan yn bendant o blaid polisi dwyieithog yn ei ysgolion cynradd... Nod y polisi dwyieithog hwn yw addysgu'r plant i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn weddol rhwydd erbyn gadael yr ysgol gynradd. Gesyd hyn gyfrifoldeb ar ysgolion i feithrin mamiaith y plentyn, boed honno'n Gymraeg neu Saesneg, ac i ddatblygu yr ail iaith mor gynnar â phosibl yn ei hanes. Dylai pob ysgol gyflwyno ail iaith yn adran y plant bach. Ar ôl i'r plentyn gael meistrolaeth ychwanegol o'r ail iaith yn y cyfnod iau, dylid ehangu y defnydd a wneir ohoni ym mywyd a gwaith yr ysgol.

(Datganiad o Bolisi Addysgu'r Gymraeg a Saesneg yn ysgolion Cynradd Dyfed dyfynnwyd yn Dafis, 1985, 21)

Ofnai rhieni rhai o'r plant a effeithiwyd gan y polisi newydd, fod addysg eu plant yn dioddef oherwydd y pwyslais cynyddol ar ddysgu'r Gymraeg. Sefydlodd y rhieni hyn y mudiad '*Education First / Addysg yn Gyntaf*'.

Mae Addysg yn Gyntaf eisiau polisi iaith yn Ysgolion Cynradd Dyfed sydd yn cydnabod yr hawl gan blentyn i gael ei ddysgu i ddarllen ac ysgrifennu yn gyntaf yn ei famiaith, boed Gymraeg neu Saesneg. Roedd polisi blaenorol Dyfed yn gwneud hyn.

(pamffled gan Addysg yn Gyntaf -dim dyddiad)

Galwai'r mudiad am ddychwelyd i'r polisi iaith blaenorol a oedd yn eu barn hwy yn cydnabod pwysigrwydd addysg gynnar plentyn trwy gyfrwng y famiaith. Credent y dylai'r ddwy iaith, y Gymraeg a'r Saesneg, gael statws cyfartal yn ysgolion cynradd gwledig Dyfed (Pamffled Addysg yn Gyntaf). Nid rhai di-Gymraeg yn unig oedd yn rhan o'r mudiad, un o'r sefydlwyr oedd Blodwen Griffiths, athrawes a siaradai Gymraeg. Dyma ran o lythyr ganddi i'r Cambrian News yn 1990.

Bilingualism by the end of primary schooling is stated aim of the policy. It has not been devised to enable our children to realise their full potential and enable them to contribute to, and gain from, the society within which they live. Parents may well support the idea of bilingualism but, if it is to be achieved by neglecting other essential skills, they might think differently.

(Cambrian News, 29/6/90)

3.7 Polisïau Awdurdodau Addysg

Fel y dywedwyd eisoes bu amrywiaeth mawr yn narpariaeth addysg Gymraeg iaith gyntaf ac ail iaith rhwng y gwahanol awdurdodau addysg. Ers dechrau'r ugeinfed ganrif bu polisïau'r llywodraeth yn gefnogol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg

ond cyfrifoldeb a dewis yr Awdurdodau Addysg Lleol oedd gweithredu ai peidio. Ers cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol ym 1988 lleihawyd dewis yr Awdurdodau Addysg Lleol dros le'r Gymraeg o fewn eu hysgolion (Webster, 1990 194).

Gan y ddwy sir â'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef Dyfed a Gwynedd, y gwelwyd y polisïau iaith cryfaf. Yn ôl Adroddiad Gittins 1967, roedd gan bob un ond tri Awdurdod Addysg Lleol bolisi iaith hyd yn oed os nad oeddynt yn eu gweithredu'n llym iawn (Webster, 1990, 193). Yn ystod pumdegau a chwedegau'r ugeinfed ganrif, hyd yn oed yn rhai o ardaloedd Cymreiciaf Cymru, nid oedd rhai awdurdodau addysg yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Prif bryder Awdurdod Addysg Meirionydd, sir Gymreiciaf Cymru, oedd pa mor effeithiol y dysgwyd Saesneg yn eu hysgolion (Webster, 1990, 192). Ar y llaw arall roedd gan sir Gaernarfon bolisi iaith brwdfrydig iawn. Bwriad yr awdurdod oedd cael polisi iaith gwahanol ar gyfer pob ysgol gan ddibynnu ar gymysgedd ieithyddol y disgyblion (Webster, 1990, 193).

Ymatebodd nifer o Awdurdodau Addysg i awgrymiadau Adroddiad Gittins, er enghraifft gweithredai siroedd Aberteifi, Brycheiniog a Threfaldwyn bolisi o gyflwyno'r Gymraeg a'r Saesneg mor fuan â phosib gan gadw'r famiaith fel yr iaith gryfaf hyd ddiwedd y dosbarth babanod (Webster, 1990, 193). Datblygodd siroedd Powys, Dyfed a Gwynedd bolisïau iaith cadarn yn rhannol fel ymateb i'r mewnfudo a fu i'r ardaloedd traddodiadol Cymraeg. Yng Ngwynedd yn arbennig cyflwynwyd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mor fuan â phosib, hyd yn oed mewn ysgolion lle roedd mwyafrif y plant yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Cafodd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ei gyflwyno mewn ysgolion uwchradd hefyd mewn rhannau o'r cwricwlwm. Sefydlodd Awdurdodau Addysg Dyfed a Gwynedd ysgolion uwchradd naturiol Gymraeg yn yr ardaloedd Cymraeg. Cafodd polisïau iaith cryf yr Awdurdodau Addysg hyn gefnogaeth gan y Swyddfa Gymreig (Webster, 1990, 194).

> *The Welsh Office gave additional support to Welsh medium teaching by inserting a clause into the 1980 Education Act that gave the Secretary of State powers to give financial aid to local authorities and others to provide Welsh learning materials, extra teachers and inservice training.*
> (Webster, 1990, 194)

Yn Ebrill 1974 ad-drefnwyd llywodraeth leol gan greu wyth sir o'r newydd. Aeth rhai ohonynt ati i lunio polisi iaith mwy cyson a chryf. Y polisi iaith mwyaf pellgyrhaeddol oedd un Gwynedd a anelai i wneud pob plentyn yn y sir yn rhugl yn y Gymraeg. Gwnaent hyn yn rhannol drwy gynnig adnoddau arbennig i blant mewnfudwyr a symudai i'r ardal er mwyn eu galluogi i ddod yn rhugl yn gyflym (Davies, 1993, 79). Lluniodd sir Dyfed bolisi a rannodd yr ysgolion yn gategorïau A, B ac C. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r Gymraeg yn ysgolion categori A, a gynhwysai'r mwyafrif o'r ysgolion gwledig y tu allan i Dde Penfro. Cynhwysai rhai o siroedd eraill Cymru, er enghraifft Clwyd, Powys a Gorllewin Morgannwg ardaloedd Cymraeg sylweddol ond nid oedd eu polisïau iaith hwy mor drylwyr. Parhaodd siroedd De a Chanol Morgannwg i ehangu eu rhwydwaith o ysgolion Cymraeg er nad oeddynt yn frwdfrydig wrth wneud hyn drwy'r adeg. Bu gwella yn yr hen sir Fynwy wrth i sir Gwent gael ei sefydlu: sefydlwyd tair ysgol gynradd benodedig Gymraeg a nifer o unedau Cymraeg. Bu cynnydd mawr yn nysgu ail iaith yn y sir hefyd.

Yn 1978 awgrymodd y cyhoeddiad 'Dyfodol i'r Iaith Gymraeg' y dylai'r llywodraeth gryfhau hawl rhieni i fynnu addysg Gymraeg drwy gryfhau'r cymal yn Neddf Addysg 1944 a roddai'r hawl i awdurdodau sefydlu ysgolion dwyieithog (Williams, 1997a, 151). Yn ôl yr adroddiad ni ddefnyddid y Gymraeg yn ddigon helaeth fel cyfrwng na iaith gymdeithasol mewn ysgolion. Cafodd hyn ei ategu mewn arolwg arall a gyhoeddwyd yn 1981 'Gwaith Cyfrwng Cymraeg yn yr Ysgolion Uwchradd'; honnai'r adroddiad fod yr arweiniad a roddir i ysgolion gan yr awdurdodau addysg lleol yn ffactor sylfaenol. Yn nechrau'r wythdegau penderfynodd siroedd Clwyd, Powys a De Morgannwg weithredu polisi o gyfyngu dysgu cyfrwng Cymraeg i ysgolion penodedig neu naturiol ddwyieithog, roedd polisi tebyg gan siroedd Gorllewin Morgannwg a Morgannwg Ganol. Nid oedd gan sir Gwent ddarpariaeth ar gyfer dysgu Cymraeg, ond roeddynt yn fodlon talu i'w disgyblion deithio i Forgannwg i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Siroedd Dyfed a Gwynedd yn unig oedd ag unrhyw ddarpariaeth ar gyfer defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng mewn ysgolion uwchradd, dibynnai sir Dyfed ar bolisïau'r hen siroedd, nid oedd wedi llunio polisi newydd (Williams, 1997a, 151). Pan sefydlwyd polisi fe amrywiai'n fawr o gael y Gymraeg fel pwnc gorfodol hyd 16

oed i ddewis personol yr ysgolion unigol (Williams, 1997a, 152). Amrywia sefyllfa'r Gymraeg fel cyfrwng hefyd.

Roedd gan Awdurdod Addysg Gwynedd bolisi cyfrwng Cymraeg pendant, amrywiai gofynion y polisi yn ôl natur ieithyddol y dalgylchoedd. Yn 1981 roedd 16 ysgol uwchradd yno, un ohonynt yn ysgol benodedig ddwyieithog, yn cynnig pump pwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg. Câi'r iaith ei defnyddio fel cyfrwng i raddau gwahanol gan blant mamiaith a dysgwyr da yn ystod tair blynedd cyntaf yn yr ysgol uwchradd (Williams, 1997a, 153).

> *Er bod y gefnogaeth swyddogol i'r Gymraeg fel cyfrwng wedi ei mynegi mewn sawl adroddiad yn ystod y ganrif, tuedd yr awdurdodau oedd canolbwyntio ar y sector cynradd yn unig, gan ildio i'r anawsterau yn y sector uwchradd.... Nid oes amheuaeth nad yw diffyg arweiniad mwyafrif yr awdurdodau lleol yn eu polisïau iaith ar gyfer y sector uwchradd yn ystod y ganrif hon wedi llesteirio cynnydd.*
> (Williams, 1997a, 153)

Mae'n eironig fod yr awdurdodau lleol, trwy sefydlu ysgolion penodedig ddwyieithog wedi gwanhau sefyllfa'r Gymraeg yng ngweddill ysgolion uwchradd eu siroedd, ar wahân i Wynedd a Dyfed (Williams, 1997a, 155). Ond, oni bai am lwyddiant yr ysgolion uwchradd penodedig ddwyieithog, fel y dywed Cen Williams, mae'n annhebygol y byddai'r Gymraeg wedi datblygu i fod yn gyfrwng dysgu yn ysgolion uwchradd Gwynedd nac yn ysgolion ardaloedd Cymraeg Dyfed a Phowys (Williams, 1997a, 155).

Yng Ngorffennaf 1992 cyhoeddodd y Llywodraeth Geidwadol bapur gwyn ar ddyfodol addysg, rhan o'r papur gwyn oedd rhoi'r dewis i ysgolion i eithrio o ofal Awdurdodau Addysg Lleol. Oherwydd amharodrwydd rhai awdurdodau addysg, er enghraifft Gorllewin Morgannwg, i ehangu eu darpariaeth ddwyieithog roedd mudiad RhAG (Rhieni Dros Addysg Gymraeg) yn frwd dros y cyfle i rai ysgolion eithrio er mwyn dod yn ysgolion dwyieithog. Ym marn addysgwyr byddai eithrio ysgolion er mwyn eu gwneud yn ddwyieithog yn gwanhau'r cryfder cenedlaethol ac yn gwneud cynllunio addysg ddwyieithog yn anodd (Williams, 1997a, 161).

The declared aim of the education policy of Gwynedd, in particular, is to enable the children in their care to become fully bilingual by the age of eleven in order to benefit from Welsh-medium secondary education.
(Peate et al., 1998, 88)

Oherwydd yr ymfudo a fu o Loegr i orllewin Cymru yn ystod y saithdegau a'r wythdegau bu'n rhaid i Awdurdodau Addysg Gwynedd a Dyfed arbrofi gyda dulliau newydd o ddysgu ail iaith, er enghraifft athrawon bro, canolfannau iaith a sefydlu ysgolion swyddogol ddwyieithog mewn ardaloedd sy'n eithaf Cymraeg eu naws (Dafis, 1985, 3).

Drwy'r gyfundrefn addysg a'u hymlyniad i roi addysg drwyadl ddwyieithog i blant y sir bu Pwyllgor Addysg Gwynedd yn dra arloesol a thrwy eu polisïau llwyddant i sefydlu proffil newydd i'r iaith ac ymwybyddiaeth ieithyddol lawer iachach ymhlith trigolion y sir.
(Jones, 1997b, 364)

Caed anghyfartaledd rhwng y siroedd: yng Ngwynedd yn unig roedd mwyafrif yr ysgolion yn dysgu popeth neu gyfran o'r gwersi drwy'r Gymraeg (96.5%). Roedd gan y sir bolisi iaith clir o 1975 ymlaen. Roedd 35% o ysgolion yn Nyfed yn dysgu popeth yn Gymraeg (Jones, 1997b, 367). Yn ddiweddarach mabwysiadodd Dyfed bolisi iaith clir a phendant.

Rhwng 1987 a 1993 bu lleihad (19.5% i 7%) yn y nifer o ysgolion nad oedd yn dysgu Cymraeg. Ym 1987 roedd ysgolion ym mhob sir yng Nghymru nad oedd yn dysgu Cymraeg, erbyn 1993, tair sir yn unig oedd ag ysgolion nad oedd yn darparu gwersi Cymraeg.

Ym 1975 sefydlodd Awdurdod Addysg Gwynedd bolisi ymarferol ym mhob ysgol drwy'r sir ac erbyn diwedd yr wythdegau roeddynt wedi ymestyn y polisi i bob sefydliad addysg bellach yn y sir (Jones, 1997b, 371).

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
(Cyngor Sir Gwynedd, 1975, i)

Ar un pegwn, yr amcan yw cadarnhau dwyieithrwydd disgyblion o gartrefi Cymraeg tra, yn y pegwn arall, datblygu dwyieithrwydd dysgwyr y Gymraeg yw'r prif nod. Rhwng y ddau begwn ceir ystod o amrywiaethau gwahanol pur gymhleth.
(Cyngor Sir Gwynedd, 1975, vii)

Dysgir y Gymraeg ym mhob ysgol drwy'r sir. Yn 82.7% o'r ysgolion cynradd yn 1993 y Gymraeg a ddefnyddid yn bennaf neu'n gyfan gwbl fel iaith dysgu (Jones, 1997b, 371). Yng ngweddill yr ysgolion defnyddid y Gymraeg fel cyfrwng dysgu yn ychwanegol i bwnc (Jones, 1997b, 372).

Y bwriad cyffredinol yw rhoi'r cyfle i bob plentyn yn y sir allu datblygu'n ddwyieithog, pa iaith bynnag yw ei famiaith.
(Jones, 1997b, 372)

Cryfder polisi iaith adran addysg Gwynedd, ym marn Robert Owen Jones, oedd ei disgwyliadau uchel.

Roedd 'Polisi Iaith' Adran Addysg Gwynedd yn 1975 yn llawer mwy arloesol nag a feddyliodd y cynghorwyr sir erioed. Dyma'r ymgais gyntaf fwriadol ar gynllunio ieithyddol. Roedd yn gam cadarnhaol mewn cadwraeth iaith yn ogystal ag yn weithredu bwriadol i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg – cam sicr ym mhroses adfer ac atal erydiad yr iaith.
(Jones, 1997b, 372)

Yn ysgolion uwchradd y sir amrywiai'r modd y defnyddid y Gymraeg fel cyfrwng dysgu yn ôl nodweddion ieithyddol yr ardal.

Roedd 'Polisi Iaith' Gwynedd yn chwyldroadol ac adeiladol pan gafodd ei sefydlu ac union ethos y polisi hwnnw a argymhellwyd yn ddiweddarach ar gyfer Cymru gyfan drwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
(Jones, 1997b, 374)

3.8 Mewnlifiad

Roedd y mewnlifiad o drigolion newydd a fu i gefn gwlad Cymru, yn y saithdegau a'r wythdegau yn bennaf, yn rhan o duedd gyffredinol o wrth-drefoli (Aitchison a Carter, 2000a, 71). Bu'n rhaid i'r system addysg ddygymod â'r cynnydd mewn niferoedd o blant di-Gymraeg, gan gadw at eu polisïau iaith. Yn ystod y saithdegau a'r wythdegau,

pan oedd y mewnfudo ar ei gryfaf, derbyniodd llawer o ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith nifer fawr o ddisgyblion nad oeddynt yn gallu siarad Cymraeg. Mewn rhai ysgolion cynradd newidiodd y Cymry Cymraeg i fod yn lleiafrif bychan dros nos (Webster, 1990, 193).

> *Profiad sawl ysgol ar hyd arfordir bae Ceredigion fu gweld cynnydd cyson yn nifer y disgyblion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Nid plant ymhlith y teuluoedd brodorol sy'n gyfrifol am hyn, gwaetha'r modd, ond mewnfudiad o'r tu draw i glawdd Offa.*
> (Dafis, 1985, 3)

Cafodd y mewnfudo effeithiau anuniongyrchol ar ddyfodol addysg Gymraeg hefyd, gwelwyd sawl achos o fewnfudwyr yn ymgyrchu yn erbyn addysg Gymraeg i'w plant gan nad oeddynt wedi sylweddoli mai Cymraeg fyddai cyfrwng yr ysgol leol (Phillips, 2000b, 526).

Er mwyn darparu ar gyfer y mewnlifiad hwn darparodd y llywodraeth gymorth ariannol ychwanegol i awdurdodau er mwyn iddynt gynnal eu polisïau iaith (Edwards, 1993, 118). Er mwyn dygymod â'r mewnlifiad ymateb arbrofol yr awdurdodau addysg i'r mewnlifiad oedd sefydlu canolfannau iaith, penodi athrawon bro a sefydlu ysgolion swyddogol ddwyieithog mewn ardaloedd a oedd yn eithaf Cymraeg eu naws, er enghraifft Ysgol Penweddig yn Aberystwyth ac Ysgol Tryfan ym Mangor.

3.8.1 Athrawon Bro

Cefnogir y gwaith o ddysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gan Athrawon Bro, sy'n arbenigo mewn dysgu Cymraeg. Dechreuodd yr awdurdodau lleol ddarparu Athrawon Bro ar ddiwedd y saithdegau a dechrau'r wythdegau (Griffiths, 1997a, 55). Mae'r athrawon hyn sy'n arbenigo ar addysgu ail iaith yn aml yn athrawon teithiol ac yn ymweld â chylch o ysgolion yn ôl y galw er mwyn cynorthwyo'r athrawon lleol. Mewn rhai siroedd, er enghraifft yng Ngwynedd, maent yn cynghori a sicrhau bod polisïau iaith y sir yn cael chwarae teg (Jones, 1997b, 372). Nid ysgwyddo'r baich o addysgu'r Gymraeg yw gwaith yr Athrawon Bro, ond annog a chyfarwyddo'r athrawon dosbarth mewn rôl ymgynghorol yn aml a chynorthwyo'n

ymarferol pan fo angen sylw ychwanegol ar rai o'r disgyblion (Jones, 1997b, 72-3). Yn ôl Robert Owen Jones gall yr Athrawon Bro fod yn ateb i broblemau ieithyddol yn ein hysgolion ond noda hefyd y perygl o gamddefnyddio'u gwasanaeth,

> *Mae'n bendant yn fframwaith ardderchog i ymestyn sgiliau athro iaith profiadol drwy gylch o ysgolion, ond gallai gael effaith andwyol pe gosodid y cyfrifoldeb am ddysgu'r Gymraeg ar ysgwyddau'r athro teithiol yn unig.*
> (Jones, 1997b, 377)

Rhaid i'r athrawon yn y dosbarth gadarnhau gwaith yr Athrawon Bro.

Yn ôl Adroddiad Arolygwyr ei Mawrhydi ym 1994 nid oedd darpariaeth yr Athrawon Bro yn ddigonol gan ei bod yn amrywio o ardal i ardal (Jones, 1997b, 377).

Yn ystod y nawdegau gostyngodd y nifer o Athrawon Bro a gyflogwyd yng Nghymru yn sylweddol. Yn 1993 roedd 150 o Athrawon Bro yn cael eu cyflogi ond gostyngodd hyn i 70 erbyn 1996. Credir bod hyn wedi digwydd oherwydd y newid a fu yn y modd y cyllidwyd addysg. Er Ebrill 1996 cyllidir gwaith yr Athrawon Bro gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae'r Awdurdodau Addysg Lleol yn gwneud ceisiadau ar gyfer cyfran o'r arian hwn (Griffiths, 1997a, 56). Yn ôl tystiolaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg mae gan y mwyafrif o awdurdodau addysg lleol dîm o Athrawon Bro i gefnogi'r gwaith o ddysgu Cymraeg yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Cynhelir gwaith yr Athrawon Bro gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Rhoddir grantiau i'r awdurdodau addysg lleol er mwyn eu cynnal. Yn 2000-01 rhoddwyd cyfanswm o £2.1 miliwn fel grantiau i gynnal Athrawon Bro ar draws Cymru (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/html/lang/s2_education-c.html).

3.8.2 Canolfannau Iaith

Rhan o ymateb Cyngor Sir Gwynedd i'r llif o fewnfudwyr a ddaeth i'r sir yn saithdegau ac wythdegau'r ugeinfed ganrif oedd agor Canolfannau Iaith. Mewn ambell ysgol gynradd wledig roedd y mewnfudwyr bellach yn y mwyafrif ac roedd hynny'n achosi problemau o fewn yr ysgolion. Roedd rhaid cymathu'r aelodau newydd o'r gymdeithas, a'r ffordd i wneud hynny oedd iddynt dreulio tri mis yn

wirfoddol mewn canolfan iaith. Cynigia'r canolfannau iaith gyrsiau dwys i ddisgyblion nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg ac sydd, fel rheol, wedi symud i mewn i Gymru. Y gobaith yw y gallant ymuno mewn addysg prif ffrwd mor fuan â phosibl (Edwards 1993, 118).

Nid oedd yn ymarferol i roi sylw arbenigol i'r newydd-ddyfodiaid hyn yn yr ysgolion, felly ym 1984 agorodd Awdurdod Addysg Gwynedd y Ganolfan Iaith gyntaf yng Nghaernarfon. Erbyn 1988 roedd chwech ohonynt wedi agor. Ond, yn ôl ystadegau ar gyfer 1988-9 roedd y galw am addysg drochi o'r math hwn ddwywaith yn fwy na'r ddarpariaeth oedd ar gael. Roedd sefydlu'r canolfannau iaith yn gam arloesol ym maes addysg ddwyieithog yng Nghymru (Jones, 1997b, 373).

3.9 Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg

Fel y dywedwyd eisoes bu Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu yn nechrau'r wythdegau er mwyn sefydlu corff a fyddai'n gyfrifol am ddatblygu addysg Gymraeg. Ni chafwyd corff mor gryf ag y gobeithiai'r Gymdeithas ond yn Chwefror 1986 sefydlwyd Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg fel corff o fewn Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru (Williams, 1997a, 164). Sefydlwyd Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg fel rhan o'r paratoi ar gyfer dyfodiad y Cwricwlwm Cenedlaethol (Peate et al., 1998, 98). Yn ôl pamffled a gyhoeddwyd gan PDAG rôl y pwyllgor oedd bod yn fforwm ar gyfer trafod polisïau addysg Gymraeg, cydlynu gweithgarwch ym maes addysg Gymraeg gan sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael; hysbysu a sicrhau cyhoeddusrwydd a nodi meysydd ymchwil a datblygiad pellach (Pamffled PDAG). Llesteiriwyd gwaith y pwyllgor gan ddiffyg cyllid a diffyg grym i greu polisïau. Daeth PDAG i ben ym Mawrth 1994 a throsglwyddwyd y gwaith i gyrff cyhoeddus statudol â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg mewn addysg (Jenkins, 1997, 12).

3.10 Y Cwricwlwm Cenedlaethol / Deddf Addysg 1988

Yn 1988 pasiwyd rhan gyntaf y Ddeddf Diwygio Addysg a amlinellodd gwricwlwm cenedlaethol ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol (5–16 oed). Cynhwyswyd y Gymraeg fel pwnc yn y cwricwlwm ar gyfer holl ysgolion Cymru, fel iaith gyntaf ac ail iaith.

> *When the National Curriculum was first implemented, it explicitly stated that all children in Wales were entitled to be taught Welsh, either at the core of the National Curriclum or as a foundation subject. This was intended to prepare them to live a fully participating life in societally bilingual Wales.*
> (Peate, et al., 1998, 88)

Caed protestiadau yn erbyn y ddeddf addysg gan ysgolion yn Ne Penfro ac ar hyd y Gororau. Rhyddhawyd chwech ysgol uwchradd o'r orfodaeth i addysgu Cymraeg gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ond, ac eithrio'r chwech ysgol hyn, o 1994 ymlaen roedd pob ysgol uwchradd yn gorfod addysgu Cymraeg i ddisgyblion iau yr ysgol. Cafodd y penderfyniad hwn effaith pellgyrhaeddol, roedd angen nifer mwy o athrawon ac ehangu adnoddau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith (Davies, 1993, 81).

Erbyn 1988 roedd digon o ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi eu sefydlu i sicrhau, pan luniwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru a Lloegr, fod y Gymraeg yn cael ei chyfrif fel iaith cyfrwng dysgu mewn ysgolion (Williams, 1991, 7-8).

> *In consequence, the Welsh language has also been given the status of foundation subject within all other schools of Wales, to be studied by all non-Welsh speaking children, since they too are being prepared for life in a bilingual society.*
> (Williams, 1991, 8)

Rhoddodd Deddf Addysg 1988 statws uwch i'r Gymraeg yn ysgolion Cymru, statws pwnc craidd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a statws pwnc sylfaen mewn ysgolion eraill gan roi trefn ar y gyfundrefn addysg ddwyieithog (Jones, 1997b, 375). Er hyn cyfyngwyd ar ddatblygiad Addysg Gymraeg drwy annog ysgolion i eithrio o ofal awdurdodau addysg lleol ond heb gefnogi grwpiau o rieni a oedd am sefydlu ysgol Gymraeg i'w plant. Roedd yn anodd i awdurdodau Cymreig weithredu polisïau iaith mwy cadarnhaol. Felly rhoddodd Deddf Addysg 1988 le i lywodraethwyr gwrth-

Gymreig ysgolion unigol i fynnu eithriad rhag gweithredu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol (Williams, 1991, 8).

> *Y dylanwad mwyaf yn ystod y ganrif ar yr hyn a oedd yn digwydd yn ieithyddol yn y dosbarthiadau oedd Deddf Addysg 1988, gan fod grym statudol bob amser yn cyflymu gweithredu.*
> (Williams, 1997a, 165)

Roedd angen ychydig o amser er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd, oherwydd yr angen am athrawon cymwys ac adnoddau. Felly cynigodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dylid cyflwyno'r Gymraeg i mewn i ysgolion yn raddol gan ddechrau yn 1990. I dechrau dysgwyd y Gymraeg i blant pump, saith ac 11 oed mewn ysgolion lle roedd y Gymraeg eisoes yn cael ei dysgu ac o 1992 yn gynyddol bob blwyddyn lle nad oedd y Gymraeg yn cael ei dysgu (Y Swyddfa Gymreig, 1989, 147). Yn 1987-8 nid oedd 343 (19.5%) o ysgolion cynradd Cymru a 28 (12%) o ysgolion uwchradd yn dysgu Cymraeg o gwbl (Jones, 1997b, 165). Felly roedd disgwyl cynnydd sylweddol erbyn bod y Cwricwlwm Cenedlaethol yn gwbwl weithredol. Ni fu'r cynnydd mor amlwg ag y gallai fod oherwydd i Adroddiad Dearing, Ionawr 1994, gyhoeddi na fyddai Cymraeg ail iaith yn statudol yng Nghyfnod Allweddol 4 hyd 1999 (Jones, 1997b, 165).

Gostyngodd canran yr ysgolion cynradd nad oeddynt yn addysgu'r Gymraeg i 7% erbyn 1993, felly cynyddodd y nifer a ddysgai ail iaith ac a ddysgai trwy gyfrwng y Gymraeg fel ymateb uniongyrchol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd.

3.11 Addysg Uwch / Bellach

> *Os ydyw addysg feithrin a chynradd Gymraeg yn ffynnu, ac addysg uwchradd hefyd – os nad i'r un graddau – prin y gellir dweud hynny am addysg bellach ac addysg uwch.*
> (Williams, 1999, 16)

Yn dilyn llwyddiant addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg a dwyieithog fe fu sawl ymdrech i Gymreigio addysg uwch yng Nghymru, yn arbennig Prifysgol Cymru. Pan agorwyd Coleg Aberystwyth, y cyntaf o golegau'r Brifysgol, yn Hydref 1872 ni

chynhwyswyd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi yn y Gymraeg. Bwriad addysg uwch ar y pryd oedd darparu addysg er mwyn i'r myfyrwyr allu ymgeisio ar gyfer swyddi ym Mhrydain ac yn yr ymerodraeth (Davies, 1992, 422). Ni ddefnyddiwyd y Gymraeg fel iaith darlithio yng ngholegau Prifysgol Cymru hyd y 1920au pan ddechreuodd aelodau o'r Adran Gymraeg yng Nghaerdydd ddarlithio yn Gymraeg. Erbyn 1940au roedd yr adrannau Cymraeg yn ddieithriad bron yn darlithio yn Gymraeg (Davies, 1993, 81).

Yn y pumdegau bu cenedlaetholwyr blaenllaw yn dadlau y dylai'r Gymraeg gael lle amlycach ym Mhrifysgol Cymru. Ar gais Gwynfor Evans yn 1950 sefydlodd Prifysgol Cymru bwyllgor i ystyried mater creu un coleg Cymraeg a fyddai'n cynnig amrediad eang o gyrsiau yn Gymraeg. Credai'r Brifysgol fod y syniad yn un annerbyniol ac anymarferol, ond yn 1955 datganodd y Brifysgol ei bod yn barod i ehangu ei defnydd o'r Gymraeg oherwydd y cynnydd yn nifer y myfyrwyr a oedd wedi derbyn addysg uwchradd yn Gymraeg (Davies, 1992, 624). Penodwyd darlithwyr i ddarlithio yn Gymraeg, cyfyngwyd y ddarpariaeth hon i Brifysgolion Aberystwyth a Bangor o ganol y chwedegau ymlaen (Davies, 1992, 624). Cynyddodd y nifer o ddarlithwyr a ddarlithiai yn Gymraeg ond canran fechan iawn oeddynt, y mwyafrif ohonynt yn adran y celfyddydau.

Yn 1974, yn dilyn brwydro gan rai oedd yn dymuno gweld Cymreigio sefydliadau addysg uwch Cymru, dynodwyd Neuadd Breswyl Pantycelyn ym Mhrifysgol Aberystwyth yn Neuadd Gymraeg. Flwyddyn yn ddiweddarach gwelwyd agor neuadd Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor sef Neuadd John Morris-Jones (Davies, 1992, 635)

Gwnaed mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y Colegau Hyfforddi, yn bennaf oherwydd yr angen cynyddol am athrawon i addysgu trwy'r Gymraeg. O'r 1950au ymlaen daeth dysgu trwy'r Gymraeg yn gyffredin yng ngholegau hyfforddi Coleg y Drindod, Caerfyrddin a'r Coleg Normal ym Mangor. Roedd y cynnydd a fu yn y ddarpariaeth Gymraeg yn rhannol oherwydd argymhellion adroddiad y 'Central Advisory Council for Education' (Jones, 1966, 85). Ym marn W. Gareth Evans (Evans, 2000, 355) nid oedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau addysg

nac yng ngholegau Prifysgol Cymru yn ddigonol, a nifer fechan o fyfyrwyr a ddenai'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg a oedd yn bodoli.

Yn ôl tystiolaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y colegau addysg bellach a cholegau trydyddol, yn arbennig felly y tu allan i'r ardaloedd traddodiadol Gymraeg, yn brin (http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/html/lang/s2_education-c.html).

Yn ôl tystiolaeth yr adroddiad 'Astudiaeth o'r Ddarpariaeth Gyfrwng – Cymraeg yn y sector addysg bellach yng Nghymru' (2000) 2% o fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn dilyn eu cyrsiau addysg bellach trwy gyfrwng y Gymraeg (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, 2000, 8). Bu gostyngiad diweddar yn y nifer o fyfyrwyr sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 1996/1997, aseswyd 5550 o fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg; yn 1998/1999 roedd hyn wedi gostwng i 3503 (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, 2000, 9).

Argymhellodd yr adroddiad y dylid sefydlu Canolfan Genedlaethol Addysg Bellach cyfrwng Cymraeg ac y dylid gwneud cynyddu'r nifer o aelodau staff dwyieithog yn flaenoriaeth. Awgrymwyd hefyd y dylid cyllido elfennau cyrsiau dysgu Cymraeg sydd wedi eu llunio'n benodol at ddefnydd galwedigaethol.

Galwodd yr adroddiad am bolisi iaith integredig er mwyn sicrhau dilyniant o safbwynt addysg Gymraeg.

> *Mae angen am bolisi iaith integredig drwodd o addysg feithrin a chynradd i AB/AU/ Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (ITT) a chyflogwyr. Mae'r anghysonderau a welir ar hyn o bryd yn effeithio'n ddrwg ar y sector AB. Byddai polisi integredig yn cynnwys yr amryfal gyrff sy'n ymwneud â pholisi iaith (e.e. y Cynulliad, Cyrff y Llywodraeth, sefydliadau addysgol a.y.b.) gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth law i gefnogi'r gweithredu. Byddai hyn yn sicrhau 'un llais cyson' i'r holl gyrff perthnasol. Byddai polisi hollgynhwysol ac integredig hefyd yn hwyluso hysbysebu a marchnata.*
> (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, 2000, 25-26)

Nododd yr adroddiad yr angen i normaleiddio addysgu cyfrwng Cymraeg, a / neu ddwyieithog a newid agwedd myfyrwyr drwy gynyddu'r symbyliad iddynt astudio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddynt weld dwyieithrwydd fel medr ychwanegol

a gwerthfawr (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, 2000, 25-26). Disgrifia Awbery y sefyllfa bresennol fel rhwyg, gyda'r rhai sydd wedi cael eu haddysgu yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol yn gorfod troi i'r Saesneg pan ânt i brifysgol neu goleg. Gall hyn arwain at sefyllfa negyddol yn yr ysgolion dwyieithog pan mae'n wybyddus i'r plant nad yw pwnc arbennig, megis pwnc gwyddonol, yn gallu cael ei astudio i lefel uwch trwy gyfrwng y Gymraeg (Awbery, 1998, 161).

3.12 Dysgu'r Gymraeg fel Ail Iaith yn yr Ysgolion

Ystyrir 1990 fel trobwynt o safbwynt dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgolion. Yn y flwyddyn hon daeth gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol o safbwynt y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith i rym yn ysgolion Cymru (Lloyd, 1997, 49). Yn yr ysgolion hynny lle cyflwynwyd y Gymraeg eisoes fel ail iaith disgwyliwyd i blant hyd at 14 oed ddysgu'r Gymraeg fel a nodwyd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ym Medi 1993, ehangodd hyn i gynnwys disgyblion 14 oed (Lloyd, 1997, 49). O 1992 ymlaen dechreuwyd ar y broses o ddysgu Cymraeg ail iaith yn yr ysgolion lle nad oedd y Gymraeg yn rhan o'r cwricwlwm eisoes (Lloyd, 1997, 49).

> *Ni welwyd dim llai na chwyldro yn sgil cyflwyno'r Gymraeg fel Ail Iaith yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.*
> (Lloyd, 1997, 49)

Yn ôl canlyniadau ymchwil diweddar gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol oedd y prif ddylanwad ar fwyafrif yr ysgolion i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer dysgu Cymraeg ail iaith. Roedd cymorth athrawon bro a chyflenwad o ddeunyddiau addas a staff dysgu hefyd yn ffactorau pwysig (Lewis a Powel, 2003, 42).

Yn ddiweddar cyhoeddwyd papur ymgynghori gan y Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â newidiadau posibl ym maes addysg yn y blynyddoedd cynnar, sef 'Y Wlad Sy'n Dysgu: Y Cam Sylfaen – 3-7 oed' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a). Yn y ddogfen hon nodwyd y dylai'r broses o ddatblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu plant barhau'n elfen bwysig yng nghwricwlwm y Cam Sylfaen os sefydlir ef (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 11). Nodir yn y papur hwn y dylid rhoi mwy

o bwyslais ar ddatblygu sgiliau dwyieithog mewn ysgolion a lleoliadau lle defnyddir y Saesneg fel prif gyfrwng cyfathrebu. Dywedir y gellir gwneud hyn drwy ddatblygu arfer da presennol a thrwy ddatblygu mwy o weithgareddau chwarae a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 12). Cydnabyddir y bydd angen cymorth a hyfforddiant er mwyn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth staff o'r iaith er mwyn galluogi iddynt gynorthwyo datblygiad plant yn y ddwy iaith. Nodir y bydd arnynt hefyd angen cymorth i ddarparu gweithgareddau ac adnoddau priodol i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 12).

3.13 Cymraeg i Oedolion

Mae maes dysgu Cymraeg i Oedolion yn faes sy'n tyfu. Bellach mae dros 21,000 o oedolion yn cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg. Gellir cymharu hyn â 15,895 a gofrestrodd yn 1994-5 (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002b, 2). Mae rhai ohonynt yn mynychu cyrsiau dwys bob bore yn ystod y tymor, tra mae eraill yn dewis mynychu dim ond unwaith neu ddwywaith yr wythnos.

Bu'r datblygiadau mwyaf ym maes dysgu Cymraeg i Oedolion yn ystod yr 1970au, pan sylweddolwyd bod angen newidiadau mawr yn y maes o safbwynt cwricwlaidd, dulliau dysgu a hygyrchedd. Yn y cyfnod hwn datblygodd rhwydwaith o ddosbarthiadau i oedolion yn adrannau addysg allanol Phrifysgol Cymru, yn y colegau addysg bellach, WEA (Workers Education Association), Awdurdodau Addysg Lleol, mudiadau gwirfoddol niferus a chyrsiau ar y cyfryngau (Morris, 2000, 209). Mae'n debyg mai datblygiad mwyaf y cyfnod oedd cynnal y cyrsiau Wlpan cyntaf yn nechrau'r saithdegau. Deilliai'r system ddwys hon o Israel. Defnyddiwyd y system i gymathu newydd-ddyfodiaid yn ieithyddol a diwylliannol ac er mwyn sicrhau mai Hebraeg fyddai prif iaith y wladwriaeth newydd (Morris, 2000, 209). Prif egwyddorion y dull newydd o ddysgu Cymraeg i Oedolion oedd drilio ymarferol strwythurol gyda phwyslais ar sgiliau llafar, pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg fel prif iaith y dysgu a'r dosbarth, mynychu'r dosbarth bum gwaith yr wythnos am gyfnod o dri i bedwar mis ar y tro. Cyflwynir iaith ysgrifenedig ffurfiol dim ond ar ôl meistroli egwyddorion a phatrymau sylfaenol yr iaith lafar (Morris, 2000, 209).

This development was a very important step forward in the organization of Welsh for adults in Wales, giving a better opportunity for students to succeed in learning to speak basic Welsh in a comparatively short period – succeed not only in being able to speak the language but in being able to use it like first-language speakers
(Morris, 2000, 209).

Mae'r rhesymau dros ddewis dysgu Cymraeg fel oedolyn yn amrywio. Mae nifer yn mynychu cyrsiau er mwyn gallu helpu eu plant sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, mae eraill wedi priodi i mewn i deulu Cymraeg; rhai eraill yn teimlo y byddai eu cyfle i gael gwaith yn gwella os ydynt yn meistroli'r iaith (Awbery, 1998, 162).

Ariennir y ddarpariaeth o gyrsiau Cymraeg i Oedolion gan y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant – ELWa. Talodd ELWa £3.1 miliwn i sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau Cymraeg ar draws Cymru. Caed cyfraniadau gan rai awdurdodau unedol hefyd (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002b, 1). Defnyddir £100,000 o'r arian a dderbynnir gan ELWa i ddatblygu addysg Gymraeg i Oedolion i gyflogi swyddog Cymraeg i Oedolion ym Mwrdd yr Iaith Gymraeg a swyddog arholiadau Cymraeg i Oedolion yng Nghyd-Bwyllgor Addysg Cymru a hefyd i gynnal arholiadau (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002b, 2).

Ers 1999 Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n gyfrifol am arolygu strategaeth maes Cymraeg i Oedolion yng Nghymru. Canlyniad partneriaeth rhwng ELWa a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw datblygu cynlluniau strategol yr wyth Consortiwm Cymraeg i Oedolion er mwyn datblygu, trefnu a hyrwyddo agweddau ar y gwaith yn lleol; a datblygu agweddau ar hyfforddiant iaith yn y gweithle, marchnata a nawdd, ymchwil, hyfforddiant a chreu adnoddau (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002b, 2).

Gwneir gwaith pwysig a chynhaliol yn y maes gan CYD sef mudiad gwirfoddol Cymdeithas y Dysgwyr. Mae'r mudiad hwn yn gyfrifol am drefnu canghennau ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Derbynia CYD dros £90,000 y flwyddyn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn cyflawni'r gwaith hwn, cyflogir Cyfarwyddwr, swyddog cyllid rhan amser a cheir swyddfa ganolog yn Aberystwyth. Cyflogir wyth swyddog cyswllt rhan amser hefyd er mwyn cydlynu'r gwaith ar draws Cymru (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002b, 2).

Yn ddiweddar gwelwyd cwmnïau a chyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cydnabod pwysigrwydd dysgu Cymraeg i Oedolion ac yn darparu cyrsiau iaith yn y gweithle er mwyn i'r gweithlu ddysgu Cymraeg (Morris, 2000, 218). Fodd bynnag, er mwyn cael polisi adfer iaith llwyddiannus yng Nghymru, ym marn Steve Morris, bydd angen trosglwyddo cymhelliant y rhai sydd am ddysgu Cymraeg yn gyfleodd i feistroli'r iaith yn llwyddiannus; cynyddu a hybu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn ardaloedd Seisnig ac hefyd i annog y defnydd cadarnhaol o'r iaith o fewn y teulu a'r gymuned. Dylid felly annog y rhai sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg i gymeryd rhan yn y gymuned Gymraeg ehangach (Morris, 2000, 215).

> *Similarly, those learners who are increasingly coming to the language with instrumental motivations need to be actively encouraged in their classes to participate in the wider community and activities made available to them through the Welsh language outside of the work environment. This latter group in turn provides increased opportunities for the former to use Welsh and the former group will also reciprocate by encouraging use of the language in the wider community and family situations.*
> (Morris, 2000, 215)

Yn ôl ffigyrau gan ELWA mae dros 22,000 o oedolion wedi cofrestru ar y rhaglen Cymraeg i Oedolion mewn sefydliadau ar hyd a lled Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2002-2003 (http://www.elwa.org.uk/elwa.asp?pageid=1450).

3.14 Sefyllfa Bresennol

Yn ôl yr Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gynlluniau Addysg Gymraeg y 22 Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a) mae addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn parhau i ehangu'n raddol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r ddarpariaeth yn y sector addysg gynradd cyfrwng Cymraeg wedi ehangu o ran nifer y llefydd mewn o leiaf 14 awdurdod addysg lleol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a, 35) gan gynnwys siroedd Abertawe, Bro Morgannwg, Caerdydd a Mynwy (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a, 14-18). Mae'r ddarpariaeth yn y sector uwchradd hefyd wedi ehangu mewn o leiaf naw sir. Nodir fod tair sir wedi agor ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd ers dechrau'r Cynlluniau

Addysg Gymraeg ac mae pedair sir arall yn bwriadu, neu eisoes wedi, agor ysgol neu adleoli ysgolion i safleoedd ehangach newydd (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a, 35).

Bellach mae pob sir yn mapio'r galw am addysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a thrwy hynny yn cynllunio i ateb y galw.

Bwriad Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth gydweithio â'r AALl yw cynnal gorolwg strategol o addysg Gymraeg a dwyieithog ym mhob rhan o Gymru (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a, 2).

Yn yr Adroddiad ar Gynlluniau Addysg Gymraeg ceir darlun cyfoes o sefyllfa addysg ddwyieithog yn y 22 sir yng Nghymru. Gwelir o'r adroddiad fod diffinio sefyllfa addysg ddwyieithog yng Nghymru yn gymhleth iawn gan fod y sefyllfa'n wahanol ym mhob sir.

> *Mewn rhai siroedd y mae addysg ddwyieithog yn golygu un ffrwd fechan mewn ysgol cyfrwng Saesneg, gyda phlant o bob oedran mewn un dosbarth dysgu a gweddill bywyd ac ethos yr ysgol yn gwbl Seisnig. Os mai dyma'r unig ysgol leol sydd ar gael, ac os nad oes ysgol benodedig cyfrwng Cymraeg ar gael o fewn pellter teithio rhesymol, mae'r cyfle i gynnig addysg drochi llawn yn cael ei golli.*
>
> (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a, 7)

Yn y tabl isod ceir diffiniad o sefyllfa addysg yn awdurdodau addysg lleol Cymru.

Tabl 3.1 Diffiniadau Awdurdodau Addysg Lleol

SIR GAERFYRDDIN
3 Chategori ieithyddol Cynradd, sef A, A/B a B.
3 Chategori ieithyddol Uwchradd, sef A, B ac C.
Mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig yng nghategori A yn y ddau sector, ond ceir patrymau amrywiol o ran addysg ddwyieithog yn y categorïau canol.

SIR BENFRO
3 Chategori ieithyddol Cynradd, sef A, B ac C
3 Chategori ieithyddol Uwchradd, gyda'r categorïau canol yn cynnig rhywfaint o addysg cyfrwng Cymraeg.

Bro Morgannwg, Abertawe, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Casnewydd, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen, Merthyr Tudful, Pen y Bont ar Ogwr, Fflint.
2 gategori yn unig ar draws y cyfnodau allweddol, sef ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Dewis clir i rieni o ran cyfrwng addysg eu plant.

WRECSAM
3 Chategori cynradd 2 gategori uwchradd. Amrywiaeth ieithyddol yn y categori canol.

POWYS
2 gategori cynradd sy'n rhannu i ddau is-gategori ieithyddol. Gweithredu gwahanol o safbwynt addysg ddwyieithog fesul ardal ac ysgol, a nifer o unedau cyfrwng Cymraeg. Ceir ffrydiau Cymraeg mewn rhai ysgolion uwchradd, a diffinnir addysg uwchradd fel system ddwyieithog sy'n amrywio o ysgol i ysgol o ran nifer y pynciau a addysgir yn ddwyieithog. Sefyllfa gymhleth o ran categoreiddio ieithyddol a dim ysgol uwchradd benodedig cyfrwng Cymraeg. Cymhlethdod o ran ethos dwyieithog nifer yr ysgolion.

CEREDIGION
4 Categori cynradd a 3 chategori uwchradd. Amrywiaeth ieithyddol yn y categorïau canol.

GWYNEDD
Pob ysgol yn "ysgol ddwyieithog". Categorïau addysg uwchradd fesul modelau ieithyddol a dalgylchoedd cymysg ieithyddol, sef modelau A, B(i), B(ii), C(i), C(ii) a Ch. Model A yn cynnig addysg benodedig cyfrwng Cymraeg ac Ch yn cynnig hyd at 30% o addysg cyfrwng Cymraeg.

SIR DDINBYCH
3 Chategori cynradd a 3 chategori uwchradd. Ysgolion "dwyieithog" / "naturiol Gymraeg" yw'r categorïau canol yn y ddau sector, lle ceir amrywiaeth o addysgu dwyieithog.

YNYS MÔN
Pob ysgol yn "ysgol ddwyieithog" gyda nifer o fodelau addysgu dwyieithog. Categorïau addysg uwchradd fesul modelau ieithyddol a dalgylchoedd cymysg ieithyddol, sef modelau 1, 2 a 3. Model 3 yw'r "ysgolion mawrion mewn ardaloedd lle nad oes nifer uchel o siaradwyr Cymraeg".

CONWY
4 Categori cynradd ac 3 chategori uwchradd. Amrywiaeth ieithyddol yn y categori canol.

CASTELL NEDD PORT TALBOT
3 Chategori cynradd a 2 gategori uwchradd.

(Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a, 6)

Ar hyn o bryd mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Cynulliad Cenedlaethol a'r nifer o bartneriaid eraill, yn cynnal panel arbenigol er mwyn ceisio diffinio addysg drochi ac addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a, 7). Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn diffinio ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg fel un lle dysgir chwech neu fwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/html/lang/s2_education-c.html).

Yn y tabl isod rhoddir y niferoedd o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fesul sir.

Tabl 3.2 Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog Fesul Sir

Sir	Ysgolion Cynradd	Ysgolion Uwchradd
Abertawe	9	1
Blaenau Gwent	1	0 (plant yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg mewn sir arall)
Bro Morgannwg	5	1 (rhai plant mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd)
Caerdydd	12	2 (un yn derbyn plant o Fro Morgannwg dros dro)
Caerffili	8	1
Caerfyrddin	142	8
Casnewydd	1	0 (plant yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg mewn sir arall)
Castell Nedd Port Talbot	6 (2 fodel)	1
Ceredigion	75	7
Conwy	12 (3 model)	2
Dinbych	18 (2 fodel)	2
Fflint	5	1
Gwynedd	109 (sawl model addysgu)	14 (modelau)
Merthyr Tudful	2	0 (plant yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg mewn sir arall)
Mynwy	2	0 (plant yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg mewn sir arall)

Pen-y-bont ar Ogwr	4	0 (plant yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg mewn sir arall)
Penfro	32	1
Powys	24 (nifer o fodelau dwyieithog gan gynnwys unedau)	7 (ysgolion dwyieithog, dim ysgol benodedig Gymraeg)
Rhondda Cynon Taf	16	4 (rhai yn derbyn plant o siroedd eraill)
Torfaen	2	1 (Derbyn plant o 3 sir arall)
Wrecsam	6	1
Ynys Môn	52 (sawl model)	5 (modelau gwahanol)

(Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a, addasiad o dabl 10.7)

Fel y gwelir o'r tabl, mewn nifer o siroedd mae plant yn teithio i siroedd eraill i dderbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Yn yr Adroddiad i'r Cynlluniau Addysg ceir darlun o'r problemau sy'n wynebu addysg cyfrwng Cymraeg.

> *Yn aml ceir ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n orlawn mewn adeiladau israddol yn agos i ysgolion cyfrwng Saesneg sydd â chanran uchel o leoedd gwag... dylid cofio mai ewyllys wleidyddol, pwysedd o du rhieni a chyllidebau'r siroedd sy'n cael yr effaith fwyaf ar Gynghorau wrth iddynt flaengynllunio.*
> (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002a, 7)

O ran addysg cyfrwng Cymraeg, roedd 25% o blant Cymru yn 2001-02 yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Daw'r mwyafrif o'r rhain o gartrefi di-Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/html/lang/s2_education-c.html).

Yn ôl ffigyrau Bwrdd yr Iaith roedd 51,087 o blant yn cael addysg cyfrwng Cymraeg yn bennaf mewn 440 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Roedd 6,860 ymhellach yn derbyn canran o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg, a 223,328 o ddisgyblion yn dysgu Cymraeg fel ail iaith yn eu hysgolion cynradd.

O'r 229 ysgol o dan gynhaliaeth yr awdurdodau addysg lleol roedd 72 yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith a'r 157 arall yn dysgu Cymraeg fel ail iaith yn unig. Diffinnir 52 o'r ysgolion uwchradd fel ysgolion cyfrwng Cymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/html/lang/s2_education-c.html).

Dangosodd ffigyrau a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2003 bod cynnydd wedi bod yng nghanran y plant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl mewn ysgolion cynradd. Yn ôl ystadegau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn *Y Gymraeg yn yr Ysgol* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c) addysgir un o bob pump o ddisgyblion ysgolion cynradd mewn dosbarthiadau lle defnyddir y Gymraeg fel unig neu brif gyfrwng addysgu, neu lle defnyddir yr iaith fel cyfrwng addysgu ar gyfer rhan o'r cwricwlwm. Yn ôl tystiolaeth y prifathrawon cynyddodd y ganran o blant ysgol gynradd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl o 13.2% yn 1987 i 16.8% yn 2002. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod gostyngodd y ganran o blant sy'n siarad Cymraeg gartref o 7.1% i 6.2%. Cododd y ganran sy'n siarad yr iaith yn rhugl, ond nid fel iaith cartref o 6% i 10.5%. Felly, yn Ionawr 2002, roedd un o bob chwech disgybl cynradd yn cael eu hystyried i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c, 3).

Ffigwr 3.1 Canrannau o Ddisgyblion 5 oed neu'n Hŷn, yn ôl eu Gallu i Siarad Cymraeg



(Ffigyrau o Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c, 6) (Atodiad 1)

Gwelwyd diffyg dilyniant mewn addysg Gymraeg yn y ffigyrau, gyda ychydig dros 1% sy'n siarad Cymraeg rhugl yn peidio â pharhau i ddysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn ôl ffigyrau'r

adroddiad mae'r ganran o ddisgyblion uwchradd sy'n dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf wedi cynyddu bron pob blwyddyn ers 1978. Roedd y ganran o ddisgyblion blwyddyn 7 yn 2002 oedd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn 15.3%. Fel y disgwylid gyda chyflwyno'r Gymraeg fel pwnc craidd a sylfaen yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yn 1988, bu cynnydd mawr yn y ganran o ddisgyblion uwchradd blynyddoedd saith i 11 sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 1987, 42% o ddisgyblion blynyddoedd saith i 11 oedd yn dysgu Cymraeg fel ail iaith tra bod y ganran erbyn 2002 yn 84.5%. Addysgwyd y Gymraeg fel iaith gyntaf i 14.4% o ddisgyblion ysgolion uwchradd blynyddoedd 7-11 yn 2002 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c, 3).

Ffigwr 3.2 Y Gymraeg ym Mlynyddoedd 7-11 yn ôl Math o Gwrs



(Ffigyrau o Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c, 12) (Atodiad 2)

O safbwynt ysgolion roedd 442 o ysgolion cynradd Cymru yn 2002, 27% o'r holl ysgolion cynradd, yn rai cyfrwng Cymraeg yn bennaf. Roedd 80 ysgol gynradd arall (4.9% o holl ysgolion cynradd) yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i ryw raddau. Yn yr 1,102 ysgol arall, 67.9% o ysgolion cynradd Cymru, dysgir y Gymraeg fel ail iaith yn unig. Bu cynnydd hefyd yn nifer yr ysgolion uwchradd Cymraeg. Roedd 49 ysgol

uwchradd a ddiffinnir fel ysgolion uwchradd Gymraeg yn 1996/97, erbyn 2001/02 roedd y ffigwr hwn wedi cynyddu i 53 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c, 4).

3.15 Cyfrifiad 2001

Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2001 ddylanwad addysg ddwyieithog ar yr iaith Gymraeg. Am y tro cyntaf erioed bu cynnydd yn y nifer a'r ganran sy'n siarad Cymraeg.

Bu'r cynnydd mwyaf yn ardaloedd Seisnig y de-ddwyrain, gyda Torfaen, Casnewydd, Blaenau Gwent a Sir Fynwy yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr ers Cyfrifiad 1991. Croesawyd y cynnydd gan Gadeirydd Bwrdd yr Iaith, Rhodri Williams a thalodd ef deyrnged i'r system addysg ddwyieithog sydd yn gyfrifol am y cynnydd hwn i raddau helaeth. Talodd deyrnged hefyd i rieni a ddewisodd addysg Gymraeg i'w plant (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/news_article.php?nID=151).

> *Mae'n bwysig ein bod hefyd yn talu teyrnged i'r rhieni hynny ym mhob rhan o Gymru sydd wedi dewis anfon eu plant i ysgolion Cymraeg, pan nad Cymraeg yw iaith y cartref. Heb weledigaeth ac ymroddiad athrawon a gwirfoddolwyr, fyddai'r cynnydd pwysig yma ddim wedi digwydd. Mae dyled yr iaith yn fawr i'r bobl yma gan eu bod yn rhoi cyfle i'r plant siarad Cymraeg – am y tro cyntaf mewn cenedlaethau mewn rhai ardaloedd.*
> (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/news_article.php?nID=151)

Yn ôl y ffigyrau a ryddhawyd am Gyfrifiad 2001, gall tua 20.5% o bobl Cymru siarad yr iaith, cynnydd o ddau y cant ers Cyfrifiad 1991.

3.16 Addysg Ddwyieithog = Cymru Ddwyieithog?

Mae defnyddio system addysg ddwyieithog i ddylanwadu ar sefyllfa ieithyddol gwlad, neu ranbarth, yn broses gyffredin.

> *If a society wants to preserve ethnic identities, give equal status to all languages and cultures in the country, revive a language, teach a foreign language more efficiently, or make its citizens bilingual and bicultural, it will often develop educational programs that employ two languages and are based on two cultures.*

(Grosjean, 1982, 215)

Y mae'n amlwg fod addysg ddwyieithog yng Nghymru wedi llwyddo i gynyddu'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae canlyniadau Cyfrifiad 2001 wedi cadarnhau hynny. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth eto i ddangos bod y defnydd o'r iaith wedi cynyddu. Yn 1988 nododd Colin Williams mai'r system addysg yw'r asiant unigol pwysicaf ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, ond bod hefyd angen lledaenu'r iaith o'r dosbarth a'r ysgol i'r byd tu allan.

> *...dylai ein consyrn am yr addysg honno beri i ni edrych y tu hwnt i faes cwricwlwm a'r ystafell ddosbarth a chanolbwyntio ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o addysgu a'n galluoga ni i wneud y defnydd llawnaf posibl o'r Gymraeg creu cymdeithas ddwyieithog ffwythiannol.*
> (Williams, 1988, 9)

Cododd John Albert Evans, cyn ymgynghorydd iaith ym Morgannwg Ganol, nifer o gwestiynau pwysig yn y gyfrol ar hanes sefydlu Ysgolion Cymraeg 'Gorau Arf' (2002).

> *....a ydyw ein disgyblion yn gweld y Gymraeg fel iaith ysgol ac addysg yn unig? Pam mae disgyblion o gartrefi Cymraeg yn teimlo'n anghysurus yn siarad eu mamiaith mewn aml i sefyllfa yn yr ysgol? A oes angen ailystyried dulliau dysgu'r Gymraeg i blant o gartrefi Saesneg er mwyn sicrhau iaith raenus ar wefusau'r plant? Pam mae cynifer o gyn-ddisgyblion yn troi eu cefnau'n llwyr ar y Gymraeg wedi gadael ysgol, yn anghofio'r iaith yn fuan iawn ac yna'n ailymddangos mewn dosbarthiadau nos i ail ddysgu'r iaith pan fydd eu plant hwythau yn mynd i ysgolion Cymraeg?*
> (Evans a Jones, 2002, 62)

O ateb y cwestiynau hyn gallwn gael system addysg well i Gymru'r dyfodol.

Hyd yn hyn ymddengys bod y cynnydd a fu mewn addysg ddwyieithog yng Nghymru wedi llwyddo i godi'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2001 beth bynnag. Ni ellir ateb y cwestiwn o ba mor llwyddiannus yw addysg ddwyieithog a dysgu'r Gymraeg fel ail iaith er mwyn ehangu'r defnydd o'r iaith heb ymchwil hir dymor. Ai iaith yr ysgol yn unig yw'r Gymraeg? Pa ganran o'r rhai a dderbyniodd addysg ddwyieithog sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg? A ydynt yn gwneud yr ymdrech i drosglwyddo'r iaith i'w plant? Mae'n rhaid gofyn a oes pwrpas i addysg Gymraeg os oes rhaid i genedlaethau dilynol dderbyn y Gymraeg o'r newydd gan nad

yw'r rhieni yn trosglwyddo'r iaith i'w plant er eu bod hwy wedi derbyn addysg Gymraeg. Mor gynnar â 1974 nododd Jac L. Williams yr angen am gefnogaeth o'r tu allan i fyd addysg os oedd addysg ddwyieithog yn mynd i greu poblogaeth ddwyieithog.

> *It is doubtful whether a bilingual system of education can produce a mass of bilingual citizens without strong enviromental support and widespread motivaion to become bilingual and remain bilingual.*
> (Williams, 1974, 66)

Mae'r galw am addysg Gymraeg a dwyieithog yn parhau gyda'r canrannau sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu'n flynyddol. Twf yn y nifer o rieni di-Gymraeg sydd am i'w plant dderbyn addysg Gymraeg sy'n gyfrifol am y parhad yn y galw am addysg Gymraeg. Mae rhesymau'r rhieni hyn dros ddeisyfu addysg Gymraeg i'w plant yn amrywio. Yn ôl tystiolaeth Campbell a Packer (1991, 28) mewn ymchwiliad yn Ne Morgannwg y prif resymau dros ddewis addysg Gymraeg i'w plant yw rhesymau emosiynol mai'r Gymraeg yw iaith Cymru, bod yr iaith wedi ei cholli yn y teulu a'u bod am iddi ddychwelyd, bod gan y cylchoedd meithrin a'r ysgolion cynradd enw da, credai nifer o'r rhieni bod safon yr addysg yn ysgolion Cymraeg yn uwch nag yn yr ysgolion Saesneg. Roedd rhai rhieni wedi bwriadu anfon eu plant i'r grŵp meithrin a'r ysgol gynradd agosaf ond, wedi penderfynu bod gormod o blant yno ac y byddai eu plant yn cael gwell sylw yn y cylch meithrin Cymraeg llai. Un o'r ffactorau amlycaf a ddeilliodd o'r ymchwil hwn oedd cymhellion ar sail gobeithion gyrfaol (Campbell a Packer, 1991, 28).

> *...y mae lle i gredu erbyn hyn gyda swyddi statws uchel sydd yn gofyn am wybodaeth o'r Gymraeg yn cael eu creu ym meysydd addysg, y cyfryngau, twristiaeth, gweinyddiaeth cyrff cyhoeddus a gwahanol agweddau ar y Gwasanaethau Sifil bod rhieni yn edrych y tu hwnt i'r presennol ar opsiynau hir dymor, ac o ganlyniad yn mapio cwrs ieithyddol i'r plant i gyd-fynd â'u delfrydau a'u gobeithion.*
> (Campbell a Packer, 1991, 29)

Ofna Jenkins a Williams (2000, 22) na all y cynnydd a fu yn y nifer o blant sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgolion wneud iawn am ddirywiad yr iaith yn ei chadarnleoedd traddodiadol.

Dylid edrych ar lwyddiant addysg Gymraeg a dwyieithog fel y cam cyntaf, cam cyntaf pwysig iawn yn y broses o adfer y Gymraeg. Gellir cyfeirio at lwyddiannau tebyg, er enghraifft wrth adfer yr Hebraeg.

> *There seems to be general agreement that what led to the use of Hebrew at home was its prior promotion as the language of instruction at school.*
> (Cooper, 1989, 13)

Drwy gynlluniau cadarnhaol megis y Mentrau Iaith a'r Cynllun Twf mae gobaith na fydd y Gymraeg yn dilyn ôl troed yr Wyddeleg gan gynyddu'r niferoedd heb drosglwyddo'r cynnydd i ddefnydd o'r iaith. Rhan o'r broses o adfer yr iaith ddylai'r ysgol fod, rhaid i'r iaith symud allan o'r ysgol os yw i ffynnu.

> *Mae'n eglur na ellir disgwyl i'r ysgol gyflawni swyddogaeth yr aelwyd a'r gymdeithas yn ogystal â'i swyddogaeth ei hun mewn unrhyw sefyllfa lle nad yw'r iaith y ceisir ei hadfywio yn llwyddo i oroesi yn y sectorau hynny o'r gymdeithas.*
> (Wells, 2000, 97)

Cefnogir hyn gan arbenigwyr iaith megis Fishman:

> *To rely upon the school to do for a language and culture what neither family nor the neighborhood will or can do is to court disappointment*
> (Fishman, 1988, 423)

Ym marn Fishman ni ellir dibynnu'n unig ar yr ysgol i adfer yr iaith. Rhaid trosglwyddo llwyddiant yr ysgol yn llwyddiant yn y cartref, yn ei farn ef dylai iaith gael ei throsglwyddo yn y cartref os yw am gael ei hadfer yn llwyddiannus.

> *The over-reliance on the school with respect to the attainment of RLS [Reversing Language Shift] goals is merely an example of the more widespread tendency to seek out and depend upon one-factor solutions to a very involved, multivariate problem... In addition to being simplistic, these views also lead RLS-efforts to bank on processes that are distant from the innediate nexus of mother tongue transmission and that feed back to reinforce that nexus only haphazardl and after considerable delay.*
> (Fishman, 1991, 379)

Felly, er gwaethaf cyfraniad hanfodol llwyddiant yr ysgolion Cymraeg a dwyieithog i ddyfodol y Gymraeg dim ond dechrau'r frwydr yw hyn. Rhaid darganfod ffordd i

ddylanwad yr ysgol ymledu i'r gymdeithas gyfan. Os na ddigwydd hyn bydd y genhedlaeth nesaf yn yr un sefyllfa yn union (Wells, 2000, 96).

Drwy sicrhau cydweithio rhwng yr ysgol, y cartref a'r gymuned y mae modd cyrraedd tuag at Gymru ddwyieithog. Mae addysg ddwyieithog wedi cymryd camau mawr tuag at gymdeithas fwyfwy dwyieithog yng Nghymru. Mae angen cymryd mantais o allu plant a pobl ifanc i siarad Cymraeg a gweithio tuag at sicrhau y byddant yn ei defnyddio yn y dyfodol ac yn ei throsglwyddo i'w plant.

> *Unless families reproduce minority languages at home, then bilingual (diglossic) communitied ar ein danger of fast diminution.*
> (Malmkær, 2002, 71)

Y perygl mawr yw mai iaith y dosbarth a'r ysgol yn unig yw'r Gymraeg ac nad oes gan yr iaith le yn y gymdeithas o amgylch yr ysgol. Mae camau wedi eu cymryd gan y Mentrau Iaith i sicrhau ei bod yn bosibl i blant a phobl ifanc siarad yr iaith y tu allan i'r ysgol.

Ceir anogaeth mewn llyfrynnau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith megis *'Addysg Ddwyieithog i'ch plentyn – o addysg feithrin i'r ysgol gynradd'*, nid yn unig i'r rhieni anfon eu plant i gylchoedd meithrin, ond iddynt hefyd ddod â'r Gymraeg i'r cartref. Anogir rhieni sy'n gallu siarad Cymraeg i ddefnyddio'r iaith gyda'u plant.

> *Mae gan y cartref rôl bwysig o safbwynt datblygu iaith mewn plant. Dyma'r lle mwyaf naturiol mewn gwirionedd i ddysgu'r iaith mewn sgyrsiau bob dydd gyda rhieni a phobl eraill. Felly, defnyddiwch pob cyfle i siarad Cymraeg ar unrhyw lefel yn eich cartref, gan ei fod yn lle delfrydol i'ch plant i'w defnyddio hefyd.*
> (Bwrdd yr Iaith, 2000, 4)

Yn yr un modd anogir rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddod â'r iaith i fewn i'r cartref, drwy wylio rhaglenni teledu Cymraeg gyda'u plant a thrwy annog unrhyw aelodau o'r teulu neu gyfeillion i siarad Cymraeg gyda'r plentyn (Bwrdd yr Iaith, 2000, 4-5).

3.17 Casgliad

Yn y bennod hon ceisiwyd rhoi arolwg o ddatblygiad addysg Gymraeg a dwyieithog o ddechrau'r ugeinfed ganrif ymlaen. Edrychwyd ar nifer o agweddau o fewn y maes gan gynnwys deddfau addysg dylanwadol a sefydlu ysgolion cynradd ac uwchradd penodedig Gymraeg. Trafodwyd hefyd le mudiadau gwirfoddol megis Rhag ac Addysg yn Gyntaf yn hanes addysg ddwyieithog yng Nghymru. Edrychwyd ar ddylanwad y mewnlifiad a'r modd yr ymatebodd addysg ddwyieithog i'r newydd-ddyfodiaid drwy agor canolfannau iaith a phenodi athrawon bro. Trafodwyd lle'r Gymraeg mewn addysg y tu hwnt i addysg oedran gorfodol mewn addysg uwch ac addysg bellach ac edrychwyd ar ddatblygiad Cymraeg i Oedolion. Rhoddwyd darlun o sefyllfa bresennol y Gymraeg mewn ysgolion ac edrychwyd ar ddylanwad addysg Gymraeg iaith gyntaf ac ail iaith ar y nifer sy'n gallu siarad yr iaith. I gloi trafodwyd a yw addysg ddwyieithog yn arwain y ffordd at Gymru ddwyieithog.

Dangosodd yr arolwg hwn o addysg ddwyieithog yn yr ugeinfed ganrif bod datblygiad rhyfeddol wedi bod yn y nifer o blant ac oedolion sy'n dod i gyswllt â'r Gymraeg ym myd addysg. Gwelwyd bod amrywiaeth yn y ddarpariaeth gydag addysg feithrin, cynradd ac uwchradd yn fwy cyflawn nac addysg uwch ac addysg bellach. Mae sicrhau dilyniant o addysg feithrin a chynradd i addysg uwchradd ac ymlaen i addysg uwch a phellach yn sicr o fod yn flaenoriaeth yn y dyfodol os yw addysg ddwyieithog yn mynd i barhau i ddatblygu. Mae gan Mudiad Ysgolion Meithrin ran bwysig yn y broses hon gan mai dyma'r cyfle cyntaf i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

Dangosodd y bennod hon bod addysg Gymraeg a dwyieithog wedi cael dylanwad syfrdanol ar y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg gan fynd yn erbyn y llif dirywiad yn yr iaith. Fodd bynnag, cyflwynwyd dadleuon rhyngwladol sy'n dadlau na all byd addysg yn unig adfer a chynnal iaith leiafrifol. Serch hyn, cydnabyddir bod llwyddiant addysg Gymraeg a dwyieithog yn syfrdanol, nid yn unig o safbwynt cynyddu'r niferoedd sy'n gallu ei siarad, ond hefyd o safbwynt cynyddu ei statws.

PENNOD 4

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

4.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon amlinellir hanes sefydlu a thwf Mudiad Ysgolion Meithrin a lle'r mudiad o safbwynt addysg feithrin yn gyffredinol. Ymdrinnir â hanes y mudiad, paham y'i sefydlwyd a datblygiad y mudiad o ran twf nifer y cylchoedd, y plant a'u mynychai a staff y mudiad, trafodir hefyd sefydlu'r cylchoedd Ti a Fi. Yna fe drafodir elfennau eraill ar waith a threfniadaeth y mudiad, megis ei strwythur, cyrsiau i staff y cylchoedd, cefnogaeth ariannol o amrywiaeth o ffynonellau, cyhoeddiadau Mudiad Ysgolion Meithrin, bygythiadau i waith y mudiad megis y talebau meithrin, ac addysg feithrin mewn ysgolion cynradd. Rhoddir gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin mewn cyd-destun rhyngwladol drwy drafod gwaith cyfatebol gyda ieithoedd lleiafrifol mewn gwledydd eraill, sef Yr Alban, Iwerddon, Llydaw a Seland Newydd. Yn olaf ymdrinnir â rhan Mudiad Ysgolion Meithrin yn yr ymgais i adfer yr iaith Gymraeg.

4.2 Hanes Cynnar

Sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin yn swyddogol yn 1971 fel ymateb i'r dirywiad diweddar a welwyd yn y nifer a siaradai Gymraeg. Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 1971 11.3% o blant 3-4 oed a siaradai Gymraeg, bu gostyngiad o 1.75% mewn deng mlynedd a 10.8% mewn deugain mlynedd (Cyngor yr Iaith Gymraeg, 1975, 6).

> *...ar ddydd Sadwrn, Awst 7 [1971], ymgynullodd tyrfa fywiog ym Mhabell y Cymdeithasau i ystyried sefydlu corff cenedlaethol i reoli a datblygu addysg feithrin wirfoddol Gymraeg.*
> (Stevens, 1996, 26)

Trefnwyd yr ail gyfarfod ar gyfer Medi 1971 yn Aberystwyth, gwahoddwyd mudiadau a oedd yn hyrwyddo addysg Gymraeg a chynrychiolwyr o ysgolion meithrin cyfrwng Cymraeg.

Yn ôl y cyfarfod hwn, nod ac amcan y mudiad newydd oedd (a) sefydlu a datblygu addysg feithrin Gymraeg a (b) cefnogi a hyrwyddo addysg Gymraeg.
(Stevens, 1996, 26)

Er mai ym Medi 1971 y sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin yn ffurfiol fel mudiad cenedlaethol, gellir olrhain ei ddechreuadau yn ôl mor bell â'r pedwardegau. Nid oes cytundeb ynglŷn â pha ysgol feithrin Gymraeg oedd yr un gyntaf ond gellir enwi dosbarthiadau / ysgolion meithrin ysgol Gymraeg wirfoddol yr Urdd yn Aberystwyth (1943/4) ac ysgol wirfoddol fore Sadwrn Tŷ'r Cymry yng Nghaerdydd (Hydref 1943) fel dwy ymgais wirfoddol gynnar i roi addysg Gymraeg i blant dan bump (Stevens, 1996, 1). Pryderai pobl Maesteg am gyflwr iaith plant yr ardal ac amlygwyd y broblem fwyaf yn yr ysgolion Sul Cymraeg a bu'n rhaid i rai droi at y Saesneg er mwyn i'r plant ddilyn. Aethpwyd ati i agor ysgol feithrin i blant tair i bump oed yn 1947 (Stevens, 1996, 2). Mae'n debyg mai hon oedd yr ysgol feithrin gyntaf a sefydlwyd yn arbennig ar gyfer yr oedran hwn yn unig, darparai'r ddwy ysgol y soniwyd amdanynt eisoes ar gyfer plant meithrin ond nid ar eu cyfer hwy'n unig. Ond yn ôl Jac L. Williams efallai mai 1951 yw'r flwyddyn y dylid ei chofio fel dechrau'r mudiad:

Hwyrach mai 1951 yw'r flwyddyn y dylid cofio amdani fel blwyddyn cychwyn y mudiad, ac ym Morgannwg y dechreuodd, gyda sefydlu ysgolion meithrin y Barri (8 plentyn) Caerdydd (15) a Chwm Nedd (6). Mae'n wir fod plant dan bump oed wedi dechrau ymgynnull i dderbyn addysg trwy'r Gymraeg mewn mannau megis Maesteg cyn hynny, ond mae'n gywirach ystyried y grwpiau hynny yn sylfeini i ysgolion Cymraeg yn hytrach na'u hystyried yn ysgolion meithrin.
(Williams, 1969, 19)

Fodd bynnag, o'r ychydig ysgolion meithrin gwirfoddol cyntaf datblygodd nifer ar draws Cymru, rhai mewn ardaloedd Cymraeg ond nifer hefyd mewn ardaloedd di-Gymraeg. Ychydig a sefydlwyd yn y pumdegau yn ôl Jac L Williams:

Fe deimlwyd angen am ysgol feithrin Gymraeg mewn ambell ardal ond ychydig iawn a sefydlwyd. Byddai grŵp bychan o garedigion yr iaith, yn cynnwys fel arfer rieni a oedd yn bryderus am Gymreictod eu plant, yn ceisio sefydlu grŵp chwarae neu ysgol feithrin mewn ambell dref ond yr oedd y gefnogaeth yn brin.
(Williams, 1969, 19)

Yng nghanol y chwedegau cafodd achos yr ysgolion meithrin hwb gan Gronfa Glyndŵr, cronfa Mr a Mrs Trefor Morgan. Cofrestrwyd y gronfa fel elusen yn 1963 er mwyn noddi Ysgolion Cymraeg. Yn 1966 fe benodwyd eu trefnydd cyntaf sef Mrs Dorothy Watcyn Dolben. Ei phrif waith yn ystod 1966 ac 1967 oedd delio â cheisiadau am gymorth at gynnal ysgolion meithrin. Cynigiai'r elusen gyfarwyddyd ac arweiniad i sefydlu neu / a datblygu ysgolion meithrin Cymraeg (Williams, 1969, 20). Erbyn diwedd 1967 roedd y gronfa wedi bod o gymorth i ysgolion meithrin ym mhob sir yng Nghymru, ond lleihaodd cyfraniadau ariannol y gronfa wedi hynny oherwydd diffyg cefnogaeth (Williams, 1969, 23).

Mor gynnar â hyn gwelwyd llwyddiant yr ysgolion meithrin o ran hybu datblygiad iaith y plant. Sefydlwyd ysgolion meithrin Cymraeg ym Mangor yng nghanol y chwedegau ac yn ôl prifathro'r ysgol Gymraeg leol roedd chwe mis o addysg feithrin Gymraeg, rhan amser hyd yn oed, o leiaf yn gyfwerth â thymor cyntaf y rhai a âi'n syth i'r ysgol Gymraeg heb addysg feithrin (Williams, 1969, 22).

Yn niwedd y chwedegau cynhaliodd Cyfadran Addysg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth, o dan arweiniad Yr Athro Jac L. Williams, arolwg o'r ysgolion meithrin Cymraeg. Yn ôl yr adroddiad hwn bu cynnydd yn nifer y plant yn yr ysgolion yn gyffredinol er wrth gwrs fe wnaeth rhai ysgolion gau oherwydd anawsterau a diffyg cefnogaeth. Ond, yn ôl yr adroddiad, roedd rhestr aros mewn ambell ysgol feithrin a rhai yn cynnal dwy sesiwn, un grŵp yn y bore a'r llall yn y prynhawn (Williams, 1969, 25). Arolwg o'r sector wirfoddol oedd hwn yn bennaf. Ar y pryd roedd yn anghyfreithlon i Awdurdodau Addysg Lleol agor dosbarthiadau neu ysgolion meithrin newydd os nad oedd dosbarth neu ysgol feithrin yno yn 1939-45. Ond er gwaethaf hyn, yn 1960 aeth Pwyllgor Addysg Abertawe ati i sefydlu dosbarthiadau meithrin ynghlwm wrth ddwy ysgol Gymraeg, sef Cwmbwrla a'r Lôn – Las. Datblygwyd addysg feithrin Gymraeg yn rhai o ysgolion sir Gaernarfon hefyd (Williams, 1969, 25). Caniataodd sir y Fflint i'w holl ysgolion Cymraeg sefydlu dosbarthiadau meithrin. Bu'r Awdurdodau Addysg Lleol yn gefnogol i'r ymgyrch i sefydlu ysgolion meithrin Cymraeg yn gyffredinol mewn cyfnod lle nad oedd llawer yn bosib iddynt ei wneud yn swyddogol (Williams, 1969, 25-26). Cafodd nifer o ysgolion meithrin fenthyg celfi gan yr Awdurdodau Addysg Lleol a chafodd eraill brynu celfi'n rhesymol iawn (Williams, 1969, 25).

Roedd sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin yn 1971 yn adlewyrchiad o'r sefyllfa yng Nghymru a'r pryder nad oedd yr iaith yn cael ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf ond roedd hefyd yn adlewyrchiad o feddylfryd y tu hwnt i ffiniau Cymru. Erbyn dechrau'r saithdegau fe dderbynnid yn gyffredinol fod plant ifainc yn dysgu iaith newydd yn llawer cynt nag oedolion neu rai yn eu harddegau er enghraifft. Gellir dadlau wrth gwrs fod mwy o amser gan blant bach i ddysgu iaith na sydd gan oedolion fel arfer. Trochi'r plant yn y Gymraeg oedd bwriad y mudiad o'r dechrau.

Cafodd y Dull Trochi ei boblogeiddio yng Nghymru yn y pumdegau gan yr Athro J. L. Williams. Roedd yr Athro Williams yn annog y grwpiau meithrin Cymraeg i ddefnyddio'r dull hwn fel modd o ddysgu ail iaith yn naturiol a chyflym i blant. Amgylchynu'r plant gyda'r iaith darged yw'r Dull Trochi. Fel arfer defnyddir y dull hwn gyda phlant o dan saith oed. Mabwysiadodd addysgwyr Canada y dull hwn yn y 1960au (Siencyn, 1990, 8-9). Mae dysgu iaith drwy drin a thrafod pethau a phynciau a fyddai fel arfer y tu allan i faes iaith wedi cael ei brofi i fod yn ffordd effeithiol o gaffael iaith newydd (Met, 1998, 36).

> *The principle in Y DULL TROCHI is that at this age children acquire language in the very process of doing other things. It is a method based on thorough understanding of child language development and the learning process of young children.*
> (Siencyn, 1990, 9)

> *Immersion programs aim to provide the quantity and quality of involvement in the use of the target language that ensure the development of a high level of proficiency.*
> (Johnson a Swain, 1997, txiii)

Yn ogystal â throsglwyddo'r Gymraeg fel ail iaith mae'r Dull Trochi yn rhoi'r cyfle i blant sy'n siarad Cymraeg yn y cartref ddefnyddio eu hiaith leiafrifol, gan fod iaith fwyafrifol yn dod i mewn i'w cartrefi yn rheolaidd ar ffurf rhaglenni teledu, llyfrau, radio, ymwelwyr a theulu, felly mae angen cefnogaeth ar yr iaith leiafrifol yn arbennig yn ystod y blynyddoedd cynnar (Aellen a Lambert, 1969).

Ym marn Jac L Williams fe ddangosodd yr ysgolion meithrin cynnar hyn y ffordd i godi cenhedlaeth newydd o Gymry dwyieithog mewn ardaloedd di-Gymraeg megis y Barri. Cyflwynwyd tystiolaeth Gymreig o blaid barn arbenigwyr rhyngwladol

ei bod yn haws dysgu ail iaith ym mlynyddoedd cynnar bywyd nag ar ôl cyrraedd saith oed (Williams, 1969, 96).

4.3 Datblygiad Mudiad Ysgolion Meithrin

Pan sefydlwyd y mudiad yn swyddogol yn 1971 roedd 68 ysgol / cylch meithrin Cymraeg yn aelodau o'r mudiad a thua 950 o blant yn eu mynychu (Davies, 1993, 77). Cynyddodd y niferoedd hyn drwy'r saithdegau, wythdegau a dechrau'r nawdegau. Roedd y cynnydd yn y blynyddoedd cynnar yn rhyfeddol.

Tabl 4.1 Twf Cynnar Mudiad Ysgolion Meithrin

Blwyddyn	Nifer cylchoedd meithrin	Nifer cylchoedd Ti a Fi
1971/71	70	
1972/73	118	
1973/74	139	
1974/75	184	
1975/76	221	
1976/77	258	
1977/78	294	
1978/79	320	8
1979/80	342	18
1980/81	365	29
1981/82	380	49
1982/83	390	70
1983/84	402	120
1984/85	425	160

(Siencyn, 1986, 14)

Yn 1971 roedd y mudiad yn darparu addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i 0.8% o blant rhwng dwy a phump oed yng Nghymru, erbyn 1984 roedd 6.5% o'r un grŵp oedran yn mynychu eu cylchoedd (Siencyn, 1986, 25). Erbyn canol yr wythdegau roedd y mudiad yn darparu mwy o lefydd addysg feithrin rhan-amser nag a wnaed gan yr Awdurdodau Addysg Lleol naill ai yn Gymraeg neu Saesneg (Siencyn, 1986, 25) Erbyn 1991 roedd 90% o'r plant a fynychai'r cylchoedd o gartrefi di-Gymraeg,

dengys hyn pa mor llwyddiannus fu marchnata'r cylchoedd ymysg y di-Gymraeg (Jones, 1997b, 389). Yn 1994 roedd 1041 uned (cylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi) a 15097 plentyn yn eu mynychu (Jones, 1997b, 384). Felly, yn 1994 cynyddodd y nifer o gylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi i dros fil am y tro cyntaf. Bu'r cynnydd hwn er gwaethaf penderfyniad Cyngor Sir Gwynedd i gynnig darpariaeth feithrin rhan-amser yn rhai o ysgolion cynradd y sir (Stevens, 1996, 161). Wrth gwrs bu cynnydd yn y nifer o staff a gyflogai'r mudiad i gyd-fynd â'r cynnydd yn y nifer o blant a chylchoedd o dan ofal Mudiad Ysgolion Meithrin.

Gwelir adlewyrchiad o'r twf hwn yn adroddiadau dwyieithog Bwletin Mudiad Ysgolion Meithrin sef 'Meithrin'.

> *Cardiff's seventh Welsh Nursery School has opened this term in All Saints Church Hall in Llandaf North. The Central Committee in Cardiff organised a canvass of the area inviting all interested parents to send their children to this school*
> (Bwletin Meithrin Rhifyn 4, Haf 1973, 6)

Agorodd cylchoedd meithrin newydd ar hyd a lled Cymru, mewn ardaloedd di-Gymraeg ac mewn ardaloedd traddodiadol Cymraeg.

> *Roedd y Mudiad yn amlwg yn llwyddo i sylweddu'r genhadaeth ddeublyg, unigryw a berthynai iddo; sef arwain yr adfywiad ieithyddol ar y naill law a chynnig addysg feithrin gymdeithasol ac addysgol glodwiw ar y llaw arall.*
> (Stevens, 1996, 145)

Golyga'r twf hwn yn nifer y plant a dderbyniai addysg feithrin Gymraeg fod yr angen a'r galw am addysg gynradd Gymraeg hefyd ar gynnydd. Roedd llawer o rieni eisiau dilyniant mewn addysg Gymraeg o'r cylch meithrin i'r ysgol gynradd, ac wrth gwrs, cafodd hyn effaith ar yr ysgolion uwchradd yn nes ymlaen gyda'r galw am ddarpariaeth drwy'r Gymraeg i'r plant a oedd wedi cael addysg feithrin a chynradd cyfrwng Cymraeg.

> *The rapid expansion of nursery schools created the need and demand for Welsh-medium primary schools.*
> (Davies, 1993, 77)

Mewn rhai ardaloedd sefydlwyd cylchoedd meithrin yn sgil agor ysgol gynradd Gymraeg yn lleol, er enghraifft yng Nghwmbrân.

> *Er mwyn bwydo Ysgol Gymraeg Cwmbrân, Mynwy bydd ysgol feithrin yn agor yno ym Medi.*
> (Bwletin Meithrin Rhifyn 5,1973)

Yn ogystal â'r twf yn y nifer o gylchoedd meithrin o dan ofal Mudiad Ysgolion Meithrin gwelwyd cynnydd cyflym yn y nifer o gylchoedd Ti a Fi yn ystod yr wythdegau. Rhwng 1981 ac 1991 cynyddodd y nifer o gylchoedd Ti a Fi o ddeugain i 352 (Stevens, 1996, 142).

Cyfyngwyd y twf cynnar i orllewin Cymru i raddau. Roedd chwarter cylchoedd meithrin Cymru yn yr hen sir Gwynedd yn 1981 (Jones, 1997b, 379). Mae'r ddarpariaeth y gorllewin yn bur ddwys erbyn hyn (Jones, 1997b, 388). Dangosodd graff a baratowyd gan Colin Baker a Meirion Prys Jones (Baker a Jones, 2000, 126) bod y gyfradd o gylchoedd i bob plentyn o dan bump oed orau yn siroedd Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn. Yn ôl y graff hwn mae'r potensial mwyaf i Mudiad Ysgolion Meithrin ehangu a chynyddu'r nifer o gylchoedd yn siroedd Castell Nedd, Torfaen, Blaenau Gwent, Mynwy a Fflint. Mae prinder cylchoedd meithrin mewn cymhariaeth â'r nifer o siaradwyr Cymraeg o dan bump oed yn sir y Fflint yn arbennig ac yn siroedd Wrecsam, Bro Morgannwg a Chaerfyrddin (Baker a Jones, 2000, 126). Dim ond un cylch sydd i 139 plentyn sy'n siarad Cymraeg yn Sir y Fflint. Gellir cymharu hyn â chymhariaeth eithaf ffafriol o hanner cant o blant sy'n siarad Cymraeg i bob cylch (Baker a Jones, 2000, 124).

Yn y graffiau isod (Ffigyrau 4.1 a 4.2) dangosir y nifer o gylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi ym mhob awdurdod (gwybodaeth o wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg). Gellir gweld o'r graffiau hyn ble y mae modd i Mudiad Ysgolion Meithrin ehangu eu gwaith. Yn yr un modd mae'r graff (Ffigwr 4.3) yn dangos ble y mae prinder darpariaeth gan y mudiad.

Ffigwr 4.1 Nifer Cylchoedd Meithrin yn ôl Sir



Ffigwr 4.2 Nifer Cylchoedd Ti a Fi yn ôl Sir



Ffigwr 4.3 Map o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi Mudiad Ysgolion Meithrin



Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r nifer o gylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi wedi parhau i gynyddu, er nad ar yr un raddfa a welwyd yn y saithdegau a dechrau'r wythdegau.

Tabl 4.2 Niferoedd Cylchoedd Meithrin a Cylchoedd Ti a Fi Ffigyrau Diweddar

Blwyddyn	Cylch Meithrin	Cylch Ti a Fi
2000	559	376
2001	578	403
2002	586	435

(Gwybodaeth gan Fudiad Ysgolion Meithrin)

Canlyniad y twf yn y nifer o blant o dan bump oed a dderbyniai addysg cyfrwng Cymraeg oedd cynnydd yn y ganran o blant ifanc sy'n siarad Cymraeg fel a ddangosodd canlyniadau Cyfrifiad 1981, 1991 a 2001 a chynnydd sylweddol yn y galw a'r ddarpariaeth addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

4.4 Ti a Fi

Yn ystod yr wythdegau dechreuodd y mudiad dargedu oedran ieuengach drwy sefydlu cylchoedd 'Ti a Fi' ynghlwm wrth y cylchoedd meithrin. Drwy wneud hynny cynyddwyd nifer y plant a ddaeth o dan ddylanwad gwaith y mudiad. Yn 1971 darparai'r mudiad ar gyfer llai nag 1% o blant rhwng 2 a 5 oed; erbyn 1981, ddeng mlynedd yn ddiweddarach cynyddodd i 5% (Bwletin Meithrin, Rhifyn 33, 1991, 16). Roedd peth o'r diolch am hyn i'r cylchoedd Ti a Fi. Ffurfiwyd y cylchoedd Ti a Fi yn rhannol oherwydd y mewnlifiad o deuluoedd di-Gymraeg a fu yn ystod y degawd. Teimlai'r mudiad fod angen tynnu rhieni di-Gymraeg i mewn i waith y mudiad, fe'u hanogwyd i fynychu dosbarthiadau Cymraeg a threfnwyd meithrinfeydd ar gyfer eu plant. Awgrymodd Dr. Anne Brooke, Americanes ac ymchwilydd ym Mholitechnig Cymru, y dylid sefydlu cylchoedd Ti a fi neu gylchoedd Mam a'i Phlentyn fel y'u galwyd yn wreiddiol. Yn y cylchoedd Ti a Fi dysgir rhieni i ganu caneuon syml Cymraeg gyda'u plant ac i actio sefyllfaoedd syml. Anogir hwy i wneud hyn yn y

cartref yn ogystal â'r cylch. Credai hi mai dyma'r ffordd i sicrhau cyfraniad y rhieni hyn i waith y mudiad a'r ffordd i'w cynorthwyo (Jones, 1997a, 45).

Yn nyddiau cynnar y mudiad roedd ansicrwydd ynglŷn â phwrpas y cylchoedd Ti a Fi a phrin oedd eu polisïau ynglŷn â hwy. Sefydlwyd rhai cylchoedd Mam a'i Phlentyn yn ôl yn y saithdegau ac yn ôl rhai i syniadau gŵr o Siapan o'r enw Suzuki a gredai y dysgai plant a'u rhieni iaith yn well gyda'i gilydd y mae'r diolch (Bwletin Meithrin, Rhifyn 19, 1978, 3). Yn 1978 bu arbrawf yn ardal Pentwyn; deuai mamau di-Gymraeg at ei gilydd unwaith yr wythnos gyda'u plant gyda'r bwriad o ddechrau dysgu'r Gymraeg fel bo'r mamau a'r plant yn gyfarwydd â phatrymau sylfaenol y Gymraeg erbyn i'r plant fod yn ddigon hen i fynychu'r cylch meithrin (Bwletin Meithrin, Rhifyn 19, 1978, 3). Roedd dysgu'r rhieni gyda'r plant yn syniad newydd yn y cyfnod. Yn rhifyn 23 o Meithrin a gyhoeddwyd yn 1980, trafodir y cylchoedd hyn a gellir synhwyro ansicrwydd ynglŷn â'u pwrpas a'u dyfodol.

> *Mae un pwnc, fodd bynnag, sydd wedi ei anwybyddu gennym bron yn llwyr a hynny yw grwpiau 'mam a phlentyn'. Grwpiau yw'r rhain sy'n darparu ar gyfer y plant hynny sy'n rhy ifainc i fynychu un o'n cylchoedd meithrin. Mae nifer y rhain a sefydlwyd gennym ni fel mudiad yn fach iawn ac nid ydym erioed wedi penderfynu ar unrhyw bolisi pendant ynglŷn â hwy.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 23, 1980, 4)

Wrth gwrs sylweddolwyd fod y cylchoedd Ti a Fi yn rhoi cyfle i'r Gymraeg gyrraedd oedran is eto a'u bod yn gyfle i rieni Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd i gymdeithasu. Roedd y bendithion ieithyddol i'r plentyn yn amlwg.

> *Dyma amser pan yw hi'n bosibl i osod seiliau cadarn i'r iaith ac yn y cyswllt hwn mae'n dra phwysig i gryfhau iaith aelwyd y Cymry Cymraeg ac i roi cyfle i'r plant di-Gymraeg i godi'r iaith cyn iddynt feistroli'r Saesneg.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 23, 1980, 4)

Ond ni sylweddolwyd llawn botensial y cylchoedd Ti a Fi o ran lle'r rhieni, yn y cylch, ac yn addysg Gymraeg eu plant a'r posibilrwydd y gallai'r rhieni ddysgu siarad Cymraeg hefyd.

> *Dim ond yn ddiweddar iawn y mae'r mudiad wedi sylweddoli'n llawn bosibiliadau y grwpiau hyn o ran dysgu iaith ac rydym ar hyn o bryd yn dechrau gwneud ymdrech arbennig i gyflwyno i'r rhiant a'r plentyn eirfa a*

phriod-ddulliau syml wedi eu seilio yn bennaf ar batrwm dyddiol y plentyn megis gwisgo, mynd i'r gwely, bwyta ac yn y blaen.
(Bwletin Meithrin, Rhifyn 33, 1983, 16)

Caed anogaeth gan y mudiad i'r rhieni di-Gymraeg i ddysgu'r iaith ers sefydlu'r mudiad ac roedd y cylch Ti a Fi yn gam tuag at eu cynorthwyo i wneud hynny.

Your children have been very lucky to have started learning and hearing the Welsh language at such an early age – try your best to learn it with them.
(Bwletin Meithrin, Rhifyn 3, 1972, 7)

Oherwydd yr anogaeth a dderbyniasant yn eu cylch Ti a Fi lleol aeth sawl rhiant ati i ddysgu'r Gymraeg (Jones, 1997a, 45). Ond, fel nododd Robert Owen Jones nid yw'r mudiad yn sicrhau dilyniant i'r gwaith hwn gyda'r rhieni di-Gymraeg. Mae ganddynt gynulleidfa barod o rieni sydd wedi dewis addysg Gymraeg i'w plant ac eisoes wedi dysgu ychydig o Gymraeg drwy fynychu'r cylch Ti a Fi gyda'u plant (Jones, 1997b, 390).

Ar hyn o bryd rhaid cydnabod bod Mudiad Ysgolion Meithrin yn cyrraedd grŵp nad ydynt yn gallu rhoi gwasanaeth effeithiol iddynt, sef y rhieni di-Gymraeg. Yn y cylchoedd 'Ti a Fi' gall y rhieni di-Gymraeg ddysgu geiriau, ymadroddion a chaneuon gyda'u plant ond yn gyffredinol nid oes darpariaeth bellach ar gael.
(Jones, 1997b, 390)

Yn ogystal â'r dylanwad uniongyrchol ar iaith y plant cafodd y cylchoedd ddylanwad ar y rhieni yn arbennig y rhai di-Gymraeg.

...bu'r cylchoedd yn llwyfan dylanwadol i gyflwyno'r Gymraeg drwy'r plant i rieni di-Gymraeg. Bu'n gyfrwng llesol i newid agweddau a rhagfarnau rhai tuag at yr iaith. Bu'n foddion ardderchog i farchnata'r iaith yn arbennig yn y de-ddwyrain.
(Jones, 1997b, 384)

Parhad naturiol o'r gwaith a wneir yn y cylchoedd Ti a Fi fyddai darparu gwersi Cymraeg i'r rhieni tra bo'u plant yn y cylch meithrin. Fe fyddai hyn yn cadarnhau ymhellach waith y cylch yn y cartref ac fe fyddai'r plant yn fwy tebygol o ddatblygu'n ddwyieithog pe bai modd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref yn ogystal â'r

cylch (Jones, 1997b, 388). Tynnwyd sylw at rôl bwysig cylchoedd Ti a Fi yn Adolygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r iaith Gymraeg (2002b) gan eu bod yn darparu cyfleoedd i rieni a phlant ifanc glywed y Gymraeg a'i defnyddio fel cyfrwng chwarae (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 75).

Wrth i nifer yr ysgolion cynradd sy'n darparu addysg feithrin ar gyfer plant 3-4 oed gynyddu mae'r mudiad yn rhagweld y bydd gwaith y cylchoedd Ti a Fi yn dod yn fwy blaenllaw yng ngwaith y mudiad (Jones, 1997a, 47).

Credir i'r cylch Ti a Fi cyntaf agor yn Llan-non, Ceredigion yn 1972, agorodd ambell un arall yn ystod y blynyddoedd i ddilyn ond araf fu'r cynnydd (Stevens, 1996, 55).

> *Bu'r grwpiau newydd hyn yn allweddol yn hanes y mudiad, gan sicrhau cyflenwad o blant i'r cylchoedd meithrin a rhoi cyfle i famau gymdeithasu, ymlacio a chyd-ddysgu. Cryfhawyd trwyddynt yr ymdeimlad o berthyn. Eto, yn araf iawn, iawn y cynyddodd eu nifer yn ystod y saithdegau.*
> (Stevens, 1996, 56)

Erbyn Medi 1981 roedd 40 cylch Mam a'i Phlentyn wedi eu sefydlu (Stevens, 1996, 72) ond yn sicr yr wythdegau oedd y degawd o gynnydd o safbwynt y cylchoedd Ti a Fi ac erbyn 1991 roedd y nifer yn 352 (Stevens, 1996, 142). Yn ystod y cyfnod hwn hefyd daethpwyd i weld budd a photensial y cylchoedd Ti a Fi. Beirniadwyd y cylchoedd Ti a Fi gan rai a gredai nad oeddynt yn ddim mwy na man i famau gyfarfod a sgwrsio, yn Saesneg gan amlaf tra chwaraeai eu plant. Ond gyda chyhoeddi cynllun darllen Dr Anne Brooke a llyfr canu Falyri Jenkins, Caneuon Bys a Bawd, daeth potensial ieithyddol a chymdeithasol y cylchoedd Ti a Fi fwyfwy i'r amlwg. Roedd angen strwythuro a chodi safonau'r grwpiau hyn ac ym marn Catrin Stevens mae galw am benodi swyddogion i fod yn gyfrifol am y cylchoedd Ti a Fi yn unig (Stevens, 1996, 142).

Wrth gwrs mae budd i'r Cymry Cymraeg yn ogystal â'r di-Gymraeg o fynd i'r cylch Ti a Fi gan eu bod yn cael y cyfle i gymdeithasu â phlant eraill Cymraeg eu hiaith.

This extends the opportunity to socialize in Welsh to an even younger group of Welsh-speaking children, and gives children from English-speaking homes, and their parents, the chance to learn a little Welsh, and to prepare for the 'cylch meithrin'.
(Baker a Jones, 1998, 490)

Ond, nid yw'r cylch Ti a Fi yn addas i lawer o rieni, yn bennaf oherwydd y newid cymdeithasol a ddaeth yn sgil y cynnydd a fu yn nifer y merched sy'n gweithio; oherwydd hyn ceir galw am wasanaeth gofal gydol dydd (Bwletin Meithrin, Rhifyn 46, 1990, 7). Yn sgil y cynnydd a fu yn yr ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal erbyn y nawdegau, penderfynwyd nad oedd yr enw 'Mam a'i Phlentyn' yn addas. Codwyd y mater gan Jim Ostler o Orllewin Morgannwg, un o'r dynion prin i arwain cylch meithrin a chylch 'Mam a'i Phlentyn'. Credai ef fod yr enw yn adlewyrchu stereoteipio ac nad oedd yn esiampl dda i blant. Trafodwyd y mater yng Nghyngor Cenedlaethol y mudiad yn Hydref 1991 a penderfynwyd ar yr enw newydd, cylch Ti a Fi (Stevens, 1996, 142).

Hysbysebwyd y cylchoedd Ti a Fi yn rhannol mewn llyfryn dwyieithog a gyhoeddodd y mudiad yn 1991 'Croeso i'r Cylch Ti a Fi = Welcome to the Cylch Ti a Fi'.

Cewch fwynhau'r awyrgylch anffurfiol Gymreig sydd yma. Bydd ein gweithgareddau'n atgyfnerthu Cymraeg y cartref ac yn cynnig cyfle i deuluoedd di-Gymraeg i ddefnyddio'r iaith am y tro cyntaf gyda'u plant.
(Mudiad Ysgolion Meithrin, 1991, 3)

4.5 Cyrsiau

Yn nyddiau cynnar y mudiad - a chyn ei sefydlu - denwyd gweinyddesau meithrin ac athrawesau cynradd i gymryd yr awenau yn yr ysgolion / cylchoedd meithrin Cymraeg. Yn yr arolwg a wnaed o addysg feithrin Gymraeg yn 1968 dan nawdd Cyfadran Addysg Aberystwyth, o'r 60 'prifathrawes' a holwyd roedd cynifer â 53 ohonynt wedi bod yn athrawon yn flaenorol, cyn priodi gan amlaf. Roedd 73 o'r 176 'athrawes cynorthwyol' hefyd wedi nodi eu bod wedi eu hyfforddi fel athrawon. Mae'n debyg bod y ffigwr yma yn uwch gan fod 84 wedi eu disgrifio fel 'gwragedd tŷ' heb nodi eu galwedigaeth cyn dechrau magu teulu (Williams, 1969, 43).

Wrth i nifer y cylchoedd gynyddu daeth yn anos i ddod o hyd i arweinyddion cymwys i ofalu amdanynt. Caed nifer o apeliadau am athrawon ym Mwletin y mudiad.

> *Mae ardaloedd Casgwent, Cwmbrân a Llanbradach yn awyddus i gychwyn ysgolion meithrin ond yn methu ar hyn o bryd oherwydd diffyg arweinyddion.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 3, 1972, 3)

Rhan o'r broblem hon o ddod o hyd i arweinyddion oedd y duedd gynyddol i athrawesau a gweinyddesau meithrin wedi eu hyfforddi i fynd yn ôl i'w gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth byr yn hytrach na chymryd saib o ychydig flynyddoedd. Nid oedd y cyflogau isel a gynigiwyd gan y cylchoedd meithrin ychwaith yn denu arweinyddion a oedd wedi derbyn hyfforddiant (Baker a Jones, 1998, 490). Er mwyn goresgyn y broblem hon dyfeisiwyd cyrsiau hyfforddi arweinyddion gan y mudiad, sefydlwyd cwrs sylfaenol a chwrs estynedig i ddechrau a datblygodd y ddau i'r Cwrs Cyfansawdd presennol. Cydnabyddir y Cwrs Cyfansawdd fel cymhwyster addas i arwain cylch meithrin gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol pob sir yng Nghymru. Trefnir y cwrs gan bob sir yn unigol ac mae'n cynnwys elfennau addysgol, cymdeithasol ac ieithyddol (Jones, 1997a, 44). Profodd y cwrs i fod yn un llwyddiannus, er enghraifft yn 1994 mynychodd 550 y cwrs (Jones, 1997b, 386).

> *Tyfodd y cwrs yn un poblogaidd iawn gan ei fod yn atgyfnerthu a datblygu sgiliau sylfaenol yr arweinyddion a thrwy hynny yn codi safonau'r cylchoedd meithrin yn gyffredinol.*
> (Jones, 1997a, 45)

Problem arall ar wahân i'r drafferth i ddod o hyd i arweinyddion wedi eu hyfforddi oedd y prinder Cymry Cymraeg i weithio yn y cylchoedd yn yr ardaloedd Seisnig. Datblygodd y broblem hon yn fuan iawn yn oes y mudiad gyda'r cynnydd yn niferoedd y cylchoedd yn yr ardaloedd Seisnig yn fyw na'r cyflenwad o arweinyddion. Gwnaed apeliadau ym Mwletin y mudiad.

> *Mae prinder athrawesau yn dal i lesteirio'r gwaith mewn ambell i ardal, yn arbennig yn yr ardaloedd mwyaf Seisnig. Carwn apelio at unrhyw un sy'n digwydd darllen y nodiadau yma ac sy'n gwybod am bobl fyddai'n gallu ein cynorthwyo i roi gwybod i ni.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 20, 1979)

Er mwyn datrys y broblem hon cydweithiodd y mudiad gyda Pholitechnig Cymru yn Nhrefforest, Prifysgol Morgannwg erbyn hyn, i ddyfeisio a chynnal cwrs a fyddai'n dysgu Cymraeg ac yn hyfforddi mewn addysg feithrin. Rhoddwyd hyfforddiant yn y Gymraeg bedwar bore'r wythnos tra defnyddiwyd y pumed bore i roi hyfforddiant mewn sgiliau meithrin. Bu'r cwrs blwyddyn o fudd mawr i'r mudiad a llwyddwyd i sicrhau bod arweinyddion ar gyfer cylchoedd meithrin Caerdydd a'r cylch (Baker a Jones, 1998, 490).

> *Bu'r cwrs yn boblogaidd iawn a bu'n ffynhonnell wych o arweinyddion i gylchoedd meithrin y mudiad.*
> (Jones, 1997a, 45)

Yn ystod 1999-2000 mynychodd 166 y Cwrs Tystysgrif i Arweinyddion Cylch Meithrin a mynychodd 1859 o staff gyrsiau amrywiol eraill (Adroddiad Blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin, 2000, 9).

4.6 Cefnogaeth ariannol

Sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin yn 1971 fel mudiad gwirfoddol, ond o 1973 ymlaen dyfarnwyd grantiau blynyddol i'r mudiad gan y Swyddfa Gymreig. Cynyddodd y grant hwn yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd dilynol.

Tabl 4.3 Grantiau Y Swyddfa Gymreig i Fudiad Ysgolion Meithrin

Blwyddyn	Grant o wasanaethau Cymdeithasol y Swyddfa Gymreig	Grant o'r Swyddfa Gymreig i'r cylchoedd
1971/71		
1972/73		
1973/74	£5500	
1974/75	£15000	
1975/76	£24000	
1976/77	£36000	
1977/78	£46375	
1978/79	£60000	£20000
1979/80	£70000	£25000
1980/81	£87000	£30000
1981/82	£94000	£165000
1982/83	£98000	£180000
1983/84	£102000	£192000
1984/85	£109000	£200000

(Siencyn, 1986, 14)

Ond dadleuodd y mudiad nad oedd y cynnydd hwn yn y blynyddoedd cynnar hyn mor fawr â'r cynnydd a fu yn nifer cylchoedd y mudiad. Yn ôl Adroddiad Blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin 1985-86 tyfodd y mudiad 40% er 1981, tra 12.4% oedd cynnydd grant cynhaliol y Swyddfa Gymreig o 1981-2 i 1984-5 (Adroddiad Blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin, 1986, 7).

Rhoddir y grant hwn er mwyn cryfhau gwaith y mudiad yn ganolog nid i'r cylchoedd unigol. Esbonnir pam yn yr 'Adroddiad ar y Gymraeg mewn Addysg Feithrin' (Cyngor yr Iaith Gymraeg, 1975) ac mae'r esboniad yr un heddiw er bod y ffynhonnell arian bellach wedi newid.

> *Ni roddir y grant hwn at ddibenion addysgiadol oherwydd yn swyddogol cyfrifir gwaith y cylchoedd chwarae yn gymdeithasol yn hytrach nag addysgiadol. Bwriad y grant yw codi safon y grwpiau chwarae drwy gryfhau gweithgareddau pencadlys y mudiad, a rhoi peth cymorth tuag at gyhoeddiadau; ond o dan y rheolau perthnasol, ni ellir rhoi arian i'r grwpiau chwarae yn uniongyrchol. Mae'r grant yn darparu ar gyfer trefnydd cenedlaethol a swyddog datblygu gyda chymorth ysgrifenyddol.*
>
> (Cyngor yr Iaith Gymraeg, 1975, 5-6)

Sefyllfa dros dro oedd rhoi grant i Mudiad Ysgolion Meithrin yn ôl yr Adroddiad, gwneud gwaith y byddai'r Awdurdodau'n ei gymryd drosodd yn fuan yr oeddynt.

> *Ni all y mudiad dalu cyflogau proffesiynol na darparu lle, offer na chyfleusterau eraill a gynhwysir mewn addysg feithrin ar raddfa lawn. O dan yr amgylchiadau hyn, credwn fod y mudiad ei hun yn cydnabod mai swyddogaeth dros dro sydd i'w waith ac mai'r nod tymor hir yw y dylai awdurdodau addysg lleol gymryd y cyfrifoldeb.*
> (Cyngor yr Iaith Gymraeg, 1975, 12)

Parhaodd y Swyddfa Gymreig a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ddiweddarach i gyfrannu tuag at waith y mudiad. Daethai'r arian gan y Swyddfa Gymreig o ddwy ffynhonnell sef Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Teulu a'r Adran Gwasanaethau Addysg. Roedd yn rhaid i'r mudiad wario'r arian yn ôl canllawiau'r adrannau hyn. Cyfraniad tuag at gynhaliaeth y mudiad yn unig a gaed gan y llywodraeth, ond cydnabyddai'r mudiad bod y cyfraniadau'n allweddol i'w fodolaeth (Bwletin Meithrin, 1992, 4).

> *Eleni, fel yn y blynyddoedd a fu, mae'r Swyddfa Gymreig wedi cynnig cefnogaeth at waith y mudiad. Mae'r Swyddfa Gymreig yn pwysleisio mai cyfraniad at ein gwaith y mae'n ei gynnig ac er ein bod ni bob amser o'r farn nad yw yn ddigon at ein anghenion yr ydym yn derbyn y cymorth yn llawen gan gydnabod ei fod yn sylweddol ac yn allweddol at ein cynhaliaeth.*
> (Bwletin Meithrin, 1992, 4)

Derbyniwyd arian o ffynonellau eraill dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf er nad mor gyson â'r arian o'r Swyddfa Gymreig a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn ystod yr wythdegau derbyniwyd arian o sawl ffynhonnell Ewropeaidd, Er enghraifft, derbyniwyd grant gan Sefydliad Ewropeaidd er Hyrwyddo Diwylliant i ymchwilio i'r ffordd yr oedd plant cyn-ysgol yn caffael iaith. Roedd tair rhan i'r ymchwil hwn, yn gyntaf mesur cynnydd iaith plant yn ystod eu cyfnod yn y cylch; yn ail, edrych ar y dulliau mwyaf effeithiol o drefnu grŵp cymysg ei iaith ac yn drydydd ceisio mesur dylanwad y mudiad ar y galw am addysg Gymraeg (Bwletin Meithrin, Rhifyn 36, 1981, 13). Penodwyd swyddog ymchwil i wneud y gwaith. (Jones, 1997a, 43). Derbyniwyd grant sylweddol gan Sefydliad van Leer o'r Iseldiroedd (gweler 4.10).

Yn nyddiau cynnar y mudiad sefydlwyd cronfa ac apeliwyd am gyfraniadau. Defnyddiwyd Bwletin y mudiad fel llwyfan i apelio am arian i gynnal y mudiad.

> *Mae angen Cronfa gref er mwyn gosod seiliau sicr i'r mudiad, a thaer erfynir ar bawb i ddanfon cyfraniadau mawr a mân at y Trysorydd T.O. Gregory.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 2, 1972, 1)

Oherwydd mai mudiad elusennol yw Mudiad Ysgolion Meithrin rhaid i bob cylch yn unigol godi arian i dalu cyflogau staff, rhent a chostau eraill. Yn ôl amodau'r Swyddfa Gymreig ac yn ddiweddarach Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ni ellir defnyddio eu grant i gynnal cylchoedd unigol. Ceisiodd y mudiad newid y sefyllfa hon yn aflwyddiannus.

> *Yn ôl amodau'r Swyddfa Gymreig ni ellir defnyddio dim o'r arian hwn i hybu'r cylchoedd unigol. Fwy nag unwaith holais [y Cyfarwyddwr] yr Ysgrifennydd Gwladol ar hyn a'r ateb bob tro yw mai arian yw'r cymhorthdal tuag at drefniant cenedlaethol a sirol y mudiad, y Swyddfa ganolog a'i Staff, y swyddogion datblygu yn y siroedd, hyfforddiant a chynghori, cyhoeddi ac argraffu.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 17, 1978, 7)

Cydnabyddai'r Cyfarwyddwr y byddai ambell gylch yn amau pwrpas ymaelodi â Mudiad cenedlaethol sy'n derbyn cymhorthdal gan y Swyddfa Gymreig ond eu bod yn gorfod codi arian yn lleol a sirol er mwyn eu cynnal eu hunain. Cydymdeimlai â'r rhain a'u hatgoffa o fanteision ymaelodi â'r mudiad sef derbyn gwasanaeth Swyddog Datblygu, Cynghorydd Cenedlaethol, gwasanaeth yswiriant Mudiad Ysgolion Meithrin, y papur 'Meithrin' a chardiau Nadolig i'w gwerthu er budd y cylch. Cynhelir y cylchoedd unigol drwy ffioedd a thrwy godi arian lleol. Gwelwyd enghreifftiau o Awdurdodau Addysg Lleol yn cyfrannu ffioedd a chylchoedd eraill yn cael cymorth o gronfeydd 'Plant Mewn Angen' y BBC a Chronfa Bwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol (Jones, 1997a, 44).

Yn 1979-80, yn dilyn blynyddoedd o ymgyrchu i newid y sefyllfa ariannu, cytunwyd i roi grant o £25,000 i'r mudiad, dan Gymal 26 Deddf Datblygu Cymru Wledig, 1976. Arian oedd hwn i gefnogi gweithgareddau a oedd yn cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol Cymru, ac a weinyddid trwy Adran Addysg y Swyddfa Gymreig. Roedd modd defnyddio'r arian hwn i helpu cylchoedd unigol. Cynyddodd y

swm i £30,000 y flwyddyn ganlynol ac yn 1981 – 82 cynyddodd yn sylweddol i £165,000 (Stevens, 1996, 63).

Mudiad Ysgolion Meithrin sydd wedi derbyn y grant unigol mwyaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn y flwyddyn ariannol 2001 – 2002 roedd y grant yn £668,000, cynyddodd i £700,000 ar gyfer y flwyddyn 2002-2003 ac ar gyfer y flwyddyn 2003-2004 bydd y grant yn £1 miliwn. Dyma'r tro cyntaf erioed Fwrdd yr Iaith ddyfarnu grant unigol o £1 miliwn (Adroddiadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

4.7 Cyhoeddiadau

> *The lack of early learning material is a source for concern and a great effort is made by M.Y.M. to publish materials in Welsh with the support of additional funding*
>
> (Jones, 1988, 85)

Un problem fawr sydd wedi wynebu Mudiad Ysgolion Meithrin a mudiadau addysgol tebyg sy'n gweithio trwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifol yw'r diffyg deunyddiau megis llyfrau, posteri a thaflenni yn yr ieithoedd hynny. Er mwyn ceisio goresgyn y broblem hon aeth y mudiad ati i gyhoeddi nifer o ddeunyddiau oedran cyn-ysgol ar gyfer addysg drochi i'w defnyddio yn eu cylchoedd, er enghraifft, yn y cyfnod 1987-91 cyhoeddwyd llawlyfr i athrawon, cynorthwywyr dysg a thapiau (Baker a Jones, 1998, 490). Hefyd yn 1993 lansiwyd y cynllun 'Cyd-chwarae' sef pecyn gwybodaeth cynhwysfawr a deunydd hyfforddiant i arweinyddion cylchoedd ar sut i gymathu plant ag anghenion arbennig i'r cylchoedd (Jones, 1997b, 386).

Yn ogystal â chyhoeddi deunyddiau i'w defnyddio yn y cylchoedd eu hunain roedd gwir angen deunyddiau i farchnata a hybu addysg feithrin Gymraeg a nodi rhinweddau. Cyhoeddodd y mudiad nifer o daflenni a llyfrynnau yn gwneud hyn ac fe anelwyd llawer ohonynt tuag at rieni di-Gymraeg yn benodol er mwyn sicrhau eu cefnogaeth ac i sicrhau twf cyson yn nifer y cylchoedd (Jones, 1997a, 46). Un o'r deunyddiau hyn oedd y pamffled *'Think Twice'*, pamffled sy'n esbonio hanfodion a manteision dwyieithrwydd ifainc.

The Welsh medium preschool is there to offer lively, imaginative and enriching experiences for young children. By happy coincidence the activities essential for good preschool are those most valuable for language acquisition.
(Siencyn, 1990, 11)

Roedd y gwaith a gyhoeddodd y mudiad yn ganolog hefyd yn fodd i roi cefnogaeth ymarferol i'r cylchoedd trwy gyflenwi llyfrau Cymraeg a deunyddiau addysgol megis tapiau a fideos (Jones, 1997a, 46).

Tyfodd nifer y cyhoeddiadau ac yn nechrau'r nawdegau penderfynwyd sefydlu is gwmni sef Cwmni Mabon a Mabli. Ffurfiolwyd y drefn gyhoeddi drwy sefydlu cwmni a chyfamodi elw'r cwmni i'r mudiad (Jones, 1997a, 46).

Ym Mwletin y Mudiad yn 1982 galwodd Yr Athro Godfrey Harrison, Prifysgol East Asia, un o awduron *'Bilingual Mothers in Wales and the language of the* children', ar y mudiad i baratoi llyfryn bychan syml yn nodi manteision dwyieithrwydd a'i ddosbarthu yn y Swyddfeydd Post a'r Clinigau (Bwletin Meithrin, Rhifyn 30, 1982, 18).

Yn 1988 sicrhaodd Mudiad Ysgolion Meithrin grant gan Gyngor Ewrop i benodi Swyddog Adnoddau am ddwy flynedd ac yn sgil y penodiad hwn cyhoeddwyd *'I Mewn i'r Cylch a Ni'*, llawlyfr defnyddiol i arweinyddion (Jones, 1997a, 44).

Yn ogystal â chyhoeddiadau gan y mudiad cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg nifer o lyfrynnau dros y blynyddoedd diwethaf yn annog rhieni i ddewis addysg feithrin a chynradd cyfrwng Cymraeg i'w plant er enghraifft, *'Dwy Iaith - Dwywaith y Dewis', 'Deg Mantais i'ch Plentyn o fod yn Ddwyieithog'* a *'Magu Plant yn Ddwyieithog - Cyngor i Rieni'* (http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/).

4.8 Addysg Feithrin mewn Gwledydd Eraill

...education has now come to be seen as a key arena in which indigenous peoples can reclaim and revalue their languages and cultures and, in so doing, improve the educational success of indigenous students.
(May, 1999, 1)

Gwelwyd yr un duedd o geisio adfer neu / a hybu iaith trwy gyfrwng addysg feithrin mewn gwledydd eraill. Arweiniodd Mudiad Ysgolion Meithrin y ffordd i nifer o wledydd eraill yn arbennig y gwledydd Celtaidd eraill.

> *Bu polisïau cadarn Mudiad Ysgolion Meithrin o safbwynt lle'r iaith yn y cylch, caffael iaith trwy chwarae a gofal am ddilyniant yn destun edmygedd ymhlith caredigion yr ieithoedd Celtaidd yn ystod yr wythdegau.*
> (Stevens, 1996, 110)

Sefydlwyd ysgolion meithrin er mwyn hybu ac adfer ieithoedd lleiafrifol yn yr Alban, Iwerddon, a Llydaw yn dilyn llwyddiant Mudiad Ysgolion Meithrin yng Nghymru. Roedd yr arloeswyr a ddechreuodd yr ysgolion yn y gwledydd hyn yn cydnabod mai efelychu llwyddiant Mudiad Ysgolion Meithrin oedd eu gobaith.

Prawf o bwysigrwydd Mudiad Ysgolion Meithrin o ran mudiadau cyn-ysgol oedd penderfyniad Biwro Ieithoedd Lleiafrifol Ewrop i lansio adroddiad pwysig Helen Ó Murchú, *'Pre-Primary Education in Some European Lesser Used Languages'*, ym mhabell Mudiad Ysgolion Meithrin yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog 1987.

4.8.1 Yr Alban

Sefydlwyd 'Comhirle nan Sgoiltean Araich' (CNSA), Cyngor yr ysgolion meithrin i hyrwyddo addysg feithrin cyfrwng-Gaeleg yn Yr Alban ym Mai 1982. Ar y pryd roedd pedair ysgol feithrin a deugain o blant o dan eu gofal; bedair blynedd yn ddiweddarach yn 1986 roedd 29 ysgol feithrin a 10 grŵp Mam a'i phlentyn yn gofalu am 450 o blant (Stevens, 1996, 110). Yn ôl adroddiad gan F. McLeod, Mudiad Meithrin Yr Alban yn 'Meithrin' Rhifyn 23, 1980 cafodd yr ymweliad ddylanwad mawr ar y mudiad. Yn dilyn ei ymweliad â Chymru cynyddodd Swyddogion y mudiad Meithrin yn Yr Alban y nifer o gylchoedd yno o un i naw a gobeithiwyd agor pump arall yn ystod 1980 (Bwletin Meithrin, Rhifyn 23, 1980, 13). Roedd perthynas agos o'r dechrau rhwng y CSNA a Mudiad Ysgolion Meithrin . Ymwelodd rhai Albanwyr â Chymru er mwyn gweld beth allent ei ddysgu o'r sefyllfa yma yng Nghymru (Stevens, 1996, 110). Mae'n amlwg o'r erthygl gan Colin Spencer o'r An Comunn Gaidhealach / the Highland Association (Bwletin Meithrin, Rhifyn 4, 1973, 6) fod yr Albanwyr yn

edmygu gwaith y mudiad yn adfer y Gymraeg. Ar y pryd dim ond un cylch chwarae cyfrwng-Gaeleg oedd yn yr Alban, er eu bod yn gobeithio agor mwy o gylchoedd yn y dyfodol agos. Rhybuddia Colin Spencer y Cymry i barhau i weithio rhag i'r sefyllfa yng Nghymru fynd cynddrwg â sefyllfa'r Aeleg yn Yr Alban.

Yn yr Adroddiad ar yr iaith Aeleg a gyhoeddwyd ym Mai 2002 rhoddwyd cryn bwyslais ar ehangu nifer y rhieni a ddewisai addysg gynnar cyfrwng Gaeleg i'w plant.

> *Increasingly, parents are selecting child minding, pre-school and nursery provision at a very early stage. These decisions will affect the future linguistic course of the child's education. This clearly demonstrates the need for efficient promotion of the benefits of bi-lingual education and the need to ensure widespread Gaelic medium pre-school provision across Scotland.*
> (Ministerial Advisory Group on Gaelic, 2002, 51)

Erbyn 1989 roedd CNSA yn derbyn grantiau trwy Swyddfa'r Alban, ond fel Mudiad Ysgolion Meithrin, mudiad elusennol annibynnol sy'n gyfrifol am gasglu arian i gynnal ei hun. Bellach mae 120 ysgol feithrin o dan ofal y CNSA yn cynnig addysg gynnar cyfrwng Gaeleg i dros 2000 o blant ar draws Yr Alban (http, //www.gaelicworld.co.uk/index.shtml).

4.8.2 Iwerddon

Yn yr un modd anogodd llwyddiant Mudiad Ysgolion Meithrin garedigion y Wyddeleg i geisio rhoi cyfle i'w plant fanteisio ar yr iaith yn ifainc. Pryderai cefnogwyr y Wyddeleg yn y 1960au nad oedd gan yr iaith statws mor uchel yn yr ysgolion ag a oedd yn gyffredin cyn hynny. Yn ogystal â hyn gwelent fod symudiad oddi wrth addysg cyfrwng-Gwyddeleg yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd ac yn y colegau hyfforddi. Gwelai nifer y posibilrwydd o ddefnyddio addysg feithrin a fyddai'n trwytho plant yn y Wyddeleg fel modd o wrthweithio'r dirywiad yn y Wyddeleg (Hickey, 1997, 2).

Contact with the recently formed Welsh-medium playgroups indicated that pre-school immersion might provide model for establishing a sound base for Irish among young children.
(Hickey, 1997, 2)

Agorwyd y *naíonra* (cylch meithrin) cyntaf yn 1968 yn Corcigh (Corc) (Hickey, 1997, 2).

Gwelir y cyswllt rhwng y gwaith a wnaed ym maes addysg feithrin (ddwyieithog) yng Nghymru ac yn Yr Alban a'r Iwerddon gan fod yna erthygl ynglŷn â'r sefyllfa yn Iwerddon hefyd yn Rhifyn 4 o Fwletin Mudiad Ysgolion Meithrin (Bwletin Meithrin, Rhifyn 4, 1973, 6). Yn yr erthygl disgrifia Pádraig o Fearaíl y dylanwad a gafodd y gwaith a wnaed eisoes i sefydlu ysgolion meithrin Cymraeg ar y sefyllfa yn Iwerddon mor fuan â dechrau 1973.

News reached us about the success of Welsh kindergartens and this, together with the publicity from a celebrated lecture by Professor Jac Williams, set many people talking about the advantages of naíscoil education at a time when opposition to Government Irish language policies was being expressed by some. Professor Williams declared that a programme of widespread kindergarten education could greatly strengthen the position of Irish in a short time.
(Bwletin Meithrin, Rhifyn 4, 1973, 6)

Yn 1973 roedd ysgolion meithrin Gwyddelig wedi eu gwasgaru drwy'r wlad ond yn ôl Pádraig o Fearaíl ychydig iawn o gyswllt oedd rhyngddynt. Flwyddyn yn ddiweddarach sefydlwyd mudiad a fyddai'n dod â'r ysgolion presennol at ei gilydd ac yn gweithio i sefydlu ysgolion meithrin Gwyddelig drwy'r wlad. Roedd y cyswllt Cymreig unwaith eto'n amlwg.

In 1974 Conradh na Gaeilge brought together the Stiúrthóirí of the existing Irish-medium pre-schools (at that time called naíscoileanna) for a seminar attended by Welsh experts. Following this meeting an organisation, 'Na Naíscoileanna Gaelacha', was founded, which aimed to inform and educate its members regarding the principle of immersion education and pre-school children's development.
(Hickey, 1997, 2-3)

Bwriad y mudiad newydd hwn yn ôl ei gyfansoddiad oedd sefydlu ysgolion / cylchoedd meithrin cyfrwng-Gwyddeleg drwy'r wlad ac addysgu eu haelodau a hybu

ymwybyddiaeth a chydymdeimlad i fwriadau addysg cyfrwng-Wyddeleg (Hickey, 1997, 3).

Yn ddiweddarach, yn 1978, newidiodd y mudiad ei enw i *'Na Naíonraí Gaelacha'* er mwyn pwysleisio'r ymagwedd bedagogaidd a oedd yn gyfuniad o agweddau cadarnhaol yr ysgol feithrin a'r grŵp chwarae (Hickey, 1997, 3). Daw'r mwyafrif o'r plant o gartrefi Saesneg eu hiaith ac felly mae'r *naíonraí* yn drochiad cynnar yn y Wyddeleg i lawer ohonynt. Daw lleiafrif o gartrefi Gwyddeleg a rhoddir cefnogaeth i'r rhain yn eu mamiaith. Plant 3-5 oed yw'r rhai sy'n mynychu fel arfer (Hickey, 1997, 1).

4.8.3 Llydaw

Gwelwyd dylanwad Mudiad Ysgolion Meithrin ar addysg feithrin yn Llydaw hefyd. Yn Ebrill 1977, chwe mlynedd ar ôl sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin yng Nghymru, sefydlwyd y mudiad *Diwan* yn Llydaw. Gobaith y mudiad *Diwan* oedd sefydlu ysgolion Llydaweg neu ddwyieithog ac o fewn dwy flynedd agorwyd tair ar ddeg o ysgolion meithrin. Gan nad oedd Llywodraeth Ffrainc yn barod i ddatblygu dilyniant addysg Llydaweg wladwriaethol bu'n rhaid i'r mudiad gwirfoddol *Diwan* ddatblygu'r ysgolion meithrin yn ysgolion cynradd llawn (Stevens, 1996, 60).

Roedd sefyllfa ariannol *Diwan* fel mudiad gwirfoddol yn y blynyddoedd cynnar yn debyg iawn i un Mudiad Ysgolion Meithrin yng Nghymru, ond yn wahanol i Mudiad Ysgolion Meithrin nid oedd *Diwan* yn derbyn grantiau gan y llywodraeth. Roedd pob ysgol feithrin yn ceisio codi digon o arian i'w cynnal eu hunain ac unrhyw arian dros ben yn mynd i'r mudiad yn ganolog i dalu am gostau gweinyddol swyddfa'r mudiad ym Mrest ac i dalu cyflogau'r athrawon ac i gynorthwyo'r ysgolion a oedd yn cael trafferthion ariannol ac yn methu eu cynnal eu hunain (Bwletin Meithrin, Rhifyn 20, 1979, 4).

Ym Mwletin Mudiad Ysgolion Meithrin yn 1979, caed adroddiad ynglŷn a'r gwaith *Diwan*, soniwyd am ysgol feithrin *Diwan* Roazhan a'u bod yn mynd â'r plant allan o'r ysgol er mwyn iddynt siarad Llydaweg y tu allan i'r ysgol a bod pobl eraill

yn clywed y plant yn siarad Llydaweg yn naturiol (Bwletin Meithrin, Rhifyn 20, 1979, 5).

Gyda sefydlu ysgolion cynradd Llydaweg newidiodd ffurf y mudiad, nid mudiad ysgolion meithrin yw *Diwan* bellach ond mudiad addysg sy'n darparu addysg feithrin Lydaweg i blant dros ddwy oed o fewn ysgol gynradd Lydaweg (Stevens, 1996, 60-61). Tyfodd y mudiad yn sylweddol ond deil i wynebu problemau.

> *Erbyn 1994 roedd 24 o ysgolion yn aelodau o fudiad Diwan ac addysgid tua 1,200 o ddisgyblion trwy gyfrwng y Llydaweg yn bennaf ynddynt, ond deil yn frwydr galed i gael unrhyw gydnabyddiaeth statudol swyddogol i'r gwaith.*
> (Stevens, 1996, 61)

4.8.4 Seland Newydd

Ceir nifer o enghreifftiau o ymdrechion i adfer iaith trwy gyfrwng addysg feithrin y tu draw i'r gwledydd Celtaidd. Un o'r enghreifftiau pwysicaf yw'r *kohanga reo* sef y 'Nythod Iaith' neu gylchoedd meithrin Maori yn Seland Newydd.

Dros y ganrif a hanner diwethaf collodd yr iaith Maori dir i'r Saesneg yn Seland Newydd. Cafodd yr iaith ei heithrio o fywyd swyddogol Seland Newydd a'i llethu'n weithredol yn ysgolion y wlad (Baker a Jones, 1998, 195). Bellach mae llai na chwarter y boblogaeth Maori yn medru'r iaith ac mae'r mwyafrif ohonynt yn ganol oed neu'n oedrannus. Amcangyfrifir bod tua 50,000 i 70,000 o siaradwyr Maori yn Seland Newydd. Credir fod gan tua 35,000 pellach ddealltwriaeth o'r iaith. Mae mwyafrif y siaradwyr wedi eu lleoli yng ngogledd a dwyrain y 'North Island'.

Yn hanesyddol defnyddiodd yr ysgolion cenhadol yr iaith Maori fel cyfrwng dysgu ond, yn 1847, gwnaeth yr Arolwg Addysg eu cynhaliaeth ariannol yn ddibynnol ar y ffaith eu bod yn dysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Yn 1967 sefydlwyd system o ysgolion dyddiol mewn cymunedau gwledig Maori. Dangosodd yr ysgolion hyn agwedd ddifrïol tuag at yr iaith.

> *Initially the teachers were expected to use the Maori language to aid the teaching of English. However, by the turn of the century, the Maori language had been more or less banned from schools. The emphasis in Maori schools was on preparing the Maori people for work as manual labores.*
> (Baker a Jones, 1998, 195)

Ers canol yr ugeinfed ganrif cynyddodd dirywiad yr iaith (Baker a Jones, 1998, 196). Erbyn saithdegau'r ugeinfed ganrif siaradwyd yr iaith yn eang mewn dim ond dwy gymuned. Chwaraeodd addysg feithrin cyfrwng Saesneg ran amlwg yn nirywiad yr iaith Maori (Baker a Jones, 1998, 196).

> *In the early 1960s, the final blow to continued language vitality may well have been the promotion of the use of English in the pre-school Play Centre movement, in which Maori mothers were urged to speak English to their children.*
> (Spolsky, 1989, 90)

Bellach mae'r iaith mewn sefyllfa dyngedfennol fel iaith bob dydd. Dim ond un ym mhob wyth o'r rhai o dras Maori, sef tua 50,000 o bobl, sy'n siarad yr iaith fel iaith gyntaf.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd symudiad cryf dros gynnal a hybu'r iaith Maori. Rhan o'r gwaith hwn fu adfer gwybodaeth a defnydd o'r iaith gan blant a phobl ifainc. Gwelwyd pwysigrwydd y gwaith hwn yng Nghyfrifiad 1991. Mae 14% o'r boblogaeth o dras Maori ond 21% o ddisgyblion ysgolion cynradd a 15% o ddisgyblion ysgolion uwchradd. Oherwydd fod cyfartaledd uwch na'r cyffredin o'r boblogaeth Maori yn ifainc mae adfer yr iaith ym myd addysg yn rhan bwysig iawn o'r broses gyfan (Baker a Jones, 1998, 196).

Gwelwyd cynnydd mewn addysg trwy gyfrwng yr iaith Maori er y 1960au: cyflwynwyd rhaglenni ysgolion cynradd dwyieithog ac erbyn 1991 roedd 251 o ysgolion cynradd a 54 o ysgolion uwchradd yn darparu rhyw fath o addysg ddwyieithog i 13,000 o ddisgyblion cynradd a 2500 o ddisgyblion uwchradd. Ni fu'r gwaith hwn mor llwyddiannus ag a obeithiwyd. Tueddai'r dull hwn i fod yn un dros dro, gan gyfnewid Maori am Saesneg yn raddol. Nid oedd cysondeb o ran faint o Faori a ddefnyddid yn yr ysgolion, dysgwyd trwy gyfrwng yr iaith Maori cyn lleied â phedair neu bump awr yr wythnos mewn rhai ysgolion. Canlyniad y defnydd hwn

oedd fod gan y disgyblion wybodaeth o'r iaith ond nid oeddent yn ei defnyddio y tu allan i'r dosbarth (Baker a Jones, 1998, 197).

Credwyd y byddai o fudd i addysg cyfrwng Maori ddechrau yn iau ac y dylai fod yn fwy dwys er mwyn galluogi'r plant i gaffael a pharhau'n rhugl yn yr iaith. Hefyd roedd angen cyswllt cryfach rhwng addysg cyfrwng Maori a'r gymuned Maori er mwyn i'r defnydd o'r iaith yn yr ysgolion arwain at gynnydd yn ei defnydd yn y gymuned. Yn 1981 cynhaliwyd cyfarfod o arweinwyr Maori wedi ei noddi gan Adran Materion Maori y Llywodraeth, awgrymwyd y dylid sefydlu grwpiau cyfrwng Maori ar gyfer plant o dan oedran ysgol. Awgrymwyd hefyd y dylai Maorïaid hŷn, rhugl yn yr iaith, fod yn gyfrifol amdanynt gan nad oedd y mwyafrif o'r rhieni bellach yn medru'r iaith (Spolsky, 1989, 91).

Felly, yn 1982 fel rhan o'r gwaith o adfer yr iaith Maori yn Seland Newydd agorwyd y *kohanga reo* (nythod iaith) cyntaf. Y flwyddyn honno, gyda anogaeth a chefnogaeth ariannol yr Adran Materion Maori, sefydlwyd pedair canolfan arbrofol. Ddwy flynedd yn ddiweddarach roedd dros 280 ohonynt wedi eu sefydlu (Spolsky, 1989, 91). Erbyn 1993 roedd dros 800 ohonynt wedi agor ac yn 1995 dywedir bod 13,000 o blant oedran cyn-ysgol yn eu mynychu. Mae hyn yn cynrychioli tua chwarter y plant Maori o dan bump oed. Daw'r mwyafrif ohonynt o gartrefi Saesneg eu hiaith. Maent yn caffael Maori yn naturiol drwy ddull trochi tra'n chwarae, gwrando ar storïau, canu, chwarae gemau a gweithgareddau eraill (Baker a Jones, 1998, 196).

Er bod y *kohanga reo* yn ymddangos yn debyg iawn i gylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin nid ydynt yn tarddu o'r un man. Tarddodd y syniad o *kohanga reo* yn hollol annibynnol gan grŵp o rieni Maori. Yn wir, un o brif gryfderau'r mudiad yn Seland Newydd yw iddo godi o'r gymdeithas ei hun. Oherwydd hyn mae rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned leol wedi strwythuro'r ysgolion mewn cytundeb ag arferion cymdeithasol a diwylliannol Maori a hefyd rheoli addysg eu plant yn lleol (Baker a Jones, 1998, 196).

> *The Department helps fund these programmes, the allocations being made by an independent trust, but control is essentially local.*
> (Spolsky, 1989, 91)

Nodweddion pwysig ynglŷn â'r cylchoedd meithrin a'r ysgolion cynradd Maori yw eu bod yn gweithio o fewn fframwaith wedi ei seilio ar ddiwylliant a nodweddion cymdeithasol y Maori, meddylfryd Maori a chredoau ysbrydol a metaffisegol y Maori (Baker a Jones, 1998, 196).

Daeth y 'Nythod Iaith' i fod yn ganolbwynt y bywyd Maori. Bellach mae'n bosibl parhau â'r addysg drochiad Maori drwy fynd o'r *kohanga reo* i'r *kura kaupapa maori,* sef ysgolion cynradd trochi.

Fel nifer o ieithoedd lleiafrifol eraill mae pryder na fydd *Te Reo Maori* (yr iaith Maori) yn parhau fel iaith bob dydd gan nad yw bellach yn cael ei siarad gan rieni efo'u plant. Fel ym mhrofiad Mudiad Ysgolion Meithrin un o'r problemau mwyaf a wyneba'r ysgolion meithrin cyfrwng Maori yw dod o hyd i athrawon sy'n rhugl yn yr iaith. Er bod cynnydd calonogol wedi bod mewn addysg cyfrwng Maori mae gwybodaeth o'r iaith a'i defnydd yn parhau i fod yn eithaf isel. Hyd yn oed o fewn yr ysgolion meithrin cyfrwng Maori mae'r athrawon yn debygol o fod yn siaradwyr Maori ail iaith gyda meistrolaeth gyfyngedig o'r iaith (Baker a Jones, 1998, 196).

> *The effects of the kohunga reos cannot be exaggerated; where six years ago a bare handful of children came to primary school with any knowledge of the Maori language, now each year between two and three thousand children, many of them fluent bilinguals, start school after having already been exposed to daily use of the Maori language for three or more years.*
> (Spolsky, 1989, 91)

4.9 Talebau Meithrin

Yn 1994 cyhoeddodd y llywodraeth Geidwadol eu bwriad i gyllido addysg feithrin yng Nghymru a Lloegr drwy roi talebau i rieni plant pedair oed er mwyn iddynt ddefnyddio'r talebau hyn i brynu'r addysg maent yn ei dewis ar gyfer eu plant (Farrell, 1998, 8). Bwriad y cynllun talebau meithrin oedd ymestyn addysg feithrin a symbylu amrywiaeth yn y ddarpariaeth addysg feithrin a thrwy hynny ehangu dewis i rieni (Y Swyddfa Gymreig 1996, datganiad polisi). Cafodd y cynllun dderbyniad negyddol iawn yng Nghymru ac roedd pob awdurdod addysg yn ei wrthwynebu gan

fod y ddarpariaeth eisoes ar gael yng Nghymru. Y bwriad oedd cyflwyno'r cynllun talebau meithrin i blant pedair oed o fis Ebrill 1997 ymlaen (Y Swyddfa Gymreig, 1996, 1), ond diddymwyd y cynllun ym Mai 1997 gan y llywodraeth Lafur a ddaeth i rym. Cynhaliwyd cynllun peilot mewn nifer o Awdurdodau Addysg Lleol yn Lloegr yn 1996-97. Felly, er i'r talebau gael eu dosbarthu i rieni yng Nghymru yn nechrau 1997 ni chawsant eu gweithredu yma (Farrell, 1998, 8).

Mae'n amhosib dweud beth fyddai effaith y talebau meithrin wedi bod ar y mudiad ac ar addysg Gymraeg yn gyffredinol. Ond yn sicr dangosodd y cynllun hwn fod sefyllfa addysg feithrin yng Nghymru yn wahanol iawn i'r un yn Lloegr.

4.9 Addysg feithrin mewn ysgolion cynradd

Yn nyddiau cynnar y mudiad, rhan o'r bwriad o sefydlu ysgolion meithrin oedd y gobaith y byddai llwyddiant yr ysgolion meithrin gwirfoddol yn argyhoeddi'r awdurdodau addysg lleol fod galw am addysg feithrin statudol trwy gyfrwng y Gymraeg (Bwletin Meithrin, Rhifyn 5, 1973, 4).

> *Rhaid i ni sicrhau lle anrhydeddus i'r Gymraeg yn y gyfundrefn newydd o ysgolion meithrin swyddogol a sefydlir.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 5, 1973, 4)

Credwyd hefyd y byddai sefydlu cylchoedd meithrin yn gwneud rhieni'n ymwybodol o werth addysg feithrin a phwysigrwydd yr ymgyrch i roi lle teilwng i'r Gymraeg yng nghynlluniau'r siroedd a oedd yn agor ysgolion meithrin dan nawdd y wladwriaeth (Bwletin Meithrin, Rhifyn 3, 1972, nodiadau'r gol.).

Yn ddiweddarach newidiodd agwedd y mudiad tuag at ddosbarthiadau meithrin yn yr ysgolion cynradd. Ofnai Mudiad Ysgolion Meithrin y byddai'r cynnydd yn nifer y plant a oedd yn mynychu dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd yn dair oed yn peryglu bodolaeth y mudiad. Roedd hwn yn bryder i'r mudiad yn nechrau'r wythdegau.

Yn sgil agor mwy o ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd yr oedd ofnau y gwelid niferoedd y plant yn y cylchoedd meithrin yn syrthio ac y byddai hynny, efallai, yn peryglu'u bodolaeth yn y cyfnod hwn.
(Stevens, 1996, 55)

Ond gwelwyd toriadau mewn addysg feithrin gan Awdurdodau Addysg Lleol yn ystod ail hanner yr wythdegau a rhoddodd hyn bwysau newydd ar Mudiad Ysgolion Meithrin. Mewn rhai ardaloedd gwelwyd ehangu ar oriau agor a bu cynnydd yn y niferoedd a fynychai'r cylchoedd.

Yn ôl Deddf Addysg 1918 roedd gan yr Awdurdodau Addysg Lleol yr hawl i sefydlu ysgolion meithrin i blant rhwng 2 a 5 oed, ond nid oedd dyletswydd arnynt i wneud hynny (Farrell, 1998, 7). Yn 1989 rhagwelodd J. Bryan Jones, Cyfarwyddwr y mudiad, y byddai'r ysgolion yn canolbwyntio ar blant dros 5 oed ac y byddai cyfyngu ar y nifer o blant dan 5 oed a fyddai'n mynychu ysgolion cynradd. Credai ef y byddai hyn yn effeithio ar waith a dyfodol y mudiad.

Fe all y blynyddoedd nesaf hyn ddod â ni wyneb yn wyneb â'r her fwyaf yn hanes y mudiad erioed. Bydd y newidiadau ym maes addysg statudol yn ein gorfodi i adolygu ein darpariaeth ni o'r math o addysg cyn oed ysgol y mae rhieni yn ei ddymuno. Gall y datblygiadau hyn ysgwyd y mudiad i'w seiliau ond fe allent hefyd fod yn gyfrwng i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ohonom a'n sefydlu fel yr unig gorff sy'n darparu addysg gyflawn ar gyfer plant dan oed ysgol, a honno'n addysg Gymraeg.
(Bwletin Meithrin. Rhifyn 44, 1989, 8)

Yn 1986 bu trafod rhoi statws lled-statudol i Mudiad Ysgolion Meithrin. Cefnogodd y mudiad gynnig Dafydd Wigley y dylai pob plentyn o Gymro gael y cyfle i gael addysg feithrin Gymraeg a phe na allai'r Awdurdod Addysg ddarparu'r addysg hon fe ddylid rhoi'r adnoddau angenrheidiol i'r mudiad wneud hynny (Bwletin Meithrin, Rhifyn 43, 1988, 11).

Os nad yw'r Llywodraeth a'r Awdurdodau Lleol yn mynd i ddarparu addysg feithrin Gymraeg i'n plant mi allwn ni lenwi'r bwlch yn effeithiol ac yn broffesiynol.
(Bwletin Meithrin, Rhifyn 39, 1986, 3)

Yn 1972 argymhellodd papur gwyn gan y llywodraeth y dylid ehangu addysg feithrin dros y deng mlynedd canlynol (Farrell, 1998, 7).

Gwelwyd toriadau mewn darpariaeth addysg feithrin gan yr Awdurdodau Addysg Lleol yn ystod yr wythdegau. Er enghraifft yn dilyn toriadau yng ngwariant ar addysg yng Nghlwyd ym Medi 1986 lleihawyd ac ad-drefnwyd y ddarpariaeth feithrin yn y sir. Bu toriad o 50% ym mhob grŵp meithrin; golygai hynny mai dim ond darpariaeth o 25% a gynigid mewn grwpiau cyfrwng Saesneg tra cynigid darpariaeth o 50% gan grwpiau mewn ysgolion penodedig Gymraeg. Felly, collwyd ar y cyfle i gael addysg drochiad Gymraeg gyflawn yn y sir (Jones, 1988, 52-3).

Yn yr un modd gwelwyd toriadau o'r math yng Ngwynedd yn yr un cyfnod.

> *Mae'r canran o blant a dderbynnir yn rhan amser wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf yn bennaf oherwydd y tyndra a fu ar staffio'r ysgolion cynradd.*
> (Cyngor Sir Gwynedd, 1986, 9)

Ym mlynyddoedd cynnar yr wythdegau gwelwyd cynnydd yn narpariaeth y wladwriaeth o addysg feithrin yn nifer o wledydd Ewrop. Cyflwynwyd adroddiad i weinidogion addysg gwledydd Ewrop yn 1982 yn honni mai'r pwysau a'r galw gan rieni yn hytrach nag unrhyw syniadaeth a delfrydiaeth addysgol a wnaeth i'r llywodraethau ymestyn eu darpariaeth o addysg i blant ifainc (Cyngor Sir Gwynedd, 1986, 16). Nodwyd pedwar rheswm dros y cynnydd hwn yn yr adroddiad. Yn gyntaf, y twf yn y mudiad ffeministaidd a dylanwad y mudiad ar hawliau cyfartal merched i fod mewn gwaith. Yn ail, effeithiau chwyddiant ariannol ar incwm teuluoedd, golygai hyn bod angen dau gyflog ar deuluoedd. Yn drydydd bu lleihad ym maint teuluoedd, a chan bod llai o blant ar gyfartaledd ym mhob teulu codai disgwyliadau rhieni mewn perthynas â'r plant. Yn olaf, ffactor pwysig oedd y newid a fu ym mhatrwm cymdeithas, er enghraifft, y cynnydd yn y nifer y teuluoedd un rhiant.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu gostyngiad yn y niferoedd o unedau, cylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi o dan ofal Mudiad Ysgolion Meithrin. Yn 1995 roedd 1041 uned, 956 yn 1999 a gostyngiad pellach i 935 erbyn y flwyddyn 2000 (Gwybodaeth gan Fudiad Ysgolion Meithrin). Cytunodd y mudiad ar strategaeth gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn cael mentrau newydd gan Fudiad Ysgolion Meithrin; cael ymgyrch farchnata effeithiol i hyrwyddo manteision caffael y Gymraeg trwy mudiad Ysgolion Meithrin; datblygu targedau i fesur effaith y sefydliad ar

gynhyrchu iaith (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999b, 4.1.7). Gobeithir y bydd hyn yn cynyddu dylanwad gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin.

4.10 Cynllun Van Leer

Ym Mai 1986 cyhoeddodd Mudiad Ysgolion Meithrin eu bod wedi derbyn grant o £296,000 gan sefydliad Bernard Van Leer i sefydlu cynllun yn ne-ddwyrain Cymru (England, 1993-94, 16). Anelai elusen Van Leer o'r Iseldiroedd at gynorthwyo plant neu bobl ifainc a oedd yn byw o dan anfanteision cymdeithasol neu ddiwylliannol drwy sefydlu prosiectau yn rhannol ym maes plentyndod cynnar ac addysg (Mudiad Ysgolion Meithrin, 1987, 2).

Dadl Mudiad Ysgolion Meithrin yn eu cais am y grant gan y Sefydliad rhyngwladol oedd bod cymoedd y de-ddwyrain yn ardaloedd difreintiedig a bod nifer o rieni yn credu y byddai eu plant yn cael gwell cyfle o fod yn ddwyieithog. Dadleuent fod y cymoedd yn ddifreintiedig yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd (England, 1993-94, 16).

Roedd gan y mudiad obeithion mawr y byddai'n gallu ehangu eu dylanwad yn y de-ddwyrain drwy'r prosiect hwn. Cyn hyn ni allai'r mudiad ehangu yn y de-ddwyrain oherwydd prinder arweinyddion cymwys a fedrai'r Gymraeg. Golygai'r Cynllun hwn y byddai rhieni di-Gymraeg yn derbyn hyfforddiant mewn sgiliau meithrin ac yn cael gwersi Cymraeg.

> *...mae gan y mudiad £300,000 i'w wario dros y dair blynedd nesaf. Arian sylweddol oddi wrth Ymddiriedolaeth Ryngwladol Bernard Van Leer, i sefydlu cynllun arbrofol yn y de-ddwyrain i ehangu a hybu gwaith y mudiad drwy gynnig addysg feithrin Gymraeg i'r plant a dosbarthiadau Cymraeg a sgiliau meithrin i'w rhieni, gan obeithio y medrant sefydlu rhagor o Gylchoedd ac ehangu ein dylanwad mewn ardaloedd difreintiedig a gwan eu Cymraeg.*
> (Adroddiad Blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin, 1985-86, 4)

Erbyn Medi 1986 roedd pump cylch wedi eu hagor gan y Cynllun ac roedd 65 plentyn a 57 oedolyn wedi manteisio ar yr hyfforddiant. Ar ddiwedd y flwyddyn symudodd y swyddogion ymlaen i sefydlu cylchoedd eraill (England, 1993-94, 16).

Fodd bynnag, nid bwriad Sefydliad Van Leer oedd cynyddu nifer cylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin, roeddent am weld y cylchoedd yn datblygu i fod yn ganolfannau i'r gymuned yn cael eu rheoli gan aelodau o'r gymuned (England, 1993-94, 18). Ar ddiwedd y tair blynedd gwreiddiol penderfynodd y Sefydliad beidio ag ymestyn eu nawdd ariannol i'r mudiad. Ni chredent fod y Cynllun wedi denu'r teuluoedd mwyaf difreintiedig yn y cymunedau a'r pwyslais ar y Gymraeg oedd y rheswm dros hyn ym marn y Sefydliad (England, 1993-94, 18). Gweithredai'r Sefydliad gynlluniau yn ymwneud â ieithoedd lleiafrifol er mwyn hybu hunanddelwedd y siaradwyr a hybu'r parch tuag atynt, nid bwriad y Sefydliad oedd hyrwyddo'r iaith ei hun (England, 1993-94, 18).

Ni fu Cynllun Van Leer yn fethiant, drwy'r cynllun llwyddodd nifer o rieni di-Gymraeg i gyfrannu tuag at addysg Gymraeg eu plant o safbwynt yr iaith a'r addysg.

> *Gwahoddwyd rhieni i gael eu hyfforddi yn arweinyddion, i fod yn aelodau o bwyllgorau rheoli'r cylchoedd chwarae ac i gymryd rhan ymarferol ym mhob sesiwn o'r cylch. Cynigiwyd partneriaeth i'r rhieni yn unol â chredo Sefydliad Van Leer, yn hytrach na dilyn patrwm traddodiadol lle y pwysleisir mai cyfrifoldeb pobl broffesiynol yw addysgu.*
> (England, 1994, 49)

4.11 Cynnydd Staff

Yn 1971 pan sefydlwyd y mudiad nid oedd staff gweinyddol cyflogedig yn gweithio iddynt. Bellach mae gan y mudiad 14 o staff llawn amser a 56 rhan amser gan gynnwys Cyfarwyddwr Cenedlaethol, tri Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Swyddogion Datblygu, Staff y Swyddfa Ganolog, Swyddog Adnoddau, a Swyddog Cyhoeddusrwydd. Yn ychwanegol i hyn wrth gwrs mae cannoedd yn cael eu cyflogi gan y cylchoedd meithrin a'r cylchoedd Ti a Fi yn uniongyrchol. Bwriedir cynyddu'r nifer o staff pan agorir swyddfa newydd yn Aberystwyth yn 2003. Hysbysebwyd swyddi newydd gan gynnwys Swyddog Marchnata i ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata cenedlaethol a Swyddog Iaith cenedlaethol llawn amser i lunio a gweithredu strategaeth i ddiwallu anghenion ieithyddol staff y cylchoedd (Daily Post 6/3/03, 30).

Ffigwr 4.4 Strwythur Staffio Mudiad Ysgolion Meithrin:



(http://www.mym.co.uk/cymraeg/strwythr/index.html/)

Dros y blynyddoedd bu cynnydd aruthrol yn nifer staff y mudiad. Deilliodd y cynnydd hwn i raddau o'r twf a fu yn nifer y cylchoedd dan ofal y mudiad hyd at ganol yr wythdegau.

> *Gyda'r twf daeth cynnydd cyfatebol yng ngwaith y mudiad a sylweddolwyd bod angen sefydlu cyfundrefn broffesiynol a rhwydwaith o swyddogion datblygu dros Gymru gyfan os oedd y gwaith o gynnal a bugeilio'r cylchoedd i fod yn llwyddiannus.*
> (Jones, 1997a, 43)

Penodwyd y Swyddog Datblygu cyntaf yn 1973/74 fel Swyddog rhan amser, erbyn 1982 cynyddodd y nifer i ugain, rhai ohonynt yn chwarter amser, eraill yn hanner amser a thri chwarter amser ac un llawn amser (Bwletin Meithrin, Rhifyn 29, 1982, 4).

Gwaith y Swyddogion Datblygu hyn oedd sefydlu a chynnal cylchoedd meithrin a symbylu rhieni i anfon eu plant i gylchoedd meithrin y mudiad (Bwletin Meithrin, Rhifyn 29, 1982, 4). Disgwylid i'r Swyddog Datblygu ar y pryd ymweld yn rheolaidd â'r cylchoedd dan eu gofal gan gynnig awgrymiadau i'r arweinydd ynglŷn â chynllunio amserlen, paratoi a threfnu ystafell, llunio rhaglen waith ac unrhyw faterion eraill. Ar y pryd roedd hefyd yn ofynnol i'r Swyddog drefnu cyrsiau ar gyfer yr arweinyddion a'u cynorthwywyr a phan oedd y rhain yn brin, trefnu cyrsiau ar gyfer darpar arweinyddion. Disgwylid iddynt hefyd gynghori ynglŷn â diogelwch a glendid o fewn y cylch yn ogystal â deall sut i gyflwyno iaith i blant meithrin (Bwletin Meithrin, Rhifyn 29, 1982, 4).

> *O bob dim sydd a wnelo â'r mudiad ar hyn o bryd mi ddywedwn i mai dyma'r mater pwysicaf, sef ein bod yn medru penodi digon o swyddogion datblygu i gyflawni'r gwaith yn effeithiol.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 29, 1982, 4)

4.12 Strwythur y mudiad

> *Nid cylch pentref neu ardal wedi ei ynysu a'i adael i ymladd ei dynged ei hun yw unrhyw gylch, ond dolen mewn cadwyn a ymestyn ar draws y wlad i gyd.*
> (Jones, 1997b, 385)

Mudiad gwirfoddol sy'n cael ei reoli gan bwyllgorau o wirfoddolwyr yw Mudiad Ysgolion Meithrin. Gwaith y pwyllgorau hyn yw penderfynu polisïau a chyfeiriad y mudiad, cyflogi gweithwyr a chymeradwyo gwaith a gweithgareddau Mudiad Ysgolion Meithrin (www.mym.co.uk/cymraeg/strwythr/330.html). Cynhwysai pwyllgorau'r mudiad bellach Y Cyngor Cenedlaethol sef prif gorff gweithredol y mudiad; Y Pwyllgor Gwaith, sy'n gweinyddu'r mudiad, mae cyfansoddiad y pwyllgor hwn yn rhoi llais uniongyrchol a chyfartal i bob sir. Hefyd ceir nifer o is-bwyllgorau. Dyma bump is-bwyllgor y Pwyllgor Gwaith; Is-bwyllgor Polisi, Is-bwyllgor Cyllid a Staffio, Is-bwyllgor Cyhoeddusrwydd a Marchnata ac Is-bwyllgor Anghenion Arbennig. Cyferfydd Pwyllgor Gwaith a'r Is-bwyllgorau deirgwaith y flwyddyn (www.mym.co.uk/cymraeg/strwythr/331.html).

O fewn Mudiad Ysgolion Meithrin ceir 22 adran sirol a'u ffiniau'n cydredeg â rhai'r Awdurdodau Unedol presennol. Ceir pwyllgor o'r mudiad ym mhob sir ac mewn siroedd mawr ceir rhai pwyllgorau ardal hefyd (www.mym.co.uk/cymraeg/strwythr/330.html).

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol y mudiad yn flynyddol ym mis Medi neu Hydref. Yn y Cyfarfod hwn derbynnir adroddiad ar waith y flwyddyn, etholir Swyddogion y mudiad, sef Cadeirydd i gadeirio'r Cyngor Cenedlaethol, y Pwyllgor Gwaith, y Cyfarfod Blynyddol ac unrhyw Gyfarfod Cyffredinol; Is-Gadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd Ariannol. Deil y Swyddogion hyn eu swyddi am ddwy flynedd ac mae'n bosibl iddynt gael eu hailethol ar ôl unrhyw gyfnod o ddwy flynedd.

Mae gan bob cylch meithrin a chylch Ti a Fi bleidlais ym mhob cyfarfod blynyddol a chyfarfod cyffredinol.

Ffigwr 4.5 Strwythur pwyllgorau'r mudiad



(www.mym.co.uk/cymraeg/strwythr/332.html)

Rhan bwysicaf y strwythur wrth gwrs yw'r cylch meithrin ei hun. Mae aelodaeth Mudiad Ysgolion Meithrin yn agored i gylchoedd meithrin, cylchoedd Ti a Fi , ac unigolion, ar dair amod. Yn gyntaf, eu bod yn talu tâl aelodaeth priodol yn flynyddol. Yn ail, eu bod yn glynu at amcanion a pholisïau Mudiad Ysgolion Meithrin. Yn drydydd, bod y cylchoedd meithrin a'r cylchoedd Ti a Fi yn cofrestru lle bo angen yn unol â gofynion statudol, ac yn mabwysiadu'r cyfansoddiad sy'n sicrhau mai Cymraeg fydd cyfrwng gweithredol y cylch, ac sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cylch dderbyn unrhyw blentyn y dymuna ei rieni iddo dderbyn addysg feithrin trwy gyfrwng y Gymraeg (www.mym.co.uk/cymraeg/strwythr/330.html).

Mae'r mudiad yn elusen gofrestredig, ac yn gwmni cyfyngedig dan warant (www.mym.co.uk/cymraeg/strwythr/330.html).

Yng nghanol y nawdegau bu'n rhaid ailstrwythuro pwyllgorau sir a phwyllgor cenedlaethol y mudiad a diddymu'r pwyllgorau rhanbarth yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol. Hefyd bu'n rhaid i'r mudiad sefydlu partneriaethau newydd â'r awdurdodau unedol (Jones, 1997a, 46).

4.13 Rhan y mudiad yn yr ymdrech i adfer yr iaith

> *Rhan answyddogol o'r gyfundrefn addysg Gymreig, rhyw atodiad a ddatblygodd yn sgil yr Ysgolion Cymraeg ar ôl yr ail ryfel byd, yw'r ysgolion meithrin Cymraeg. Awydd am gadw ac adfer y Gymraeg yw'r prif symbyliad y tu ôl iddynt. Maent yn tarddu o'r ymwybyddiaeth newydd sydd ar gerdded yng Nghymru o werth yr iaith Gymraeg fel rhan o dreftadaeth y genedl ac fel sylfaen i'w chenedligrwydd.*
>
> (Williams, 1969, 11)

Hyd yn oed cyn sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin roedd pwyslais ar le'r ysgolion meithrin Cymraeg yn yr ymgyrch i adfer y Gymraeg.

Fel a nodwyd eisoes sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin fel adwaith i'r gostyngiad a welwyd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Credai rhai o garedigion yr iaith y byddai sefydlu ysgolion meithrin Cymraeg yn gweithio i wrthsefyll y dirywiad a welwyd yn y Cyfrifiadau diwethaf.

Tabl 4.4 Canran o Gymry Cymraeg 3 - 4 oed oedd yn siarad Cymraeg yn ôl y Cyfrifiadau

1911	30.4
1921	26.7
1931	22.1
1951	14.5
1961	13.0
1971	11.3

(Cyngor yr Iaith Gymraeg, 1975, 6)

Yn nyddiau cynnar y mudiad bu ychydig o wrthgyferbyniad rhwng y syniadaeth mai achub yr iaith Gymraeg yw bwriad y mudiad a'r syniadaeth mai rhoi pob cyfle i'r plant yw'r peth pwysicaf. Awgrymodd Miss Norah Isaac, Coleg y Drindod, Caerfyrddin yng

Nghyfarfod Cyffredinol Cyntaf y mudiad ym Medi 1972 na ddylai Mudiad Ysgolion Meithrin or-bwysleisio'r agwedd mai achub yr iaith Gymraeg yw bwriad y mudiad ond yn hytrach mai achub y plentyn o Gymro sy'n bwysig (Bwletin Meithrin, Rhifyn 3, 1972, 2). Ond, wrth gwrs, yr un yw'r canlyniad ac mae'r ddau fwriad yn cyfuno'n naturiol yng ngwaith y mudiad.

> *Yn ogystal â darparu addysg feithrin o'r radd flaenaf i blant Cymru mae sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn ganolog i waith y mudiad.*
> (Jones, 1997a, 45)

Ers ei sefydlu yn 1971 cymerodd Mudiad Ysgolion Meithrin ran amlwg mewn sawl ymgyrch dros yr iaith Gymraeg a thros ddatblygu addysg ddwyieithog yng Nghymru. Cefnogodd y mudiad yr ymgyrch i sefydlu'r Pwyllgor Dros Addysg Gymraeg a'r ymgyrch i sefydlu'r Gymraeg fel pwnc craidd, iaith gyntaf ac ail iaith, o fewn y cwricwlwm cenedlaethol (Jones, 1997a, 45).

Dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf nododd nifer o unigolion o fewn y mudiad a thu allan, le arwyddocaol Mudiad Ysgolion Meithrin yn yr ymdrech i adfer yr iaith Gymraeg ac i hybu addysg ddwyieithog.

> *Mudiad Ysgolion Meithrin is deeply involved in the preservation of a minority language. Not only does it aim to preserve but it aims to promote education through the medium of Welsh.*
> (Jones, 1988, 84-85)

Ofnai rhai pobl y byddai'r ymgyrch i ennill tir yn cael ei wneud ar draul "cadw tir y Gymraeg". Gwelai Emyr Jenkins, Cadeirydd cyntaf y mudiad, y perygl y gallai'r mudiad ganolbwyntio ar yr ardaloedd di-Gymraeg ar draul yr ardaloedd Cymraeg.

> *Yr ydym yn raddol ymgyfnerthu yn yr ardaloedd di-Gymraeg ond thal hyn ddim i ni os collwn gadarnleoedd yr iaith drwy esgeulustod. Mae angen Ysgol Feithrin i ennill tir trwy addysgu ail iaith ond mae angen hefyd i ni gyfoethogi yr hyn sydd gennym rhag iddo lithro rhwng ein bysedd.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 2, 1972, 2)

Pwysleisiodd Owen John Thomas ym Mwletin y mudiad bwysigrwydd sefydlu addysg cyfrwng – Cymraeg yn yr ardaloedd Cymraeg cyn i'r ardaloedd hyn ddiflannu (Bwletin Meithrin, Rhifyn 19, 1978, 16).

> *The restoration of the language depends upon the continued existence of areas where Welsh is the everyday medium of conversation for the majority of the residents. Recovery therefore must take place whilst such areas still exist. The state of the language dictates that immediate action will be taken in the Welsh-speaking areas to launch a programme making Welsh-medium education from nursery to secondary level the established norm.*
> (Bwletin Meithrin, Rhifyn 19, 1978, 16)

Cynhwysir Mudiad Ysgolion Meithrin ymysg y prif gyrff a sefydliadau y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cydweithio â hwy i gyrraedd nifer o nodau ac amcanion yn ymwneud â dyfodol yr iaith Gymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996, 8). Cydnabyddir pwysigrwydd gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin gan Fwrdd yr Iaith o safbwynt cynyddu nifer y plant sy'n siarad Cymraeg. Yn ôl Strategaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer yr iaith Gymraeg mae darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg effeithiol yn hanfodol ar gyfer rhoi sylfaen dda yn y Gymraeg i blant sydd eisoes yn siarad Cymraeg ac i blant sy'n dysgu'r iaith (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996, 6).

> *Gellid dadlau mai dyma'r cyfnod mwyaf allweddol ac effeithiol o ran gosod sylfeini a fydd yn sicrhau fod plant yn gwbl rugl ddwyieithog ac yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol eu hoes.*
> (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996, 6)

Yn ôl canlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 1996 dan ofal NOP, roedd 50% o'r rhieni a holwyd yn dweud y byddent yn dymuno i'w plant gael addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999b, 4.2.2). Felly, mewn theori, mae potensial mawr o ran cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu cylchoedd meithrin.

Er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth a'r niferoedd sy'n mynychu, a gwella addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog cyn-ysgol, gosododd Bwrdd yr Iaith dargedau ar gyfer y cyfnod 2000 – 2005.

1. erbyn Mawrth 2001

y Bwrdd i gytuno strategaeth ddatblygu gyflawn gyda Mudiad Ysgolion Meithrin;

2. erbyn Mawrth 2001
   y Bwrdd i gytuno strategaeth i gynyddu darpariaeth ddwyieithog gyda darparwyr eraill o addysg cyn-ysgol;

3. erbyn Mawrth 2001
   y Bwrdd i sefydlu system i fonitro'r cynnydd ieithyddol ymhob un o gylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin, a phob darparwr dwyieithog arall;

4. erbyn Mawrth 2002
   y Bwrdd i gynyddu darpariaeth y Wladwriaeth a'r nifer o gylchoedd fel bod (a) dim un ardal â chymhareb o lai na 100:1 (poblogaeth siaradwyr Cymraeg o dan 5 oed): ysgolion / unedau / cylchoedd) a (b) dim un ardal â chymhareb o lai na 1000:1 (poblogaeth o dan 5 oed: ysgolion / unedau / cylchoedd);

5. erbyn Mawrth 2005
   y Bwrdd i gynyddu y nifer o rieni sydd yn dewis addysg feithrin cyfrwng Cymraeg y Wladwriaeth neu wirfoddol o 10% o'i gymharu â lefel 1999;

6. erbyn Mawrth 2005
   y Bwrdd i gynyddu nifer yr ysgolion / unedau / cylchoedd sydd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg o 5% o'i gymharu â lefel 1999;

7. erbyn Mawrth 2005
   y Bwrdd i gynyddu y nifer o ysgolion / unedau / cylchoedd sydd yn cynnwys darpariaeth ddwyieithog o 50% o'i gymharu â lefel 1999;

(Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999b, Targed 1)

Yn nechrau 2002, dywedodd Rhodri Glyn Thomas AC, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad y dylai plant tair oed gael eu trochi yn y Gymraeg er mwyn creu Cymru ddwyieithog. Credai y byddai cynllun i ddarparu addysg drochi Gymraeg am ddim i blant 3 oed yn costio £50 miliwn y flwyddyn i'r Cynulliad ond bod angen cynllun radical er mwyn rhoi hwb i'r iaith Gymraeg (Daily Post 21/1/02). Hwn oedd yr

awgrym cyntaf y byddai addysg drochi i blant o dan bump yn cael sylw yn yr Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg.

Yng Ngorffennaf 2002, cyhoeddwyd Adolygiad yr Iaith Gymraeg gan Bwyllgor Diwylliant a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhoddwyd sylw i sefyllfa addysg gyn-ysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gynnwys sylw i waith Mudiad Ysgolion Meithrin. Cydnabu yr Adolygiad rôl hanfodol dysgu Cymraeg drwy drochi yn ystod y Blynyddoedd Cynnar ac fe argymhellodd bod y ddarpariaeth yn cael ei hehangu. Cydnabu'r Adolygiad rôl allweddol Mudiad Ysgolion Meithrin yn y gwaith hwn (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2002b, 7). Cydnabu'r Adolygiad ran werthfawr a chwaraeir gan Fudiad Ysgolion Meithrin "*wrth ddarparu hinsawdd ffafriol ar gyfer datblygiad cynnar sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg*" (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2002b, 75).

Tynnwyd sylw at rôl bwysig y Cylchoedd Ti a Fi wrth ddarparu cyfleoedd i rieni a phlant ddod i gysylltiad â'r Gymraeg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 75). Nododd yr Adolygiad dri argymhelliad yn ymwneud ag addysg gyn-ysgol a'r iaith Gymraeg sef:

- *Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl hanfodol dysgu Cymraeg trwy drochi yn ystod y Blynyddoedd Cynnar, ac yn argymell bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hehangu a bod rôl allweddol Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei chydnabod.*
- *Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Gweinidog y Cynulliad wedi comisiynu archwiliad o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, ac yn argymell bod canfyddiadau'r archwiliad hwn yn dod yn sail ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.*
- *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar hefyd olygu cynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog, gyda rhyw gymaint o addysg drochi, yn unol â dymuniadau'r rhieni.*

  (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 76-77)

Yn ôl yr Adolygiad, prif flaenoriaethau'r Pwyllgor o ystyried cynllunio ieithyddol yw cynyddu'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg, cryfhau'r iaith o fewn cymunedau a chryfhau'r defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2002b, 6-7). Nodwyd y dylid cynorthwyo Mudiad Ysgolion Meithrin i ddatblygu prosiectau mewn cymunedau i roi cyfle i rieni ddysgu Cymraeg ar y cyd â'u

plant (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 8). Awgrymodd yr Adolygiad hefyd y dylid hybu'r ddarpariaeth addysg ofal cyfrwng Cymraeg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 8).

Nodwyd yn yr Adolygiad bod cysylltiad cynnar â'r iaith Gymraeg yn darparu'r amgylchiadau gorau ar gyfer dysgu'r iaith. Nodwyd nifer o fanteision o gyflwyno'r Gymraeg i blant oedran cyn ysgol, sef bod gan blant ifainc y gallu i gaffael iaith; dyma'r oedran mwyaf priodol i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddwyieithrwydd; bod addysg feithrin Gymraeg yn cyflwyno dewis realistig i rieni ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau deallus ynghylch cyfrwng addysg eu plant yn y dyfodol a'i fod hefyd yn ffordd o leihau'r angen i ddysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 52-3).

Yn dilyn argymhellion yr Adroddiad 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol' cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol Gynllun Gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog sef 'Iaith Pawb' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b). Rhoddodd y cynllun hwn bwys mawr ar ddatblygu'r ddarpariaeth yn Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Nododd ei bod yn fantais os yw plant ifanc yn dysgu Cymraeg yn naturiol o fewn y teulu ond bod addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yn ddull effeithiol o alluogi plant i ddod yn ddwyieithog. Nodwyd mai blaenoriaethau y Cynulliad yw meithrin trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu ac ymestyn argaeledd grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 41).

Yn y Cynllun 'Iaith Pawb' nodwyd mai'r gobaith tymor hir yw y bydd llawer iawn yn fwy o blant o dan bump oed yn cael digon o gyswllt â'r ddwy iaith i allu symud naill ai i ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog. Bwriadant wneud hyn drwy gynyddu grant Mudiad Ysgolion Meithrin trwy Fwrdd yr Iaith. Bydd grant o £35,000 i'r mudiad benodi gweithiwr datblygu i hyrwyddo gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin ac i hybu ansawdd darpariaeth ar gyfer blynyddoedd cynnar (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 41). Y gobaith yw y bydd hyn yn annog agor mwy o gylchoedd meithrin ac yn caniatáu i Fwrdd yr Iaith wella'r gwasanaethau cefnogi canolog a'r wybodaeth y gall eu cynnig (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 41).

Mae'n amlwg o gyhoeddiadau diweddar y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, megis 'Iaith Pawb' a 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol', bod gan Mudiad Ysgolion Meithrin le allweddol yn eu cynlluniau ar gyfer cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg ac ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar.

Dangosodd ffigyrau Cyfrifiad 2001 bod cynnydd wedi bod yn y nifer o siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 ac 2001. Dyma'r tro cyntaf mewn can mlynedd i hyn ddigwydd. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn ardaloedd Seisnig y de-ddwyrain. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn siroedd Torfaen, Caerdydd, Sir Fynwy, a Blaenau Gwent. Nododd Cadeirydd Bwrdd yr Iaith bod y cynnydd, i raddau helaeth, o ganlyniad i lwyddiant y system addysg ddwyieithog (gwefan Bwrdd yr Iaith Chwefror 13, 2003). Yn sicr mae peth o'r diolch am y cynnydd yn y niferoedd i'w roi i Mudiad Ysgolion Meithrin fel y cam cyntaf i addysg Gymraeg.

Cydnabuwyd ers blynyddoedd fod strwythur oedran y boblogaeth o Gymry Cymraeg yn dyngedfennol bwysig o ran dyfodol yr iaith. Mae peryglon amlwg o gael pyramid oed wedi ei ddominyddu gan yr oedrannus (Aitchison a Carter, 1994, 103). Gwelwyd y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 3-15 oed yn y siroedd lle gwelwyd cynnydd yn y niferoedd o siaradwyr ifainc o ganlyniad i gynnydd sylweddol mewn addysg Gymraeg. Bu cynnydd o 22.8% yn nifer y siaradwyr ifainc rhwng Cyfrifiad 1981 a Chyfrifiad 1991 (Aitchison a Carter, 1994, 103). Wrth gwrs, mae'n amhosibl dweud faint o ddylanwad a gafodd Mudiad Ysgolion Meithrin ar y niferoedd o siaradwyr Cymraeg ifainc ond, ynghyd ag ysgolion dwyieithog, mae'n sicr bod cyfran o'r diolch am y cynnydd i'r mudiad.

Chwaraeodd Mudiad Ysgolion Meithrin ran flaenllaw yn natblygiad a thwf addysg Gymraeg dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. O gyflawni'r targedau a osodwyd ar y cyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg fe ymddengys y bydd y mudiad yn chwarae rhan amlwg yn y broses o gynyddu a datblygu addysg Gymraeg ymhellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.

4.14 Casgliad

Yn y bennod hon cyflwynwyd hanes sefydlu a thwf Mudiad Ysgolion Meithrin, sef y mudiad sy'n darparu addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i blant o dan bump.

Trafodwyd hanes y mudiad gan gynnwys hanes a chefndir ei sefydlu a'r syniadau a oedd y tu ôl i'r dull trochi a fabwysiadwyd gan Mudiad Ysgolion Meithrin. Soniwyd am ddatblygiad y mudiad o safbwynt twf yn y nifer o blant, cylchoedd, staff ac ehangu cwmpas gwaith y mudiad wrth agor cylchoedd Ti a Fi. Trafodwyd elfennau eraill o waith y mudiad megis y cyrsiau a ddarparwyd i'w staff dros y blynyddoedd a'u cyhoeddiadau amrywiol. Rhoddwyd gwaith y mudiad yn ei gyd-destun rhyngwladol drwy drafod addysg feithrin mewn ieithoedd lleiafrifol eraill yn Yr Alban, Iwerddon, Llydaw a Seland Newydd. Trafodwyd y gefnogaeth ariannol a dderbyniodd Mudiad Ysgolion Meithrin gan ffynonellau amrywiol dros y blynyddoedd. Soniwyd am y bygythiadau a fu i waith y mudiad, gan gynnwys talebau meithrin ac addysg feithrin mewn ysgolion cynradd. Yn rhan olaf y bennod hon trafodwyd lle allweddol Mudiad Ysgolion Meithrin yn y broses o adfer yr iaith Gymraeg.

Mae'r bennod hon yn rhoi cyd-destun i'r ymchwil dilynol sy'n edrych ar yr iaith Gymraeg a chylchoedd meithrin o dan ofal Mudiad Ysgolion Meithrin.

PENNOD 5

METHODOLEG DATBLYGU GRADDFA IAITH

5.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon dilynir datblygiad Graddfa Datblygiad Iaith a luniwyd ar gyfer ei defnyddio yng nghylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin. Trafodir bwriad a chyd-destun y gwaith ymchwil o safbwynt y mudiad a'r modd yr ariannir y mudiad. Ceir yma ddisgrifiad o gefndir y prosiect, llunio'r raddfa a thri cham yr ymchwil, yr ymchwiliad cyntaf a leolwyd yng ngogledd Cymru, a gweithredu'r ffurflen ddwywaith yn genedlaethol. Roedd y modd o weithredu'r monitro'n genedlaethol yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymchwiliad cyntaf. Trafodir hefyd yr egwyddorion a ddefnyddiwyd i wneud y gwaith a gwerth y prosiect terfynol.

5.2 Bwriad yr ymchwil

Prif fwriad yr ymchwil yw datblygu system o fonitro datblygiad iaith plant mewn cylchoedd meithrin er mwyn dangos effeithlonrwydd ariannol y cylchoedd o safbwynt Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'u gwerth o safbwynt atgynhyrchu'r iaith.

Y gobaith o wneud y gwaith hwn yw cael ateb i gwestiynau ymchwil megis:

1. Faint o Gymraeg mae plant yn gaffael wrth fynychu cylch meithrin?

2. Pa ffactorau sy'n effeithio ar eu datblygiad o'r Gymraeg? e.e. nifer y sesiynau maent yn ei fynychu, ers faint o amser maent yn y cylch, pa iaith neu ieithoedd a ddefnyddir ganddynt gartref?

3. Pa wahaniaeth a welir rhwng eu datblygiad ieithyddol o safbwynt eu dealltwriaeth o'r Gymraeg, eu cyfathrebu a'u sgiliau llythrennedd cynnar?

4. Pa mor hir y mae'n rhaid i blant fod yn y cylch er mwyn gweld datblygiad yn eu Cymraeg?

5. Faint o wahaniaeth gaiff nifer y sesiynau a fynychant ar eu datblygiad yn y Gymraeg?

6. A yw'r gyfradd datblygiad yn fwy, llai neu'n gyfartal gan ddibynnu ar pa iaith a siaradant gartref?

7. Ym mhle y gwelir y datblygiad mwyaf dros gyfnod o naw mis? Ar eu sgiliau gwrando a deall, siarad yntau ar eu sgiliau llythrennedd?

5.3 Cyd-destun yr ymchwil

Gwnaed yr ymchwil mewn cylchoedd meithrin ar hyd a lled Cymru. Mae'r cylchoedd meithrin a gymerodd ran yn yr ymchwil yn rhan o'r mudiad gwirfoddol Mudiad Ysgolion Meithrin. Darpara'r mudiad addysg gyn-ysgol Gymraeg i blant dwy a hanner i bump oed. Ceir trafodaeth ar hanes, datblygiad a gwaith y mudiad ym Mhennod 4.

Cymerodd ddeg cylch meithrin ran yn yr ymchwiliad cyntaf a 132 yn yr ymchwil cenedlaethol.

Derbynia Mudiad Ysgolion Meithrin arian cyhoeddus ar ffurf grant blynyddol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Rhoddir y grant i'r Mudiad gan y Bwrdd i'w ddefnyddio i gynnal y mudiad yn ganolog ac i ariannu staff i gynorthwyo'r cylchoedd, ond nid i staffio'r cylchoedd unigol. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y grant yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Tabl 5.1 Grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Fudiad Ysgolion Meithrin

Blwyddyn	Grant
1999-00	£557626
2000-01	£638141
2001-02	£668000

(Adroddiadau Blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin)

Yn dilyn y cynnydd a fu yng ngrant Bwrdd yr Iaith i'r Mudiad daeth yn fwyfwy amlwg fod angen sefydlu system monitro datblygiad y Gymraeg yn y cylchoedd er mwyn marchnata gwaith y mudiad a chyfiawnhau'r grant cyhoeddus sylweddol.

Mae mynychu cylch meithrin yn cael ei gydnabod fel ffordd effeithiol o drosglwyddo'r Gymraeg i siaradwyr newydd.

> *Dim ond 6.3% o blant 3 oed sy'n siarad Cymraeg: mae'r rhain bron yn ddieithriad wedi dysgu'r iaith gartref. Felly, er mwyn cynyddu'r niferoedd, mae cyfraniad addysg y blynyddoedd cynnar yn allweddol. Mae plant ifanc yn dysgu iaith yn rhwydd a naturiol, yn ddigymell a bron yn ddiarwybod. 'Caffael' iaith maen nhw yn hytrach na'i dysgu. Felly, mae darpariaeth y Wladwriaeth a* ***Mudiad Ysgolion Meithrin*** *yn hanfodol o safbwynt caffael yr iaith Gymraeg ymysg plant ifanc o gartrefi Cymraeg a Saesneg.*
> (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999b, 11)

Pan ddechreuwyd ar yr ymchwil, roedd gan Mudiad Ysgolion Meithrin 559 cylch o dan eu gofal yn darparu addysg feithrin trwy gyfrwng y Gymraeg i blant rhwng dwy a hanner a phump oed. Mae'r cylchoedd hyn wedi eu lleoli ar hyd a lled Cymru. Mynychir y cylchoedd gan blant o gartrefi Cymraeg a Saesneg eu hiaith a chan blant o gartrefi cymysg eu hiaith. Y gobaith yw fod mynychu cylch meithrin yn datblygu a chryfhau Cymraeg pob plentyn yn y cylch, pa bynnag iaith neu ieithoedd a siaredir ganddynt cyn dechrau yn y cylch.

> *Mae darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg effeithiol a hygyrch yn hanfodol ar gyfer cynnig sylfaen dda o Gymraeg i blant sy'n siarad Cymraeg ac i blant sy'n dysgu Cymraeg. Gellid dadlau mai dyma'r cyfnod mwyaf allweddol ac effeithiol o ran gosod sylfeini a fydd yn sicrhau fod plant yn gwbl rugl ddwyieithog ac yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol eu hoes.*

(Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996, 6)

5.4 Llunio'r Ffurflen Datblygiad Iaith

Er mwyn llunio'r Ffurflen Datblygiad Iaith casglwyd nifer fawr o ddeunydd asesu iaith gan Awdurdodau Addysg Lleol, ACCAC, academyddion ac eraill er mwyn cael enghreifftiau o systemau monitro i'w trafod (Atodiad 3). Prin iawn oedd y deunydd ar gyfer yr union oedran hwn ac ar gyfer ail iaith. Cynullwyd grŵp bychan o arbenigwyr ar addysg gynnar a datblygiad iaith cynnar er mwyn edrych ar y ddarpariaeth a oedd ar gael a thrafod y math o system fonitro a fyddai'n addas i'w defnyddio mewn cylchoedd meithrin. Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth lunio system fonitro ar gyfer plant mor ifanc, sef o ddwy a hanner i bump oed. Yng nghyfarfod cyntaf y grŵp ar 10 Mawrth 2000 cytunwyd mai'r ffordd fwyaf effeithiol i fonitro datblygiad iaith y plant oedd trwy lunio ffurflen i'w chwblhau gan yr arweinyddion, un ar gyfer pob plentyn, pan nad oedd y plant yn bresennol. Trafodwyd hefyd yr egwyddorion yr oedd angen eu hystyried wrth lunio'r raddfa iaith o gofio pwy oedd yn mynd i wneud yr asesu, oedran ac amrediad gallu y plant dan sylw ac amcanion y prosiect.

Penderfynwyd ar yr egwyddorion a ganlyn:

Dylai'r graddfa iaith:

- ganolbwyntio ar yr iaith yng nghyd-destun y cylchoedd.
- adlewyrchu iaith holl weithgareddau'r cylch (iaith ar draws y cwricwlwm);
- dangos datblygiad cyffredinol iaith yn hytrach na chanolbwyntio ar rai tasgau;
- bod yn ddigon syml / eglur i arweinyddion cylchoedd i ddangos datblygiad iaith plentyn dros gyfnod o fisoedd a thu hwnt.
- cael ei ddefnyddio'n gyson yn y gwahanol gylchoedd gan arweinyddion gwahanol;

- bod yn ddigon pendant i ddangos datblygiad dros amser;

- cynnwys holl ehangder gallu iaith rhwng camau cyntaf dysgu ail iaith i ddefnydd o iaith gyntaf, heb wahaniaethu rhwng datblygiad iaith gyntaf ac ail iaith;

- canolbwyntio ar beth mae'r plentyn yn ei gyflawni yn hytrach na beth nad yw'n gallu ei wneud; a

- cael ei weinyddu tua pedair i chwe wythnos ar ôl i'r plentyn gyrraedd y cylch ac yna unwaith neu ddwywaith eto yn ystod y flwyddyn ysgol.

Yn dilyn y cyfarfod, aed ati i lunio rhestrau o osodiadau posibl y gellid eu defnyddio gan ystyried yr egwyddorion hyn a'r deunyddiau amrywiol a gasglwyd. Lluniwyd y rhestrau (Atodiad 4) o dan bedwar pennawd; Gwrando a Deall, Siarad a Chyfathrebu, Sgiliau cyn-ddarllen a Sgiliau cyn-ysgrifennu.

Yn ymarferol, dim ond cyfran fechan o'r rhestrau gwreiddiol yr oedd yn bosibl eu defnyddio yn y drafft; wedi'r cwbl graddfa fer, syml ac eglur oedd ei hangen.

Wrth lunio'r drafft cyntaf ceisiwyd cadw mewn cof y math o weithgareddau yr oedd y plant yn eu gwneud yn y cylchoedd a chanolbwyntio ar y rhai hynny, er enghraifft, gwrando ar stori. Unwaith eto rhannwyd y drafft yn bedwar pennawd (Gwrando a Deall, Siarad a Chyfathrebu, Sgiliau Darllen Cynnar a Sgiliau Ysgrifennu Cynnar) er mwyn ei gwneud yn glir i'r arweinyddion, a fyddai'n llenwi'r ffurflenni, pa sgiliau iaith oedd o dan sylw. Roedd tua deg gosodiad ym mhob pennawd yn y drafft cyntaf a dewis o raddfa atebion i'w benderfynu arno ar ddyddiad diweddarach. Y dewis oedd unai 'Bob amser, weithiau, dechrau, dim eto' neu 'fel arfer, weithiau, dim eto' neu gyfuniad ohonynt. Anfonwyd copïau o'r drafft cyntaf (Atodiad 5) i aelodau'r pwyllgor ynghyd â chopïau o'r rhestrau gwreiddiol, er mai ar gyfer defnydd personol yr ymchwilydd y bwriadwyd y rhestrau hyn yn wreiddiol.

Cynhaliwyd ail gyfarfod ar 15 Mai, 2000 ac yno trafodwyd drafft cyntaf o'r ffurflen gan wneud newidiadau o ran geiriad rhai o'r gosodiadau a dileu rhai yn gyfan

gwbl. Roedd y pwyslais yn y cyfarfod ar sicrhau bod y ffurflen yn cynnwys amrediad o osodiadau a fyddai'n cynnwys yr holl ystod o blant sy'n mynychu'r cylchoedd. Roedd angen cynnwys plant ifanc iawn oedd yn dechrau dysgu Cymraeg am y tro cyntaf a phlant ychydig yn hŷn sy'n rhugl yn y Gymraeg. Yn y cyfarfod hwn penderfynwyd cadw'r categorïau yn hytrach na chael un rhestr hir, er mwyn i'r arweinyddion wybod beth yr anelir tuag ato ymhob gosodiad. Cadwyd y teitlau 'Sgiliau Gwrando a Deall' a 'Sgiliau Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg' ond newidiwyd y teitl 'Sgiliau Cyn-lythrennedd' i 'Sgiliau Llythrennedd Cynnar', ac yn yr un modd yr is-deitlau yn y categori yma i 'Sgiliau Ysgrifennu Cynnar' a 'Sgiliau Darllen Cynnar'. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys y cwestiwn 'Sawl gwaith yr wythnos oedd y plentyn yn mynychu'r cylch' ar y ffurflen.

Lluniwyd taflen werthuso syml er mwyn cael ymateb yr arweinyddion i'r Ffurflen Datblygiad Iaith ac er mwyn cael eu barn ynglŷn â'r modd y dylid gweithredu'r prosiect nesaf sef yr ymchwiliad cenedlaethol. Penderfynwyd y dylid holi'r arweinyddion ynglŷn â pha mor aml y dylid llenwi'r ffurflen a sawl wythnos ar ôl i'r plentyn ddechrau yn y cylch y dylid ei llenwi am y tro cyntaf.

Yn y cyfamser, adolygwyd y ffurflen ei hun gan ddilyn yr awgrymiadau a wnaed yn y cyfarfod. Penderfynwyd dynodi rhan gyntaf y ffurflen fel rhan i nodi manylion cefndirol y plentyn. Rhoddwyd lle i nodi dyddiad geni, dyddiad dechrau yn y cylch, sawl sesiwn yr wythnos mae'n mynychu yr wythnos a lle mae'r cylch. Cynhwyswyd tabl syml ar ddechrau pob ffurflen lle gallai'r arweinyddion nodi cefndir ieithyddol y plentyn.

Tabl 5.2 Tabl i Nodi Cefndir Ieithyddol y Plant Ymchwiliad 1

	Cymraeg bron drwy'r amser.	Cymraeg mwy na Saesneg.	Cymraeg a Saesneg tua cyfartal.	Saesneg mwy na Chymraeg	Saesneg bron drwy'r amser	Ddim yn berthnasol / Ddim yn gwybod.
Mam						
Tad						
Brawd / Chwaer.						

Cytunwyd ar y raddfa 'fel arfer, weithiau, dechrau, dim eto' ar gyfer y ymchwiliad cyntaf gan ofyn barn yr arweinyddion ar hyn hefyd ar y ffurflen werthuso.

Lluniwyd taflen o gyfarwyddiadau byr (Atodiad 6) er y byddai'r arweinyddion yn yr ymchwiliad cyntaf yn cael esboniad personol o gefndir a bwriad y ffurflenni, ynghyd â chyfarwyddiadau ynglŷn â sut i'w llenwi gan yr ymchwilydd.

5.5 Peilot

Ymgynghorwyd â phedwar arbenigwr a gydnabyddir yn fyd-eang ym maes datblygiad ieithyddol cyn ysgol er mwyn cael eu barn ynglŷn â'r raddfa datblygiad iaith. Rhoddodd Yr Athro Marilyn Vihman gyngor fel arbenigwr ar ddatblygiad iaith, Dr Tina Hickey fel prif arbenigwr ac ymchwilydd Iwerddon ar Naíonraí sef ysgolion meithrin Gwyddeleg, Dr Margaret Deuchar fel arbenigwr ar ddwyieithrwydd plentyndod, a Dr Susan Gathercole (yn flaenorol o UDA ac nawr Cymru) fel un o brif ymchwilwyr Cymru ar ddatblygiad iaith cynnar. Ar y cyfan roeddynt yn fodlon iawn gyda'r ffurflen datblygiad iaith, ac yn credu y byddai'n dangos faint o ddatblygiad a wna'r plant mewn cylch meithrin dros gyfnod o amser.

Awgrymodd Dr Tina Hickey y dylid ystyried cynnwys rhan ynglŷn â datblygiad cyffredinol a chymdeithasol y plentyn er mwyn rhoi cefndir i'w gallu yn y Gymraeg. Nododd hefyd y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r wybodaeth gan yr arweinwyr ynglŷn â'r iaith a ddefnyddir rhwng y plentyn a'i rieni. Nododd bod nifer o arweinwyr grwpiau meithrin cyfrwng Gwyddeleg yn seilio cefndir ieithyddol y

plentyn ar ei allu yn yr iaith yn hytrach nag ar wybodaeth ynglŷn â beth a siaredir yng nghartref y plentyn.

5.6 Gweithredu'r Ffurflen

5.6.1 Ymchwiliad 1

Penderfynwyd gwneud yr ymchwiliad cyntaf ym mis Mehefin 2000, cyn gweithredu'r ffurflen yn genedlaethol, am nifer o resymau. Roedd yn fodd i wneud yn siŵr fod y ffurflen yn glir o ran yr eitemau ar y ffurflen, y cyfarwyddiadau a'r cynllun. Roedd hefyd yn fodd i gael ymateb i ddilysrwydd eitemau'r holiadur; i ddileu amwysterau neu broblemau yn y geirio; i gael ymateb i'r mathau o gwestiynau a ddefnyddiwyd, er enghraifft cwestiynau yn defnyddio graddfa; i gael ymateb i addasrwydd y cwestiynau; i gael ymateb i'r adrannu a rhifo'r cwestiynau; i wirio'r amser a gymer i gwblhau'r ffurflen; i wirio nad yw'n rhy fyr neu'n rhy hir, yn rhy anodd neu'n rhy hawdd ac nad yw'n pechu unrhyw un mewn unrhyw fodd. Gobeithiwyd hefyd y gellid adnabod cwestiynau di-werth, hynny yw rhai mae pawb yn ateb yr un fath iddynt ac felly nad ydynt yn profi dim. Roedd hefyd yn gyfle i adnabod eitemau sy'n cael eu camddeall yn gyson neu nad ydynt yn cael eu cwblhau; a hefyd i roi prawf ar y system godio ar gyfer dadansoddi data (Cohen et al., 2000, 260-1).

Trefnwyd yr ymweliadau cyntaf â'r cylchoedd trwy gysylltu â'r Swyddogion Datblygu perthnasol. Roedd Swyddogion canolog y mudiad yn awyddus i'r Swyddogion Datblygu ddod gyda'r ymchwilydd i'r cylchoedd ar gyfer yr ymweliadau cyntaf er mwyn cyflwyno'r ymchwilydd a dangos cefnogaeth y mudiad i'r prosiect. Anfonodd yr ymchwilydd lythyr at y Swyddogion Datblygu i gyflwyno'r prosiect ac i ofyn am eu cydweithrediad (Atodiad 7). Cysylltodd y Swyddogion Datblygu a'r cylchoedd a ddewiswyd i fod yn rhan o'r ymchwil a threfnu amser cyfleus i'r ymchwilydd ymweld â hwy.

Darparwyd copïau o'r Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 8) ar gyfer pob plentyn yn y cylchoedd unigol i'w llenwi o fewn pythefnos. Hefyd, darparwyd un copi Saesneg (Atodiad 9) ar gyfer pob cylch rhag ofn bod angen gwirio unrhyw dermau

neu rhag ofn bod rhieni am weld copi o'r ffurflen. Darparwyd hefyd ffurflen gyfarwyddiadau ynglŷn â chwblhau'r ffurflenni ond hefyd esboniwyd y cyfarwyddiadau ar lafar gan yr ymchwilydd. Gofynnwyd i'r arweinyddion lenwi ffurflen werthuso (Atodiadau 10 ac 11) er mwyn cael eu hymateb i'r Ffurflen Datblygiad Iaith. Felly, cyflwynwyd pecyn i bob arweinydd yn cynnwys y canlynol; taflen gyfarwyddiadau (Atodiad 6), ffurflen werthuso (Atodiad 10), copi Saesneg o'r Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 9) a digon o Ffurflenni Datblygiad Iaith (Atodiad 8) i'w llenwi ar gyfer pob plentyn yn y cylch.

Cafwyd croeso cynnes ym mhob un o'r deg cylch ac roedd yr arweinyddion i gyd yn barod i ymgymryd â'r gwaith o lenwi'r ffurflenni datblygiad iaith a rhoi eu hymateb iddi ar y ffurflen werthuso er bod rhai ohonynt yn bryderus y byddai'n waith ychwanegol iddynt. Ar gyfartaledd treuliwyd tua 30 munud ym mhob cylch yn trafod y prosiect ac yn siarad yn gyffredinol gyda'r arweinydd. Dangosodd nifer ohonynt ddiddordeb mawr yn y prosiect ymchwil.

Trefnwyd dyddiad cyfleus i'r ymchwilydd fynd i gasglu'r ffurflenni ymhen tua pythefnos. Casglwyd y ffurflenni a'r taflenni gwerthuso ymhen pythefnos a chafwyd ymateb yr arweinyddion i'r ffurflenni ar lafar ac ar bapur ar y ffurflen werthuso.

5.6.2 Y Sampl Ymchwil

Ar gyfer yr ymchwiliad cyntaf penderfynwyd y byddai staff y mudiad yn dewis deg cylch amrywiol yn y gogledd a fyddai'n treialu'r ffurflen cyn ei gweithredu'n genedlaethol. Roedd tri o'r cylchoedd meithrin hyn yn Arfon, tri yng Nghonwy a phedwar ar Ynys Môn. Dewiswyd cylchoedd yn ofalus er mwyn bod yn sicr y byddai'r ffurflenni'n cael eu dychwelyd ac y byddai gennym ymatebion i'r ffurflen cyn mynd ymlaen i'r cam nesaf. Felly nid ar hap y dewiswyd y cylchoedd ar gyfer yr ymchwiliad cyntaf.

Prif fwriad yr ymchwiliad cyntaf oedd treialu'r ffurflen yn hytrach nag asesu'r plant unigol nag ychwaith y cylchoedd unigol. Oherwydd hyn, roedd y ffurflenni yn ddienw gyda lle i'r arweinyddion roi enw'r plentyn neu lythrennau cyntaf ei enw o ran

gwybodaeth iddynt hwy yn unig. Gwnaed hyn yn glir ar y daflen gyfarwyddiadau hefyd.

Ceisiwyd dewis cylchoedd amrywiol o ran oedran a chefndir iaith y plant ac ardal a maint y cylch. O ran cefndir ardal ac iaith dewiswyd 7 cylch trefol a 3 pentrefol, 5 mewn ardaloedd Cymreig, 3 mewn ardaloedd cymysg a 2 mewn ardaloedd di-Gymraeg.

1. Cylch trefol, mawr, Cymreig mewn ardal ddifreintiedig.
2. Cylch trefol, canolig, di-Gymraeg mewn ardal ddifreintiedig.
3. Cylch pentrefol, canolig, Cymreig mewn ardal dosbarth canol
4. Cylch trefol, ardal ddi-Gymraeg ond cylch cymysg maint canolig.
5. Cylch trefol, mawr, cymysg o ran iaith.
6. Cylch pentrefol, Cymreig, plant hŷn hefyd.
7. Cylch trefol, mawr, Cymreig, plant hŷn hefyd.
8. Cylch pentrefol, mawr, dwyieithog.
9. Cylch trefol, dwyieithog.
10. Cylch pentrefol, bychan Cymreig.

Roedd oedran y plant yn amrywio hefyd gyda phlant yn aros hyd at bedair oed mewn dau gylch; yn un o'r cylchoedd hyn roedd y plant hŷn yn mynd i ddosbarth meithrin yn yr ysgol gynradd leol yn y bore ac i'r cylch yn y prynhawn. Ond ym mwyafrif o'r cylchoedd roedd y plant yn gadael y cylch yr haf cyn eu pen-blwydd yn bedair. O ran nifer roedd maint y cylchoedd yn amrywio o 13 i 47 o blant. Felly llwyddwyd i gael trawsdoriad o gylchoedd o ran cefndir iaith, maint cylchoedd, ardaloedd ac oedran plant.

5.6.3 Nodweddion y Sampl

Cynhwyswyd 270 o blant yn yr ymchwiliad cyntaf, fel y gwelir yn y tabl isod roedd 137 (51.5%) ohonynt yn fechgyn a 129 (48.5%) ohonynt yn ferched. Ni chafwyd gwybodaeth ynglŷn â phedwar plentyn.

Tabl 5.3 Amleddau Rhyw'r Plant

	Nifer	Canran	Canran dilys
Bechgyn	137	50.7	51.5
Merched	129	47.8	48.5
Cyfanswm	264	98.5	100.0
Heb ateb	4	1.5	
Cyfanswm	270	100.0	

5.6.4 Methodoleg Ymchwiliad 2

Yn dilyn gweithredu'r ymchwiliad cyntaf ym Mehefin a Gorffennaf 2000 cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp arbenigol ar 8 Medi 2000 er mwyn penderfynu ar y cam nesaf. Trafodwyd nifer o agweddau'r ymchwil yn y cyfarfod gan gynnwys newidiadau posibl i'r Ffurflen Datblygiad Iaith yn sgil gwerthusiad yr arweinyddion ohoni a chanlyniadau'r ymchwiliad cyntaf. Trafodwyd hefyd y modd i weithredu'r monitro iaith o hynny ymlaen; sawl gwaith y flwyddyn y dylid ei llenwi, sawl wythnos ar ôl i'r tymor ddechrau y dylid ei llenwi am y tro cyntaf a pha ganran o'r cylchoedd a'r plant yn y cylchoedd y dylai'r ymchwil eu cynnwys. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o ehangu'r ffurflen i gynnwys elfennau fel datblygiad cymdeithasol y plentyn fel yr awgrymodd Tina Hickey, Swyddog Ymchwil Adran Psycholinguistics, Institiúid Teangeolaíochta Éireann mewn llythyr yn mynegi ei barn ynglŷn â'r Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 11). Un fantais o wneud hyn yw y byddai'n tynnu'r pwyslais oddi ar yr iaith rhag ofn i staff y cylchoedd weithio tuag at y gofynion hyn ar draul pethau eraill. Penderfynwyd peidio â derbyn ei hargymhellion yn y fan yma gan y byddai'n ehangu maes yr ymchwil ac yn tynnu oddi ar bwrpas y prosiect ymchwil.

Ar y cyfan cafwyd ymateb ffafriol iawn i'r Ffurflen Datblygiad Iaith yn yr Ymchwiliad cyntaf, yng ngwerthusiad yr arweinyddion ohoni. Nodwyd rhai pethau i'w dileu neu eu newid ac awgrymwyd pethau eraill i'w cynnwys o'r newydd. Derbyniwyd rhai o'r argymhellion hyn ac addaswyd y ffurflen yn ôl hynny. Roedd y mwyafrif yn credu fod y raddfa 'fel arfer, weithiau, dechrau, dim eto' yn un addas ond awgrymodd dwy y dylid newid 'fel arfer' i 'bob amser'. Nododd y mwyafrif bod yr amser a gymerwyd i lenwi'r ffurflen rhwng dau a phedwar munud ac felly fel y gobeithiwyd.

Diddymwyd is-deitlau Adran C gan fod rhai o'r arweinyddion wedi mynegi pryder bod disgwyl iddynt ddysgu 'sgiliau ysgrifennu cynnar' i blant mor ifanc. Yn y tabl yn holi ynglŷn â'r iaith a ddefnyddir rhwng y plentyn a'r canlynol penderfynwyd newid y raddfa o 'Cymraeg bron dwy'r amser' i 'Cymraeg drwy'r amser neu bron drwy'r amser' ac yn yr un modd gyda'r Saesneg. Penderfynwyd hefyd gynnwys 'gwarchodwr' yn y tabl. Gwnaed y ddau newidiad yma i'r tabl ar argymhelliad rhai o'r arweinyddion yn yr ymchwiliad cyntaf.

Tabl 5.4 Tabl i Nodi Cefndir Ieithyddol y Plant Ymchwiliad 2

	Cymraeg drwy'r amser / bron drwy'r amser.	**Cymraeg mwy na Saesneg.**	**Cymraeg a Saesneg tua chyfartal.**	**Saesneg mwy na Chymraeg**	**Saesneg drwy'r amser / bron drwy'r amser**	**Ddim yn berthnasol / Ddim yn gwybod.**
Mam						
Tad						
Brawd / Chwaer.						
Gwarchodwr - os yn berthnasol						

Yn y cyfarfod penderfynwyd derbyn barn yr arweinyddion o ran pa bryd y dylid gweithredu'r ffurflen am y tro cyntaf a gofyn i'r arweinyddion yn y rhan nesaf o'r prosiect i lenwi'r ffurflen chwech i wyth wythnos ar ôl dechrau'r tymor ac y dylent ei llenwi deirgwaith yn ystod y flwyddyn, sef ym mis Hydref, Chwefror a Mehefin. Fodd bynnag, sylweddolwyd ar ôl i'r ffurflenni fynd allan i'r cylchoedd ym mis Hydref fod y prosiect yn cymryd llawer o amser Swyddogion Datblygu'r Mudiad Ysgolion Meithrin a chan ein bod rhwng dau feddwl i'w weithredu dwywaith neu deirgwaith, beth bynnag penderfynwyd newid i ddwywaith y flwyddyn sef mis Hydref a mis Mehefin yn unig. Rheswm arall dros y newid yma oedd maint yr ymateb a gafwyd i'r prosiect ym mis Hydref. Dychwelwyd 1926 o ffurflenni o 132 o gylchoedd, anfonwyd y ffurflenni allan i 180 o gylchoedd sef tua traean y cylchoedd sydd o dan ofal Mudiad Ysgolion Meithrin. Dychwelodd 73.3% o'r cylchoedd hyn y ffurflenni datblygiad iaith wedi eu cwblhau ar gyfer Ymchwiliad 2. Penderfynwyd

eisoes mai dwywaith y flwyddyn roedd y gwaith yn mynd i gael ei wneud gan y mudiad ar ôl y flwyddyn gyntaf.

Graddolwyd y gosodiadau yn dilyn dadansoddi data'r ymchwiliad cyntaf. Penderfynwyd gwneud hyn yn y gobaith y byddai hynny'n gwneud y gwaith o lenwi'r ffurflenni yn rhwyddach. Graddolwyd y gosodiadau fesul adran o'r un yr oedd y ganran uchaf o atebion 'fel arfer', i'r un â'r ganran isaf o atebion 'fel arfer'.

> *The order of the questions in a questionnaire, to some extent, is a function of the target sample (e.g. how will they react to certain questions), the purpose of the questionnaire (e.g. how personal and potentially disturbing the issues are that will be addressed), and the overall balance of the questionnaire (e.g. where best to place sensitive questions in relation to less threatening questions, and how many of each to include).*
>
> *The ordering of the questionnaire is important, for early questions may set the tone of, or the mind-set of the respondent to, the latter questions*
> (Cohen et al., 2000, 257)

Gwnaed ychydig o newidiadau i'r Ffurflen Datblygiad Iaith o ran y gosodiadau yn dilyn argymhellion yr arweinyddion ac yn sgil dadansoddi canlyniadau'r ymchwiliad cyntaf. Diddymwyd un gosodiad sef A8 'Mwynhau gwrando ar storïau Cymraeg' oherwydd fod rhai o'r arweinyddion yn credu ei fod yn rhy debyg i osodiad rhif A4. Newidiwyd y gosodiad hwnnw i gynnwys yr elfen o fwynhad, felly newidiwyd A4 o 'Gwrando gyda diddordeb ar stori Gymraeg' i 'Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.'

Newidiwyd y ddau osodiad cyntaf yn Adran A. Gwelwyd o ganlyniadau'r ymchwiliad hwn fod gosodiad A1 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg ond heb ddeall yr ystyr' yn un anodd os nad amhosibl i'w ateb. Nid oedd yn cynnwys pawb yn y cylch gan nad oedd yna le i nodi'r plant a oedd yn ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg a hefyd yn deall yr ystyr. Yn yr un modd gyda gosodiad A2 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg gan ddangos eu bod yn deall rhywfaint o'r cynnwys'. Nid oedd y gosodiad hwn yn cynnwys y plant a oedd yn deall rhywfaint o gynnwys y caneuon a'r rhigymau Cymraeg ond ddim yn ymuno ynddynt yn y cylch. Diddymwyd y cwestiynau hyn gan nad oeddynt yn ateb gofynion egwyddorion y Ffurflen Datblygiad Iaith. Fodd bynnag, gan fod ymuno mewn rhigymau a chaneuon

Cymraeg a deall ychydig ar eu cynnwys yn elfennau amlwg yng ngweithgareddau'r cylch meithrin, penderfynwyd llunio dau osodiad newydd. Y tro hwn cynhwyswyd dim ond un elfen yr un yn y ddau osodiad, deall y cynnwys y caneuon a'r rhigymau yn un ac ymuno ynddynt yn y llall. Felly yn y ffurflen ddiwygiedig cynhwyswyd A6 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg' ac A7 'Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg'.

Ychydig o newidiadau bychain a wnaed i'r gosodiadau eraill. Newidiwyd B2 o 'Defnyddio enwau gwrthrychau syml – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, teganau ayyb.' i B3 'Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb.' er mwyn symleiddio'r iaith. Addaswyd C3 o 'Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau' i 'Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau' er mwyn newid y pwyslais a cheisio bod yn fwy perthnasol i sefyllfa'r cylch ac amser stori. Ychwanegwyd at osodiad C9 drwy gynnwys llythrennau yn ogystal â geiriau Cymraeg gan mai'r mwynhad a'r ymgais i ysgrifennu yn Gymraeg sydd o dan sylw yma ac nid gallu'r plentyn i ysgrifennu. Gellir gweld copïau Cymraeg a Saesneg o'r Ffurflen Datblygiad Iaith a ddefnyddiwyd yn Ymchwiliad 2 yn Atodiadau 12 ac 13.

Anfonwyd copïau o'r Ffurflen Datblygiad Iaith i 180 cylch ar draws Cymru, tua thraean y cylchoedd ym mhob sir. Anfonodd Mr. Hywel Jones, Prif Weithredwr Mudiad Ysgolion Meithrin, lythyr at y Swyddogion Datblygu yn esbonio'r prosiect ymchwil ac yn gofyn iddynt am eu cymorth i ddosbarthu ac i gasglu'r ffurflenni. Aeth y Swyddogion Datblygu â'r ffurflenni i'r cylchoedd a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect yn ystod yr wythnos yn dechrau 30 Hydref 2000 ac unwaith eto rhoddwyd pythefnos iddynt eu llenwi. Cyflwynwyd pecyn i arweinydd pob cylch yn cynnwys y canlynol: digon o Ffurflenni Datblygiad Iaith ar gyfer pob plentyn yn y cylch, un copi Saesneg o'r ffurflen a llythyr eglurhaol gan Mr. Hywel Jones, Prif Weithredwr Mudiad Ysgolion Meithrin (Atodiad 14). Casglodd y Swyddogion Datblygu y ffurflenni yn yr wythnos yn dechrau 13 Tachwedd 2000 a'u dychwelyd i'r ymchwilydd drwy'r post.

Paratowyd adroddiad ynglŷn â'r ymchwil i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2000 (Atodiad 15).

Dychwelwyd 1926 o ffurflenni o 132 cylch yn dilyn yr ail ymchwiliad.

5.6.5 Ymchwiliad 3

Er mwyn edrych ar y datblygiad a fu yng Nghymraeg y plant yn y cylchoedd rhaid oedd gwneud y monitro ddwywaith. Penderfynwyd gofyn i arweinyddion y cylchoedd a ddychwelodd y ffurflenni ym mis Hydref 2000 i ail lenwi'r ffurflenni datblygiad iaith yn nechrau mis Gorffennaf sef yn ystod hanner tymor olaf y flwyddyn addysgol.

Argraffwyd copïau o'r un ffurflen a ddefnyddiwyd ym mis Hydref ond y tro hwn cwblhawyd y wybodaeth bersonol a gafwyd am y plant ym mis Hydref ar frig y Ffurflen Datblygiad Iaith. Gwnaed bas-data o'r wybodaeth bersonol a gaed am bob plentyn yn y rhaglen gyfrifiadurol (Microsoft) Excel. <Rhif plentyn> <Tref cylch> <Enw'r cylch> <Cyfenw'r plentyn> <Enw cyntaf y plentyn> <Gender> <Dyddiad Geni>. Roedd amrywiaeth mawr ym maint y wybodaeth a gafwyd am bob plentyn ond roedd digon o wybodaeth i'r arweinyddion adnabod ffurflen bwrpasol pob plentyn. Rhoddwyd rhif adnabod pob plentyn ar y ffurflenni er mwyn hwylustod ar ôl iddynt gael eu dychwelyd. Trosglwyddwyd y data hwn i'r ffurflenni drwy 'mail merger' ac fe'i hargraffwyd a'u trefnu fesul cylchoedd a thaleithiau.

Darparodd Mr Hywel Jones, Prif Weithredwr Mudiad Ysgolion Meithrin, lythyr yn egluro'r broses i'r arweinyddion i'w ddosbarthu iddynt gyda'r ffurflenni (Atodiad 16).

Felly, cyflwynwyd pecyn yn cynnwys y canlynol i bob arweinydd yn yr ymchwiliad: Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 12) gyda manylion arnynt ar gyfer pob plentyn yn y cylch y cwblhawyd ffurflen ar eu cyfer ym mis Hydref 2000, copi Saesneg o'r ffurflen (Atodiad 9) a llythyr eglurhaol gan Mr Hywel Jones, Prif Weithredwr Mudiad Ysgolion Meithrin (Atodiad 16).

Roedd trefniadau dosbarthu a chasglu'r ffurflenni yr un fath â chydag Ymchwiliad 2, gyda Swyddogion Datblygu'r Mudiad yn dosbarthu'r ffurflenni i'r cylchoedd yn ystod yr wythnos yn dechrau 11 Mehefin 2001, ac yn eu casglu ymhen

pythefnos, sef yr wythnos yn dechrau 25 Mehefin 2001. Dychwelodd y Swyddogion Datblygu y ffurflenni yn ôl i'r ymchwilydd.

5.6.6 Sampl yr Ymchwil

Ar gyfer ail ran yr ymchwil dewiswyd cylchoedd ar hyd a lled Cymru. Dewiswyd y 180 cylch i gymryd rhan yn yr ymchwil gan Mudiad Ysgolion Meithrin yn ganolog. Dewiswyd tua thraean o gylchoedd pob sir i gymryd rhan yn yr ymchwil.

Tabl 5.5 Dosbarthiad y cylchoedd yn yr ymchwil o ran Siroedd Mudiad Ysgolion Meithrin

	Nifer o gylchoedd yn yr Ymchwil	Nifer o gylchoedd yn y Sir
Arfon	10	-
Dwyfor	6	-
Meirion	7	-
(Gwynedd)	(23)	(94)
Ynys Môn	10	42
Conwy	8	40
Dinbych	6	28
Wrecsam	5	13
Fflint	3	10
Caerdydd	6	30
Merthyr Tudful	0	9
Casnewydd	0	6
Caerffili	4	24
Ogwr	3	16
Bro Morgannwg	2	13
Blaenau Gwent / Mynwy	3	7
Rhondda Cynon Taf	8	34
Torfaen	0	7
Gogledd Powys	6	-
De Powys	2	-
(Powys)	(8)	(26)
Ceredigion	12	59
Caerfyrddin	17	69
Penfro	6	18
Castell Nedd Port Talbot	3	14
Abertawe	5	19
Cyfanswm	**132**	**578**

Cynhwyswyd pob plentyn a oedd yn mynychu y cylchoedd meithrin yn y sampl ym mis Hydref 2000 yn yr ymchwil. Cymerodd 22.8% o gylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin ran yn yr ymchwil. Anfonwyd y Ffurflenni at tua thraean o'r cylchoedd felly dychwelodd tua 70% o'r cylchoedd y Ffurflenni Datblygiad Iaith yn ôl ar gyfer Ymchwiliad 2, canran uchel iawn o ymateb. Gwnaed yr ymchwil ddwywaith, sef ym mis Hydref 2001 ac ym mis Gorffennaf 2001. Erbyn ail ran yr

ymchwil cenedlaethol roedd 667 o'r plant wedi gadael y cylchoedd meithrin neu heb eu cynnwys yn y sampl am ryw reswm. Roedd nifer ohonynt wedi gadael i fynd i ysgolion cynradd. Roedd hyn i'w ddisgwyl gan fod plant yn gadael cylchoedd meithrin gwahanol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn a bod rhai hefyd yn gadael yr ardal.

5.6.7 Nodweddion y Sampl

Ceir amrywiaeth mawr o ran nodweddion y cylchoedd o safbwynt lleoliad daearyddol, cefndir ieithyddol, maint cylchoedd, nifer y sesiynau a gynhelir bob wythnos ac oedran y plant sy'n eu mynychu. Roedd yn amlwg o'r canlyniadau fod rhai cylchoedd yn y sampl ar agor dim ond dwywaith yr wythnos, tra bod canran fechan ar agor 10 sesiwn yr wythnos. Amrywiai'r nifer fesul cylch yn y sampl o bedwar i 40 o blant. Yn ôl tystiolaeth yr arweinyddion, amrywiai oedran y plant o ddwy flwydd a mis i bedair blwydd a thri mis ym mis Hydref 2000. Roedd ganran o ferched (51.8%) ychydig yn uwch na'r ganran o fechgyn (48.2%) yn y brif sampl.

Gan fod y sampl o bob rhan o Gymru, yn naturiol, ceir hefyd amrywiaeth o ran cefndir ieithyddol y plant yn y sampl. Yn sampl Ymchwiliad 2 roedd 23.5% o'r teuluoedd yn deuluoedd lle siaradai'r ddau riant Gymraeg drwy'r amser, neu bron drwy'r amser gyda'r plentyn, 39.1% yn deuluoedd gyda'r ddau riant yn siarad Saesneg drwy'r amser, neu bron drwy'r amser gyda'r plentyn. Mewn 37.4% o'r teuluoedd defnyddiwyd y ddwy iaith i raddau amrywiol.

Cymerodd 270 plentyn ran yn Ymchwiliad 1 ac 1926 plentyn oedd yn sampl Ymchwiliad 2. Cymerodd 1259 o blant o 102 cylch meithrin ran yn yr ymchwil cyfan, hynny yw, mesurwyd datblygiad iaith 1259 plentyn dros gyfnod o naw mis.

5.7 Offerynnau Ymchwil

5.7.1 Holiadur

Roedd y fethodoleg yn yr astudiaeth hon yn cynnwys llunio Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 8) ar ffurf holiadur. Mantais defnyddio ffurflen ar ffurf holiadur i gasglu gwybodaeth yw ei bod yn bosibl cael gwybodaeth gan nifer fawr o bobl ar unwaith heb dreulio gormod o amser yn gwneud y gwaith. Hefyd mae'r wybodaeth wedi ei safoni i raddau gan mai'r un ffurflen a lenwir gan bob atebwr. Gellir sicrhau bod yr atebion yn anhysbys os oes angen ac mae siawns y bydd cyfradd uchel yn ymateb (Drever a Munn, 1995, 2). Er mwyn sicrhau cyfradd ymateb uchel i'r ffurflen, ceisiwyd ei gwneud mor rhwydd â phosibl i'w chwblhau. Ceisiwyd hefyd wneud y broses o ddychwelyd y ffurflenni yn rhwydd drwy drefnu bod Swyddogion Datblygu y mudiad yn eu casglu bythefnos ar ôl eu dosbarthu. Golygai'r ffaith bod y Swyddogion Datblygu yn eu casglu ei bod yn bosibl holi ynglŷn ag unrhyw ffurflenni a oedd yn hwyr a datrys unrhyw broblemau.

Anogwyd yr arweinyddion i gwblhau'r ffurflenni mewn llythyr gan Mr Hywel Jones, Prif Weithredwr y mudiad (Atodiadau 14 ac 16). Anfonwyd y llythyr allan gyda'r ffurflenni i bwysleisio pwysigrwydd cwblhau'r ffurflenni ac yn arbennig pwysleisio arwyddocâd a manteision yr ymchwil i'r cylchoedd. Drwy gynnwys llythyr gan y mudiad yn cyflwyno'r ymchwilydd a'r prosiect ymchwil, rhoddwyd mwy o awdurdod i'r ymchwil ac felly cynyddwyd y siawns y byddai nifer uchel yn eu dychwelyd. Yn y llythyr hefyd fe sicrhawyd y byddai'r wybodaeth am blant a chylchoedd unigol yn aros yn gyfrinachol ac y gallai'r enwau'r plant aros yn anhysbys. Dynododd y llythyr fwriad yr ymchwil sef dangos fod mynychu cylch meithrin yn hybu Cymraeg plant. Yn bennaf nododd fanteision yr ymchwil i'r Mudiad Ysgolion Meithrin ac i'r cylchoedd meithrin. Dynododd y llythyr gefnogaeth y mudiad i'r ymchwil a diolchodd i'r arweinyddion am eu parodrwydd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Cynhwysai'r llythyr hefyd wybodaeth ymarferol ynglŷn â'r dyddiad y byddai'r Swyddogion Datblygu yn casglu'r ffurflenni a gwblhawyd.

> *The purpose of the covering letter/sheet is to indicate the aim of the research, to convey to respondents its importance, to assure them of confidentiality, and to encourage their replies.*
> (Cohen et al., 2000, 260)

5.7.2 Cynnwys y Ffurflen Datblygiad Iaith

Rhannwyd y ffurflen a luniwyd yn 4 rhan.

i. **Rhan Ddechreuol – Manylion am y plentyn.**
ii. **Rhan A – Gwrando a Deall**
iii. **Rhan B – Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg**
iv. **Rhan C – Sgiliau Llythrennedd Cynnar**

5.7.2.1 Rhan Ddechreuol

Yn rhan gyntaf y ffurflen rhoddir lle i'r arweinydd roi manylion personol am y plentyn. Gofynnir am ddyddiad geni, dyddiad cychwyn yn y cylch, rhyw ac enw'r plentyn. Os nad oedd yr arweinyddion am roi enwau'r plant ar y ffurflen, awgrymwyd y gallent roi llythrennau blaen y plentyn neu rif y plentyn ar gofrestr y cylch. Yn ogystal â hyn rhoddir lle i roi enw a lleoliad y cylch. Ceir tabl yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â'r iaith a ddefnyddir rhwng y plentyn a'r canlynol: mam, tad, brawd / chwaer a gwarchodwr (os yn berthnasol). Rhoddwyd chwech dewis yn y tabl sef, Cymraeg bron drwy'r amser neu drwy'r amser, Cymraeg mwy na Saesneg, Cymraeg a Saesneg tua chyfartal, Saesneg mwy na Chymraeg, Saesneg drwy'r amser neu bron drwy'r amser, Ddim yn berthnasol / ddim yn gwybod.

5.7.2.2 Rhan A - Gwrando a Deall

Yn yr ail ran gofynnir am wybodaeth gan yr arweinydd ynglŷn â sgiliau gwrando a deall y plentyn. Rhoddir naw gosodiad megis 'Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg', 'Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg' a 'Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.' Rhoddir pedwar bocs gyferbyn â phob gosodiad, teitlau y pedwar bocs yw 'Fel arfer', 'Weithiau', 'Dechrau' a 'Dim eto'. Defnyddiwyd graddfa yn hytrach nag ateb cadarnhaol neu negyddol er mwyn ceisio ymateb i'r gwahanol bosibiliadau heb orfod gofyn cwestiynau hollol benagored. Byddai gofyn cwestiynau penagored yn cynhyrchu gormod o wybodaeth a fyddai'n anodd ei dadansoddi (Cohen et al., 2000, 253).

Rating scales are widely used in research, and rightly so, for they combine the opportunity for a flexible response with the ability to determine frequencies, correlation and other forms of quantitive analysis. They afford the researcher the freedom to fuse measurement with opinion, quantity and quality.
(Cohen et al., 2000, 253)

Ceisiwyd cael amrywiaeth yn y gosodiadau er mwyn cynnwys plant sy'n dechrau caffael y Gymraeg a rhai sy'n rhugl. Gofynnir i'r arweinydd roi tic yn y bocs sy'n addas i ddisgrifio'r plentyn mewn cyfatebiaeth â'r gosodiad.

5.7.2.3 Rhan B - Siarad a Chyfathrebu

Yn y drydedd ran gofynnir am wybodaeth gan yr arweinydd ynglŷn â sgiliau y plentyn wrth siarad a chyfathrebu yn Gymraeg. Yn yr adran hon ceir 11 gosodiad amrywiol megis 'Ateb cwestiynau syml', 'Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml' a 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni'. Unwaith eto rhoddir pedwar bocs gyda'r un teitlau ag yn y rhan Sgiliau Gwrando a Deall.

5.7.2.4 Rhan C - Sgiliau Llythrennedd Cynnar

Yn y pedwaredd ran ceir gosodiadau am sgiliau llythrennedd cynnar y plentyn. Fel yn y ddwy ran flaenorol rhoddir pedwar bocs i'r arweinyddion ddewis ohonynt. Ceir 10 gosodiad yn y rhan hon gan gynnwys er enghraifft, 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun', 'Ymateb i gynnwys lyfr' ac 'Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg'.

Rhoddir lle ar ddiwedd y ffurflen i'r arweinyddion roi unrhyw sylwadau yr hoffent eu gwneud am y plentyn.

5.7.3 Iaith a Chyfieithu

Lluniwyd y ffurflen yn Gymraeg ac argraffwyd copi Cymraeg ar gyfer pob plentyn a oedd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Cyfieithwyd y ffurflen i'r Saesneg a darparwyd un

copi Saesneg i bob cylch er mwyn gallu cyfeirio ato ac er mwyn ei ddangos i rieni di-Gymraeg pe baent am ei ddarllen.

Drwy wneud y Ffurflen Datblygiad Iaith mor syml â phosibl yn y Gymraeg llwyddwyd i gael ffurflen a oedd yn eithaf rhwydd i'w chyfieithu.

5.8 SPSS

Gwnaed y dadansoddiad ystadegol drwy ddefnyddio fersiwn 9.0 o'r rhaglen gyfrifiadurol SPSS (The Statistical Package for the Social Sciences) . Rhoddwyd y data yn y rhaglen ar ffurf codau drwy ddefnyddio SPSS Data Input. Defnyddiwyd y modylau canlynol o fewn SPSS: amleddau, croesdabliad, cydberthyniadau, gan gynnwys profion t-test ac ANOVA, a dadansoddiad ffactoraidd. Defnyddiwyd y rhaglen SPSS hefyd ar gyfer gwirio'r data cychwynnol. Hynny yw, adnabuwyd codau a oedd y tu allan i'r rhai disgwyliedig ('outliers') mewn dadansoddiad amlder dechreuol, a chywirwyd y rhain. Cynhyrchwyd y graffig i ddangos y canlyniadau yn SPSS ac Excel.

5.9 Cyfyngiadau'r Ymchwil

Mae cyfyngiadau amlwg wrth ddefnyddio holiadur yn hytrach na holi'r atebwr yn bersonol neu arsylwi ar y plentyn yn y cylch. Tuedda'r wybodaeth a geir drwy lenwi holiadur i ddisgrifio yn hytrach nag esbonio, gall y wybodaeth hon fod yn arwynebol ac fe all yr amser drafftio a pheilotio fod yn hir (Drever a Munn, 1995, 5).

Wrth anfon ffurflen fel y Ffurflen Datblygiad Iaith i arweinyddion rydym yn dibynnu ar y ffaith y byddant yn dehongli'r ffurflen yn yr un modd. Rydym hefyd yn dibynnu arnynt i ateb mor gywir ag y gallant. Hefyd wrth lunio graddfeydd megis y rhai a ddefnyddiwyd ar y ffurflen 'Fel arfer, Weithiau, Dechrau, Dim eto' rydym yn gobeithio am gysondeb rhwng dehongliadau'r arweinyddion gwahanol. Mae hon yn broblem sy'n amhosibl i'w goroesi gan ein bod yn dibynnu ar arweinyddion sy'n adnabod y plant i lenwi'r ffurflenni. Rhaid hefyd nodi nad yw'r gwahaniaethau rhwng

y pedwar dewis yn y raddfa yr un peth. Er enghraifft, mae'r gwahaniaeth rhwng 'Dim eto' a 'Dechrau' a 'Weithiau' a 'Fel arfer' yn wahanol. Gellir dadlau fod y gwahaniaeth rhwng 'Dim eto' a 'Dechrau' yn fach iawn ond o safbwynt dechrau deall a siarad Cymraeg mae'n gam mawr iawn. Wrth roi graddfa o bedwar pwynt yn hytrach na gofyn cwestiwn penagored ni allwn wybod a oedd yr atebwyr yn gweld yr angen i roi ateb arall yn wahanol i'r dewis.

Wrth ddewis defnyddio holiadur mae'r dewisiadau o ran atebion fel arfer yn agored i ddehongliad yr arweinydd, mae hyn hefyd yn wir am y gosodiadau eu hunain a'r tabl ynglŷn â'r iaith a ddefnyddir rhwng y plentyn a'i dad, mam ac yn y blaen.

Ceisiwyd gwneud y ffurflen mor hunan-esboniadwy â phosibl a cheisiwyd rhoi cyn lleied o gyfarwyddiadau â phosibl. Mae'n debyg y gellid fod wedi rhoi mwy o gyfarwyddiadau ac enghreifftiau ar y ffurflen er mwyn ei gwneud yn berffaith glir beth oedd disgwyl i'r arweinyddion ei wneud ond y bwriad oedd gwneud y ffurflen mor syml â phosibl.

Nid oedd lle ar y ffurflen i nodi os oedd y plentyn yn mynychu'n rheolaidd ai peidio, dim ond lle i nodi sawl sesiwn yr wythnos yr oedd yn ei fynychu. Gellid dadlau bod hyn yn cyfyngu ar yr ymchwil gan nad yw'n bosibl i'r cylch meithrin ddylanwadu ar ddatblygiad iaith plentyn os nad yw'n mynychu'n rheolaidd. Cymerodd rhai arweinyddion y cyfle i nodi gwybodaeth fel 'Pa mor aml mae plentyn yn mynychu'r cylch' yn y lle priodol i gyfleu unrhyw wybodaeth berthnasol eraill ynglŷn â'r plentyn.

Dylid bod wedi cynnwys 'mam / gwarcheidwad' a 'tad / gwarcheidwad' yn hytrach na dim ond 'mam' a 'tad' yn y tabl 'pa iaith a ddefnyddir rhwng y plentyn a'r canlynol' yn rhan ddechreuol y Ffurflen Datblygiad Iaith.

Mae'n bosibl hefyd fod yr arweinyddion, yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn disgwyl mwy gan rai plant nag eraill. Er enghraifft efallai eu bod yn disgwyl mwy gan blant hŷn, gan rai sydd wedi bod yn y cylch am amser hwy neu gan blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae'n bosibl hefyd eu bod yn ateb yn fwy ffafriol gan eu bod am

gael eu gweld fel arweinyddion 'da'. Ond gan mai mesur y datblygiad ac nid y cyrhaeddiad yw'r bwriad ni ddylai hyn amharu ar ganlyniadau'r ymchwil.

Ceisiwyd osgoi cwestiynau awgrymog ac amwys yn y gwaith.

Mae'n amhosibl dweud beth yw effaith nodi mai Prifysgol Cymru Bangor sy'n gyfrifol am y prosiect ymchwil. Gall rhai o'r Arweinyddion gymryd y ffaith mai Prifysgol Cymru Bangor sy'n gyfrifol am yr ymchwil fel ymyrraeth o'r tu allan i'r mudiad ac yn arbennig felly o'r byd academaidd. Mae'n bosibl bod rhai wedi dewis peidio cwblhau'r ffurflenni datblygiad iaith oherwydd hyn.

Ni ddefnyddiwyd cwestiynau penagored gan y byddai hynny yn cynhyrchu gormod o wybodaeth a fyddai'n anodd i'w ddadansoddi; ceisiwyd rhoi digon o ddewis fel atebion ond mae'n bosibl nad oedd y dewisiadau hyn yn cwmpasu pob amgylchiad.

Dewiswyd gwneud astudiaeth arhydol (longitudinal survey) pan weithredwyd y Ffurflen Datblygiad Iaith yn genedlaethol. Golygai hyn gasglu data ar wahanol adegau am yr un grŵp o unigolion. Drwy wneud hyn gellir dilyn yr un unigolion dros gyfnod o amser a cheisio nodi newidiadau mewn unigolion a thrwy hynny geisio gweld pa reswm sydd dros y newidiadau. Ni ellir edrych ar newidiadau mewn unigolion mewn astudiaeth duedd (trend study) neu astudiaeth dorfol (cohort study) gan fod unigolion gwahanol yn y sampl ar wahanol adegau (Borg a Gall, 1983, 411-412).

Ond wrth ddewis dilyn un grŵp o unigolion dros gyfnod o amser mae'n anorfod y bydd rhai yn gadael yr ymchwil am nifer o resymau. Y rheswm amlwg yn yr astudiaeth ymchwil hon oedd fod y plant yn gadael y cylch meithrin ac yn mynd i ddosbarth meithrin yn yr ysgol gynradd.

Ceir problem ychwanegol yn y fan hon gan nad yw'n bosibl dweud a yw'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil hyd y diwedd yn gynrychiolaeth deg o'r rhai a ddechreuodd yr ymchwil.

Not only does the number of subjects become smaller, but the remaining subjects may be a biased sample because those who drop out are likely to be different from those who continue to cooperate in the study.
(Borg a Gall, 1983, 413).

Mae'n bosibl bod nifer o'r rhai sydd wedi gadael am nad yw eu rhieni yn frwd iawn dros addysg Gymraeg. Efallai bod y rhieni wedi dod o hyd i warchodwr llawn amser i'r plentyn. Fel y soniwyd eisoes roedd nifer y rhai a adawodd yr ymchwil wedi gadael y cylch meithrin i fynd i'r dosbarth meithrin yn yr ysgol gynradd. Felly mae'n debyg mai rhai o'r plant hynaf yn yr ymchwil a adawodd yr ymchwil cyn y diwedd. Mae'n bosibl hefyd fod rhai arweinyddion wedi anghofio llenwi neu anghofio dychwelyd y ffurflenni.

5.10 Casgliad

Yn y bennod hon trafodwyd methodoleg llunio a gweithredu'r Ffurflen Datblygiad Iaith ar gyfer Mudiad Ysgolion Meithrin. Trafodwyd y tri ymchwiliad, bwriad a chyd-destun yr ymchwil, y samplau ymchwil, yr offerynnau ymchwil a chyfyngiadau'r ymchwil.

Cymerodd 270 o blant o ddeg cylch yng ngogledd Cymru ran yn yr ymchwiliad cyntaf ym Mehefin a Gorffennaf 2000. Yn y ddau ymchwiliad cenedlaethol cymerodd 1926 o blant o 131 o gylchoedd ran yn yr ymchwiliad cyntaf ym mis Hydref 2000 a 1259 o blant o 102 cylch yn yr ail ymchwiliad cenedlaethol ym Mehefin a Gorffennaf 2001.

PENNOD 6

CANLYNIADAU YMCHWILIAD 1 AC YMCHWILIAD 2

6.1 Bwriad y Bennod

Bwriad y bennod hon yw cyflwyno canlyniadau Ymchwiliadau 1 a 2. Yn rhan gyntaf y bennod cyflwynir canlyniadau Ymchwiliad 1, yn gyntaf ar ffurf amleddau fel canrannau dilys, yna edrychir ar gydberthyniadau er mwyn gweld pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y canlyniadau a gwneir dadansoddiad ffactoraidd i weld pa ffactorau sy'n cael y dylanwad mwyaf ar y canlyniadau. Yn ail ran y bennod cyflwynir canlyniadau Ymchwiliad 2, unwaith eto cyflwynir yr amleddau ar ffurf canrannau dilys ac yna edrychir ar gydberthyniadau a rhoddir canlyniadau'r dadansoddiad ffactoraidd a wnaed.

6.2 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn cyflwyno canlyniadau'r Ymchwiliad Cyntaf a wnaed yng ngogledd orllewin Cymru a'r Ail Ymchwiliad a wnaed yn genedlaethol. Cymerodd deg cylch a 270 o blant ran yn yr Ymchwiliad Cyntaf a 132 cylch a 1926 o blant yn yr Ail Ymchwiliad.

Defnyddiwyd y Ffurflen Datblygiad Iaith a welir yn Atodiad 8 (Ymchwiliad 1) ac Atodiad 12 (Ymchwiliad 2) i gasglu'r wybodaeth ar gyfer y canlyniadau yn y bennod hon.

Dadansoddwyd data'r ffurflenni yn ystadegol a dyma sy'n sail i ganlyniadau'r bennod hon.

Yn gyntaf dadansoddir canlyniadau'r plant gan roi amlinelliad o'r data. Mae amlderau ym mhob adran o'r ffurflen yn cael eu cyflwyno ar ffurf tablau canrannau dilys.

Yn ail, mae'r bennod yn edrych ar y amleddau yn ôl grwpiau gwahanol yn y sampl. Cymherir canlyniadau'r plant o ran eu rhyw, oedran, dyddiad dechrau, nifer y sesiynau a fynychant a iaith eu teulu.

Hefyd yn y bennod hon gwneir dadansoddiad ffactoraidd o bob adran o'r ffurflen. Yna dadansoddir y gwahaniaethau rhwng y gwahanol grwpiau yn y sampl ar y sgoriau newidynnau cudd. Esbonnir y gwahaniaethau rhwng canlyniadau'r plant ar sail eu rhyw, oedran, dyddiad dechrau, nifer sesiynau a iaith y teulu.

Dadansoddwyd yr ystadegau drwy ddefnyddio SPSS (The Statistical Package for the Social Sciences) fersiwn 9.0. Rhoddir manylion ynglŷn â'r dadansoddiad ystadegol yn y bennod hon.

6.3 Dilysrwydd

Wrth greu prawf mae'n bwysig sefydlu dilysrwydd y raddfa. Mae pump gwahanol fath o ddilysrwydd; cynnwys (*content*), dyfais (*construct*), rhagfynegol (*predictive*), a criteria. Cafodd dilysrwydd y cynnwys ei sefydlu gan y grŵp arbenigol a gynhwysai arbenigwyr ar y Gymraeg fel ail iaith yng Nghymru ac wrth ymgynghori ag arbenigwyr yn rhyngwladol ar gyflwyno ail iaith i blant sef Dr Tina Hickey, yr Athro Marilyn Vihman, Dr Margaret Deuchar a Dr Susan Gathercole. Dilysrwydd criteria yw a yw'r prawf yn cydberthyn gyda newidynnau eraill (e.e. yn yr achos hwn rhyw, oedran, iaith, dyddiad dechrau yn y cylch, nifer sesiynau, cylch).

Dilysrwydd dyfais yw a yw'r prawf yn ffitio i mewn i theori er enghraifft o ddatblygiad iaith. Mae hwn yn anoddach yn yr ymchwil hwn gan nad oes un theori clir mae'r ymchwil yn ffitio i mewn iddo.

Dilysrwydd rhagfynegol yw a yw'r sgoriau prawf yn eithaf mawr wrth ragfynegi er enghraifft sgiliau ieithyddol yn y dyfodol a llwyddiant yn y Gymraeg yn yr ysgol. O ystyried natur hirdymor dilysrwydd rhagfynegol mae y tu allan i sgôp maes yr ymchwil hwn, fodd bynnag yn Ymchwiliad 3, dadansoddir y berthynas rhwng sgoriau prawf dros gyfnod o naw mis.

Math arall o ddilysrwydd yw dilysrwydd ffactoraidd. Yn yr achos hwn tra mae datblygiad iaith cyffredinol yn cael ei brofi mae tair is raddfa. Y cwestiwn i'w ofyn yw a yw'r dair graddfa yn un raddfa cyflawn yntau a oes tair is raddfa annibynnol.

Awgrymodd dadansoddiad o'r graff *scree* (Atodiad 17) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi eu cylchdroi bresenoldeb tri dimensiwn. Rhoddir y dimensiynau yn y tablau isod.

Tabl 6.1 Dadansoddiad Ffactoraidd y Raddfa Gyfan – Ffactor 1

Ffactor 1 Enw'r ffactor – Siarad a chyfathrebu	
Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml	0.912
Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni	0.902
Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell	0.893
Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol	0.892
Ateb cwestiynau syml	0.878
Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau	0.878
Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell	0.866
Dangos awydd ac ymdrech i siarad	0.817
Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg	0.799
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	0.779
Defnyddio enwau gwrthrychau syml	0.774
Gallu dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori	0.741
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg	0.708
Ymateb i gynnwys llyfr	0.689
Defnyddio iaith fathemategol	0.664
Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	0.462
Ymuno mewn caneuon a rhigymau - heb ddeall yr ystyr	0.431

Tabl 6.2 Dadansoddiad Ffactoraidd y Raddfa Gyfan – Ffactor 2

Ffactor 2 Gwrando a deall	
Gwrando ac ymateb - un i un gyda'r arweinydd	0.835
Gwrando ac ymateb - mewn grŵp bychan	0.830
Gwrando gyda diddordeb ar stori Gymraeg	0.745
Gwrando ac ymateb - mewn grŵp mawr	0.708
Mwynhau gwrando ar storïau Cymraeg	0.694
Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun	0.678
Ymuno mewn caneuon ayyb - a deall yr ystyr	0.672
Mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn	0.666
Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd	0.641
Mwynhau gweithgareddau'r cylch	0.594
Mwynhau teledu / fideos / tapiau Cymraeg	0.576
Ymuno mewn caneuon a rhigymau - heb ddeall yr ystyr	0.515
Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau	0.501
Defnyddio enwau gwrthrychau syml	0.427
Adnabod rhai llythrennau	0.422
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg	0.419
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	0.367
Defnyddio iaith fathemategol	0.361

Tabl 6.3 Dadansoddiad Ffactoraidd y Raddfa Gyfan – Ffactor 3

Ffactor 3 Sgiliau llythrennedd cynnar	
Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg yn ddealladwy	0.784
Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau Cymraeg	0.736
Adnabod rhai llythrennau	0.686
Cyfathrebu trwy lun / marciau a thrafod	0.658
Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg	0.646
Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	0.596
Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau	0.527
Dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori	0.366
Ymateb i gynnwys llyfr	0.321

Mae math arall o ddilysrwydd sef addasrwydd y prawf i'w bwrpas. Mae hwn yn cyfeirio at a yw'r prawf yn werthfawr a defnyddiol mewn sefyllfaoedd real. Yn yr achos hwn mae'r prawf yn ymwneud ag a yw arweinyddion a swyddogion Mudiad

Ysgolion Meithrin yn credu fod y prawf yn ddefnyddiol mewn cylchoedd trwy Gymru. Gofynnwyd i'r Arweinyddion lenwi ffurflen werthuso er mwyn gweld a oeddynt yn credu bod y prawf yn un addas ar gyfer ei bwrpas (Atodiad 10).

Mesurir dibynadwyedd mewnol gan fesur Alpha Cronbach.

> *essentially it is a measure of the degree of consistency within a test*
> (Youngman, 1979, 180)

Tabl 6.4 Dibynadwyedd Alpha – Ymchwiliad 1

Adran	Alpha
Gwrando a Deall	0.9531
Siarad a Chyfathrebu	0.9772
Sgiliau Llythrennedd Cynnar	0.8957
Y Raddfa Gyfan	0.9743

Gwelir o'r tabl uchod bod mesur alpha uchel ar gyfer y tair adran. Dengys hyn bod yr adrannau yn gyson yn mesur yr un nodwedd. Gwelir hefyd bod mesur alpha uchel ar gyfer y raddfa yn ei chyfanrwydd gan ddangos bod y Ffurflen Datblygiad Iaith yn gyson. Roedd sgôr alpha'r dair adran gyda'i gilydd (0.9743) yn uchel iawn. Mae sgôr alpha o dros 0.70 yn dderbyniol i ddangos cysondeb mewnol (Youngman, 1979, 45).

6.4 Ymchwiliad 1 – Gorffennaf 2000

6.4.1 Cyflwyniad i Ymchwiliad 1

Yn y rhan hon o'r bennod cyflwynir canlyniadau Ymchwiliad 1, sef yr ymchwiliad cyntaf a wnaed i asesu iaith plant yng nghylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin. Gwnaed yr ymchwil hwn mewn deg cylch yng ngogledd orllewin Cymru, roedd 270 o blant yn y sampl. Profwyd iaith y plant hyn unwaith yn unig gan gymharu eu sgiliau iaith o safbwynt eu rhyw, oedran, pa mor hir y buont yn mynychu'r cylch a

pha iaith neu ieithoedd a siaradwyd yn y teulu. Defnyddiwyd y Ffurflen Datblygiad Iaith i gasglu'r wybodaeth (Atodiad 8).

6.4.2 Amleddau

Dadansoddwyd tair adran y ffurflen sef Adran A Gwrando a Deall, Adran B Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg ac Adran C Sgiliau Llythrennedd Cynnar ar wahân, a cheir y canlyniadau ar gyfer pob eitem ar ffurf canrannau dilys.

6.4.2.1 Adran Gwrando a Deall

Bwriad Adran A yw edrych ar barodrwydd a gallu'r plant i wrando a deall mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y cylch meithrin. Mae'r adran yn cynnwys 12 eitem yn ymwneud â gwrando a deall yn y cylch. Gofynnwyd i'r Arweinyddion ateb drwy ddewis un o bedwar dewis ar y raddfa bwyntiau. Y dewisiadau oedd 'fel arfer', 'weithiau', 'dechrau' a 'dim eto'.

Rhoddir y canlyniadau ar gyfer pob eitem yn y tabl isod ar ffurf canrannau dilys.

Tabl 6.5 Amleddau Adran Gwrando a Deall

		Fel arfer %	Weithiau %	Dechrau %	Dim eto %
1	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg heb ddeall yr ystyr	66.7	18.0	10.4	5.0
2	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg – deall rhywfaint o'r cynnwys.	59.2	20.0	17.3	3.5
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	74.0	17.2	6.1	2.7
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	68.7	19.0	8.2	4.1
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	59.9	22.5	12.0	5.6
4	Gwrando gyda diddordeb ar stori Gymraeg.	70.0	18.0	8.6	3.4
5	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	61.9	11.6	20.5	6.0
6	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	54.9	16.2	20.3	8.6
7	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	56.8	15.2	16.3	11.7
8	Mwynhau gwrando ar storïau Cymraeg.	72.7	15.9	10.6	0.8
9	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	85.0	12.0	2.3	0.8
10	Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	77.7	13.0	8.9	0.4

Awgryma'r tabl uchod bod canrannau uchel o'r plant yn gwrando ac yn deall beth sy'n digwydd yn y cylch meithrin. Mae dros hanner y plant yn y categori 'fel arfer' ar gyfer pob un o'r eitemau. Gwelir y canrannau uchaf o gytundeb yn yr eitemau ynglŷn â mwynhau yn hytrach na gwrando, deall neu ymateb. Nodir fod 85% o'r plant fel arfer yn mwynhau gweithgareddau'r cylch, a 77.7% fel arfer yn mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau Cymraeg. Gwelir y canrannau isaf o gyflawni'r eitemau 'fel arfer' yn y rhai a gynhwysai'r elfen o ddealltwriaeth, sef 'Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori', 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg', 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg gan ddangos eu bod yn deall rhywfaint o'r cynnwys' a 'Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg'. Yn gyffredinol gellir nodi bod y canrannau yn Adran Gwrando a Deall yn rhannu'n dair adran sef bod y canrannau uchaf yn y categori 'fel arfer' yn eitemau sy'n ymwneud â mwynhad y

plant yn y cylch, y rhai ychydig yn is yn canolbwyntio ar wrando a'r rhai isaf yn ymwneud â dangos dealltwriaeth o'r hyn a glywant yn Gymraeg yn y cylch.

6.4.2.2 Adran Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg

Yn Adran B gofynnwyd i'r Arweinyddion nodi pa ddewis oedd yn addas ar gyfer pob plentyn mewn cyfatebiaeth â'r gosodiadau. Rhestrwyd 12 gosodiad yn ymwneud â siarad a chyfathrebu yn Gymraeg yn y cylch meithrin. Gofynnwyd i'r Arweinyddion ateb drwy ddewis un o bedwar dewis ar raddfa bwyntiau. Y dewisiadau oedd 'fel arfer', 'weithiau', 'dechrau' a 'dim eto'.

Rhoddir y canlyniadau ar ffurf canrannau ar gyfer pob gosodiad isod.

Tabl 6.6 Amleddau Adran Siarad a Chyfathrebu

		Fel arfer %	Weithiau %	Dechrau %	Dim eto %
1	Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd.	64.2	21.6	11.2	3.0
2	Defnyddio enwau gwrthrychau syml – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, teganau ayyb.	53.6	16.9	23.6	6.0
3	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, maint.	34.8	24.4	29.3	11.5
4	Ateb cwestiynau syml.	54.9	12.8	11.3	21.1
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	49.1	12.8	14.3	23.8
6	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni.	40.4	15.0	10.9	33.7
7	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	37.5	14.9	11.2	36.4
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	40.5	13.8	10.0	35.7
9	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	43.5	15.2	7.8	33.5
10	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	44.6	11.5	5.2	38.7
11	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	52.2	10.4	23.3	14.1

Nid oedd y canrannau yn y categori 'fel arfer' mor uchel y tro hwn. Dim ond ar gyfer pedair eitem y gwelir canrannau dros 50% yn y golofn hon y tro hwn mewn cyfatebiaeth â phob un yn Adran Gwrando a Deall. Gwelir y canran uchaf o 'fel arfer' ar gyfer y gosodiad 'Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd' sy'n adlewyrchu'r defnydd o rigymau a chaneuon yn y cylch meithrin. Mae hyn hefyd yn awgrymu mai dyma'r cam cyntaf yn y broses o gynhyrchu iaith newydd, sef drwy ailadrodd ac atgynhyrchu'r hyn a glywir gan arweinyddion y cylchoedd ar ffurf gyfarwydd. Gwelir y canrannau uchaf eraill yn y categori 'fel arfer' yn yr eitemau 'Ateb cwestiynau syml', 'Defnyddio enwau gwrthrychau syml – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, teganau ayyb.' a 'Dangos awydd ac ymdrech i siarad'. Mae'n debyg bod y gosodiadau 'Ateb cwestiynau syml' a 'Defnyddio enwau gwrthrychau syml' hefyd yn adlewyrchu'r camau cyntaf mewn cynhyrchu iaith am y tro cyntaf, sef ateb cwestiynau syml gydag ateb un gair fel arfer, er enghraifft 'Pa liw ydi hwn?' a 'Beth ydi hwn?' ac enwi gwrthrychau cyfarwydd. Efallai mai geiriau unigol yn unig a lefarir ond maent yn defnyddio'r Gymraeg. Cyplysir hyn â'r eitem arall â sgôr cymharol uchel sef 'Dangos awydd ac ymdrech i siarad'. Efallai nad yw llawer ohonynt yn gallu eu mynegi eu hunain trwy gyfrwng y Gymraeg ond mae 52.2% ohonynt 'fel arfer' yn dangos awydd ac ymdrech i wneud hynny. Gwelir bod 33.7% pellach ohonynt wedi dechrau ac weithiau yn dangos awydd ac ymdrech i siarad Cymraeg.

Gwelir canrannau is yn y categori 'fel arfer' yn yr eitemau sy'n gofyn am sgwrs fwy estynedig, er enghraifft, 'Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol' a 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni'. Gwelwyd y canrannau uchaf o blant nad ydynt wedi dechau gwneud hyn yn yr eitemau hyn ac yn yr eitemau 'Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau', 'Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell' a 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell'. Mae'n debyg bod yr eitemau hyn yn gofyn am y gallu a'r hyder i siarad Cymraeg. Parodd eitemau naw a deg beth syndod. Disgwylid i'r plant fod yn fwy parod i ddefnyddio'r Gymraeg gydag oedolyn yn hytrach na chyda phlant eraill; ni ddisgwylid i'r canlyniadau fod mor agos i'w gilydd. Mae'n bosibl bod rhai o'r arweinyddion wedi camddehongli mai sgwrsio yn ddigymell gydag oedolyn yn Gymraeg yn benodol oedd o dan sylw ac nid yn gyffredinol mewn unrhyw iaith. Efallai nad oedd rhoi 'yn Gymraeg' yn nheitl yr Adran yn ddigonol ac y dylid bod wedi nodi hynny ym mhob eitem.

Nid oedd canran uchel iawn mewn cymhariaeth â'r eitemau eraill yn y garfan 'fel arfer' ar gyfer yr eitem 'Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol', ond wrth gwrs gellir dadlau nad diffyg gallu ieithyddol ond yn hytrach bod rhai ohonynt yn rhy ifanc i ddeall cysyniadau mathemategol megis 'mwy' a 'llai', ac yn y blaen.

Yn galonogol roedd 49.1% ohonynt yn 'Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml' fel arfer, ac roedd dros dri chwarter y plant yn gwneud hynny i raddau.

Felly, yn gyffredinol gwelir y canrannau uchaf o blant yn y categori 'fel arfer' yn yr eitemau sy'n gofyn iddynt ddefnyddio geiriau unigol neu ailadrodd beth a glywir yn y cylch yn hytrach nag yn y gosodiadau lle gofynnir iddynt ddefnyddio iaith estynedig i drafod neu sgwrsio.

6.4.2.3 Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

Yn Adran C gofynnwyd i'r Arweinyddion nodi pa ddewis oedd yn addas ar gyfer pob plentyn mewn cyfatebiaeth â'r gosodiadau yn yr adran. Rhestrwyd 11 gosodiad yn ymwneud â sgiliau llythrennedd cynnar yn y cylch meithrin; y tro hwn rhannwyd y gosodiadau yn ddwy isadran sef wyth o dan yr is-deitl 'Sgiliau Darllen Cynnar' a thri o dan yr is-deitl 'Sgiliau Ysgrifennu Cynnar'. Gofynnwyd i'r Arweinyddion ateb drwy ddewis un o bedwar dewis ar raddfa bwyntiau. Unwaith eto y dewisiadau oedd 'fel arfer', 'weithiau', 'dechrau' a 'dim eto'.

Rhoddir y canlyniadau ar ffurf canrannau dilys ar gyfer pob gosodiad yn y tabl isod.

Tabl 6.7 Amleddau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		Fel arfer %	Weithiau %	Dechrau %	Dim eto %
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	81.5	12.2	5.9	0.4
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	73.0	21.1	5.6	0.4
3	Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau.	46.3	13.8	26.5	13.4
4	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	26.8	15.2	30.5	27.5
5	Ymateb i gynnwys llyfr.	45.1	24.6	13.8	16.4
6	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	33.6	25.7	16.0	24.6
7	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	10.4	6.3	20.1	63.1
8	Adnabod rhai llythrennau.	25.7	5.6	29.1	39.6
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau Cymraeg.	13.0	8.6	24.9	53.5
10	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	20.1	9.7	26.4	43.9
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	6.7	4.5	6.3	82.5

Gwelir o'r tabl uchod bod llai o blant yn y categori 'fel arfer' yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar nag yn y ddwy adran flaenorol. Am y tro cyntaf gwelwyd bod mwyafrif yn y categori 'dim eto', tra yn y ddwy adran flaenorol roedd y mwyafrif bob tro yn y categori 'fel arfer'. Y tro hwn gwelwyd canrannau isel iawn yn y categorïau 'fel arfer' ac 'weithiau' mewn rhai eitemau, yn arbennig felly yn yr eitemau yn ymwneud ag ysgrifennu ac adnabod geiriau Cymraeg, er enghraifft, roedd 63.1% o'r plant yn y categori 'dim eto' ar gyfer yr eitem 'Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg' ac yn yr un modd doedd 82.5% ohonynt ddim eto yn ysgrifennu geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy. Wrth gwrs, rhaid cofio ein bod yn trafod plant ifainc iawn yma, ond roedd canran uwch (25.7%) fel arfer yn adnabod rhai llythrennau ac felly yn dechrau ar y llwybr o ddod i adnabod ac ysgrifennu geiriau.

Unwaith eto ceir canrannau uchel yn y categori 'fel arfer' ar gyfer yr eitemau sy'n ymwneud â mwynhau gweithgareddau, sef, 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn' (81.5%) a 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun' (73.0%). Nid oedd hyn yn wir am yr eitem arall yn ymwneud â mwynhau, ond wedi ei gyplysu gydag elfen o ddealltwriaeth hefyd, sef yr eitem 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau Cymraeg'. Yma rhaid cael yr awydd i ysgrifennu geiriau Cymraeg yn ogystal â'r elfen o fwynhad, ac felly roedd y ganran yn y categori 'fel arfer' yn isel iawn (13.0%); yn wir roedd dros hanner y plant (53.5%) yn y categori 'dim eto' ar gyfer yr eitem hon. Yn yr un modd dim ond 20% oedd yn y categori 'fel arfer' ar gyfer yr eitem 'Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir'. Unwaith eto gofynnir am y gallu i wneud mwy nag un peth yma – cyfathrebu drwy lun neu farciau yn ogystal â gallu trafod yr hyn maent yn ceisio ei gyfleu.

Gwelwyd canrannau cymharol uchel yn y categori 'fel arfer' ar gyfer yr eitemau 'Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau' ac 'Ymateb i gynnwys llyfr'. Wrth gwrs, gellir dadlau nad yw'r rhain yn canolbwyntio ar y Gymraeg ac y gallai plentyn nad yw wedi dod i gyswllt â'r iaith Gymraeg edrych ar lyfr Cymraeg a deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau ac ymateb i'w gynnwys trwy drafod y lluniau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn sgiliau pwysig wrth i'r plentyn ddechrau ymddiddori mewn llyfrau.

Fel arfer gallai tua thraean (33.6%) y plant ddyfalu beth fyddai'n digwydd nesaf mewn stori a rhaid wrth ddealltwriaeth o'r stori i wneud hynny, wrth gwrs. Ni allai chwarter y plant (24.6%) ddyfalu beth fyddai'n digwydd nesaf.

Dim ond 26.8% o'r plant a oedd fel arfer yn deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain tra nad oedd 27.5% ohonynt wedi dechrau deall hynny eto, er bod 30.5% yn y categori 'dechrau'.

Ffigwr 6.1 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Adran Gwrando a Deall



Ffigwr 6.2 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Adran Siarad a Chyfathrebu



Ffigwr 6.3 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar



6.4.2.4 Adran Wybodaeth Bersonol.

Cynhwyswyd adran i gasglu gwybodaeth bersonol am y plant megis eu hoedran, eu rhyw, pa iaith a ddefnyddir rhyngddynt ac aelodau o'u teulu, y nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos a pha mor hir y buont yn mynychu'r cylch. Gwnaed hyn er mwyn gweld pa ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau'r plant.

6.4.2.4.1 Rhyw'r Plant

Gofynnwyd i'r Arweinyddion nodi rhyw y plentyn ar eu ffurflen er mwyn gweld pa effaith a gaiff hyn ar eu canlyniadau. Disgwylir y bydd o leiaf rhai o ganlyniadau'r merched ychydig yn well na chanlyniadau'r bechgyn.

Tabl 6.8 Amleddau Rhyw'r Plant

	Nifer	Canran	Canran dilys
Bachgen	137	50.7	51.5
Merch	129	47.8	48.5
Cyfanswm	266	98.5	
Heb ateb	4	1.5	
Cyfanswm	270	100.0	100.0

Roedd 51.5% o'r sampl ymchwil yn fechgyn a 48.5% yn ferched.

6.4.2.4.2 Dyddiad Geni

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi dyddiad geni y plant ar eu ffurflenni ar ffurf mis a blwyddyn eu geni. Gwnaed hyn er mwyn gweld pa effaith a gaiff eu hoedran ar eu canlyniadau yn yr adrannau Gwrando a Deall, Siarad a Chyfathrebu a Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Nodir y canlyniadau yn y tabl isod ar ffurf amleddau a chanrannau dilys.

Tabl 6.9 Amleddau Dyddiad Geni

Dyddiad geni (mis/blwydd yn)	Oedran (blwydd, mis)	Nifer	Canran dilys
9/95	4,10	4	1.5
10/95	4,9	4	1.5
11/95	4,8	4	1.5
12/95	4,7	2	0.8
1/96	4,6	3	1.2
2/96	4,5	6	2.3
3/96	4,3	4	1.5
4/96	4,2	2	0.8
5/96	4,1	5	1.9
6/96	4,0	5	1.9
7/96	3,11	10	3.8
8/96	3,10	0	0
9/96	3,9	13	5.0
10/96	3,8	18	6.9
11/96	3,7	21	8.1
12/96	3,6	18	6.9
1/97	3,5	33	12.7

Dyddiad geni (mis/blwydd yn)	Oedran (blwydd, mis)	Nifer	Canran dilys
2/97	3,4	23	8.8
3/97	3,3	18	6.9
4/97	3,2	11	4.2
5/97	3,1	11	4.2
6/97	3,0	9	3.5
7/97	2,11	12	4.6
8/97	2,10	10	3.8
9/97	2,9	4	1.5
10/97	2,8	6	2.3
11/97	2,7	3	1.2
12/97	2,6	1	0.4
Cyfanswm		260	99.7
Heb ateb		10	0.3
Cyfanswm		270	100.0

Ym mis Gorffennaf 2000 pan wnaed yr ymchwil amrywiai oedran y plant a gymerodd ran o ddwy flwydd a chwe mis i bedair blwydd a deng mis. Felly roedd gwahaniaeth o tua dwy flynedd a thri mis rhwng y plentyn hynaf a'r ieuengaf yn yr ymchwil. Roedd 9.2% o'r plant yn ddwy oed, 72.0% yn dair oed a 9.2% yn bedair oed pan wnaed yr ymchwil.

6.4.2.4.3 Dyddiad Dechrau

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi hefyd pa bryd y dechreuodd pob plentyn yn y cylch, unwaith eto ar ffurf mis a blwyddyn. Gofynnwyd iddynt wneud hyn er mwyn gweld pa effaith a gaiff hyd yr amser y buont yn y cylch ar eu canlyniadau.

Tabl 6.10 Amleddau Dyddiad Dechrau

Dyddiad (mis / blwyddyn)	Cyfnod yn y cylch (blwydd yn, mis)	Nifer	Canran dilys
4/98	2,3	1	0.4
5/98	2,2	1	0.4
6/98	2,1	1	0.4
7/98	2,0	0	0
8/98	1,11	0	0
9/98	1,10	27	10.1
10/98	1,9	1	0.4
11/98	1,8	0	0
12/98	1,7	0	0
1/99	1,6	5	1.9
2/99	1,5	4	1.5
3/99	1,4	2	0.7
4/99	1,3	4	1.5
5/99	1,2	2	0.7
6/99	1,1	2	0.7

Dyddiad (mis / blwyddyn)	Cyfnod yn y cylch (blwydd yn, mis)	Nifer	Canran dilys
7/99	1,0	1	0.4
8/99	0,11	0	0
9/99	0,10	134	50.2
10/99	0,9	7	2.6
11/99	0,8	13	4.9
12/99	0,7	3	1.1
1/00	0,6	18	6.7
2/00	0,5	13	4.9
3/00	0,4	8	3.0
4/00	0,3	6	2.2
5/00	0,2	11	4.1
6/00	0,1	3	1.1
Cyfanswm		267	100.0
Heb ateb		3	
Cyfanswm		270	

Dechreuodd tua hanner y plant a gymerodd ran yn yr ymchwil mewn cylch meithrin ym mis Medi 1999, sef deng mis cyn yr ymchwil. Roedd rhai plant wedi bod yn mynychu er gwanwyn 1998 ac un plentyn wedi bod yn mynychu ers blwyddyn a deg mis. Ar y llaw arall, dim ond mis a fu ers i rai ddechrau yn y cylch. Roedd 13.4% wedi dechrau mewn cylch meithrin ers dros ddeunaw mis, 18% ers dros flwyddyn, a 77.9% ers dros chwe mis. Dim ond 1.2% oedd wedi bod yn mynychu'r cylch ers dwy flynedd neu fwy.

6.4.2.4.4 Nifer o Sesiynau yr Wythnos

Fel rhan o'r adran gefndirol ar y ffurflen gofynnwyd i'r arweinyddion nodi sawl sesiwn yr wythnos a fynychai'r plentyn. Nodwyd ar y ffurflen fod sesiwn yn golygu hanner diwrnod.

Tabl 6.11 Amleddau Nifer Sesiynau

Nifer sesiynau	Nifer	Canran	Canran Dilys
1	7	2.6	2.7
2	86	31.9	33.0
3	56	20.7	21.5
4	38	14.1	14.6
5	72	26.7	27.6
6	0	0	0
7	1	0.4	0.4
8	0	0	0
9	1	0.4	0.4
Cyfanswm	261	96.8	100.0
Heb ateb	9	3.2	
Cyfanswm	270	100.0	

Amrywiai nifer y sesiynau a fynychwyd gan y plant o un i naw ond mynychai 96.7% ohonynt rhwng dau a phump sesiwn yr wythnos. Dim ond dau sesiwn yr wythnos a fynychwyd gan bron i draean y plant.

Ffigwr 6.4 Ymchwiliad 1 - Nifer o Sesiynau yr Wythnos yn ôl Canran



6.4.2.4.5 Iaith y Teulu

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi o'u gwybodaeth hwy pa iaith a ddefnyddir rhwng y plentyn a'r canlynol: mam, tad a brawd neu chwaer. Rhoddwyd y dewisiadau i'r arweinyddion ar ffurf tabl, y dewisiadau oedd 'Cymraeg bron drwy'r amser', 'Cymraeg mwy na Saesneg'. 'Cymraeg a Saesneg tua chyfartal', 'Saesneg mwy na Chymraeg', 'Saesneg bron drwy'r amser' a 'Ddim yn berthnasol / Ddim yn gwybod'. Yn y tabl isod nodir y canlyniadau ar ffurf canrannau dilys gan hepgor y categori 'Ddim yn berthnasol / Ddim yn gwybod'.

Tabl 6.12 Amleddau Iaith y Teulu

	Cymraeg bron drwy'r amser	Cymraeg mwy na Saesneg	Cymraeg a Saesneg tua chyfartal	Saesneg mwy na Cymraeg	Saesneg bron drwy'r amser
Mam	45.7%	8.2%	4.9%	6.7%	34.5%
Tad	43.1%	2.9%	7.5%	10.9%	35.6%
Brawd / Chwaer	48.1%	1.3%	13.6%	13.6%	23.4%

Fel y gwelir o'r tabl pegynnir y canlyniadau i raddau helaeth rhwng y categorïau 'Cymraeg bron drwy'r amser' a 'Saesneg bron drwy'r amser'. Canrannau cymharol isel sydd yn y categorïau yn y canol sy'n cynnwys defnyddio'r ddwy iaith gyda'r un unigolyn. Mae canran uwch o'r plant yn siarad Cymraeg bron drwy'r amser gyda'u mam, tad a'u brodyr a'u chwiorydd nag sy'n siarad Saesneg bron drwy'r amser. Ychydig dros draean o'r plant sy'n siarad Saesneg drwy'r amser gyda'u mam a'u tad tra bod 45.7% a 43.1% yn siarad Cymraeg bron drwy'r amser gyda hwy. Mae'r canran sy'n siarad Cymraeg bron drwy'r amser gyda'r brawd neu chwaer yn uwch na'r canran sy'n siarad Cymraeg bron drwy'r amser gyda'u rhieni. Fodd bynnag, rhaid nodi mai dim ond ar gyfer 154 o blant y nodwyd pa iaith a ddefnyddiwyd rhwng y plentyn ac unrhyw frodyr neu chwiorydd. Nid atebwyd y cwestiwn hwn ar ffurflenni 71 o'r plant a nodwyd nad oedd y cwestiwn yn berthnasol ar gyfer 45 o'r sampl.

Ffigwr 6.5 Ymchwiliad 1 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Mamau



Ffigwr 6.6 Ymchwiliad 1 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Tadau



Er mwyn hwyluso dadansoddi'r canlyniadau cyfunwyd canlyniadau'r tabl hwn i un amrywiad, sef iaith y teulu. Lle nodwyd pa iaith a ddefnyddir gyda'r ddau riant rhoddwyd sgôr newydd i'r plentyn a'i alw'n iaith y teulu. Pan nodwyd yr iaith a ddefnyddir gyda un rhiant yn unig ni roddwyd sgôr newydd o iaith y teulu i'r plentyn. Ni chynhwyswyd 31 plentyn yn y dadansoddiad hwn oherwydd hyn. Cyfrifwyd y sgôr newydd trwy adio sgoriau'r ddau riant yn y tabl. Felly'r po leiaf y rhif, y mwyaf o Gymraeg a ddefnyddir gan y teulu

Cymraeg drwy'r amser / bron drwy'r amser.	1
Cymraeg mwy na Saesneg.	2
Cymraeg a Saesneg tua chyfartal.	3
Saesneg mwy na Chymraeg.	4
Saesneg drwy'r amser / bron drwy'r amser.	5

Tabl 6.13 Amleddau Categorïau Iaith y Teulu

Sgôr	Nifer	Canran	Canran dilys
2	97	35.9	40.6
3	4	1.5	1.7
4	8	3.0	3.3
5	5	1.9	2.1
6	19	7.0	7.9
7	15	5.6	6.3
8	16	5.9	6.7
9	16	5.9	6.7
10	59	21.9	24.7
Cyfanswm	239	88.5	100
Heb ateb	31	11.5	
Cyfanswm	270	100	

Er mwyn deall y tabl uchod rhaid cofio mai'r po leiaf y rhif y mwyaf o Gymraeg a ddefnyddir gan y teulu. Unwaith eto pegynnir y canlyniadau gyda 40.6% o'r plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg bron trwy'r amser gyda'r fam a'r tad a 24.7% ohonynt o

gartrefi lle siaredir Saesneg bron drwy'r amser, er y ceir dros draean yn y canol lle defnyddir mwy nag un iaith i ryw raddau yn y cartref.

6.4.2.4.6 Cylch

Yn y tabl isod nodir sawl plentyn a'r ganran ohonynt oedd ym mhob cylch o fewn y sampl.

Tabl 6.14 Amleddau Fesul Cylch

Cylch	Nifer	Canran
1	40	14.8
2	20	7.4
3	20	7.4
4	18	6.7
5	39	14.4
6	24	8.9
7	47	17.4
8	30	11.1
9	19	7.0
10	13	4.8
Cyfanswm	270	100.0
Heb ateb	0	
Cyfanswm	270	

Cymerodd deg cylch yng ngogledd orllewin Cymru ran yn y rhan hwn o'r ymchwil. Cymerodd pob plentyn oedd yn mynychu'r cylchoedd ran yn yr ymchwil. Amrywia'r nifer a fynychai'r cylchoedd o 13 i 47.

6.4.2.5 Casgliadau yn Ymwneud ag Amleddau

Hyd yma mae'r bennod wedi cyflwyno'r amleddau er mwyn rhoi braslun o'r canlyniadau. Mae'r data yn dangos bod 270 plentyn o ddeg cylch yng ngogledd

Cymru wedi cymryd rhan yn yr ymchwil cyntaf a wnaed ym Mehefin 2000. Roedd 51.5% ohonynt yn fechgyn a 48.5% yn ferched. Roedd canlyniadau Adran Gwrando a Deall yn well na chanlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu, a chanlyniadau'r adran honno yn well na chanlyniadau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Derbynnir yn gyffredinol bod plant yn deall mwy o iaith nac maent yn gallu ei gynhyrchu (Bancroft, 1995, 62).

Trafodwyd dilysrwydd y prawf a dangoswyd bod sgôr alpha'r prawf yn uchel. Mae'r amleddau hefyd wedi dangos amrediad oedran y plant yn y sampl, pa mor hir y buont yn mynychu'r cylchoedd ac yn dangos amrywiaeth eu cefndir ieithyddol. Dangoswyd bod y plant yn mynychu rhwng un a naw sesiwn yr wythnos, ond roedd y mwyafrif helaeth ohonynt yn mynychu rhwng dau a phump sesiwn yr wythnos.

Yn awr fe symudir ymlaen i gyflwyno'r gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng y gosodiadau ar sail rhyw, oedran, dyddiad dechrau yn y cylch, nifer sesiynau a chefndir ieithyddol y plant. Yna edrychir ar y defnydd o ddadansoddiad newidynnau cudd yn yr ymchwil.

6.4.3 Cymariaethau

Mae'r cymariaethau yn y adran hon wedi eu rhannu yn bump grŵp. Yn gyntaf cyflwynir a thrafodir gwahaniaethau posibl mewn amleddau rhwng bechgyn a merched, edrychir ar ddylanwad oedran y plant, pa mor hir y buont yn mynychu'r cylch, nifer y sesiynau fynychant yr wythnos a dylanwad cefndir ieithyddol y plant. Disgwylir y bydd cefndir ieithyddol y plant yn cael dylanwad sylweddol ar eu canlyniadau, bod mynychu mwy o sesiynau a threulio cyfnod hwy yn y cylch yn cael dylanwad cadarnhaol sylweddol ar eu canlyniadau.

Ystyrir gwahaniaethau yn wahaniaethau ystadegol arwyddocaol pan fo lefel yr hyder yn llai na 0.050, ac yn ymylu ar fod yn arwyddocaol pan fo lefel yr hyder rhwng 0.06 a 0.10.

6.4.3.1 Prawf T-test

6.4.3.1.1 Rhyw'r Plant

Cymharwyd canlyniadau'r bechgyn â'r merched drwy ddefnyddio t-test. Defnyddir t-test pan fydd angen cymharu sgorau cymedr dau grŵp neu ddau grŵp o ddata gyda newidyn parhaol.

> *An independent –samples t-test is used when you want to compare the mean score, on some continuous variable, for two different groups of subjects.*
> (Pallant, 2001, 177)

Yn y tablau isod cyflwynir cymedrau'r bechgyn a chymedrau'r merched a'r gymhariaeth rhyngddynt i weld a oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng eu canlyniadau.

Tabl 6.15 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Gwrando a Deall

		Cymedr bechgyn	Cymedr merched	t	df	p
1	Ymuno mewn caneuon ayyb – heb ddeall yr ystyr	1.63	1.45	1.557	218	0.121
2	Ymuno mewn caneuon ayyb – a deall yr ystyr	1.74	1.54	1.774	254	0.077
3a	Gwrando ac ymateb – un i un	1.46	1.27	2.253	256	**0.025**
3b	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp bychan	1.59	1.34	2.570	262	**0.011**
3c	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp mawr	1.81	1.43	3.494	261	**0.001**
4	Gwrando ar stori Gymraeg	1.56	1.33	2.467	261	**0.014**
5	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau	1.83	1.54	2.400	262	**0.017**
6	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	1.92	1.71	1.619	261	0.107
7	Deall ac ymateb i sgwrs	1.95	1.66	2.135	258	**0.034**
8	Mwynhau gwrando ar storïau	1.45	1.33	1.366	258	0.173
9	Mwynhau gweithgareddau'r cylch	1.23	1.15	1.352	260	0.178
10	Mwynhau teledu / fideos / radio Cymraeg	1.39	1.25	1.779	263	0.076

Tabl 6.16 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg

		Cymedr bechgyn	Cymedr merched	t	df	p
1	Dwyn i gof rhigymau / caneuon	1.61	1.45	1.575	262	0.116
2	Defnyddio enwau gwrthrychau syml	1.90	1.71	1.590	261	0.113
3	Defnyddio iaith fathemategol	2.23	2.09	1.116	264	0.265
4	Ateb cwestiynau syml	2.08	1.83	1.699	260	0.090
5	Mynegi anghenion	2.18	2.02	1.017	259	0.310
6	Siarad am stori gyfarwydd	2.45	2.26	1.201	261	0.231
7	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	2.56	2.32	1.497	263	0.136
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	2.49	2.28	1.308	263	0.192
9	Sgwrsio'n ddigymell ag oedolyn	2.39	2.19	1.253	263	0.211
10	Sgwrsio'n ddigymell â phlant	2.43	2.27	0.928	263	0.354
11	Dangos awydd ac ymdrech i siarad	2.09	1.84	1.847	264	0.066

Tabl 6.17 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		Cymedr bechgyn	Cymedr merched	t	df	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn.	1.34	1.14	2.970	264	**0.003**
2	Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun.	1.39	1.26	1.918	264	0.056
3	Deall gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau.	2.00	2.15	-1.066	262	0.288
4	Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	2.61	2.53	0.532	263	0.595
5	Ymateb i gynnwys llyfr.	2.08	1.90	1.341	262	0.181
6	Dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori.	2.37	2.23	0.977	262	0.329
7	Adnabod geiriau syml.	3.39	3.31	0.970	262	0.503
8	Adnabod rhai llythrennau.	2.88	2.78	0.633	262	0.527
9	Mwynhau gwneud marciau i gynrychioli geiriau.	3.32	3.04	2.149	263	**0.033**
10	Cyfathrebu trwy lun / marciau a thrafod.	3.04	2.81	1.566	263	0.118
11	Ysgrifennu rhai geiriau yn ddealladwy.	3.74	3.53	1.988	263	**0.048**

Ffigwr 6.7 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Bechgyn a Merched Adran Gwrando a Deall



Ffigwr 6.8 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Bechgyn a Merched Adran Siarad a Chyfathrebu



Ffigwr 6.9 Ymchwiliad 1 – Cymedrau Bechgyn a Merched Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar



Fel y gwelir o'r graffiau a'r tablau uchod roedd cymedrau'r merched yn well na chymedrau'r bechgyn ym mhob gosodiad ac eithrio un, sef 'Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau'.

Gwelwyd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol mewn chwech achos yn Adran Gwrando a Deall, pob un ohonynt yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol o blaid y merched sef, gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol, un i un, mewn grŵp bychan ac mewn grŵp mawr; 'Gwrando gyda diddordeb ar stori Gymraeg', 'Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau Cymraeg' a 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'. Gwelwyd gwahaniaethau yn ymylu ar fod yn arwyddocaol mewn dau achos sef 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg gan ddangos eu bod yn deall rhywfaint o'r cynnwys' a 'Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg'.

Yn Adran Siarad a Chyfathrebu nid oedd un gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol; fodd bynnag roedd dau achos a oedd yn ymylu ar fod yn ystadegol arwyddocaol sef 'Ateb cwestiynau syml' ac 'Dangos awydd ac ymdrech i siarad'.

Yn Adran Sgiliau a Llythrennedd Cynnar ceir tri achos o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol sef 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn', 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau Cymraeg' ac 'Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg yn ddealladwy'. Ceir un achos ble mae'r gwahaniaeth yn ymylu ar fod yn ystadegol arwyddocaol sef 'Mwynhau edrych ar lyfrau ar eu pen eu hun'.

Felly, nid yw rhyw'r plant yn cael dylanwad sylweddol ar y canlyniadau. Cafodd rhyw'r plant fwy o ddylanwad ar ganlyniadau adrannau Gwrando a Deall a Sgiliau Llythrennedd Cynnar nag ar ganlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu.

6.4.3.2 Cydberthyniad

Defnyddir dadansoddiad cydberthyniad i ddisgrifio cryfder a chyfeiriad y berthynas linol rhwng dau amrywiad.

6.4.3.2.1 Dyddiad Geni

Er mwyn dadansoddi'r gwahaniaethau ystadegol o ran oedran y plant rhannwyd hwy o ran dyddiad geni yn bedwar grŵp o chwe mis yr un.

Grŵp 1 – Medi 1995 i Mawrth 1996
Grŵp 2 – Ebrill 1996 i Hydref 1996
Grŵp 3 – Tachwedd 1996 i Mai 1997
Grŵp 4 – Mehefin 1997 i Rhagfyr 1997

Gwnaed hyn drwy ddefnyddio'r gweithiannau 'transform' a 'recode' yn y rhaglen ystadegol SPSS a newid yr ystod a rhoi gwerth i'r pedwar ystod amser.

Rhoddir canlyniadau'r ddadansoddiad cydberthyniad isod i weld a oes perthynas rhwng oedran y plant a'u canlyniadau yn y tablau isod.

Tabl 6.18 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Ymuno mewn caneuon ayyb – heb ddeall yr ystyr	0.157	**0.022**
2	Ymuno mewn caneuon ayyb – a deall yr ystyr	0.214	**0.001**
3a	Gwrando ac ymateb – un i un	0.059	0.353
3b	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp bychan	0.025	0.684
3c	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp mawr	0.040	0.520
4	Gwrando ar stori Gymraeg	0.120	0.056
5	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau	0.266	**0.0001**
6	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	0.290	**0.0001**
7	Deall ac ymateb i sgwrs	0.238	**0.0001**
8	Mwynhau gwrando ar storïau	0.024	0.703
9	Mwynhau gweithgareddau'r cylch	-0.009	0.892
10	Mwynhau teledu / fideos / radio Cymraeg	0.084	0.178

Tabl 6.19 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rhigymau / caneuon	0.174	**0.005**
2	Defnyddio enwau gwrthrychau syml	0.340	**0.0001**
3	Defnyddio iaith fathemategol	0.375	**0.0001**
4	Ateb cwestiynau syml	0.308	**0.0001**
5	Mynegi anghenion	0.302	**0.0001**
6	Siarad am stori gyfarwydd	0.329	**0.0001**
7	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	0.305	**0.0001**
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	0.325	**0.0001**
9	Sgwrsio'n ddigymell ag oedolyn	0.326	**0.0001**
10	Sgwrsio'n ddigymell â phlant	0.273	**0.0001**
11	Dangos awydd ac ymdrech i siarad	0.266	**0.0001**

Tabl 6.20 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn.	0.010	0.878
2	Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun.	0.057	0.361
3	Deall gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau.	0.336	**0.0001**
4	Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	0.494	**0.0001**
5	Ymateb i gynnwys llyfr.	0.384	**0.0001**
6	Dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori.	0.466	**0.0001**
7	Adnabod geiriau syml.	0.500	**0.0001**
8	Adnabod rhai llythrennau.	0.380	**0.0001**
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau.	0.451	**0.0001**
10	Cyfathrebu trwy lun / marciau a thrafod.	0.438	**0.0001**
11	Ysgrifennu rhai geiriau yn ddealladwy.	0.525	**0.0001**

Ceir pump achos o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar sail oedran yn Adran Gwrando a Deall, sef, 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau – heb ddeall yr ystyr', 'Ymuno mewn caneuon ayyb – a deall yr ystyr', 'Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau', 'Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori' a 'Deall ac ymateb i sgwrs'. Hefyd roedd un

achos o wahaniaeth ystadegol yn ymylu ar fod yn arwyddocaol sef 'Gwrando ar stori Gymraeg'. Ac eithrio un achos sef 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau –heb ddeall yr ystyr', mae'r eitemau sy'n dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn ymwneud â gallu'r plant i ddeall cynnwys rhigymau, caneuon, straeon, deall cyfarwyddiadau a sgwrs. Felly yn eu gallu i ddeall, yn hytrach na gwrando a mwynhau, y gwelir y gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol o ran eu hoedran. Ond, wrth gwrs, rhaid cofio bod eu hoed hefyd i'w gyplysu â pha mor hir maent wedi bod yn mynychu'r cylch a rhaid cymryd hyn i ystyriaeth.

Yn Adran Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg roedd pob un o'r 11 achos yn dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol. Yr achos lle mae oedran y plant yn cael lleiaf o ddylanwad yw'r eitem 'Dwyn gof rhigymau / caneuon'.

Yn yr Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar gwelwyd naw achos yn dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol, sef y gosodiadau canlynol; 'Deall gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau', 'Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain', 'Ymateb i gynnwys llyfr', 'Dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori', 'Adnabod geiriau syml', 'Adnabod rhai llythrennau', 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau', 'Cyfathrebu trwy lun / marciau a thrafod' ac 'Ysgrifennu rhai geiriau yn ddealladwy'. Yr unig osodiadau nad oedd yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol oedd y rhai yn ymwneud â mwynhau edrych ar lyfrau, gydag oedolion neu ar eu pen eu hunain.

Ymddengys bod oedran y plant yn cael dylanwad ystadegol arwyddocaol ar nifer fawr o'r canlyniadau.

6.4.3.2.2 Dyddiad Dechrau

Gofynnwyd i'r Arweinyddion nodi dyddiad dechrau'r plant ar eu Ffurflenni Datblygiad Iaith. Rhoddir canlyniadau dadansoddiad cydberthyniad i ddangos y berthynas rhwng canlyniadau'r plant a hyd y cyfnod y buont yn mynychu'r cylch yn y tablau isod.

Tabl 6.21 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Ymuno mewn caneuon ayyb – heb ddeall yr ystyr	0.199	**0.003**
2	Ymuno mewn caneuon ayyb – a deall yr ystyr	0.225	**0.0001**
3a	Gwrando ac ymateb – un i un	0.106	0.089
3b	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp bychan	0.77	0.210
3c	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp mawr	0.051	0.406
4	Gwrando ar stori Gymraeg	0.133	**0.031**
5	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau	0.284	**0.0001**
6	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	0.334	**0.0001**
7	Deall ac ymateb i sgwrs	0.356	**0.0001**
8	Mwynhau gwrando ar storïau	0.425	0.080
9	Mwynhau gweithgareddau'r cylch	0.384	0.054
10	Mwynhau teledu / fideos / radio Cymraeg	0.161	0.086

Tabl 6.22 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rhigymau / caneuon	0.251	**0.0001**
2	Defnyddio enwau gwrthrychau syml	0.356	**0.0001**
3	Defnyddio iaith fathemategol	0.421	**0.0001**
4	Ateb cwestiynau syml	0.362	**0.0001**
5	Mynegi anghenion	0.345	**0.0001**
6	Siarad am stori gyfarwydd	0.345	**0.0001**
7	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	0.329	**0.0001**
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	0.350	**0.0001**
9	Sgwrsio'n ddigymell ag oedolyn	0.333	**0.0001**
10	Sgwrsio'n ddigymell â phlant	0.318	**0.0001**
11	Dangos awydd ac ymdrech i siarad	0.307	**0.0001**

Tabl 6.23 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn.	0.054	0.376
2	Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun.	0.073	0.232
3	Deall gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau.	0.329	**0.0001**
4	Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	0.527	**0.0001**
5	Ymateb i gynnwys llyfr.	0.438	**0.0001**
6	Dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori.	0.477	**0.0001**
7	Adnabod geiriau syml.	0.422	**0.0001**
8	Adnabod rhai llythrennau.	0.291	**0.0001**
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau.	0.390	**0.0001**
10	Cyfathrebu trwy lun / marciau a thrafod.	0.400	**0.0001**
11	Ysgrifennu rhai geiriau yn ddealladwy.	0.429	**0.0001**

Dangosodd cydberthyniadau nifer o'r gosodiadau yn Adran Gwrando a Deall bod pa mor hir y bu'r plant yn mynychu'r cylch yn cael effaith ystadegol arwyddocaol. Roedd chwech achos o'r 12 yn dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol, sef y gosodiadau canlynol; 'Ymuno mewn caneuon ayyb – heb ddeall yr ystyr', 'Ymuno mewn caneuon ayyb – a deall yr ystyr', 'Gwrando ar stori Gymraeg', 'Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau', 'Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori' a 'Deall ac ymateb i sgwrs'. Roedd y gosodiad 'Gwrando ac ymateb – un i un' hefyd yn ymylu at fod yn ystadegol arwyddocaol.

Dangosodd pob achos yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu fod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar sail pa mor hir y bu'r plant yn mynychu'r cylch. Felly cafodd y dyddiad dechrau fwy o ddylanwad ar ganlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu nac ar ganlyniadau Adran Gwrando a Deall.

Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar roedd canlyniadau pob gosodiad ac eithrio dau yn dangos effaith ystadegol arwyddocaol dyddiad dechrau'r plant yn y cylch meithrin. Y ddau osodiad na chafodd y dyddiad dechrau effaith ystadegol arwyddocaol arnynt oedd 'Mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn' a 'Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun'. Roedd canran y plant oedd yn y categori 'fel arfer'

ar gyfer y ddau osodiad hyn. Mae'n debyg bod nifer fawr o'r plant yn mwynhau gwneud y pethau hyn yn ifainc iawn, cyn dechrau yn y cylch meithrin o bosibl, ac felly nid yw pa mor hir y maent wedi bod yn mynychu'r cylch yn effeithio'n fawr ar fwynhad o edrych ar lyfrau. Roedd y berthynas agosaf rhwng dyddiad dechrau'r plant yn y cylch a'u canlyniadau yn yr adran hon, yn arbennig yn y gosodiadau 'Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain', 'Dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori' ac 'Ysgrifennu rhai geiriau yn ddealladwy'.

Gwelwyd yr un patrwm o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y dadansoddiad o effaith dyddiad geni a'r dyddiad dechrau ar ganlyniadau'r tair adran – gwrando, siarad a sgiliau llythrennedd cynnar. Gwelwyd effaith cyson arwyddocaol hyd mynychu'r cylch meithrin yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu, ond roedd y gosodiadau unigol a effeithiwyd fwyaf arnynt yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar.

6.4.3.2.3 Nifer Sesiynau

Gofynnwyd i'r Arweinyddion nodi ar y Ffurflen Datblygiad Iaith sawl sesiwn yr wythnos y mynychai'r plentyn y cylch meithrin. Gwnaed hyn er mwyn gweld a yw canlyniadau plentyn sy'n mynychu'r cylch yn aml yn well na chanlyniadau plentyn sy'n mynychu'r cylch un neu ddau sesiwn yr wythnos, ac felly'n cael llai o gyswllt â'r iaith Gymraeg. Disgwylid y byddai sawl sesiwn a fynychir yn cael yr effaith mwyaf ar ganlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu.

Tabl 6.24 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Ymuno mewn caneuon ayyb – heb ddeall yr ystyr	-0.149	1.000
2	Ymuno mewn caneuon ayyb – a deall yr ystyr	-0.081	0.202
3a	Gwrando ac ymateb – un i un	0.052	0.413
3b	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp bychan	0.045	0.471
3c	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp mawr	-0.031	0.617
4	Gwrando ar stori Gymraeg	-0.085	0.171
5	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau	-0.243	**0.0001**
6	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	-0.282	**0.0001**
7	Deall ac ymateb i sgwrs	-0.332	**0.0001**
8	Mwynhau gwrando ar storïau	-0.059	0.345
9	Mwynhau gweithgareddau'r cylch	-0.041	0.517
10	Mwynhau teledu / fideos / radio Cymraeg	-0.060	0.335

Tabl 6.25 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rhigymau / caneuon	-0.141	**0.023**
2	Defnyddio enwau gwrthrychau syml	-0.303	**0.0001**
3	Defnyddio iaith fathemategol	-0.392	**0.0001**
4	Ateb cwestiynau syml	-0.304	**0.0001**
5	Mynegi anghenion	-0.345	**0.0001**
6	Siarad am stori gyfarwydd	-0.313	**0.0001**
7	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	-0.283	**0.0001**
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	-0.288	**0.0001**
9	Sgwrsio'n ddigymell ag oedolyn	-0.294	**0.0001**
10	Sgwrsio'n ddigymell â phlant	-0.286	**0.0001**
11	Dangos awydd ac ymdrech i siarad	-0.253	**0.0001**

Tabl 6.26 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn.	-0.016	0.802
2	Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun.	0.187	**0.002**
3	Deall gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau.	0.154	**0.013**
4	Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	-0.159	**0.010**
5	Ymateb i gynnwys llyfr.	-0.246	**0.0001**
6	Dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori.	-0.356	**0.0001**
7	Adnabod geiriau syml.	-0.281	**0.0001**
8	Adnabod rhai llythrennau.	0.037	0.554
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau.	-0.107	0.086
10	Cyfathrebu trwy lun / marciau a thrafod.	-0.013	0.836
11	Ysgrifennu rhai geiriau yn ddealladwy.	-0.220	**0.0001**

Nid oedd llawer o wahaniaethau ystadegol arwyddocaol ar sail nifer y sesiynau a fynychwyd yn Adran Gwrando a Deall. Tri achos yn unig a gofnodwyd sef 'Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau', 'Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori', 'Deall ac ymateb i sgwrs'. Gwelwyd y gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn nhri o'r pedwar gosodiad yn ymwneud â dealltwriaeth yn hytrach na dim ond eu sgiliau gwrando a'u mwynhad. Dyma'r gosodiadau gyda'r canrannau lleiaf o blant yn y categori 'fel arfer' fel a welwyd yn yr adran ar amleddau. Mae'r mwyafrif o'r cydberthyniadau yn dangos rhif negyddol sy'n golygu fod un amrywiad yn cynyddu wrth i'r llall leihau. Yma mae'r canlyniad yn mynd yn nes at un ac yn gwella wrth i nifer y sesiynau gynyddu. Fodd bynnag, ceir dau achos yn Adran Gwrando a Deall lle mae nifer y sesiynau a fynychir yn cael effaith negyddol; hynny yw, wrth i nifer y sesiynau godi mae'r canlyniad yn mynd yn nes at bedwar. Felly mae'r achosion hyn yn groes i'r gweddill; mae'r plant yn fwy tebygol o wneud rhain po leiaf yn y byd o sesiynau maent yn eu mynychu.

Roedd y nifer o sesiynau a fynychwyd yn ymddangos yn fwy arwyddocaol wrth edrych ar yr Adran Siarad a Chyfathrebu. Roedd pob gosodiad yn yr Adran hon yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ar sail nifer y sesiynau a fynychir.

Mae gwahaniaeth mawr felly rhwng dylanwad y nifer o sesiynau a fynychir ar osodiadau'r ddwy adran gyntaf.

Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar gwelir bod nifer y sesiynau a fynychwyd yr wythnos yn ymddangos yn arwyddocaol mewn saith achos, ond, mewn dau achos mae nifer y sesiynau a fynychir yn cael dylanwad ystadegol arwyddocaol negyddol. Po fwyaf o sesiynau a fynychir, y lleiaf tebygol mae plentyn o 'Fwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun' a 'Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau'. Ceir yr un effaith mewn achos arall sef, 'Adnabod rhai llythrennau', ond nid yw hwn yn ystadegol arwyddocaol. Mae'n ymddangos fod mynychu mwy o sesiynau yr wythnos yn cael effaith ystadegol arwyddocaol gadarnhaol ar ganlyniadau pump gosodiad sef; 'Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain', 'Ymateb i gynnwys llyfr', 'Dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori', 'Adnabod geiriau syml' ac 'Ysgrifennu rhai geiriau yn ddealladwy'.

Wrth gwrs mae nifer o ffactorau yn effeithio ar nifer y sesiynau a fynychir gan blant, er enghraifft eu hoedran, pa mor hir y bu'r plentyn yn y cylch, iaith y teulu a pha gylch a fynychir. Rhaid cofio mai deg cylch yn unig a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn; roedd pa gylch a fynychai'r plant yn effeithio'n fawr ar nifer y sesiynau a fynychwyd. Dim ond pump cylch meithrin o'r deg yn y sampl oedd yn agored pump sesiwn neu fwy yr wythnos a dau gylch yn agored dwywaith yr wythnos yn unig.

6.4.3.2.4 Iaith y Teulu

Gofynnwyd i'r Arweinyddion nodi, o'u gwybodaeth hwy, a oedd tad a, neu mam y plentyn yn siarad Cymraeg bron drwy'r amser, Cymraeg mwy na Saesneg, Cymraeg a Saesneg tua chyfartal, Saesneg mwy na Chymraeg, neu Saesneg bron drwy'r amser. O'r hyn y nododd yr arweinyddion rhoddwyd sgôr i bob plentyn i ddynodi iaith neu ieithoedd y teulu. Er mwyn sgôr iaith teulu cyfunwyd iaith y ddau riant lle nodwyd hynny. Rhoddwyd sgôr i'r tad a sgôr i'r fam ac ychwanegu'r ddau i gael i gael sgôr teulu. Pan nodwyd iaith dim ond un rhiant neu dim un, gadwyd y plentyn allan o'r

dadansoddiad. Gwnaed hyn er mwyn gweld faint o effaith a gaiff iaith y teulu ar ddatblygiad y plant.

Cymraeg drwy'r amser / bron drwy'r amser.	1
Cymraeg mwy na Saesneg.	2
Cymraeg a Saesneg tua chyfartal.	3
Saesneg mwy na Chymraeg.	4
Saesneg drwy'r amser / bron drwy'r amser.	5

Felly y lleiaf yw sgôr teulu po fwyaf o Gymraeg a siaredir yn y teulu, a po fwyaf y sgôr, po fwyaf o Saesneg a siaredir.

Tabl 6.27 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Ymuno mewn caneuon ayyb – heb ddeall yr ystyr	0.411	**0.0001**
2	Ymuno mewn caneuon ayyb – a deall yr ystyr	0.473	**0.0001**
3a	Gwrando ac ymateb – un i un	0.342	**0.0001**
3b	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp bychan	0.332	**0.0001**
3c	Gwrando ac ymateb – mewn grŵp mawr	0.312	**0.0001**
4	Gwrando ar stori Gymraeg	0.493	**0.0001**
5	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau	0.652	**0.0001**
6	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	0.724	**0.0001**
7	Deall ac ymateb i sgwrs	0.721	**0.0001**
8	Mwynhau gwrando ar storïau	0.522	**0.0001**
9	Mwynhau gweithgareddau'r cylch	0.337	**0.0001**
10	Mwynhau teledu / fideos / radio Cymraeg	0.446	**0.0001**

Tabl 6.28 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rhigymau / caneuon	0.352	**0.0001**
2	Defnyddio enwau gwrthrychau syml	0.721	**0.0001**
3	Defnyddio iaith fathemategol	0.601	**0.0001**
4	Ateb cwestiynau syml	0.728	**0.0001**
5	Mynegi anghenion	0.742	**0.0001**
6	Siarad am stori gyfarwydd	0.739	**0.0001**
7	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	0.696	**0.0001**
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	0.713	**0.0001**
9	Sgwrsio'n ddigymell ag oedolyn	0.724	**0.0001**
10	Sgwrsio'n ddigymell â phlant	0.785	**0.0001**
11	Dangos awydd ac ymdrech i siarad	0.711	**0.0001**

Tabl 6.29 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn.	0.357	**0.0001**
2	Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun.	0.256	**0.0001**
3	Deall gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau.	0.197	**0.002**
4	Deall bod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	0.416	**0.0001**
5	Ymateb i gynnwys llyfr.	0.593	**0.0001**
6	Dyfalu beth sy'n digwydd nesaf mewn stori.	0.571	**0.0001**
7	Adnabod geiriau syml.	0.417	**0.0001**
8	Adnabod rhai llythrennau.	0.140	**0.031**
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau.	0.358	**0.0001**
10	Cyfathrebu trwy lun / marciau a thrafod.	0.363	**0.0001**
11	Ysgrifennu rhai geiriau yn ddealladwy.	0.219	**0.001**

Yn y dair adran roedd cefndir ieithyddol y teulu yn ymddangos fel pe bae'n achosi gwahaniaeth arwyddocaol ym mhob achos. Dyma'r unig ffactor lle gwelwyd hyn. Roedd y cydberthyniad isaf mewn pedwar gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar sef 'Adnabod rhai llythrennau', 'Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a

lluniau', 'Ysgrifennu rhai geiriau yn ddealladwy' a 'Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun'. Felly dyma'r rhai lle roedd iaith y teulu'n dylanwadu leiaf ar y canlyniadau.

Ymddengys bod iaith y teulu yn cael dylanwad pwysig iawn ar ganlyniadau'r plant.

6.4.3.3 Dimensiynau

Cynnwys y ffurflen dair adran, adrannau A, B ac C ac ymhob adran ceir nifer o osodiadau. Ymchwiliwyd yn ystadegol er mwyn gweld a oedd y gosodiadau o fewn pob adran yn mesur un, dau neu fwy o ffactorau neu ddimensiynau. Drwy wneud hyn datgelir a yw'r adran yn un undimensiynol neu'n amlddimensiynol. Diffiniad Kline (1994, 5) o ffactor yw:

> *a dimension or construct which is a condensed statement of the relationship between a set of variables.*
> (Kline, 1994, 5)

Gwnaed hyn drwy roi eitemau pob graddfa i ddadansoddiad newidynnau cudd.

Cyflwyna Baker (1992, 56) y dull hwn o raddoli fel hyn:

> *The preference is to submit the items of each scale to a latent variable analysis. The outcome of latent variable analysis is an indication of whether there are one or more dimensions to the scale. The process also provides a latent variable score for each pupil on the dimension(s). This score is based on a weighting of items to increase consistency, discrimination and validity. The preferable term for the resulting scale is a latent variable rather than a factor scale. This term accurately conveys the idea that something underlying is being measured. The phenomena being considered are hypothetical. The term latent variable contains the idea that a representation has been assembled from a variety of indicators, of a hypothetical, underlying variable.*
> (Baker, 1992, 56)

6.4.3.3.1 Defnydd o Dadansoddiad Newidynnau Cudd yn yr ymchwil

Er mwyn darganfod sawl dimensiwn oedd i'r gosodiadau yn nhair adran y ffurflen; Gwrando a Deall, Siarad a Chyfathrebu a Sgiliau Llythrennedd Cynnar, gwnaed dadansoddiad newidynnau cudd (a elwir hefyd yn ddadansoddiad ffactoraidd) ar y dair adran. Bwriad hyn oedd cydberthyn yr holl osodiadau gyda'i gilydd ac yna eu trefnu mewn categorïau.

Drwy ddefnyddio dadansoddiad ffactoraidd, archwilir unddimensiynoldeb ffactorau unigol a hefyd bydd yn sicrhau bod yr eitemau yn mesur yr un endid os yw'r strwythur gwaelodol yn dangos amlddimensionolrwydd.

Mae Adran A, sef Adran Gwrando a Deall yn cynnwys 11 gosodiad yn ymwneud ag agweddau ar sgiliau gwrando a deall o fewn y cylch meithrin. Rhoddwyd yr 11 gosodiad mewn dadansoddiad amrywiad llinol. Awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 18) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi eu cylchdroi bresenoldeb dim ond un dimensiwn cyffredinol yn ymwneud â gwrando a deall y Gymraeg gyda'r gosodiadau dros 0.40. Penderfynwyd ar yr isafswm pwysiad drwy ddilyn fformiwla Burt-Banks a chyfeirio at Baker (1992).

Cynhyrchodd y dadansoddiad amrywiad llinol y graddfeydd canlynol

Tabl 6.30 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Gwrando a Deall

Ffactor Adran Gwrando a Deall – Ffactor Cyffredinol	
Gwrando gyda diddordeb ar stori Gymraeg	0.854
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan	0.811
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un	0.792
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg	0.781
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	0.769
Ymuno mewn caneuon a rhigymau– deall rhywfaint o'r cynnwys	0.768
Mwynhau gwrando ar storïau Cymraeg	0.765
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr	0.762
Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg	0.753
Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg heb ddeall yr ystyr	0.683
Mwynhau gwylio teledu/fideos/gwrando ar dapiau sain Cymraeg	0.640
Mwynhau gweithgareddau'r cylch	0.605

Mae Adran B, sef Adran Siarad a Chyfathrebu yn cynnwys 11 gosodiad yn ymwneud â siarad a chyfathrebu yn Gymraeg yn y Cylch meithrin. Rhoddwyd yr 11 gosodiad yn y dadansoddiad amrywiad llinol. Unwaith eto, awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 19) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi eu cylchdroi bresenoldeb dim ond un dimensiwn yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ar lafar.

Tabl 6.31 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Siarad a Chyfathrebu

Ffactor Adran Siarad a Chyfathrebu – Ffactor Cyffredinol	
Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni	0.966
Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell	0.959
Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol	0.947
Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau	0.946
Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml	0.938
Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell	0.921
Ateb cwestiynau syml	0.911
Dangos awydd ac ymdrech i siarad	0.905
Defnyddio enwau gwrthrychau syml – anifeiliaid, teganau ayyb	0.892
Defnyddio ychydig o iaith fathemategol	0.807
Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd	0.570

Mae Adran C, sef Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn cynnwys 11 gosodiad yn ymwneud â sgiliau llythrennedd cynnar y plant. Rhoddwyd yr 11 gosodiad yn y dadansoddiad amrywiad llinol. Awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 20) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi eu cylchdroi bresenoldeb dau ddimensiwn. Un ym ymwneud â sgiliau ysgrifennu dechreuol y plant a'r llall yn ymwneud â Mwynhau llyfrau a sgiliau darllen cynnar

Tabl 6.32 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 1

Sgiliau Llythrennedd Cynnar Ffactor 1 –Sgiliau llythrennedd cynnar cyffredinol	
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	0.793
Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori	0.772
Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau Cymraeg	0.772
Ymateb i gynnwys llyfr	0.724
Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir	0.686
Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy	0.672
Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg	0.654
Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau	0.411

Tabl 6.33 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 2

Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar Ffactor 2 – Mwynhau llyfrau a sgiliau darllen cynnar	
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun	0.858
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn	0.729
Adnabod rhai llythrennau.	0.565
Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau	0.555

6.4.3.3.2 Newidynnau sy'n Dylanwadu ar y Ffactorau

Yn y tablau isod cyflwynir y newidynnau a effeithiodd yn ystadegol arwyddocaol ar y dimensiynau a welir uchod.

Tabl 6.34 Newidynnau Pwysicaf – Adran Gwrando a Deall

Newidyn Pwysicaf	R	MultR	Beta	p
Iaith Teulu	0.630	0.630	0.599	**0.0001**
Bachgen / Merch	-0.227	0.661	-0.206	**0.0001**
Dyddiad Geni	0.225	0.674	0.132	**0.021**
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad Dechrau	0.264			0.792
Nifer Sesiynau	-0.122			0.078

Tabl 6.35 Newidynnau Pwysicaf – Adran Siarad a Chyfathrebu

Newidyn Pwysicaf	R	MultR	Beta	p
Iaith Teulu	0.782	0.782	0.732	**0.0001**
Dyddiad Geni	0.353	0.813	0.188	**0.0001**
Nifer Sesiynau	-0.352	0.821	-0.118	**0.005**
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Bachgen / Merch	-0.064			0.523
Dyddiad Dechrau	0.340			0.253

Tabl 6.36 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 1

Newidyn Pwysicaf	R	MultR	Beta	p
Dyddiad Geni	0.655	0.655	0.418	**0.0001**
Iaith Teulu	0.504	0.767	0.379	**0.0001**
Dyddiad Dechrau	0.640	0.780	0.225	**0.001**
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Bachgen / Merch	-0.065			0.157
Nifer Sesiynau	-0.305			0.636

Tabl 6.37 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 2

Newidyn Pwysicaf	r	MultR	Beta	p
Nifer Sesiynau	0.195	0.195	0.323	**0.0001**
Iaith Teulu	0.163	0.288	0.186	**0.005**
Dyddiad Dechrau	0.106	0.329	0.178	**0.010**
Bachgen / Merch	-0.109	0.356	-0.138	**0.030**
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad Geni	0.077			0.428

Ymddengys mai un ffactor oedd yn Adran Gwrando a Deall ac Adran Siarad a Chyfathrebu a dau ffactor yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Fel y disgwylid o'r canlyniadau blaenorol roedd iaith y teulu yn newidyn pwysig yn y pedwar ffactor. Iaith y teulu oedd y newidyn pwysicaf a effeithiai ar ganlyniadau'r plant yn ôl dimensiwn cyffredinol Adran Gwrando a Deall. Roedd eu rhyw a'u hoedran hefyd yn newidynnau pwysig. Yn Adran Siarad a Chyfathrebu, unwaith eto, iaith y teulu oedd y newidyn pwysicaf, y newidynnau pwysig eraill oedd dyddiad geni'r plant a'r nifer o sesiynau a fynychent yr wythnos. Roedd dau ddimensiwn yn bresennol yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Mesurai'r cyntaf sgiliau llythrennedd cynnar cyffredinol y plant a'r ail eu mwynhad o lyfrau a'u sgiliau darllen cynnar. Y newidynnau pwysicaf a effeithiodd ar y dimensiwn cyntaf yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, oedd dyddiad geni'r plant, iaith y teulu a'u dyddiad dechrau yn y cylch meithrin. Fel y gwelir o'r tabl uchod nifer y sesiynau a fynychai'r plant oedd yn dylanwadu fwyaf ar yr ail ddimensiwn yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Cafodd y newidynnau iaith y teulu, dyddiad dechrau a rhyw'r plant hefyd effaith ar y dimensiwn hwn.

6.4.4 Casgliad Ymchwiliad 1

Yn y rhan hon o'r bennod cyflwynwyd canlyniadau Ymchwiliad 1, sef yr ymchwiliad a wnaed yng ngogledd orllewin Cymru ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2000. Cyflwynwyd y canlyniadau ar ffurf amleddau a chydberthyniadau er mwyn gweld pa ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau'r plant.

Roedd 270 o blant mewn deg cylch meithrin yng Nghonwy, Arfon ac Ynys Môn yn rhan o Ymchwiliad 1. Roedd 51.5% o'r sampl yn fechgyn a 48.5% yn ferched. Nododd yr Arweinyddion yr iaith a ddefnyddiai mam, tad a brawd neu chwaer y plant gyda hwy. Dangosodd canlyniadau'r rhan hwn bod iaith y teulu wedi ei begynnu i raddau helaeth. Roedd ychydig dros draean o'r plant yn siarad Saesneg gyda'u mam a thua yr un nifer gyda'u tad. Roedd dros 40% o'r plant yn siarad Cymraeg gyda'u mam a chanran tebyg gyda'u tad. Cyfrifwyd un amrywiad sef iaith y teulu ar gyfer y plant y nodwyd pa iaith a ddefnyddir ar gyfer y ddau riant. Siaradai 40.6% o'r plant yn y sampl Gymraeg bron trwy'r amser gyda'u dau riant, tra siaradai 24.7% Saesneg bron drwy'r amser gyda'r ddau riant. Roedd mwy na thraean y plant yn defnyddio'r ddwy iaith i ryw raddau gyda'u rhieni. Amrywiai'r nifer o sesiynau a fynychai'r plant o un i naw, ond roedd 96.7% yn mynychu rhwng dau a phump sesiwn yr wythnos. Dim ond dau sesiwn yr wythnos a fynychai bron draean y plant. Amrywiai maint y cylchoedd o 13 i 47. Amrywiai oedran y plant o ddwy flwydd a chwe mis i bedair blwydd a deng mis. Gwahaniaeth o tua dwy flynedd a thri mis. Roedd 9.2% o'r plant yn y sampl yn ddwy oed, 72.0% yn dair oed a 9.2% yn bedair oed. Roedd tua hanner y plant wedi bod yn mynychu'r cylch ers deng mis, 18% er dros flwyddyn ac 13.4% ers dros ddeunaw mis.

Unwaith yn unig y monitrwyd iaith y plant yn y sampl hwn, ond cymharwyd y plant o safbwynt hyd yr amser y buont yn mynychu'r cylch er mwyn gweld a yw eu iaith yn datblygu wrth fynychu cylch meithrin.

Sefydlwyd dilysrwydd y raddfa datblygiad iaith mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mesurwyd dibynadwyedd mewnol y raddfa gan fesur Alpha Cronbach a chafwyd bod sgôr alpha'r dair adran, ar wahân a chyda'i gilydd, yn uchel iawn.

Cymharwyd canlyniadau'r plant o safbwynt eu rhyw, oedran, cyfnod yn y cylch, nifer y sesiynau a fynychant ac iaith y teulu. Gwnaed hefyd ddadansoddiad ffactoraidd o'r dair adran yn y ffurflen.

Gwelwyd o'r amleddau bod canrannau uchel o'r plant yn y categori 'fel arfer' yn Adran Gwrando a Deall. Roedd y canrannau uchaf yn y categori hwn ar gyfer y gosodiadau yn ymwneud â mwynhau yn hytrach na gwrando. Fodd bynnag, roedd

dros hanner y plant yn y categori 'fel arfer' ar gyfer pob gosodiad yn Adran Gwrando a Deall. Gwelwyd y canrannau isaf ar gyfer y gosodiadau yn ymwneud ag elfennau o ddealltwriaeth er enghraifft 'Dangos dealltwriaeth o gynnwyd stori' a 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'. Felly, yn Adran Gwrando a Deall, roedd canrannau uchel yn y categorïau uchaf ar gyfer y gosodiadau yn ymwneud â mwynhau, canrannau ychydig yn is ar gyfer rhai'n ymwneud â gwrando a'r canrannau isaf ar gyfer y gosodiadau oedd yn gofyn am ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Nid oedd y canrannau yn y categorïau uchaf yn Adran Siarad a Chyfathrebu mor uchel ag yn Adran Gwrando a Deall. Dim ond ar gyfer pedwar gosodiad yr oedd dros hanner y plant yn y categori 'fel arfer' yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Roedd y ganran uchaf yn y categori 'fel arfer' yn Adran Siarad a Chyfathrebu ar gyfer y gosodiad 'Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd'. Awgryma hyn mai dyma'r cam cyntaf o atgynhyrchu iaith gan y plant. Roedd canlyniadau'r gosodiadau a oedd yn gofyn am ymatebion un gair er enghraifft 'Defnyddio enwau gwrthrychau syml' hefyd yn uchel. Roedd canrannau uwch yn y categorïau isaf ar gyfer y gosodiadau oedd yn gofyn am ddefnydd iaith mwy estynedig er enghraifft 'Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol'. Gwelwyd y canrannau isaf yn y categorïau uchaf yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd mwyafrif y plant yn y categori 'dim eto' am y tro cyntaf. Roedd canrannau isel iawn yn y ddau gategori uchaf ar gyfer y gosodiadau yn ymwneud ag ysgrifennu ac adnabod geiriau Cymraeg. Plant ifanc iawn oedd yn y sampl wrth gwrs ac felly nid yw'n syndod nad oeddynt yn medru adnabod ac ysgrifennu geiriau.

Dangosodd dadansoddiadau cydberthyniad pa ffactorau oedd yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau'r plant. Effeithiodd rhyw'r plant yn ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau chwech gosodiad yn Adran Gwrando a Deall, pob un ohonynt yn dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o blaid y merched. Ni effeithiodd rhyw'r plant yn ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu. Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar roedd canlyniadau tri gosodiad yn cael eu heffeithio'n ystadegol arwyddocaol gan ryw'r plant. Nid oedd rhyw'r plant yn effeithio llawer ar eu canlyniadau.

Cafodd oedran y plant effaith ystadegol arwyddocaol ar nifer fawr o'r canlyniadau. Effeithiodd eu hoedran yn ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pump gosodiad yn Adran Gwrando a Deall. Effeithiodd eu hoedran ar eu gallu i ddeall

Cymraeg yn hytrach na gwrando a mwynhau gweithgareddau'r cylch. Roedd canlyniad pob un o'r 11 gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu yn dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar sail oedran y plant. Dim ond dau ganlyniad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar nad effeithiwyd arnynt gan oedran y plant. Felly roedd dylanwad oedran y plant yn gryf ar eu canlyniadau yn arbennig yn Adran Siarad a Chyfathrebu ac Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar.

Cafodd pa mor hir y bu'r plant yn mynychu'r cylch ddylanwad ar nifer fawr o'r canlyniadau. Gwelwyd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar sail y cyfnod y buont yn mynychu'r cylch yng nghanlyniadau chwech gosodiad yn Adran Gwrando a Deall, pob gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu a phob gosodiad ac eithrio dau yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd y cydberthyniadau rhwng dyddiad dechrau'r plant yn y cylch a'u canlyniadau yn Adran Siarad a Chyfathrebu ac Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar fel a welwyd gyda dylanwad eu hoedran ar eu canlyniadau.

Nid oedd y nifer o sesiynau a fynychai'r plant yn cael effaith ystadegol cryf iawn ar ganlyniadau'r plant. Effeithiodd y ffactor hwn yn ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau dim ond tri gosodiad yn Adran Gwrando a Deall. Fodd bynnag, effeithiodd yn ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pob gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu ac ar ganlyniadau saith gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Nid oedd y cydberthyniadau mor gryf ag a welwyd ar gyfer ffactorau eraill.

Roedd cefndir ieithyddol y plant yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pob gosodiad yn y Ffurflen Datblygiad Iaith. Y mwyaf o Gymraeg a siaradai'r rhieni gyda'r plant y gorau oedd eu canlyniadau. Roedd y cydberthyniadau yn uchel iawn gan ddangos bod iaith y teulu'n cael dylanwad pwysig ar ganlyniadau'r plant.

Dangosodd dadansoddiad ffactoraidd mai iaith y teulu oedd y newidyn pwysicaf a effeithiai ar ganlyniadau'r plant yn Adran Gwrando a Deall wedi ei ddilyn gan eu rhyw a'u hoedran. Yn Adran Siarad a Chyfathrebu, yn yr un modd, iaith y teulu oedd y newidyn pwysicaf, yr ail a'r trydydd newidynnau pwysicaf oedd oedran y plant a'r nifer o sesiynau a fynychai'r plant yr wythnos. Roedd dau ddimensiwn yn

bresennol yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, y cyntaf yn mesur sgiliau llythrennedd cynnar cyffredinol y plant a'r llall yn mesur eu mwynhad o lyfrau a sgiliau darllen cynnar. Y newidynnau pwysicaf a effeithiodd ar y ffactor cyntaf, yn eu trefn, oedd oedran y plant, iaith y teulu a hyd y cyfnod y buont yn mynychu'r cylch meithrin. Nifer y sesiynau a fynychai'r plant oedd yn dylanwadu fwyaf ar yr ail ddimensiwn yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Cafodd y newidynnau iaith y teulu, dyddiad dechrau a rhyw'r plant hefyd effaith ar y dimensiwn hwn.

I grynhoi, roedd 270 o blant o ddeg cylch meithrin yn sampl Ymchwiliad 1 a wnaed yn haf 2000. Dadansoddwyd canlyniadau'r ymchwiliad yn ystadegol. Gwelwyd bod canlyniadau Adran Gwrando a Deall yn well na chanlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu, a chanlyniadau'r adran honno'n well na chanlyniadau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd canlyniadau'r merched yn well na chanlyniadau'r bechgyn. Gwelwyd o'r dadansoddiadau cydberthyniad a'r dadansoddiadau ffactoraidd bod oedran y plant, eu dyddiad dechrau, y nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos ac iaith eu teulu yn effeithio ar y canlyniadau i raddau amrywiol.

6.5 Ymchwiliad 2 – Hydref 2000

6.5.1 Cyflwyniad i Ymchwiliad 2

Yn ail ran y bennod hon cyflwynir a dadansoddir canlyniadau'r ail ymchwiliad sef yr ymchwiliad cenedlaethol cyntaf o ddau. Gwnaed yr ymchwil hwn ym mis Hydref 2000 a chymerodd 132 cylch meithrin a 1926 o blant ran yn yr ymchwil. Newidiwyd rhai o'r gosodiadau er Ymchwiliad 1 yn ogystal â'u trefn. Trafodir y newidiadau hyn ym Mhennod 5. Gellir gweld copi o'r Ffurflen Datblygiad Iaith a ddefnyddiwyd yn Ymchwiliad 2 yn Atodiad 12.

6.5.2 Amleddau

Unwaith eto rhoddir canlyniadau tair adran y ffurflen sef Adrannau Gwrando a Deall, Siarad a Chyfathrebu a Sgiliau Llythrennedd Cynnar ar ffurf canrannau dilys.

6.5.2.1 Adran Gwrando a Deall

Yn Adran A rhestrwyd 12 gosodiad yn ymwneud â sgiliau gwrando a deall a gofynnwyd i'r arweinyddion nodi pa ddewis oedd yn addas ar gyfer pob plentyn. Y dewisiadau ar y raddfa oedd 'fel arfer', 'weithiau', 'dechrau' a 'dim eto'. Rhoddir y canlyniadau ar ffurf canrannau dilys ar gyfer pob gosodiad yn y tabl isod.

Tabl 6.38 Amleddau Adran Gwrando a Deall

		Fel arfer %	Weithiau %	Dechrau %	Dim eto %
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	81.3	10.9	6.6	1.2
2	Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	62.3	18.3	11.9	7.6
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	59.1	20.0	16.4	4.5
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	50.8	23.9	18.7	6.6
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	40.7	26.0	21.1	12.2
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	50.8	23.0	18.1	8.1
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	40.3	20.9	23.3	15.5
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	49.1	19.4	22.3	9.2
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg.	39.8	21.3	25.2	13.8
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	41.3	19.1	24.7	14.8
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	36.1	14.3	22.7	27.0

Ar gyfer pump gosodiad roedd dros hanner y plant yn y categori 'fel arfer'. Gwelir y canrannau uchaf yn y categori 'fel arfer' ar gyfer yr eitemau sy'n cyfeirio at fwynhau yn hytrach na gwrando, deall neu ymateb. Nodir bod 81.3% o'r plant 'fel arfer' yn mwynhau gweithgareddau'r cylch a bod 62.3% fel arfer yn 'Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg'. Ceir canrannau uchel yn y categori 'fel arfer' ar gyfer yr eitemau sy'n ymdrin â'r elfen o wrando sef 'Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd', 'Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan' a 'Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg' gyda dros hanner y plant yn y categori 'fel arfer'. Un eithriad i hyn yw'r eitem 'Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr'. Dim ond 40.7% sydd yn y categori 'fel arfer' ar gyfer y gosodiad hwn a 1.2% yn y categori 'dim eto'. Roedd bron hanner y plant sef 49.1% yn y categori 'fel arfer' ar gyfer y gosodiad 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg'. Gwelir y canrannau isaf yn y categori 'fel arfer' a'r canrannau uchaf yn y categori 'dim eto' ar gyfer yr eitemau sy'n ymwneud â deall ac ymateb sef eitemau 'Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori', 'Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg', 'Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg' a 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'. Roedd y canrannau yn y categori 'fel arfer' ar gyfer y rhain yn amrywio o 36.1% ar gyfer 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg' i 41.3% ar gyfer 'Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg'. Roedd 27% yn y categori 'dim eto' ar gyfer yr eitem 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'. Fodd bynnag, ar gyfer yr eitemau yn ymwneud a deall y gwelwyd canrannau dros 20% yn y categori 'dechrau'. Gellir rhannu'r gosodiadau yn nhrefn y canlyniadau gyda'r canlyniadau uchaf ar gyfer gosodiadau yn ymwneud â mwynhau, y rhai isaf ar gyfer y gosodiadau yn ymwneud â deall, a'r rhai yn y canol yn ymwneud â gwrando.

6.5.2.2 Adran Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg

Bwriad Adran B yw edrych ar barodrwydd a gallu'r plant i siarad a chyfathrebu yn Gymraeg yn y cylch meithrin. Mae'r adran hon yn cynnwys 11 gosodiad ac unwaith eto gofynnwyd i'r arweinyddion nodi'r dewis addas.

Rhoddir y canlyniadau ar gyfer pob eitem isod:

Tabl 6.39 Amleddau Adran Siarad a Chyfathrebu

		Fel arfer %	Weithiau %	Dechrau %	Dim eto %
1	Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd.	46.0	19.5	22.8	11.7
2	Ateb cwestiynau syml.	38.3	17.4	23.9	20.4
3	Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb.	40.7	17.1	27.4	14.9
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	35.9	15.9	24.0	24.2
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	31.5	14.9	21.9	31.7
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	22.7	9.4	13.6	54.4
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	23.0	11.3	15.2	50.4
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	19.3	13.5	15.2	52.0
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni.	17.3	14.5	19.0	49.2
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	18.5	12.5	16.5	52.4
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	20.3	16.3	26.7	36.7

Nid yw'r canrannau yn y categorïau 'fel arfer' ac 'weithiau' mor uchel yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu ag yn yr adran flaenorol. Gwelir y canrannau uchaf yn y categori 'fel arfer' ar gyfer y gosodiadau 'Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd' ac ar gyfer 'Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb'. Ar gyfer yr eitem gyntaf, cofio ac atgynhyrchu'r hyn a glywyd eisoes gan arweinydd a staff y cylch a wneir. Dim ond 11.7% o'r plant sydd heb ddechrau gwneud hyn eto. Geiriau unigol yn unig y gofynnir amdanynt yn yr ail gategori. Ceir canrannau cymharol uchel yn y categori 'fel arfer' ar gyfer y gosodiadau 'Ateb cwestiynau syml' (38.3%) a 'Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml' (31.5%). Efallai na ddefnyddir iaith estynedig gan y plant hyn ond maent wedi dechrau defnyddio'r iaith Gymraeg yn y cylch meithrin. Yn yr un modd mae dros dri chwarter y plant wedi dechrau dangos awydd ac ymdrech i siarad Cymraeg. Yn Adran B sef Siarad a Chyfathrebu ni cheir un gosodiad ble mae mwyafrif y plant yn cyflawni'r

gosodiad 'fel arfer' lle caed pump gosodiad yn yr adran flaenorol. Yn hytrach ceir yma bedwar gosodiad lle mae mwyafrif y plant yn y categori 'dim eto', nid ydynt wedi dechrau gwneud yr hyn a ofynnir amdano. Y gosodiadau hyn yw 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell' (54.4%) 'Sgwrsio gyda oedolyn yn ddigymell' (50.4%) 'Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol'(52.0%) a 'Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau' (52.4%) a cheir hefyd 49.2% yn y categori 'dim eto' ar gyfer y gosodiad 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni'. Gellir cyplysu'r eitemau hyn trwy nodi mai yn y rhain y mae disgwyl defnydd annibynnol ac estynedig o'r Gymraeg. Ceir canran isel yn y categori 'fel arfer' ar gyfer y gosodiad 'Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm' hefyd ond, wrth gwrs, nid defnydd o'r Gymraeg yn unig sydd yma ond dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol.

6.5.2.3 Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

Yn yr Adran hon ceir 11 gosodiad yn ymwneud â sgiliau llythrennedd cynnar y plant. Eto rhoddwyd yr un dewisiadau i'r arweinyddion sef 'fel arfer', 'weithiau', 'dechrau' a 'dim eto'.

Rhoddir y canlyniadau ar ffurf canrannau dilys yn y tabl isod.

Tabl 6.40 Amleddau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		Fel arfer %	Weithiau %	Dechrau %	Dim eto %
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	69.7	15.7	11.5	3.1
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	55.3	21.3	16.1	7.2
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	23.9	15.6	27.9	32.6
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	26.7	22.1	28.5	22.7
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	17.7	20.7	23.7	37.9
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	12.2	12.6	26.6	48.6
7	Adnabod rhai llythrennau.	11.6	10.9	22.4	55.1
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	13.4	13.0	27.0	46.6
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg.	8.9	11.1	22.4	57.6
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	6.9	7.0	15.5	70.5
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	2.9	3.5	7.7	85.8

Yn Adran C dim ond ar gyfer dau osodiad y gwelwyd y mwyafrif o'r plant yn y categori 'fel arfer' sef 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn' (69.7%) a 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun' (55%). Canran fechan iawn o'r plant sydd ddim eto'n mwynhau gwneud hyn. Gellir cymharu hyn ag Adran A lle gwelwyd y canrannau 'fel arfer' uchaf ar gyfer mwynhau hefyd. Ceir un eithriad sef eitem naw, ond ceir dwy elfen yn y gosodiad hwn sef mwynhau a hefyd gwneud ymgais i ysgrifennu geiriau Cymraeg. Yn yr adran hon roedd pedwar gosodiad lle roedd mwyafrif y plant, mwyafrif sylweddol mewn dau achos, yn y categori 'dim eto'. Y gosodiadau hyn oedd 'Adnabod rhai llythrennau' (55.1%) 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg' (57.6%) 'Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg' (70.5%) ac 'Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy' (85.8%). Ceir canrannau isel, hynny yw, o dan 20% yn y categori 'fel arfer' ar gyfer saith o'r gosodiadau, gosodiadau yn ymwneud ag elfennau gwahanol megis: gwrando ar storïau a dyfalu beth sy'n digwydd nesaf, deall fod gan symbolau

ysgrifenedig ystyr a sain, adnabod llythrennau a geiriau, ysgrifennu geiriau Cymraeg, mwynhau gwneud marciau a'u trafod.

Ffigwr 6.10 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Adran Gwrando a Deall



Ffigwr 6.11 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Adran Siarad a Chyfathrebu



Ffigwr 6.12 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar



6.5.2.4 Adran Wybodaeth Bersonol.

Cynhwyswyd adran i gasglu gwybodaeth bersonol am y plant megis eu hoedran, eu rhyw, pa iaith a ddefnyddir rhyngddynt ac aelodau o'u teulu, y nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos a pha mor hir y buont yn mynychu'r Cylch. Gwnaed hyn er mwyn gweld pa ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau'r plant ac ar eu datblygiad. Drwy ddefnyddio dadansoddiad ffactoraidd gellir hefyd gweld pa ffactorau sy'n cael y dylanwad mwyaf ar y canlyniadau, hynny yw a yw'r nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos yn cael mwy o ddylanwad ar eu canlyniadau na'u hoedran?

6.5.2.4.1 Rhyw'r Plant

Gofynnwyd i'r Arweinyddion nodi rhyw y plentyn ar eu ffurflen er mwyn gweld pa effaith, os o gwbl, a gaiff hyn ar eu canlyniadau. Disgwylir y bydd canlyniadau'r merched ychydig yn well mewn rhai gosodiadau fel y gwelwyd yng nghanlyniadau Ymchwiliad 1.

Tabl 6.41 Amleddau Rhyw'r Plant

	Nifer	Canran	Canran dilys
Bechgyn	894	46.4	47.9
Merched	971	50.4	52.1
Cyfanswm	1865	96.8	100.0
Heb ateb	61	3.2	
Cyfanswm	1926	100.0	

Roedd 47.9% o'r plant yn y sampl ymchwil yn fechgyn a 52.1% yn ferched.

6.5.2.4.2 Dyddiad Geni

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi dyddiad geni'r plant o dan eu gofal. Yn y tabl isod nodir y nifer o blant a'r canrannau ohonynt a anwyd fesul mis.

Tabl 6.42 Amleddau Dyddiad Geni

Dyddiad (mis / blwyddyn)	Oedran (blwydd yn, mis)	Nifer	Canran
7/96	4,3	2	0.1
8/96	4,2	1	0.1
9/96	4,1	54	2.8
10/96	4,0	56	3.0
11/96	3,11	51	2.8
12/96	3,10	58	3.2
1/97	3,9	68	3.7
2/97	3,8	62	3.4
3/97	3,7	86	4.7
4/97	3,6	70	3.8
5/97	3,5	66	3.6
6/97	3,4	57	3.1
7/97	3,3	70	3.8
8/97	3,2	79	4.3
9/97	3,1	147	8.0

Dyddiad (mis / blwyddyn)	Oedran (blwydd yn, mis)	Nifer	Canran
10/97	3,0	155	8.4
11/97	2,11	132	7.2
12/97	2,10	106	5.8
1/98	2,9	121	6.6
2/98	2,8	96	5.2
3/98	2,7	116	6.3
4/98	2,6	92	5.0
5/98	2,5	38	2.1
6/98	2,4	17	0.9
7/98	2,3	17	0.9
8/98	2,2	12	0.6
9/98	2,1	9	0.5
Cyfanswm		1838	95.4
Heb ateb		88	4.6
Cyfanswm		1926	100.0

Fel y gwelir o'r tabl uchod roedd oedran y plant yn amrywio o ddwy flwydd a mis i bedair blwydd a thri mis pan wnaed yr ail ymchwiliad ym mis Hydref 2000. Felly, roedd gwahaniaeth o ddwy flynedd a dau fis rhwng yr hynaf a'r ieuengaf. Roedd 41.1% o'r plant o dan dair oed, 52.2% rhwng tair a phedair oed a 6.0% dros bedair oed.

6.5.2.4.3 Dyddiad Dechrau

Yn y tabl isod rhoddir pa bryd y dechreuodd y plant yn y cylch gan nodi eu niferoedd a'r canran o blant a ddechreuodd fesul mis. Rhoddir hefyd gyfri o'u cyfnod yn y cylch fesul blwyddyn a mis.

Tabl 6.43 Amleddau Dyddiad Dechrau

Dyddiad (mis/ blwyddyn)	Cyfnod yn y cylch (blwyddyn, mis)	Nifer	Canran
1/98	2,9	9	0.6
2/98	2,8	0	0
3/98	2,7	1	0.1
4/98	2,6	1	0.1
5/98	2,5	0	0
6/98	2,4	1	0.1
7/98	2,3	0	0
8/98	2,2	0	0
9/98	2,1	4	0.2
10/98	2,0	2	0.1
11/98	1,11	0	0
12/98	1,10	2	0.1
1/99	1,9	13	0.7
2/99	1,8	8	0.4
3/99	1,7	11	0.6
4/99	1,6	35	0.2
5/99	1,5	18	0.1
6/99	1,4	24	1.3

Dyddiad (mis/ blwyddyn)	Cyfnod yn y cylch (blwyddyn, mis)	Nifer	Canran
7/99	1,3	7	0.4
8/99	1,2	1	0.1
9/99	1,1	223	12
10/99	1,0	41	2.2
11/99	11	47	2.5
12/99	10	12	0.6
1/00	9	91	4.9
2/00	8	41	2.2
3/00	7	65	3.5
4/00	6	122	6.5
5/00	5	90	4.8
6/00	4	59	3.2
7/00	3	26	1.4
8/00	2	3	0.1
9/00	1	908	48.7
Cyfanswm		1865	97.7
Heb ateb		61	2.3
Cyfanswm		1926	100.0

Dim ond chwech wythnos oedd 48.7% o'r plant wedi bod yn mynychu'r cylch tra roedd eraill yn mynychu'r cylch ers dros ddwy flynedd a hanner. Fodd bynnag, mae'n bosib bod rhai arweinyddion wedi dyfalu oedran y plant a pha bryd y dechreuasant yn y cylch yn hytrach na gwirio'r cofrestr perthnasol.

6.5.2.4.4 Sesiynau yr Wythnos

Gofynnwyd i'r Arweinyddion nodi sawl sesiwn, sef hanner diwrnod, yr wythnos a fynychai'r plant. Gwnaed hyn er mwyn gweld, fel y disgwylid, bod Cymraeg y plant yn datblygu mwy po fwyaf o sesiynau yr wythnos maent yn ei fynychu. Hynny yw, byddai datblygiad plentyn sy'n mynychu pedwar neu bump sesiwn yr wythnos yn fwy na datblygiad plentyn sy'n mynychu un neu ddau sesiwn yr wythnos yn unig. Hefyd

bydd modd gweld a yw nifer y sesiynau yn cael mwy o effaith ar blant o gartrefi di-Gymraeg neu ar blant iau.

Tabl 6.44 Amleddau Nifer Sesiynau

Nifer sesiynau	Nifer	Canran	Canran Dilys
1	70	3.6	3.7
2	407	21.1	21.7
3	540	28.0	28.8
4	393	20.4	21.0
5	448	23.3	23.9
6	7	0.4	0.4
7	1	0.1	0.1
8	5	0.3	0.3
9	0	0	0
10	3	0.2	0.2
Cyfanswm	1874	97.4	100.0
Heb ateb	52	2.7	
Cyfanswm	1926	100.0	

Amrywia nifer y sesiynau a fynychai'r plant bob wythnos o un i ddeg. Nodwyd ar y ffurflen bod un sesiwn yn cynrychioli hanner diwrnod. Roedd 95.4% o'r plant yn mynychu rhwng dau a phump sesiwn yr wythnos. Dim ond dau sesiwn yr wythnos a fynychai 21.7% o'r plant tra mynychai 23.9% bump sesiwn yr wythnos. Dim ond 1% o'r plant a fynychai dros bump sesiwn yr wythnos.

Ffigwr 6.13 Ymchwiliad 2 – Nifer o Sesiynau yr Wythnos



6.5.2.4.5 Iaith y Teulu

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi, o'u gwybodaeth hwy, pa iaith mae'r rhiant neu rieni a gofalwr arall, os yn berthnasol yn ei siarad gyda'r plentyn. Gofynnwyd iddynt nodi'r iaith a ddefnyddir gyda'u brodyr a'u chwiorydd hefyd.

Rhoddir y canlyniadau yn y tabl isod ar ffurf canrannau dilys.

Tabl 6.45 Amleddau Iaith y Teulu

	Cymraeg bron drwy'r amser neu drwy'r amser	Cymraeg mwy na Saesneg	Cymraeg a Saesneg tua chyfartal	Saesneg mwy na Cymraeg	Saesneg bron drwy'r amser neu drwy'r amser
Mam	29.1	4.9	5.7	12.5	47.9
Tad	27.2	4.6	5.0	11.6	51.6
Brawd / Chwaer	29.6	4.7	7.9	17.7	32.0
Gofalwr (os yn berthnasol)	43.4	7.2	7.2	9.5	32.7

Fel y gwelir o'r tabl uchod roedd mamau 29.1% o'r plant yn siarad Cymraeg drwy'r amser neu bron drwy'r amser gyda'r plant a thadau canran ychydig yn is ohonynt sef 27.2% yn gwneud hynny. Saesneg oedd yr iaith rhwng bron hanner y plant (47.9%) â'u mamau a dros hanner y plant gyda'u tadau (51.6%). Pegynnwyd y canlyniadau gyda canrannau bychain yn defnyddio'r ddwy iaith i raddau amrywiol gyda'r rheini. Nifer cymharol fechan a nododd pa iaith a ddefnyddid rhwng y plant â Gofalwyr a Brodyr a Chwiorydd.

Ffigwr 6.14 Ymchwiliad 2 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Mamau



Ffigwr 6.15 Ymchwiliad 2 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Tadau



Er mwyn cael sgôr iaith y teulu cyfunwyd iaith y ddau riant lle nodwyd hynny. Pan nodwyd iaith dim ond un rhiant neu dim un, gadwyd y plentyn allan o'r dadansoddiad. Gwnaed hyn er mwyn gweld faint o effaith a gaiff iaith y teulu ar ddatblygiad y plant.

Cymraeg drwy'r amser / bron drwy'r amser.	1
Cymraeg mwy na Saesneg.	2
Cymraeg a Saesneg tua chyfartal.	3
Saesneg mwy na Chymraeg.	4
Saesneg drwy'r amser / bron drwy'r amser.	5

Felly y lleiaf yw sgôr teulu po fwyaf o Gymraeg a siaredir yn y teulu, a po fwyaf y sgôr, po fwyaf o Saesneg a siaredir.

Tabl 6.46 Amleddau Categorïau Iaith y Teulu

Sgôr	Nifer	Canran	Canran dilys
2	408	21.18	23.48
3	22	1.14	1.27
4	49	2.54	2.82
5	54	2.80	3.11
6	147	7.63	8.46
7	82	4.26	4.72
8	150	7.79	8.63
9	146	7.58	8.40
10	680	35.31	39.13
Cyfanswm	1738	90.24	100.00
Heb ateb	188	9.76	
Cyfanswm	1926	100.00	

Fel y gwelir o'r tabl uchod bod iaith y teuluoedd wedi eu pegynnu. Roedd 23.5% o'r teuluoedd yn deuluoedd lle siaradai'r ddau riant Gymraeg drwy'r amser neu bron drwy'r amser, a 39.1% ohonynt yn deuluoedd lle siaradai'r ddau riant Saesneg drwy'r amser neu bron drwy'r amser. Felly mewn 37.4% o deuluoedd defnyddiwyd y ddwy iaith i raddau amrywiol.

6.5.2.4.6 Ardaloedd

Roedd y plant yn y sampl yn dod o bob rhan o Gymru fel y gwelir o'r tabl isod:

Tabl 6.47 Dosraniad y Sampl

	Nifer cylchoedd	Canran Dilys - cylchoedd	Nifer plant	Canran Dilys-plant
Gogledd-orllewin	33	25.0	462	23.99
Gogledd-ddwyrain	22	16.67	303	15.73
Y Canolbarth	20	15.15	276	14.33
De-ddwyrain	26	19.70	461	23.94
De-orllewin	31	23.48	424	22.01
Cyfanswm	132	100.0	1926	100.0
Heb ateb	0		0	
Cyfanswm	132		1926	

Fel y gwelir o'r tabl uchod roedd 24% ohonynt yn dod o ogledd-orllewin Cymru, canran lai o'r gogledd ddwyrain (15.7%) a'r canolbarth (14.3%), 23.9% o'r de-ddwyrain a 22% o'r de-orllewin.

Yn y tabl isod nodir dosraniad y plant yn ôl y siroedd â ddefnyddir gan Mudiad Ysgolion Meithrin:

Tabl 6.48 Dosraniad y Sampl yn ôl Siroedd

	Ardal	Nifer Cylchoedd	Nifer	Canrannau Dilys
Arfon	Gogledd Orllewin	10	140	7.27
Dwyfor	Gogledd Orllewin	6	60	3.12
Meirion	Gogledd Orllewin	7	120	6.23
Ynys Môn	Gogledd Orllewin	10	142	7.37
Conwy	Gogledd Ddwyrain	8	93	4.83
Dinbych	Gogledd Ddwyrain	6	79	4.1
Wrecsam	Gogledd Ddwyrain	5	78	4.05
Fflint	Gogledd Ddwyrain	3	53	2.75
Caerdydd	De Ddwyrain	6	124	6.44
Caerffili	De Ddwyrain	4	87	4.52
Ogwr	De Ddwyrain	3	76	3.95
Bro Morgannwg	De Ddwyrain	2	39	2.02
Blaenau Gwent / Mynwy	De Ddwyrain	3	46	2.39
Rhondda Cynon Taf	De Ddwyrain	8	89	4.62
Gogledd Powys	Canolbarth	6	69	3.58
De Powys	Canolbarth	2	35	1.82
Ceredigion	Canolbarth	12	172	8.93
Caerfyrddin	De Orllewin	17	230	11.9
Penfro	De Orllewin	6	88	4.57
Castell Nedd Port Talbot	De Orllewin	3	38	1.97
Abertawe	De Orllewin	5	68	3.53
Cyfanswm		132	1926	100
Heb ateb			0	
Cyfanswm			1926	

Amrywiai'r nifer o blant ym mhob sir unigol o 35 yn Ne Powys, sef 1.82% o'r sampl i 230 yng Nghaerfyrddin, 11.9% o'r sampl. Gwelir o'r tablau hyn bod croes doriad eang o ran lleoliad daearyddol y plant yn y sampl.

6.5.2.5 Casgliadau yn Ymwneud ag Amleddau

Cyflwynwyd amleddau Ymchwiliad 2 er mwyn rhoi braslun o ganlyniadau'r ymchwiliad cenedlaethol cyntaf o ddau. Mae'r canlyniadau a gyflwynwyd yn dangos

bod 1926 o blant o 132 cylch meithrin ledled Cymru yn y sampl ymchwil. Roedd 47.9% ohonynt yn fechgyn a 52.1% yn ferched, ac ar ddyddiad yr ymchwiliad amrywiai eu hoedran o ddwy flwydd a mis i bedair blwydd a thri mis. Roedd 48.7% ohonynt yn mynychu'r cylch ers chwech wythnos yn unig. Amrywiai nifer y sesiynau a fynychant o un i 11, ond roedd y mwyafrif helaeth yn mynychu rhwng dau a phump sesiwn o hanner diwrnod yr wythnos. Roedd eu cefndir ieithyddol yn amrywiol. Roedd 23.5% o'r teuluoedd yn deuluoedd lle siaradai'r ddau riant Gymraeg drwy'r amser, neu bron drwy'r amser gyda'r plentyn, 39.1% yn deuluoedd gyda'r ddau riant yn siarad Saesneg drwy'r amser, neu bron drwy'r amser gyda'r plentyn. Mewn 37.4% o'r teuluoedd defnyddiwyd y ddwy iaith i raddau amrywiol.

6.5.3 Cydberthyniadau

Defnyddir dadansoddiad cydberthyniad i ddisgrifio cryfder a chyfeiriad y berthynas linol rhwng dau amrywiad. Mae'r cymariaethau yn y adran hon wedi eu rhannu yn bump grŵp. Yn gyntaf cyflwynir a thrafodir gwahaniaethau posibl mewn amleddau rhwng bechgyn a merched, edrychir ar ddylanwad oedran y plant, pa mor hir y buont yn mynychu'r cylch, nifer y sesiynau fynychant yr wythnos a dylanwad cefndir ieithyddol y plant. Disgwylir y bydd cefndir ieithyddol y plant yn cael dylanwad sylweddol ar eu canlyniadau, bod mynychu mwy o sesiynau a treulio cyfnod hwy yn y cylch yn cael dylanwad cadarnhaol sylweddol ar eu canlyniadau.

Ystyrir gwahaniaethau yn wahaniaethau ystadegol arwyddocaol pan fo lefel yr hyder yn llai na 0.05, ac yn ymylu ar fod yn arwyddocaol pan fo lefel yr hyder rhwng 0.06 a 0.10.

6.5.3.1 Prawf T-test

6.5.3.1.1 Bachgen / Merch

Gwnaed prawf t-test er mwyn gweld a oedd rhyw'r plant yn effeithio ar eu canlyniadau ac, os oedd eu rhyw yn cael dylanwad, ble oedd y dylanwad hwnnw ar ei

gryfaf. Disgwylid y byddai canlyniadau'r merched yn well ac y byddai hynny amlycaf yn y drydedd adran, sef Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar.

Tabl 6.49 Cymharu Cymedr ar Sail Rhyw'r Plant – Adran Gwrando a Deall

		Cymedr Bechgyn	Cymedr Merched	t	df	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	1.32	1.24	2.604	1853	**0.009**
2	Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	1.69	1.62	1.505	1778	0.132
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	1.72	1.63	2.129	1844	0.033
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	1.87	1.77	2.058	1832	**0.040**
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	2.11	2.01	2.053	1797	**0.040**
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	1.91	1.78	2.698	1845	**0.007**
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	2.25	2.07	3.480	1838	**0.001**
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	2.04	1.82	4.538	1836	**0.0001**
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg.	2.25	2.04	4.107	1847	**0.0001**
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	2.19	2.08	2.094	1852	**0.036**
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	2.46	2.37	1.690	1854	0.091

Tabl 6.50 Cymharu Cymedr ar Sail Rhyw'r Plant – Adran Siarad a Chyfathrebu

		Cymedr Bechgyn	Cymedr Merched	t	df	p
1	Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd.	2.12	1.90	4.357	1845	**0.0001**
2	Ateb cwestiynau syml.	2.32	2.22	1.789	1841	0.074
3	Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, lliwiau, teganau ayyb.	2.22	2.13	1.801	1838	0.72
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	2.39	2.35	0.668	1837	0.504
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	2.57	2.52	0.768	1830	0.443
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	3.03	2.97	0.997	1845	0.319
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	2.95	2.92	0.638	1846	0.524
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	3.05	2.97	1.581	1842	0.114
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni.	3.07	2.96	2.042	1846	**0.041**
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	3.06	3.00	1.197	1828	0.231
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol	2.85	2.75	1.985	1820	0.47

Tabl 6.51 Cymharu Cymedr ar Sail Rhyw'r Plant – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		Cymedr Bechgyn	Cymedr Merched	t	df	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	1.54	1.41	3.549	1848	**0.0001**
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	1.85	1.65	4.440	1845	**0.0001**
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	2.79	2.62	3.266	1839	**0.001**
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	2.57	2.39	3.446	1838	**0.001**
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	2.91	2.74	3.177	1835	**0.002**
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	3.21	3.03	3.773	1840	**0.0001**
7	Adnabod rhai llythrennau.	3.28	3.14	2.922	1834	**0.004**
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	3.15	2.99	3.251	1827	**0.001**
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg.	3.39	3.19	4.463	1831	**0.0001**
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	3.53	3.46	1.670	1844	0.095
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	3.79	3.74	1.473	1845	0.141

Ceir naw gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar sail rhyw yn yr Adran Gwrando a Deall ac un gwahaniaeth yn ymylu ar fod yn arwyddocaol sef 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'. Yr unig ganlyniad nad yw'n dangos gwahaniaeth arwyddocaol yw 'Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg'. Ym mhob achos roedd cymedr canlyniadau'r merched yn well na chymedr canlyniadau'r bechgyn.

Yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu dim ond mewn dau achos y gwelwyd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol sef 'Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd' a 'Siarad am stori gyfarwydd'. Ceir un achos o wahaniaeth ystadegol sy'n ymylu ar fod yn arwyddocaol sef 'Ateb cwestiynau syml'. Unwaith eto roedd cymedr canlyniadau'r merched yn well nag un y bechgyn ym mhob gosodiad.

Ymddengys fod rhyw'r plant yn cael effaith amlycach ar eu sgiliau llythrennedd cynnar nag ar eu sgiliau siarad a chyfathrebu. Yma ceir naw achos o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol ac un achos sy'n ymylu ar fod yn arwyddocaol sef 'Adnabod geiriau syml'. Yr unig osodiad nad oedd atebion y merched yn ystadegol arwyddocaol well na'r bechgyn oedd 'Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy'. Fel yn y ddwy adran flaenorol roedd cymedr canlyniadau'r merched yn well nag un y bechgyn ym mhob achos.

Ffigwr 6.16 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Bechgyn a Merched Adran Gwrando a Deall



Ffigwr 6.17 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Bechgyn a Merched Adran Siarad a Chyfathrebu



Ffigwr 6.18 Ymchwiliad 2 – Cymedrau Bechgyn a Merched Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar



6.5.3.1.2 Dyddiad Geni

Er mwyn edrych ar ddylanwad oedran y plant ar eu canlyniadau, rhannwyd y plant yn bedwar grŵp o tua naw mis yr un drwy ailgodio'r data yn y rhaglen ystadegol cyfrifiadurol SPSS. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio'r gweithiannau 'transform' a 'recode' a rhoi gwerth i'r ystod amser.

Grŵp 1 – Gorffennaf 1996 i Ionawr 1997
Grŵp 2 – Chwefror 1997 i Awst 1997
Grŵp 3 – Medi 1997 i Fawrth 1998
Grŵp 4 – Ebrill 1998 i Ragfyr 1998

Tabl 6.52 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	-0.092	**0.008**
2	Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	-0.112	**0.0001**
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	-0.107	**0.0001**
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	-0.133	**0.0001**
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	-0.119	**0.0001**
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	-0.097	**0.0001**
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	-0.156	**0.0001**
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	-0.138	**0.0001**
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau	-0.158	**0.0001**
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	-0.159	**0.0001**
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	-0.159	**0.0001**

Tabl 6.53 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd.	-0.153	**0.0001**
2	Ateb cwestiynau syml.	-0.132	**0.0001**
3	Defnyddio geiriau cyffredin – enwau anifeiliaid, lliwiau ayyb.	-0.148	**0.0001**
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	-0.105	**0.0001**
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	-0.116	**0.0001**
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	-0.113	**0.0001**
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	-0.125	**0.0001**
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	-0.159	**0.0001**
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni.	-0.157	**0.0001**
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	-0.126	**0.0001**
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	-0.192	**0.0001**

Tabl 6.54 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	-0.0461	**0.049**
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	-0.103	**0.0001**
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	-0.170	**0.0001**
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	-0.140	**0.0001**
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	-0.188	**0.0001**
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	-0.234	**0.0001**
7	Adnabod rhai llythrennau.	-0.257	**0.0001**
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	-0.209	**0.0001**
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau	-0.220	**0.0001**
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	-0.150	**0.0001**
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	-0.154	**0.0001**

Cafodd dyddiad geni y plant ddylanwad ystadegol arwyddocaol ar bob un gosodiad yn y dair adran. Ymddengys felly bod eu hoedran yn ffactor pwysig yn eu cyrhaeddiad. Gwelir hyn gryfaf yn y drydedd adran sef yr adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Mae

hyn i'w ddisgwyl mae'n debyg gan fod sgiliau megis 'Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori' a 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg' yn dod gydag oedran. Gwelir y cydberthyniadau agosaf rhwng oedran a'r canlyniadau ar gyfer y gosodiadau 'Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau', 'Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori', Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain', 'Adnabod rhai llythrennau', 'Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir' a 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg' yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar ac ar gyfer y gosodiad 'Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm' yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Mae'r rhain yn gysyniadau sy'n gofyn am aeddfedrwydd yn ogystal â sgiliau ieithyddol.

Y gosodiadau gyda'r lleiaf o berthynas rhwng oedran y plant a'u canlyniadau yw 'Mwynhau gweithgareddau'r cylch' yn Adran Gwrando a Deall a 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn' yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Mae'r ddau osodiad hyn yn ymwneud â mwynhad yn y cylch, ymddengys nad yw eu hoedran yn effeithio ar eu mwynhad.

6.5.3.1.3 Dyddiad Dechrau

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi'r dyddiad y dechreuodd pob plentyn yn y cylch er mwyn gweld pa fath o effaith a gaiff hyd yr amser y buont yn y cylch ar ganlyniadau'r tair adran.

Tabl 6.55 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	0.108	**0.0001**
2	Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	0.115	**0.0001**
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	0.108	**0.0001**
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	0.103	**0.0001**
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	0.075	**0.001**
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	0.089	**0.0001**
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	0.101	**0.0001**
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	0.128	**0.0001**
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau.	0.120	**0.0001**
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	0.103	**0.0001**
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	0.093	**0.0001**

Tabl 6.56 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd.	0.130	**0.0001**
2	Ateb cwestiynau syml.	0.103	**0.0001**
3	Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb.	0.108	**0.0001**
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	0.076	**0.001**
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	0.088	**0.0001**
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	0.067	**0.004**
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	0.064	**0.006**
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	0.064	**0.006**
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni.	0.079	**0.001**
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	0.059	**0.011**
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	0.107	**0.0001**

Tabl 6.57 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	0.132	**0.0001**
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	0.133	**0.0001**
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	0.095	**0.0001**
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	0.108	**0.0001**
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	0.075	**0.001**
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	0.068	**0.004**
7	Adnabod rhai llythrennau.	0.075	**0.001**
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	0.069	**0.003**
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau.	0.041	0.075
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	0.030	0.201
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	0.019	0.422

Ymddengys bod pa mor hir y bu'r plant yn mynychu'r cylch yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pob gosodiad yn Adran Gwrando a Deall. Nid oedd y cydberthyniadau yn fawr iawn ond, serch hynny, roeddynt yn ystadegol arwyddocaol. Mae'r cydberthyniadau yn debyg iawn o ran maint gan awgrymu nad oes un eitem yn fwy perthnasol na'i gilydd wrth ystyried pa mor hir y bu'r plant yn mynychu'r cylch. Awgryma hyn nad yw'r dyddiad dechrau yn cael effaith cryf iawn ar ganlyniadau Adran Gwrando a Deall.

Unwaith eto yn Adran Siarad a Chyfathrebu ymddengys fod y dyddiad y dechreuodd y plant yn y cylch meithrin yn cael dylanwad ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pob gosodiad. Mae'r cydberthyniadau yn llai yn yr adran hon nag yn yr adran flaenorol.

Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, yn wahanol i'r ddwy adran flaenorol, nid yw canlyniad pob gosodiad yn cael ei effeithio'n arwyddocaol gan ddyddiad dechrau'r plant yn y cylch. Mae wyth o'r 11 canlyniad yn dangos bod y ffactor 'dyddiad dechrau' yn ddylanwad ystadegol arwyddocaol. Mae canlyniad y gosodiad 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli lythrennau / geiriau Cymraeg' yn ymylu ar fod yn arwyddocaol tra nad yw canlyniad dau osodiad arall yn dangos gwahaniaeth

ystadegol arwyddocaol, sef 'Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg', ac 'Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy'.

6.5.3.1.4 Nifer Sesiynau

Gofynnwyd i'r Arweinyddion nodi nifer y sesiynau a fynychai'r plant bob wythnos, Disgwylir bod y plant sy'n mynychu mwy o sesiynau yr wythnos yn cael canlyniadau gwell ac yn datblygu yn eu Cymraeg yn gynt. Disgwylir gweld dylanwad nifer y sesiynau fwyaf ar ganlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu gan eu bod wedi dod i fwy o gysylltiad â'r iaith ac felly'n fwy parod i'w siarad.

Tabl 6.58 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	-0.96	**0.0001**
2	Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	-0.112	**0.0001**
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	-0.114	**0.001**
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	-0.129	**0.0001**
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	-0.116	**0.0001**
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	-0.067	**0.004**
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	-0.092	**0.0001**
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	-0.048	**0.040**
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau.	-0.071	**0.002**
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	-0.071	**0.002**
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	-0.055	**0.018**

Tabl 6.59 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd.	-0.106	**0.0001**
2	Ateb cwestiynau syml.	-0.096	**0.0001**
3	Defnyddio geiriau cyffredin – anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb.	-0.117	**0.0001**
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	-0.057	**0.014**
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	-0.123	**0.0001**
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	0.006	0.782
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	-0.21	0.356
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	-0.062	**0.008**
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni.	-0.043	0.063
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	-0.035	0.131
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	-0.076	**0.001**

Tabl 6.60 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	-0.028	0.225
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	-0.025	0.276
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	-0.042	0.070
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	-0.058	**0.012**
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	-0.068	**0.004**
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	-0.034	0.149
7	Adnabod rhai llythrennau.	-0.056	**0.016**
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	-0.076	**0.001**
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau.	-0.078	**0.001**
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	-0.027	0.251
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	-0.021	0.376

Ymddengys fod nifer y sesiynau a fynychir yr wythnos yn cael effaith ar ganlyniadau pob gosodiad yn Adran Gwrando a Deall. Gwelir fod canlyniad negyddol

i'r cydberthyniad ym mhob achos; dengys hyn fod y canlyniadau'n gwella, hynny yw, yn nes at y categori 'fel arfer' wrth i nifer y sesiynau a fynychir yr wythnos gynyddu.

Yn Adran Siarad a Chyfathrebu ymddengys bod y nifer o sesiynau a fynychir yr wythnos yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau saith o'r 11 gosodiad. Y gosodiadau hyn oedd 'Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd', 'Ateb cwestiynau syml', 'Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb', 'Dangos awydd ac ymdrech i siarad', 'Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml', 'Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol' a 'Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm'. Roedd y nifer o sesiynau a fynychwyd yn cael effaith a oedd yn ymylu ar fod yn ystadegol arwyddocaol ar ganlyniad y gosodiad 'Siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol'. Ymddengys fod cynyddu'r nifer o sesiynau a fynychir yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau'r gosodiad 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell', er hyn, ychydig iawn oedd yr effaith hwn.

Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, roedd pump gosodiad lle roedd nifer sesiynau yr wythnos a fynychwyd yn ymddangos fel petai'n effeithio'n arwyddocaol, ac un arall lle roedd yn ymylu ar fod yn arwyddocaol. Roedd canlyniadau'r gosodiadau canlynol yn cael eu heffeithio'n ystadegol arwyddocaol gan y nifer o sesiynau a fynychwyd yn wythnosol: 'Ymateb i gynnwys llyfr', 'Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori', 'Adnabod rhai llythrennau', 'Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir', 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg'. Roedd effaith y nifer o sesiynau ar ganlyniadau'r gosodiad 'Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau' yn ymylu at fod yn ystadegol arwyddocaol.

6.5.3.1.5 Teulu

Er mwyn cael sgôr iaith y teulu cyfunwyd iaith y ddau riant lle nodwyd hynny. Rhoddwyd sgôr i'r tad a sgôr i'r fam ac ychwanegu'r ddau i gael sgôr teulu. Pan nodwyd iaith dim ond un rhiant neu dim un, gadwyd y plentyn allan o'r dadansoddiad. Gwnaed hyn er mwyn gweld faint o effaith a gaiff iaith y teulu ar ddatblygiad y plant.

Isod cyflwynir y cydberthyniadau i weld a yw cefndir ieithyddol y plentyn yn cael dylanwad ar eu canlyniadau. Disgwylir y bydd iaith y teulu yn cael dylanwad ar ganlyniadau'r gosodiadau yn nhair adran y Ffurflen Datblygiad Iaith.

Tabl 6.61 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	-0.130	**0.0001**
2	Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	-0.277	**0.0001**
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	-0.263	**0.0001**
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	-0.288	**0.0001**
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	-0.309	**0.0001**
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	-0.360	**0.0001**
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	-0.373	**0.0001**
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	-0.279	**0.0001**
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg.	-0.365	**0.0001**
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	-0.480	**0.0001**
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	-0.627	**0.0001**

Tabl 6.62 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd.	-0.281	**0.0001**
2	Ateb cwestiynau syml.	-0.527	**0.0001**
3	Defnyddio geiriau cyffredin – anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb.	-0.502	**0.0001**
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	-0.561	**0.0001**
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	-0.587	**0.0001**
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	-0.738	**0.0001**
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	-0.710	**0.0001**
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	-0.574	**0.0001**
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni.	-0.568	**0.0001**
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	-0.574	**0.0001**
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	-0.418	**0.0001**

Tabl 6.63 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	-0.218	**0.0001**
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	-0.277	**0.0001**
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	-0.285	**0.0001**
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	-0.376	**0.0001**
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	-0.286	**0.0001**
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	-0.271	**0.0001**
7	Adnabod rhai llythrennau.	-0.202	**0.0001**
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	-0.310	**0.0001**
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau	-0.260	**0.0001**
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	-0.194	**0.0001**
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	-0.218	**0.0001**

Fel yng nghanlyniadau Ymchwiliad 1 cafodd iaith y teulu ddylanwad ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pob gosodiad yn y Ffurflen Datblygiad Iaith. Mae'r cydberthyniadau ar gyfer iaith y teulu yn gryfach nag ar gyfer yr elfennau eraill yr edrychwyd arnynt megis nifer y sesiynau a fynychir, dyddiad geni, dyddiad dechrau a'u rhyw. Mae'r cydberthyniadau uchaf i'w gweld yn Adran Siarad a Chyfathrebu, sef ar gyfer pob gosodiad ag eithrio'r cyntaf sef 'Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd'. Felly ar eu parodrwydd a'u gallu i fynegi eu hunain yn y Gymraeg y caiff iaith y teulu y dylanwad mwyaf yn hytrach nag ar eu sgiliau Gwrando a Deall a'u Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Fodd bynnag, roedd iaith y teulu yn cael dylanwad uwch na'r arferol ar ganlyniadau dau osodiad yn Adran Gwrando a Deall sef 'Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg' a 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg', mae'r ail elfen yn y gosodiadau hyn yn gofyn am ymateb gan y plant.

6.5.3.2 Dadansoddiad Ffactoraidd

Cyflwynwyd y gosodiadau ym mhob adran yn unigol i'r dadansoddiad ffactoraidd a grwpiodd y dadansoddiad hwn hwy i gategorïau amrywiol o osodiadau â pherthynas agos â'i gilydd.

> *No special emphasis is placed on any of the individual variables in factor analysis although the generated structure may highlight the dominant role of particular measures.*
> (Youngman, 1979, 111)

Mae gan bob gosodiad ym mhob dimensiwn bwysau a'r uchaf yw'r pwysau, y mwyaf o bwysau sydd gan y gosodiad ar y dimensiwn. Yna rhaid sgwario'r pwysau a'u adio ac fe'u hychwanegir at ei gilydd i roi'r *eigenvalue* sy'n cyflwyno swm o amrywiant mae pob dimensiwn wedi ei gyfrannu i gyfanswm amrywiant yr holl eitemau ym mhob adran o'r ffurflen.

Penderfynir ar y nifer o ffactorau (dimensiynau) i'w tynnu allan drwy lunio graff *scree* gyda'r *eigenvalue* wedi ei blotio yn erbyn rhif y ffactor. Mae'r nifer o ffactorau sy'n ymddangos cyn y llinell syth neu *scree* yn dangos y nifer o ffactorau i'w tynnu allan. I wneud yn siŵr o'r datrysiad, tynnwyd allan ddatrysiadau ychwanegol ar gyfer yr eitemau ym mhob adran i weld pa ddatrysiad oedd y mwyaf dehongladwy. Cymharwyd y datrysiadau hyn ac fe arweiniodd hyn yr ymchwilydd at y datrysiad mwyaf addas.

Dechreuodd y dadansoddiad ffactoraidd drwy gyfrifo y *Communalities* drwy ddefnyddio'r dull *Principal Axis Extraction*. Cyflwynodd y rhaglen fatrics o *eigenvalues* dechreuol ynghyd â chylchdro cyfanswm y pwysiad wedi eu sgwario. Yn dilyn llunio graff *scree*, penderfynwyd yn ddechreuol ar y nifer o ffactorau. Yna caed matrics gyda phwysiad o'r holl osodiadau â phwysiad arwyddocaol gan ddechrau gyda'r uchaf ac yna fe'u dehonglwyd. Penderfynwyd ar isafswm gwerth arwyddocaol drwy gyfeirio at dabl C2 Child (Child, 1970, 100) wedi ei seilio ar fformiwla Burt – Banks (Child, 1970, 97). Anwybyddwyd amrywiadau â phwysiad isel iawn, tra archwiliwyd a dehonglwyd rhai â phwysiad uchel. Gall pwysiad isel fod yn arwydd o osodiadau sy'n isel mewn dilysrwydd neu sy'n benodol, idiosynctratig neu'n unigryw.

Mae Adran A, sef Adran Gwrando a Deall yn cynnwys 11 gosodiad yn ymwneud ag agweddau ar sgiliau gwrando a deall o fewn y Cylch meithrin. Rhoddwyd yr 11 gosodiad mewn dadansoddiad amrywiad *latent*. Awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 21) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi eu cylchdroi bresenoldeb dim ond un dimensiwn cyffredinol yn ymwneud â gwrando a deall y Gymraeg gyda'r gosodiadau dros 0.40. Penderfynwyd ar yr isafswm pwysiad drwy ddilyn fformiwla Burt-Banks a chyfeirio at Baker (1992).

Cynhyrchodd y dadansoddiad amrywiad llinol y graddfeydd canlynol

Tabl 6.64 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Gwrando a Deall

Adran Gwrando a Deall Enw'r ffactor – Gwrando a deall Cymraeg	
Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau	0.842
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	0.840
Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg	0.838
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	0.836
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	0.822
Gwrando ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr	0.810
Gwrando ac ymateb yn briodol– un i un gyda'r arweinydd	0.809
Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg	0.805
Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg	0.764
Mwynhau gwylio teledu / fideos / tapiau Cymraeg	0.696
Mwynhau gweithgareddau'r cylch	0.587

Mae Adran B, sef Adran Siarad a Chyfathrebu yn cynnwys 11 gosodiad yn ymwneud â siarad a chyfathrebu yn Gymraeg yn y cylch meithrin. Rhoddwyd yr 11 gosodiad yn y dadansoddiad amrywiad llinol. Unwaith eto, awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 22) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi eu cylchdroi, bresenoldeb dim ond un dimensiwn yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ar lafar.

Tabl 6.65 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Siarad a Chyfathrebu

Adran Siarad a Chyfathrebu Enw'r Ffactor – Defnyddio'r Gymraeg ar lafar	
Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml	0.906
Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell	0.889
Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni	0.885
Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol	0.882
Dangos awydd ac ymdrech i siarad	0.871
Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau	0.870
Ateb cwestiynau syml	0.856
Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell	0.839
Defnyddio geiriau cyffredin	0.838
Defnyddio ychydig o iaith fathemategol	0.773
Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd	0.654

Mae Adran C, sef Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn cynnwys 11 gosodiad yn ymdrin â sgiliau llythrennedd cynnar y plant. Rhoddwyd yr 11 gosodiad yn y dadansoddiad amrywiad llinol. Awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 23) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi eu cylchdroi bresenoldeb dau ddimensiwn. Un yn ymwneud â sgiliau ysgrifennu dechreuol y plant a'r llall yn ymwneud â dealltwriaeth sylfaenol y plant o Gymraeg ysgrifenedig.

Tabl 6.66 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 1

Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar Ffactor 1 Enw'r Ffactor – Ysgrifennu peth Cymraeg	
Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli geiriau	0.808
Adnabod rhai llythrennau	0.793
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	0.749
Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg	0.733
Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir	0.702
Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy	0.696
Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori	0.621
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau	0.586
Ymateb i gynnwys llyfr	0.537

Tabl 6.67 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 2

Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar Ffactor 2 Enw'r Ffactor – Deall ychydig o Gymraeg ysgrifenedig	
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun	0.841
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn	0.770
Ymateb i gynnwys llyfr	0.637
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau	0.565
Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori	0.551
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	0.409

6.5.3.2.1 Newidynnau sy'n Dylanwadu ar y Ffactorau

Yn y tablau isod cyflwynir y newidynnau a effeithiodd yn ystadegol arwyddocaol ar y dimensiynau a welir uchod.

Tabl 6.68 Newidynnau Pwysicaf – Adran Gwrando a Deall

Newidynnau Pwysicaf	r	MultR	Beta	p
Iaith Teulu	-0.433	0.433	-0.437	**0.0001**
Sesiynau	0.111	0.458	0.144	**0.0001**
Dyddiad Dechrau	-0.150	0.470	-0.106	**0.0001**
Bachgen / Merch	0.082	0.477	0.083	**0.0001**
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad Geni	0.018			0.458

Tabl 6.69 Newidynnau Pwysicaf – Adran Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg

Newidynnau Pwysicaf	r	MultR	Beta	p
Iaith Teulu	-0.663	0.663	-0.670	**0.0001**
Sesiynau	0.069	0.675	0.126	**0.0001**
Dyddiad Dechrau	-0.110	0.677	-0.050	**0.006**
Bachgen / Merch	0.046	0.479	0.048	**0.009**
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad Geni	0.004			0.712

Tabl 6.70 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 1

Newidynnau Pwysicaf	r	MultR	Beta	p
Iaith Teulu	-0.259	0.259	-0.2630	**0.0001**
Sesiynau	0.061	0.272	0.083	**0.001**
Bachgen / Merch	0.060	0.280	0.062	**0.009**
Dyddiad Dechrau	-0.075	0.284	-0.048	**0.044**
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad Geni	0.024			0.313

Tabl 6.71 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 2

Newidynnau Pwysicaf	r	MultR	Beta	p
Iaith Teulu	-0.285	0.285	-0.278	**0.0001**
Dyddiad Dechrau	-0.119	0.301	-0.097	**0.0001**
Bachgen / Merch	0.097	0.316	0.095	**0.0001**
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad Geni	0.019			0.547
Sesiynau	0.017			0.104

Cefndir ieithyddol y plant oedd y newidyn pwysicaf yn y pedwar ffactor oedd yn y effeithio ar y pedwar dimensiwn yn y Ffurflen Datblygiad Iaith. Yn dilyn archwiliad

o'r gosodiadau oedd yn y pedwar dimensiwn enwyd y dimensiynau fel a welir yn y tabl isod.

Tabl 6.72 Enwau'r Dimensiynau

Adran	Rhif y ffactor	Enw'r ffactor
Gwrando a Deall	1	Gwrando a deall Cymraeg
Siarad a Chyfathrebu	1	Defnyddio'r Gymraeg ar lafar
Sgiliau Llythrennedd Cynnar	1	Ysgrifennu peth Cymraeg
	2	Deall ychydig o Gymraeg ysgrifenedig

Yn eu trefn y newidynnau pwysicaf a effeithiodd ar y ffactor 'Gwrando a deall Cymraeg' a'r ffactor 'Defnyddio'r Gymraeg ar lafar' oedd iaith y teulu, sesiynau, dyddiad dechrau a rhyw'r plant. Yr un newidynnau oedd yn dylanwadu fwyaf ar y ffactor 'Ysgrifennu Cymraeg' ond mewn trefn wahanol. Iaith y teulu oedd y newidyn pwysicaf eto gyda nifer y sesiynau yn dilyn yna eu rhyw a'u dyddiad dechrau. Dim ond tri newidyn oedd yn y gyfres o newidynnau yn yr hafaliad ar gyfer y ffactor 'Deall ychydig o Gymraeg ysgrifenedig'. Y newidynnau hynny oedd iaith y teulu, y dyddiad dechrau a'u rhyw. Yn ddiddorol, ni chafodd oedran y plant ei gynnwys yn yr un o'r hafaliadau. Cadarnhaodd y dadansoddiad ffactoraidd yr hyn a welwyd yn y dadansoddiadau cydberthyniad sef mai iaith y teulu oedd yn cael y dylanwad cryfaf ar ganlyniadau'r plant.

6.5.4 Casgliadau Ymchwiliad 2

Yn ail ran pennod 6 cyflwynwyd canlyniadau Ymchwiliad 2, sef yr ymchwiliad cenedlaethol cyntaf a wnaed yn Hydref 2000. Cymerodd 132 cylch meithrin ledled Cymru ran yn yr ymchwiliad hwn. Defnyddiwyd Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 12) i gasglu gwybodaeth ynglŷn â iaith y plant. Trafodwyd llunio'r ffurflen ym Mhennod 5. Anfonwyd Ffurflenni Datblygiad Iaith i tua thraean o'r cylchoedd ym mhob sir yng Nghymru. Roedd pob plentyn oed yn y cylch ar y pryd yn rhan o'r ymchwil.

Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn â manylion y sampl yn ail ran Pennod 6. Cynhwysai sampl Ymchwiliad 2 1926 plentyn o 132 cylch meithrin yn genedlaethol. Roedd 47.9% ohonynt yn fechgyn a 52.1% ohonynt yn ferched. Cymraeg oedd yr iaith a ddefnyddir drwy'r amser neu bron drwy'r amser rhwng 29.1% o'r plant a'u mamau a 27.2% o'r plant a'u tadau. Gofynnwyd i'r Arweinyddion hefyd nodi pa iaith a siaradai unrhyw ofalwr oedd yn gofalu am y plant gyda hwy. Roedd 43.4% ohonynt yn siarad Cymraeg drwy'r amser neu bron drwy'r amser gyda'r plant o dan eu gofal a 32.7% yn siarad Saesneg drwy'r amser neu bron drwy'r amser gyda'r plant. Cyfunwyd iaith y rhieni er mwyn defnyddio'r amrywiad hwn i ddadansoddi'r berthynas rhwng iaith y teulu a chanlyniadau'r plant. Drwy gyfuno'r ddau amrywiad iaith y tad a iaith y fam, gwelwyd mai Cymraeg oedd yr iaith a ddefnyddiai'r ddau riant gyda 23.5% o'r plant yn y sampl, Saesneg a ddefnyddiai rhieni 39.1% o'r plant. Defnyddid y ddwy iaith i raddau gan rieni 37.4% o'r plant.

Amrywiai'r nifer o sesiynau a fynychai'r plant o un i ddeg, nodwyd ar y ffurflen bod sesiwn yn cynrychioli hanner diwrnod. Roedd mwyafrif sylweddol o'r plant (95.4%) yn mynychu rhwng dau a phump sesiwn yr wythnos. Dau sesiwn yn unig a fynychai 21.7% o'r sampl, tra mynychai 23.9% bump sesiwn yr wythnos. Dim ond 1% a fynychai dros bump sesiwn yr wythnos.

Dangoswyd bod y sampl yn cynrychioli Cymru gyfan. Roedd 24% o'r sampl o'r gogledd-orllewin, 15.7% o'r gogledd-ddwyrain, 14.3% o'r canolbarth, 23.9% o'r de-ddwyrain a 22% o'r de-orllewin.

Yn ôl y dystiolaeth a gaed gan arweinyddion y cylchoedd meithrin, amrywiai oedran y plant o ddwy flwydd a mis i bedair blwydd a mis. Roedd 41.1% o'r plant yn ddwy oed, 52.2% yn dair oed a 6.0% yn bedair oed. Dim ond ers chwech wythnos yr oedd bron hanner y plant (48.7%) wedi bod yn mynychu'r cylch meithrin. Ar y llaw arall roedd 1.3% wedi bod yn mynychu'r cylch ers dros ddwy flynedd.

Cyflwynwyd canlyniadau'r ymchwiliad ar ffurf canrannau dilys. Gwelwyd o'r canlyniadau hyn bod canran uchel o'r plant yn llwyddo i gyflawni gofynion y gosodiadau yn Adran Gwrando a Darllen 'fel arfer' er bod lle iddynt ddatblygu. Roedd dros hanner y plant yn y categori uchaf sef 'fel arfer' ar gyfer pump o'r

gosodiadau. Roedd y canlyniadau gorau ar gyfer y gosodiadau yn ymwneud â mwynhau bod yn y cylch. Nid oedd y canlyniadau ar gyfer gwrando ac, yn arbennig dangos dealltwriaeth o'r Gymraeg, gystal. O ystyried mai newydd ddechrau yn y cylch oedd bron hanner y plant dyna beth y disgwylid i'r ymchwil ddangos.

Nid oedd canlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu cystal â chanlyniadau Adran Gwrando a Deall. Awgryma hyn nad yw nifer o'r plant wedi cyrraedd y cam hwn o gynhyrchu'r iaith. Gwelir y canrannau uchaf yn y categorïau uchaf yn Adran Siarad a Chyfathrebu ar gyfer y gosodiadau oedd yn gofyn am ddefnydd o eiriau unigol yn hytrach na defnydd estynedig o'r iaith ar lafar. Nid oes un gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu lle mae mwyafrif y plant yn y categori 'fel arfer', tra roedd dros hanner y plant yn y categori hwn ar gyfer pump gosodiad yn yr adran flaenorol. Yn Adran Siarad a Chyfathrebu ceir pedwar gosodiad lle ceir mwyafrif y plant yn y categori 'dim eto'. Roedd y gosodiadau hyn yn gofyn a oedd y plant yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell gyda oedolion a chyda phlant eraill, yn gallu sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol a defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau. Nid oedd mwyafrif y plant eto yn defnyddio Cymraeg estynedig ar lafar yn annibynnol.

Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar dim ond ar gyfer y gosodiadau yn ymwneud â mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg y gwelwyd mwyafrif yn y categori uchaf. Yn yr adran hon roedd pedwar gosodiad lle roedd mwyafrif y plant yn y categori 'dim eto'. Roedd y gosodiadau hyn yn ymwneud â sgiliau darllen ac ysgrifennu cynnar y plant. O ystyried eu hoedran a'r ffaith nad oedd nifer ohonynt wedi bod yn mynychu'r cylch ers amser hir, nid yw canlyniadau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn peri unrhyw syndod.

Cyflwynwyd canlyniadau dadansoddiadau cydberthyniadau gan edrych ar gryfder y berthynas rhwng rhyw'r plant, eu hoedran, hyd eu cyfnod yn y cylch, nifer y sesiynau a fynychant a iaith y teulu gyda'u canlyniadau.

Dangosodd prawf t-test bod rhyw'r plant yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau naw gosodiad yn Adran Gwrando a Deall, dau osodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu a naw gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd

cymedrau'r merched yn well na chymedrau'r bechgyn ym mhob gosodiad. Canlyniadau cyntaf y sampl hwn sydd yn Ymchwiliad 2, bydd yn ddiddorol gweld a yw'r bechgyn yn datblygu mwy na'r merched erbyn Ymchwiliad 3, ymhen naw mis, neu a fydd y merched yn datblygu mwy na'r bechgyn. Bydd y wybodaeth hon o ddiddordeb i Mudiad Ysgolion Meithrin er mwyn gweld a ydynt yn darparu cyfle cyfatal i fechgyn a merched i gaffael y Gymraeg. Roedd perthynas cryfach rhwng rhyw'r plant a'u canlyniadau yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar ac Adran Gwrando a Deall nac ar eu canlyniadau yn Adran Siarad a Chyfathrebu.

Effeithiodd oedran y plant yn ystadegol arwyddocaol ar bob gosodiad yn y dair adran yn y Ffurflen Datblygiad Iaith. Nid oedd perthynas gryf iawn rhwng eu hoedran a'r canlyniadau ond roedd yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol. Roedd y cydberthyniadau cryfaf yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, dyma lle roedd oedran y plant fwyaf dylanwadol o safbwynt eu canlyniadau. Po hynaf y plant y gorau oedd eu canlyniadau yn ôl yr hyn a ddangosodd y cydberthyniadau.

Ymddengys bod pa mor hir y bu'r plant yn mynychu'r cylch yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau nifer fawr o'r gosodiadau. Ymddengys yn obeithiol felly y bydd cymhariaeth o ganlyniadau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 yn rhoi prawf bod cyfnod mewn cylch meithrin yn cyfrannu tuag at ddatblygu iaith plant. Fodd bynnag, nid yw'r cydberthyniadau yn gryf iawn. Effeithiodd hyd cyfnod y plant yn y cylch meithrin yn ystadegol arwyddocaol ar bob gosodiad yn Adrannau Gwrando a Deall a Siarad a Chyfathrebu. Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar nid oedd yr amrywiad 'dyddiad dechrau' yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau tri o'r gosodiadau. Roedd y cydberthyniadau cryfaf yn Adran Gwrando a Deall.

Cafodd cynyddu'r nifer o sesiynau a fynychai'r plant effaith gadarnhaol ar ganlyniadau'r plant ar gyfer pob gosodiad ac eithrio un, sef 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell'. Nid oedd y gwahaniaeth yn un ystadegol arwyddocaol. Mae'n bosibl mae'r esboniad tebygol am hyn yw bod cylchoedd mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith ac efallai mewn ardaloedd gwledig ar agor am lai o sesiynau yr wythnos na chylchoedd trefol mewn ardaloedd Saesneg eu hiaith. Byddai'r plant o ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn fwy tebygol o ddefnyddio'r

Gymraeg yn ddigymell gyda phlant eraill. Roedd y nifer o sesiynau a fynychai'r plant yn dylanwadu'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pob gosodiad yn Adran Gwrando a Deall. Cafodd yr amrywiad ddylanwad ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau saith o'r 11 gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu ac yn ymylu at fod yn ystadegol arwyddocaol mewn un canlyniad arall. Dylanwadodd y nifer o sesiynau yn arwyddocaol ar bump gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Cydberthyniadau bychain a welwyd yn y dair adran.

Fel y disgwylid roedd perthynas gref iawn rhwng iaith y teulu a chanlyniadau'r plant. Dangosodd y dadansoddiadau cydberthyniad bod iaith y teulu'n dylanwadu'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pob gosodiad yn y dair adran. Ar gyfer yr amrywiad hwn y gwelwyd y cydberthyniadau cryfaf. Roedd y cydberthyniadau cryfaf i'w gweld ar gyfer sgiliau siarad a chyfathrebu'r plant. Ar eu parodrwydd i fynegi eu hunain ar lafar y cafodd iaith y teulu y dylanwad mwyaf.

Dangosodd y dadansoddiad ffactoraidd mai cefndir ieithyddol y plant oedd y newidyn pwysicaf a effeithiodd ar y pedwar dimensiwn o fewn y dair adran. Gwelwyd yn y dadansoddiad ffactoraidd mai un dimensiwn a fesurwyd yn Adran Gwrando a Deall ac yn Adran Siarad a Chyfathrebu, tra roedd Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn mesur dau ddimensiwn. Y ddau dimensiwn yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar oedd 'Ysgrifennu Cymraeg' a 'Deall ychydig o Gymraeg ysgrifenedig'. Er bod nifer y sesiynau a fynychai'r plant, eu rhyw a hyd y cyfnod y buont yn mynychu'r cylch hefyd yn dylanwadu ar y dimensiynau hyn, cadarnhaodd y dadansoddiad ffactoraidd yr hyn a welwyd yn y dadansoddiadau cydberthyniad sef mai iaith y teulu oedd yn cael y dylanwad cryfaf ar ganlyniadau'r plant.

6.6 Casgliadau Pennod 6

Yn y bennod hon cyflwynwyd canlyniadau Ymchwiliad 1 ac Ymchwiliad 2. Roedd y ddau ymchwiliad yn ymdrin â sgiliau ieithyddol plant oedd yn mynychu cylchoedd meithrin o dan nawdd Mudiad Ysgolion Meithrin. Roedd 270 plentyn o ddeg cylch meithrin yn y gogledd-orllewin yn Ymchwiliad 1, a 1926 plentyn o 132 cylch meithrin yn genedlaethol yn Ymchwiliad 2. Cyflwynwyd nodweddion y samplau a

chyflwynwyd y canlyniadau ar ffurf amleddau a dadansoddwyd y canlyniadau'n ystadegol fesul grŵp trwy ddefnyddio dadansoddiadau cydberthyniad a dadansoddiad ffactoraidd. Ymchwiliad 2 oedd yr ymchwiliad cenedlaethol cyntaf o ddau. Trafodir yr ail ymchwiliad cenedlaethol ym Mhennod 7.